



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 25 Mai 2010
Tuesday, 25 May 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 37 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 45 Datganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Doriadau Gwariant Llywodraeth y DU
Statement from the Welsh Assembly Government on UK Government Spending Cuts
- 73 Datganiad am Ofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru
Statement on Spiritual Care in the NHS in Wales
- 86 Datganiad am y Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol
Statement on the National Bursary Scheme
- 102 Datganiad am Gymunedau yn Gyntaf
Statement on Communities First
- 121 Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru
The Woodlands for Wales Action Plan
- 140 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn yn y Cynulliad.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Polling Stations

Q1 Sandy Mewies: Will the First Minister outline what advice the Welsh Assembly Government gives to local authorities about making polling stations accessible to all?
OAQ(3)2872(FM)

The First Minister (Carwyn Jones): The Electoral Commission is the organisation responsible for providing advice on electoral matters. It publishes guidance on the layout of polling stations and issues an accessibility checklist. However, ensuring that polling stations are accessible is the responsibility of returning officers.

Sandy Mewies: Having access to a polling station to cast your vote is fundamental to the democratic process. It is particularly vital for people with disabilities. The charity Scope works to enable disabled people to achieve equality and has looked at elections in 2007 and the recent general election. There have been some improvements, but problems remain. One person pointed out that although the allocated polling station had a temporary ramp, it was inside the station. Since the person was unable to get in to ask for the ramp, he could not get in to the station. Could the Welsh Assembly Government do anything to encourage and guide local authorities to ensure that everyone who wants to vote can do so?

The First Minister: The Minister for Social Justice and Local Government will receive a copy of Scope's report on the accessibility of polling stations at the general election. If the report raises any concerns, the Minister will consider writing to returning officers to ask

Gorsafoddd Pleidleisio

C1 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gyngor y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol ynghylch sicrhau bod gorsafoddd pleidleisio yn hygyrch i bawb?
OAQ(3)2872(FM)

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff sy'n gyfrifol am gynghori ynglŷn â materion etholiadol. Mae'n cyhoeddi canllawiau ynglŷn â chynllun gorsafoddd pleidleisio ac mae'n cyhoeddi rhestr atgoffa ynglŷn â hygyrchedd. Serch hynny, cyfrifoldeb y swyddogion canlyniadau yw sicrhau bod gorsafoddd pleidleisio'n hygyrch.

Sandy Mewies: Mae gallu mynd i orsaf bleidleisio i fwrw'ch pleidlais yn rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd. Mae'n arbennig o bwysig i bobl anabl. Mae'r elusen Scope yn gweithio i alluogi pobl anabl i sicrhau cydraddoldeb ac mae wedi edrych ar etholiadau yn 2007 ac ar yr etholiad cyffredinol yn ddiweddar. Mae ambell beth wedi gwella, ond mae problemau i'w gweld o hyd. Dywedodd un person, er bod ramp dros dro ar gael yn yr orsaf bleidleisio ddynodedig, fod y ramp hwnnw y tu mewn i'r adeilad. Gan nad oedd y person yn gallu mynd i mewn i ofyn am y ramp, ni allai fynd i mewn i'r orsaf. A oes rhywbeth y gallai Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i annog awdurdodau lleol a rhoi arweiniad iddynt er mwyn sicrhau bod pawb sydd am bleidleisio'n gallu gwneud hynny?

Y Prif Weinidog: Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn cael copi o adroddiad Scope ynglŷn â hygyrchedd gorsafoddd pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol. Os bydd yr adroddiad yn codi unrhyw beth sy'n destun pryder, bydd y

them to review their arrangements prior to the Assembly elections.

Andrew R.T. Davies: Disability access is a key point in polling stations, but also in wider society. I have previously raised with you the issue of people with visual impairments and the provision of voice aids for bus routes so that they can make best use of buses. Another glaring anomaly is that, in the Vale of Glamorgan, for example, not one station has a disabled toilet and only 63 per cent of stations have disabled access ramps. Given that most stations are unmanned stations, do you think that it was an oversight by the Assembly Government when it commissioned the Vale of Glamorgan line, and are you taking any action to try to redress that, to ensure that the money invested by the Welsh Assembly Government represents better value for money, by ensuring that disabled people can make best use of it?

The First Minister: I thought that you meant polling stations; I see now that you mean railway stations.

The Presiding Officer: Order. This question was about polling stations.

Andrew R.T. Davies: It is about disabled access.

The Presiding Officer: This question is specifically about disabled access to polling stations as opposed to train stations.

The First Minister: We will always try to work to ensure better access to railway stations. Members will be aware of the recent work that has been done on the Cambrian Coast line to improve access to stations.

The Presiding Officer: It has all been redeemed by the mention of the Cambrian Coast line.

Gweinidog yn ystyried ysgrifennu at swyddogion canlyniadau i ofyn iddynt adolygu eu trefniadau cyn etholiadau'r Cynulliad.

Andrew R.T. Davies: Mae mynediad i bobl anabl yn bwynt allweddol wrth sôn am orsafoedd pleidleisio, ond mae'r un peth yn wir yn y gymuned ehangach hefyd. Yr wyf wedi codi gyda chi o'r blaen broblem pobl a chanddynt nam ar eu golwg a darparu cymorth sain ar lwybrau bysiau er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth hwnnw. Diffyg amlwg arall yw nad oes yr un toiled i bobl anabl yn yr un orsaf ym Mro Morgannwg, er enghraifft, ac nad oes ramp mynediad i bobl anabl ond mewn 63 y cant o orsafoedd. O gofio nad oes staff yn y rhan fwyaf o'r gorsafoedd, a gredwch mai amryfusedd ar ran Llywodraeth y Cynulliad wrth iddi gomisiynu lein Bro Morgannwg oedd hyn, ac a ydych yn cymryd unrhyw gamau i geisio unioni hynny, er mwyn sicrhau bod yr arian a fuddsoddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn cynnig gwell gwerth am arian, drwy sicrhau bod pobl anabl yn gallu manteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth?

Y Prif Weinidog: Yr oeddwn yn meddwl mai sôn am orsafoedd pleidleisio yr oeddech; yr wyf yn sylweddoli'n awr eich bod yn sôn am orsafoedd trenau.

Y Llywydd: Trefn. Cwestiwn am orsafoedd pleidleisio oedd hwn.

Andrew R. T. Davies: Cwestiwn am fynediad i bobl anabl ydyw.

Y Llywydd: Mae a wnelo'r cwestiwn hwn yn benodol â hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio i bobl anabl yn hytrach na hygyrchedd gorsafoedd trenau.

Y Prif Weinidog: Byddwn bob amser yn ceisio gweithio i hwyluso mynediad i orsafoedd trenau. Bydd yr Aelodau'n gwybod am y gwaith sydd wedi'i wneud ar lein Arfordir y Cambrian yn ddiweddar er mwyn gwella hygyrchedd gorsafoedd.

Y Llywydd: Dyna chi wedi gwneud iawn am bopeth drwy sôn am lein Arfordir y Cambrian.

Janet Ryder: Ensuring that polling stations are accessible to everybody is vital, as is making voting accessible to everybody. Following events at the general election—thankfully there were very few such events in Wales—I wonder what further consideration has been given to electronic and mobile phone voting. What scope would the Assembly Government have to move ahead independently of the United Kingdom or do we have to move ahead together?

The First Minister: We have no power over voting methods; the power remains with the UK Government. However, as a Government, we would support a move towards electronic voting, provided that we were satisfied that there was no potential for increased fraud. If there is a move towards electronic voting, there must be adequate funding in place, as well as adequate safeguards against potential voter fraud, but it is a matter for the UK Government.

Ann Jones: Following on from what colleagues have said about the Scope inquiry into polling stations, and the work undertaken by the Committee on Equality of Opportunity on the accessibility of polling stations, I hope that by the time that our elections come around in May, we will have 100 per cent accessibility to polling stations across Wales, so that people can cast their vote. As I am sure that you will agree, First Minister, it boils down to the basic principle that we cannot truly say that we represent everybody if we stop people from going to vote.

I would like to pick up on the point that Janet made on alternative forms of voting. We have spoken a lot about additional voting systems and what we are going to do, but are we going to look at voting in supermarkets, which might help a family or a younger person who is doing their shopping with their children? Are we going to look at online voting and, more importantly, are we going to ensure that we get the message out to everyone that they do not have to have a polling card to vote? We found so many people in our constituency, over the last

Janet Ryder: Mae'n hollbwysig sicrhau bod gorsafydd pleidleisio'n hygyrch i bawb. Yn yr un modd, mae'n hollbwysig sicrhau bod pleidleisio'n hygyrch i bawb. Ar ôl digwyddiadau yn yr etholiad cyffredinol—diolch byth mai ychydig o ddigwyddiadau o'r math hwnnw a gafwyd yng Nghymru—tybed i ba raddau yr ydych wedi meddwl rhagor am bleidleisio electronig a phleidleisio ar ffôn symudol? I ba raddau y gallai Llywodraeth y Cynulliad symud ymlaen ar wahân i'r Deyrnas Unedig, ynteu a oes rhaid inni symud ymlaen gyda'n gilydd?

Y Prif Weinidog: Nid oes gennym bŵer dros ddulliau pleidleisio; erys y pŵer yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, byddem ni'r Llywodraeth yn cefnogi symud at bleidleisio electronig, ar yr amod ein bod yn sicr nad oedd hynny'n debyg o arwain at fwy o dwyll. Os symudir at bleidleisio electronig, rhaid sicrhau bod digon o gyllid ar gael, yn ogystal â chymau diogelu digonol i warchod rhag twyll posibl gan bleidleiswyr, ond mater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw hwn.

Ann Jones: A dilyn sylwadau cyd-Aelodau am ymchwiliad Scope i orsafoedd pleidleisio, a gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar hygyrchedd gorsafydd pleidleisio, yr wyf yn gobeithio, erbyn adeg ein hetholiadau ni ym mis Mai, y bydd ein gorsafydd pleidleisio ledled Cymru'n 100% hygyrch, er mwyn i bobl allu bwrw'u pleidlais. Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Brif Weinidog, mai'r egwyddor sylfaenol yw na allwn ddweud o ddifrif ein bod yn cynrychioli pawb os ydym yn rhwystro pobl rhag mynd i bleidleisio.

Hoffwn gyfeirio at y pwynt a wnaeth Janet ynglŷn â dulliau eraill o bleidleisio. Yr ydym wedi sôn llawer am systemau pleidleisio eraill a beth yr ydym yn bwriadu ei wneud, ond a ydym yn mynd i ystyried pleidleisio mewn archfarchnadoedd? Gallai hynny fod o gymorth i deuluoedd neu i bobl iau sy'n siopa gyda'u plant. A ydym yn mynd i ystyried pleidleisio ar-lein ac, yn bwysicach, a ydym am sicrhau bod y neges yn cyrraedd pawb nad oes rhaid cael cerdyn pleidleisio i fwrw pleidlais? Gwelsom gynifer o bobl yn ein hetholaeth, yn ystod y pythefnos diwethaf, a

fortnight, who told us that they did not receive polling cards and therefore did not go to vote. We should be putting the message out, as a Government, that you do not necessarily need a polling card if you are on the register. There is a lot that we need to do, and we have to ensure that we do not shut out disabled people from that process.

The First Minister: While all the things that you mentioned are matters for the UK Government, the Electoral Commission and returning officers, it is absolutely right to say that voting is the right of all citizens, and anything that acts as a barrier to people's ability to exercise that right must be removed. That means ensuring that polling stations are accessible, and I have already mentioned the Scope report. It also means ensuring that people understand that what they may perceive to be barriers, such as not having a polling card, are not actually barriers, by telling them that that is not the case. All of us in this Chamber have probably heard people saying over the past few weeks, 'I haven't had a card; therefore, I don't know whether I can vote or not'. Any way of making it easier for people to vote and thereby increasing turnout is something that this Government would look to support, provided that safeguards are in place to ensure that fraud would not become a problem under the extension of any new voting systems for elections.

Housing Problems

Q2 Val Lloyd: What help is the Welsh Assembly Government providing to people faced with housing problems?
OAQ(3)2885(FM)

The First Minister: We are supporting a range of activities, including funding for housing advice and homelessness prevention services. We are also assisting local planning of housing provision, as well as the development of affordable accommodation for those in housing difficulty.

ddywedodd wrthym nad oeddent wedi cael cardiau pleidleisio, ac felly nad aethant i fwrw'u pleidlais. Dylem ni'r Llywodraeth fod yn cyfleu'r neges honno, nad oes rhaid ichi gael cerdyn pleidleisio os ydych ar y gofrestr. Mae angen inni wneud llawer o bethau, a rhaid inni sicrhau nad ydym yn rhwystro pobl anabl rhag bod yn rhan o'r broses honno.

Y Prif Weinidog: Er mai materion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, y Comisiwn Etholiadol a swyddogion canlyniadau yw'r holl bethau a grybwyllwyd gennych, yr ydych yn llygad eich lle bod gan bob dinesydd yr hawl i bleidleisio, a bod yn rhaid dileu unrhyw beth sy'n rhwystro pobl rhag gallu arfer yr hawl honno. Mae hynny'n golygu sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio'n hygyrch, ac yr wyf eisoes wedi sôn am adroddiad Scope. Mae'n golygu sicrhau hefyd fod pobl yn deall nad yw'r pethau y maent yn eu gweld yn rhwystrau, megis nad oes ganddynt gerdyn pleidleisio, yn rhwystrau mewn gwirionedd, drwy ddweud wrthynt nad dyna'r sefyllfa. Mae'n siŵr bod pawb ohonom yn y Siambr hon wedi clywed pobl yn dweud yn ystod yr wythnosau diwethaf, 'Nid wyf wedi cael cerdyn; felly, ni wn a gaf bleidleisio ai peidio'. Byddai'r Llywodraeth hon yn awyddus i gefnogi unrhyw ffordd o'i gwneud yn haws i bobl fwrw'u pleidlais a thrwy hynny gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio, ar yr amod bod camau diogelu ar waith i sicrhau na fyddai twyll yn dod yn broblem wrth inni ledaenu unrhyw systemau pleidleisio newydd ar gyfer etholiadau.

Problemau Tai

C2 Val Lloyd: Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddarparu i bobl sy'n wynebu problemau tai?
OAQ(3)2885(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys ariannu gwasanaethau cyngor am dai ac atal digartrefedd. Yr ydym hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth tai yn lleol, a hefyd yn datblygu cartrefi fforddiadwy i'r rhai sy'n wynebu anawsterau ym maes tai.

Val Lloyd: I recently had a meeting with the manager of the housing debt helpline Wales, which is run by the Consumer Credit Counselling Service with funding from the Welsh Assembly Government. I was hugely impressed by the tailored, practical advice offered to find a solution to each person's financial circumstances and by the overall results achieved by the service. Eviction has been avoided in all but a very few cases, and people have been able to remain in their homes and take control of their debt. Can you clarify what the Welsh Assembly Government is doing to publicise this excellent service, which has the potential to help many more vulnerable households?

The First Minister: We provide funding with the Legal Services Commission, the Financial Services Authority and local authorities for a network of housing and debt advice services throughout Wales. We also fund the housing debt helpline service run by the Consumer Credit Counselling Service, and we have agreed with the Legal Services Commission that, from October this year, there will be a legal advice service for people who are at risk of having their homes repossessed in every court on days when repossession hearings are being held.

Mark Isherwood: I, too, have met the staff of housing debt helpline Wales and I endorse the good work that they are doing. As a result of various interventions, mortgage arrears and repossessions have been lower than was originally forecast, although the number is still a matter of concern. However, the biggest increase in the number of people who are presenting as being homeless is among tenants rather than homeowners because, among other things, there is a lack of a court protocol for tenants, unlike the one that exists for homeowners who face mortgage difficulties. I know that this Government cannot control the courts, but what engagement are you undertaking to establish what support can be given to tenants who find themselves in difficulties, possibly indirectly because their landlords are in difficulties, and who may not have the

Val Lloyd: Cefais gyfarfod yn ddiweddar â rheolwr llinell gymorth dyledion tai Cymru, a ddarperir gan y Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr gyda chymorth nawdd gan Lywodraeth y Cynulliad. Yr oeddwn yn llawn edmygedd o'r cyngor ymarferol wedi'i deilwra a gynigid er mwyn canfod ateb i amgylchiadau ariannol pob unigolyn ac o'r canlyniadau yr oedd y gwasanaeth yn eu sicrhau'n gyffredinol. Llwyddwyd i atal pobl rhag cael eu troi allan ym mhob achos ac eithrio nifer fach iawn, ac mae pobl wedi gallu aros yn eu cartrefi a rheoli eu dyled. A allwch egluro beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth rhagorol hwn, a allai gynorthwyo llawer mwy o deuluoedd agored i niwed?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn darparu arian ar y cyd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac awdurdodau lleol ar gyfer rhwydwaith o wasanaethau cynghori am dai a dyledion ledled Cymru. Yr ydym hefyd yn ariannu'r gwasanaeth llinell gymorth dyledion tai a ddarperir gan y Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr, ac yr ydym wedi cytuno â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol y bydd gwasanaeth cynghori cyfreithiol ar gael o fis Hydref eleni ymlaen i bobl y mae perygl iddynt golli eu cartref, a hynny ym mhob llys ar y diwrnodau pan gynhelir gwrandawiaidau adfeddiannu.

Mark Isherwood: Yr wyf finnau wedi cyfarfod â staff llinell gymorth dyledion tai Cymru ac yr wyf yn cymeradwyo'u gwaith da. Yn sgîl gwahanol ymyriadau, mae ôl-ddyledion morgesi a nifer yr achosion adfeddiannu wedi bod yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol, er bod y nifer yn dal yn destun pryder. Serch hynny, ymhlith tenantiaid y gwelir y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl sy'n mynd yn ddigartref yn hytrach nag ymhlith perchenogion tai. Un o'r rhesymau dros hyn yw'r diffyg protocol ar gyfer tenantiaid yn y llysoedd, protocol tebyg i hwnnw sydd ar waith ar gyfer perchenogion tai sy'n wynebu anawsterau gyda'u morgais. Gwn na all y Llywodraeth hon reoli'r llysoedd, ond beth yr ydych yn ei wneud i weld pa gymorth y gellir ei roi i denantiaid sy'n eu cael eu hunain yn wynebu anawsterau, a hynny'n anuniongyrchol o bosibl oherwydd

protection of an assured shorthold tenancy agreement because the landlord has a residential mortgage that he should not have?

The First Minister: First, the advice services that we fund have an important role to play. Secondly, local authorities have a particular responsibility to address environmental health problems and ensure that landlords comply with the law. We are now working with the National Landlords Association to raise standards in the sector with the development of a national landlord accreditation scheme. That would make it easier for people to decide whether they wish to become tenants of a particular landlord, as they will be able to check whether that landlord meets certain criteria. Also, the advice schemes that I have mentioned are open to all to access advice on managing debt.

David Lloyd: Mae un o'm hetholwyr sydd wedi'i barlysu ac mewn cadair olwynion wedi treulio blynnydoedd yn edrych am gartref sy'n addas at ei ddibenion arbennig, gan ganfod fod y ddarpariaeth yn brin iawn. Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael i fynd i'r afael â phroblem prinder tai wedi'u haddasu i'r sawl sydd mewn cadair olwynion?

1.40 p.m.

Y Prif Weinidog: Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod digon o dai ar gael i bobl mewn cadeiriau olwyn. Rhaid i bob tŷ a gyllidir gan grant gan y Llywodraeth gwrdd â safonau Cartrefi am Oes. Golyga hynny fod yn rhaid i'r adeiladau fod yn addas o ran mynediad ar gyfer pobl mewn cadair olwynion a phob person sy'n anabl mewn rhyw ffordd. O ran pob tŷ a adeiladir yn y dyfodol, yr ydym am sicrhau bod modd i bobl fyw ynddynt, beth bynnag eu cyflwr corfforol. Bydd yn bwysig sicrhau bod mwy o dai ar gael yn y dyfodol i bobl fel eich etholwr sydd mewn cadair olwynion.

Peter Black: First Minister, Shelter Cymru

trafferthion eu landlordiaid, ac oherwydd nad oes ganddynt efallai warchodaeth cytundeb tenantiaeth fyrddaliol sicr oherwydd bod gan y landlord forgais preswyllo na ddylai fod ganddo?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf, mae gan y gwasanaethau cynghori yr ydym yn eu hariannu rôl bwysig. Yn ail, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb penodol i fynd i'r afael â phroblemau iechyd yr amgylchedd a sicrhau bod landlordiaid yn cydymffurfio â'r gyfraith. Yr ydym yn awr yn gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid i godi safonau yn y sector drwy ddatblygu cynllun cenedlaethol i achredu landlordiaid. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws i bobl benderfynu a ydynt yn dymuno dod yn denantiaid i landlord penodol, oherwydd bydd modd iddynt gael gwybod a yw'r landlord hwnnw'n bodloni meini prawf penodol. Hefyd, mae'r cynlluniau cynghori yr wyf wedi sôn amdanynt ar agor i bawb fel y gallant gael cyngor ynglŷn â rheoli dyledion.

David Lloyd: One of my constituents who is paralysed and in a wheelchair has spent years searching for a home that suits his particular needs, only to find that provision is scarce. What discussions are you engaged in to tackle the problem of a shortage of houses that have been adapted for those who are in wheelchairs?

The First Minister: It is the responsibility of the local authority to ensure that enough housing is available for people in wheelchairs. Every house that is funded by a Government grant must meet the Lifetimes Homes standards. That means that the buildings must provide suitable access for people in wheelchairs and anyone who is disabled in some way. In terms of every house that will be built in future, we want to ensure that it will be possible for people to live in them, whatever their physical condition. It will be important to ensure that more homes will be available in future for people like your constituent who are in wheelchairs.

Peter Black: Brif Weinidog, yn ôl

reckons that there are 26,000 empty private properties in Wales. When will your Government be producing a strategy to deal with that issue and to bring some of those empty properties back into use as affordable housing?

The First Minister: Local authorities also have a role to play in identifying empty homes. However, it will be difficult this year and in years to come to do anything that involves spending a great deal of public money, given the budget settlement that we are faced with.

Abbreviations and Acronyms

Q3 Brian Gibbons: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's use of acronyms when describing different social groups in Wales? OAQ(3)2884(FM)

The First Minister: We have a responsibility to promote good practice by using language in an inclusive way, showing respect for, and sensitivity towards, all citizens. We have recently issued guidance on consultation practices, which advises staff to use plain and appropriate language and to spell out any acronyms or jargon used. We expect people to do that ASAP.

Brian Gibbons: It cannot be. [*Laughter.*]

You will be aware that various social groups can be adversely affected by the way in which we, as an Assembly Government, choose to describe them. Indeed, in many instances in the Chamber and elsewhere, people have prefaced their remarks with a phrase such as, 'I do not like this term, but—'. One such example is 'NEETs', which refers to young people who are not in education, employment or training. Another is looked-after children being called 'LAC children', and so on. Indeed, in many instances, people do not like being referred to as being 'economically inactive', because many of those who are economically inactive are unwell, are carers or possibly students, and the use of that phrase denigrates the potential or actual contribution of those people to society. Therefore, do you agree

amcangyfrifon Shelter Cymru, mae 26,000 eiddo preifat gwag yng Nghymru. Pryd y bydd eich Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth i fynd i'r afael â hynny fel y gellir defnyddio rhai o'r adeiladau gweigion hynny eto i ddarparu tai fforddiadwy?

Y Prif Weinidog: Mae gan awdurdodau lleol rôl hefyd o ran dynodi cartrefi gweigion. Fodd bynnag, bydd yn anodd eleni ac yn y blynyddoedd nesaf inni wneud dim sy'n golygu gwario llawer o arian cyhoeddus, o ystyried y setliad cyllidebol yr ydym yn ei wnebu.

Byrfodau ac Acronymau

C3 Brian Gibbons: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddefnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o acronymau wrth ddisgrifio grwpiau cymdeithasol gwahanol yng Nghymru? OAQ(3)2884(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'n gyfrifoldeb arnom hyrwyddo arferion da drwy ddefnyddio iaith mewn ffordd gynhwysol, gan drin pob dinesydd gyda pharch a sensitifrwydd. Yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar yn glŷn ag arferion wrth ymgynghori. Mae'r rhain yn cynghori'r staff i ddefnyddio iaith glir a phriodol ac i egluro unrhyw acronymau neu jargon a ddefnyddir. Disgwyliwn i bobl wneud hynny CGÂPh.

Brian Gibbons: Nid oes bosibl. [*Chwerthin.*]

Gwyddoch y gall sut y byddwn ni, Lywodraeth y Cynulliad, yn dewis eu disgrifio amharu ar wahanol grwpiau cymdeithasol. Yn wir, droeon yn y Siambr ac mewn mannau eraill, mae pobl wedi cyflwyno'u sylwadau drwy ddweud rhywbeth megis, 'Nid wyf yn hoff o'r term hwn, ond—'. Un enghraifft o hyn yw 'NEETs', sy'n cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Un arall yw galw plant sy'n derbyn gofal yn 'blant LAC', ac yn y blaen. Yn wir, mewn llawer o sefyllfaoedd, ni fydd pobl yn hoff o gael eu galw'n 'economaidd anweithgar', oherwydd bod llawer o'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn sâl, yn ofalwyr neu o bosibl yn fyfyrwyr, ac mae defnyddio'r ymadrodd hwnnw'n bychanu'r cyfraniad y gall y bobl hynny ei wneud i

that it is important that the Assembly Government, which has a strong commitment to equalities, should be much more careful about the language that it uses, particularly in relation to our most vulnerable citizens?

The First Minister: You raise an important point, Brian, and I refer you back to the guidance that has been issued recently. There is a tendency in government and in politics generally to lapse into jargon that is not easily understood by the general public. Certainly, as far as we are concerned, we will always try to use language that is plain and accessible and that avoids the use of lesser-known acronyms and jargon as much as is possible.

Nick Ramsay: I am pleased to have a ‘sup’ to this OAQ, FM. [*Laughter.*]

I listened carefully to your answer and I agreed with most of what you said, First Minister. I am also grateful to Brian for raising this important subject. I am thinking back to the first question that was asked this afternoon, about access to polling stations. I feel that there is an issue here about the public’s access to everything that we do in the Assembly. When I read the many documents and statements that we receive, I often think that if I do not understand some of the jargon that is used, it must be difficult for people outside the political process to understand it. The Local Government Association in England has ordered councils there to outlaw the use of 100 words of jargon, such as ‘coterminousness’, ‘empowerment’, ‘place-shaping’ and ‘programme bending’—the list is endless. First Minister, will you take the lead on local authorities in England and Wales by ensuring that all documents published by the Assembly Government are as accessible as possible to people in Wales, so that everyone in Wales can understand to the maximum extent the policies that your Government is bringing forward and so that they are as transparent as possible?

The First Minister: Yes. First of all, I am not sure that the LGA has the power to ban

gymdeithas neu’r cyfraniad y maent yn ei wneud. Felly, a gytunwch ei bod yn bwysig i Lywodraeth y Cynulliad, y mae ganddi ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, fod yn fwy gofalus o lawer gyda’r iaith a ddefnyddir ganddi, yn enwedig wrth gyfeirio at ein dinasyddion mwyaf agored i niwed?

Y Prif Weinidog: Mae’r pwynt a godir gennych yn un pwysig, Brian, ac fe’ch cyfeiriau yn ôl at y canllawiau sydd wedi’u cyhoeddi’n ddiweddar. Mae tuedd mewn llywodraeth ac mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol i lithro i ddefnyddio jargon nad yw’n rhwydd i’r cyhoedd ei ddeall. Yn sicr, o’n safbwynt ni, byddwn yn wastad yn ceisio defnyddio iaith sy’n glir ac yn ddealladwy gan osgoi, hyd y gellir, defnyddio acronymau llai cyfarwydd a jargon.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch bod gennyf ‘atod’ i’r OAQ hwn, FM. [*Chwerthin.*]

Gwrandewais yn astud ar eich ateb, ac yr oeddwn yn cytuno â’r rhan fwyaf a ddywedasoch, Brif Weinidog. Yr wyf yn ddiolchgar i Brian hefyd am godi’r pwnc pwysig hwn. Yr wyf yn meddwl yn ôl am y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd y prynhawn yma, ynglŷn â hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Teimlaf fod a wnelo hyn â pha mor hygyrch i’r cyhoedd yw popeth a wnawn yn y Cynulliad. Pan fyddaf yn darllen y lluo o ddogfennau a datganiadau a gawn, byddaf yn aml yn meddwl os nad wyf fi’n deall rhywfaint o’r jargon a ddefnyddir, yna mae’n rhaid ei bod yn anodd i bobl y tu allan i’r broses wleidyddol ei ddeall. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr wedi gorchymyn cynghorau yno i wahardd defnyddio 100 o eiriau a ystyrir yn jargon, megis ‘coterminousness’, ‘empowerment’, ‘place-shaping’ a ‘programme bending’—mae’r rhestr yn ddi-ben-draw. Brif Weinidog, a wnewch roi arweiniad i awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr drwy sicrhau bod pob dogfen a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad mor hygyrch ag sy’n bosibl i bobl yng Nghymru, er mwyn i bawb allu deall cystal ag y gellir y polisïau y mae eich Llywodraeth yn eu cyflwyno ac er mwyn iddynt fod mor dryloyw ag sy’n bosibl?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Yn gyntaf, yr wyf yn amau a oes gan y gymdeithas llywodraeth

local authorities from doing anything, but I take the point. It is important for Government and all authorities—private or public—to use language that is as plain as possible. There are phrases that come in and out of fashion and, at the moment, I see lots of descriptions of things ‘going forward’ and we often seem to be ‘engaging with stakeholders’, which just involves talking to people, as far as I can tell. [*Laughter.*] The serious point is that we need to avoid the use of phrases that are used by and known to only quite a small group of people. The message that I want to get across clearly today is that I absolutely want to see plain language used. If we are to have consultations with the public on documents, those documents have to be plain and easily understandable.

Bethan Jenkins: Will the First Minister make a statement on the order of data preference when determining social groups in Wales? For example, would income come ahead of data on home owning or ahead of qualifications? This concerns data and the priority that is given to different social groupings.

The First Minister: Social groups are categorised and analysed in many ways according to a particular field of interest, as it is called. We have the National Statistics socioeconomic classification and the Welsh index of multiple deprivation—he said, having only just talked about jargon and plain speaking. Several factors are used when trying to provide evidence of deprivation and socioeconomic problems, and using those statistics makes it possible to tailor policies more effectively to deal with such problems. In reality, there is no one way in which a social group is categorised. It is done in several ways, according to the set of statistics being gathered.

Foster Carers

Q4 Lorraine Barrett: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote the work of foster carers in Wales? OAQ(3)2887(FM)

leol y pŵer i wahardd awdurdodau lleol rhag gwneud dim, ond derbyniaf y pwynt. Mae'n bwysig i'r Llywodraeth ac i bob awdurdod—boed breifat neu gyhoeddus—ddefnyddio iaith sydd mor glir ag sy'n bosibl. Bydd ymadroddion yn tueddu i ddod yn ffasiynol ac wedyn maent yn diflannu. Ar hyn o bryd, byddaf yn gweld llawer o ddisgrifiadau'n sôn am 'fwrw ymlaen' ac yr ydym fel petaem yn aml yn 'ymgysylltu â rhanddeiliaid', sef siarad â phobl, hyd y gwelaf. [*Chwerthin.*] Y pwynt difrifol yw bod angen inni osgoi defnyddio ymadroddion nas defnyddir ond gan grŵp eithaf bach o bobl ac nad ydynt ond yn gyfarwydd i'r grŵp hwnnw. Y neges yr wyf am ei chyfleu'n groyw heddiw yw fy mod yn sicr am ein gweld yn defnyddio iaith glir. Os ydym am ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â dogfennau, rhaid i'r dogfennau hynny fod yn glir ac yn hawdd eu deall.

Bethan Jenkins: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefn blaenoriaethu data wrth bennu grwpiau cymdeithasol yng Nghymru? Er enghraifft, a fyddai incwm yn cael y blaen ar ddata ynglŷn â pherchenogaeth tai neu ar gymwysterau? Mae a wnelo hyn â data a'r flaenoriaeth a roddir i wahanol grwpiau cymdeithasol.

Y Prif Weinidog: Defnyddir sawl ffordd o ddsbarthu a dadansoddi grwpiau cymdeithasol yn ôl maes diddordeb penodol, fel y'i gelwir. Mae gennym ddsbarthiad economaidd gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol a mynegai amddifadedd lluosog Cymru—meddai, ac yntau newydd fod yn sôn am jargon a siarad yn blaen. Defnyddir sawl ffactor wrth geisio darparu tystiolaeth ynglŷn ag amddifadedd a phroblemau economaidd gymdeithasol, a thrwy ddefnyddio'r ystadegau hynny, mae modd teilwra polisïau'n fwy effeithiol i ymdrin â phroblemau o'r fath. A dweud y gwir, nid oes yr un ffordd benodol o gategoreiddio grŵp cymdeithasol. Fe'i gwneir mewn sawl ffordd, yn ôl y set o ystadegau a gesglir.

Gofalwyr Maeth

C4 Lorraine Barrett: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwaith gofalwyr maeth yng Nghymru? OAQ(3)2887(FM)

The First Minister: We core-fund the Fostering Network and the British Association for Adoption and Fostering to promote the work of foster carers in Wales. We have established an advisory group to help us to develop our policy on improving foster care as part of our strategy for social services.

Lorraine Barrett: It is Foster Care Fortnight, and I want to take this opportunity to ask you to join me, and everyone else here, in thanking the foster carers in Wales who do a wonderful job in supporting children who are often in a vulnerable place. The expression ‘unsung heroes’ comes to mind.

There is a shortage of about 750 foster carers in Wales. What can you, as a Government, do to support local authorities, which also have a responsibility to encourage more foster carers? I was reminded today that the late Peter Perkins, a former colleague of mine at Cardiff Council, who was responsible for social services, put on a social event one afternoon for foster parents to come together to learn from each other and to bond. It is important to set up some kind of network of support for foster carers so that they do not become isolated and sometimes a little demoralised, given the work that they are doing.

The First Minister: I think that much of it depends on the attitude that a social services authority takes towards its foster carers. Foster carers do tremendous work, and it is difficult to overstate the contribution that they make by looking after children. I know that there is variation in how they are treated across Wales. In some parts of Wales, they feel very valued, and, in others, perhaps less so. We are talking about people who look after children, quite often from birth, and then go through the experience of seeing those children move on, either back to their birth family or on to adoption, which is exceptionally difficult emotionally—and we are dealing with human beings here. They might also have to deal with situations where indecision on the part of social services authorities means that children are shuffled

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn darparu arian craidd ar gyfer y Rhwydwaith Maethu a Chymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain i hyrwyddo gwaith gofalwyr maeth yng Nghymru. Yr ydym wedi sefydlu grŵp cynghori i’n cynorthwyo i ddatblygu ein polisi i wella gofal maeth fel rhan o’n strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Lorraine Barrett: Mae’n Bythefnos Gofal Maeth, ac yr wyf am achub y cyfle hwn i ofyn ichi ymuno â mi, a phawb arall yma, i ddiolch i’r gofalwyr maeth yng Nghymru sy’n gwneud gwaith rhagorol yn cynorthwyo plant sydd yn aml yn agored i niwed. Am yr ymadrodd ‘arwyr di-glod’ yr wyf yn meddwl.

Yr ydym yn brin o ryw 750 o ofalwyr maeth yng Nghymru. Beth y gallwch chi’r Llywodraeth ei wneud i gynorthwyo awdurdodau lleol, sydd hefyd yn gyfrifol am annog mwy o bobl i ddod yn ofalwyr maeth? Fe’m hatgoffwyd heddiw i’r diweddar Peter Perkins, cyn gydweithiwr imi yng Nghyngor Caerdydd, a oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau cymdeithasol, gynnal digwyddiad cymdeithasol un prynhawn i rieni maeth ddod at ei gilydd i ddysgu’r naill gan y llall ac i gyfeillachu. Mae’n bwysig sefydlu rhyw fath o rwydwaith cefnogi i ofalwyr maeth fel nad ydynt yn cael eu hynysu ac yn digalonni braidd, o gofio’r gwaith y maent yn ei wneud.

Y Prif Weinidog: Credaf fod a wnelo llawer o hyn ag agwedd awdurdod gwasanaethau cymdeithasol at ei ofalwyr maeth. Mae gofalwyr maeth yn gwneud gwaith aruthrol, ac mae’n anodd gorbwysleisio’u cyfraniad wrth ofalu am blant. Gwn eu bod yn cael eu trin yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Mewn ambell ran o Gymru, maent yn teimlo bod gwerth mawr yn cael ei roi arnynt, ond nid i’r un graddau mewn rhannau eraill efallai. Yr ydym yn sôn am bobl sy’n gofalu am blant, o’r crud yn aml iawn, ac yna’n mynd drwy’r profiad o weld y plant hynny’n symud yn eu blaen, naill ai yn ôl i’w teulu gwaed neu i gael eu mabwysiadu. Mae hynny’n eithriadol o anodd yn emosiynol—a sôn am fodau dynol yr ydym yma. Efallai hefyd fod yn rhaid iddynt ymdopi â sefyllfaoedd lle y bydd diffyg penderfynu

back and forth between foster care and the birth family. I add my gratitude to, and support for, all those who are foster carers because, without them, there would be many children in Wales who would never have had the chance of a better life. I would very much support anything that could be done to increase the number of foster carers.

Jonathan Morgan: First Minister, one of the greatest challenges faced by foster carers is trying to help the children in their care to realise their full educational potential. We know from looking at the figures that, up until last year, some 45 per cent of looked-after children aged 16 had no GCSE or GNVQ-equivalent qualification, and only 4 per cent of children in the care of authorities in Wales got five or more GCSEs at grades A to C. Therefore, there is a challenge there, in that a significant number of children in Wales who are looked after by the state face a particular difficulty in achieving an appropriate educational level.

1.50 p.m.

The local authority in Cardiff has found a way of providing laptops for looked-after children. I know that the Assembly Government has its own pilot scheme on laptops for children in deprived communities, but there is a distinct group of people not based with local authorities or families according to deprivation levels; they are simply based there because of their particular needs and what has happened to them in their families. Clearly, there are educational challenges that we need to overcome. Might the Assembly Government like to examine what has happened in Cardiff to see whether it wishes to incorporate that?

The First Minister: We will examine any good idea that improves the life chances of children in care. The educational achievement of children in care is, as you rightly pointed out, exceptionally low, much of which is to do with the fact that, quite often, they do not have the same stability in

gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod plant yn cael eu symud yn ôl ac ymlaen rhwng y gofalwr maeth a'r teulu gwaed. Yr wyf finnau am ategu'r diolch i bawb sy'n ofalwyr maeth a dweud fy mod yn eu cefnogi, oherwydd, hebddynt, byddai llawer o blant yng Nghymru na fyddent erioed wedi cael cyfle i gael bywyd gwell. Byddwn yn awyddus iawn i gefnogi unrhyw beth y gellid ei wneud i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.

Jonathan Morgan: Brif Weinidog, un o'r heriau mwyaf a wynebir gan ofalwyr maeth yw ceisio cynorthwyo'r plant dan eu gofal i wireddu eu potensial llawn ym myd addysg. Gwyddom o edrych ar y ffigurau, hyd at y llynedd, nad oedd gan ryw 45 y cant o blant 16 oed sy'n derbyn gofal yr un cymhwyster TGAU neu GNVQ cyfatebol, ac mai dim ond 4 y cant o blant dan ofal awdurdodau yng Nghymru a gafodd radd rhwng A ac C mewn pum pwnc TGAU neu fwy. Felly, mae honno'n her, o ran bod nifer sylweddol o blant yng Nghymru sy'n derbyn gofal gan y wladwriaeth yn wynebu anhawster penodol o ran cyflawni lefel addysgol briodol.

Mae'r awdurdod lleol yng Nghaerdydd wedi canfod ffordd o ddarparu gliniaduron i blant sy'n derbyn gofal. Gwn fod gan Lywodraeth y Cynulliad ei chynllun peilot ei hun i ddarparu gliniaduron i blant mewn cymunedau difreintiedig, ond ceir grŵp arbennig o bobl nad ydynt wedi'u lleoli gydag awdurdodau lleol na theuluoedd yn ôl lefelau amddifadedd; maent wedi'u lleoli yno oherwydd eu hanghenion penodol a'r hyn sydd wedi digwydd iddynt yn eu teuluoedd. Mae'n amlwg bod heriau addysgol y mae angen inni eu goresgyn. Tybed a hoffai Llywodraeth y Cynulliad edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd i weld a yw'n dymuno cynnwys hynny yn ei chynlluniau?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ystyried unrhyw syniad da sy'n gwella cyfleoedd bywyd i blant mewn gofal. Yr oeddech yn llygad eich lle'n dweud bod cyflawniad addysgol plant mewn gofal yn eithriadol o isel. Mae a wnelo hynny i raddau helaeth â'r ffaith nad yw eu magwraeth yn aml mor

their upbringing as many other children do. Dealing with this issue will be a priority for us over the next few years. Therefore, yes, it can certainly be looked at, and, if it helps the life chances of foster children, I am sure that we will look to take it forward.

Helen Mary Jones: First Minister, would you agree that one crucial way in which we can improve the recruitment and retention of foster carers across Wales is for them to be treated as proper professional members of the children's workforce, which is what the Fostering Network has often called for? That would include all aspects of the work, from being treated as equals in respect of information sharing to giving them proper, consistent remuneration and respite care, so that they can take holidays. If you agree, and I welcome some comments made recently by the Deputy Minister for Children, what steps can the Assembly Government take to ensure that local authorities, voluntary organisations and, where they are used, private sector providers treat foster carers as a proper, professional part of the childcare workforce?

The First Minister: They are, and no local authority or private organisation can afford to take foster carers for granted. Quite often, it is true that foster carers feel that they are not properly consulted on the future of the children in their care. In the past, there has sometimes been an attitude that foster carers are simply there to do a job, and so have no right to express any view on a child's future. I think that the system that we have in place for dealing with children who are in care, as well as the adoption system, is sometimes indifferent to the feelings of prospective adoptive or foster parents. However, a good local authority will make sure that foster carers feel properly involved; otherwise, they will lose them.

Eleanor Burnham: I have had the privilege of visiting Foster Care Associates, a private company that has given evidence to various Assembly committees, and I commend it as a beacon. How can we, and your Government,

sefydlog â magwraeth llawer o blant eraill. Bydd mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth inni yn ystod y blynyddoedd nesaf. Felly, yn sicr, gallwn edrych arno ac, os yw'n gymorth i sicrhau gwell cyfleoedd mewn bywyd i blant maeth, yr wyf yn siŵr y byddwn yn awyddus i fwrw ymlaen ag ef.

Helen Mary Jones: Brif Weinidog, a gytunech mai un ffordd hollbwysig o recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth ledled Cymru yw inni eu trin fel aelodau proffesiynol go iawn o'r gweithlu plant, sef yr hyn y mae'r Rhwydwaith Maethu wedi galw amdano'n aml? Byddai hynny'n cynnwys pob agwedd ar y gwaith, o gael eu trin yn gyfartal o ran rhannu gwybodaeth i roi cydnabyddiaeth ariannol briodol a chyson iddynt ynghyd â gofal seibiant, er mwyn iddynt allu mynd ar wyliau. Os cytunwch, ac yr wyf yn croesawu rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog dros Blant, pa gamau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, a lle y defnyddir y rheini, darparwyr y sector preifat, yn trin gofalwyr maeth fel petaent yn rhan briodol a phroffesiynol o'r gweithlu gofal plant?

Y Prif Weinidog: Maent yn rhan o'r gweithlu hwnnw, ac ni all yr un awdurdod lleol na'r un sefydliad preifat fforddio cymryd gofalwyr maeth yn ganiataol. Mae'n aml iawn yn wir bod gofalwyr maeth yn teimlo nad oes neb yn ymgynghori'n iawn â hwy ynglŷn â dyfodol y plant yn eu gofal. Yn y gorffennol, yr agwedd ar brydiau oedd mai swyddogaeth gofalwyr maeth yw gwneud tro o waith, ac felly nad oes ganddynt yr hawl i fynegi barn am ddyfodol plentyn. Credaf fod y system sydd gennym i ymdrin â phlant mewn gofal, yn ogystal â'r system mabwysiadu, weithiau'n ddifater ynglŷn â theimladau darpar fabwysiadwyr neu faethwyr. Fodd bynnag, bydd awdurdod lleol da yn sicrhau bod gofalwyr maeth yn teimlo bod ganddynt ran iawn yn y broses; oni wnânt hynny, bydd yn eu colli.

Eleanor Burnham: Yr wyf wedi cael y fraint o ymweld â Foster Care Associates, cwmni preifat sydd wedi rhoi tystiolaeth i amrywiol bwyllgorau'r Cynulliad, ac mae'n sefydliad disglair yr hoffwn ei gymeradwyo.

encourage the incorporation of the very best practice from the private or third sectors in statutory and local authority work? From what I have seen, that company is absolutely wonderful, and it deals with all the issues mentioned by Helen Mary and others. It is terrific. I know people who are foster carers and so I know that they feel under huge strain, but I commend the work of that company. Will you use its best practice and ensure that it is disseminated throughout Wales?

The First Minister: I return to the advisory group that I mentioned earlier. It is useful to look at good examples across Wales, and for those to be made known to the advisory group so that it can feed them back to us as we develop our policy. We want to know about any good examples of foster carers being cherished and looked after.

Fuel Poverty in Islwyn

Q5 Irene James: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle fuel poverty in Islwyn? OAQ(3)2878(FM)

The First Minister: Since 2000, the home energy efficiency scheme has assisted 3,285 households in Islwyn at a total cost of £3,371,825—rounded up. There have been 1,200 heating measures and 2,322 insulation measures installed under HEES. In addition, 114 boiler scrappage vouchers have been requested and 427 benefit entitlement checks completed. Therefore, I suppose that the answer, in short, is, ‘A great deal’.

Irene James: Thank you for that response, First Minister. I have raised the area of Hollybush in my constituency previously. The residents do not have access to mains gas, which means that they often pay more for their fuel than people elsewhere. Will you look into that, as many of the residents could be brought out of fuel poverty if this problem were solved?

Sut y gallwn ni, a’ch Llywodraeth, annog y sector statudol ac awdurdodau lleol i ddilyn esiampl arferion gorau un y sector preifat neu’r trydydd sector wrth eu gwaith? Yn ôl yr hyn yr wyf wedi’i weld, mae’r cwmni hwnnw’n wirioneddol wych, ac mae’n ymdrin â’r holl faterion a grybwyllwyd gan Helen Mary a phobl eraill. Mae’n wych. Yr wyf yn adnabod pobl sy’n ofalwyr maeth ac felly gwn eu bod yn teimlo o dan bwysau enfawr, ond yr wyf yn cymeradwyo gwaith y cwmni hwnnw. A wnewch ddefnyddio’i arferion gorau a sicrhau bod y rheini’n cael eu lledaenu drwy Gymru?

Y Prif Weinidog: Dychwelaf at y grŵp cynghori a grybwyllais yn gynharach. Mae’n fuddiol edrych ar enghreifftiau da ledled Cymru, a rhoi gwybod i’r grŵp cynghori amdanynt er mwyn iddo yntau wedyn eu bwydo’n ôl i ni wrth inni ddatblygu ein polisi. Yr ydym am gael gwybod am unrhyw enghreifftiau da lle y bydd gofalwyr maeth yn cael eu coleddu ac yn cael gofal.

Tlodi Tanwydd yn Islwyn

C5 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i’r afael â thlodi tanwydd yn Islwyn? OAQ(3)2878(FM)

Y Prif Weinidog: Ers 2000, mae’r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi cynorthwyo 3,285 o aelwydydd yn Islwyn. Cyfanswm cost hynny wedi’i dalgrynnu yw £3,371,825. Gosodwyd 1,200 o fesurau gwresogi a 2,322 o fesurau insiwleiddio o dan y cynllun. Yn ogystal â hynny, cafwyd 114 o geisiadau am daleb sgrapio boeleri a chwblhawyd 427 archwiliad hawl i fudd-daliadau. Felly, am wn i mai’r ateb, yn gryno, yw, ‘Llawer iawn’.

Irene James: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wyf wedi sôn am ardal Hollybush yn fy etholaeth o’r blaen. Nid yw’r trigolion yn gallu cysylltu â’r prif gyflenwad nwy. Mae hynny’n golygu eu bod yn aml yn talu mwy am eu tanwydd nag y mae pobl mewn mannau eraill. A wnewch edrych ar hynny, oherwydd byddai modd i lawer o’r trigolion gamu o dlodi tanwydd petai modd datrys y broblem hon?

The First Minister: I will discuss the issue with Jane Davidson, as Minister for the environment, to see whether there is anything that we can do.

William Graham: First Minister, you will know that 3 per cent of homes in Islwyn are without central heating or a private bathroom. How is your Government publicising the support available to people in fuel poverty, taking note of the needs of people in older properties that do not have central heating?

The First Minister: We remain committed to trying to achieve the targets set by the fuel poverty commitment for Wales and in the UK fuel poverty strategy. The proposed changes that we have in place for the existing HEES scheme in the fuel poverty strategy also mean that fewer households will be in fuel poverty in future, and we will target funding at the households most in need and at the most energy-inefficient properties. That will all form a part of the fuel strategy, and we will look to assist people in need—and you mentioned people in Islwyn who are without central heating or who face particular difficulties because of their incomes and what they pay in energy costs.

The Welsh Economy

Q6 Nick Ramsay: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve the Welsh economy? OAQ(3)2877(FM)

The First Minister: Through our economic summits, we have devised and implemented a range of measures, such as ProAct, to help Wales to manage the recession.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, First Minister. I am sure that you are aware of the statistics that show that, between January and March, unemployment in Wales stood at 9.3 per cent, compared with 7.7 per cent for the same period in 2009. That is the joint third highest rate of the 12 UK nations and regions. Do you share my concern about

Y Prif Weinidog: Trafodaf y mater gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros yr amgylchedd, i weld a oes rhywbeth y gallwn ei wneud.

William Graham: Brif Weinidog, gwyddoch fod 3 y cant o gartrefi Islwyn heb wres canolog neu ystafell ymolchi breifat. Sut y mae eich Llywodraeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n dlawd o ran tanwydd, ac ystyried anghenion pobl mewn eiddo hŷn lle nad oes gwres canolog?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn dal yn ymroddedig i geisio cyrraedd y targedau a bennwyd yn yr ymrwymiad tldodi tanwydd i Gymru ac yn strategaeth tldodi tanwydd y Deyrnas Unedig. Mae'r newidiadau arfaethedig sydd ar waith ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref presennol yn golygu y bydd llai o aelwydydd yn dlawd o ran tanwydd yn y dyfodol, a byddwn yn targedu'r arian at yr aelwydydd mwyaf anghenus hynny ac at yr eiddo mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Bydd hynny i gyd yn rhan o'r strategaeth tanwydd, a byddwn yn awyddus i gynorthwyo pobl mewn angen—a soniasoch am bobl yn Islwyn nad oes ganddynt wres canolog neu sy'n wynebu anawsterau penodol oherwydd eu hincwm a'r hyn y maent yn ei dalu am ynni.

Economi Cymru

C6 Nick Ramsay: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella economi Cymru? OAQ(3)2877(FM)

Y Prif Weinidog: Drwy ein huwchgynadledau economaidd, yr ydym wedi dyfeisio amrywiaeth o fesurau a'u rhoi ar waith, mesurau megis ProAct, i gynorthwyo Cymru i ymdopi â'r dirwasgiad.

Nick Ramsay: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod am yr ystadegau sy'n dangos bod diweithdra, rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, yn 9.3 y cant, o'i gymharu â 7.7 y cant ar gyfer yr un cyfnod yn 2009. Dyna'r gyfradd uchaf ond dwy—ar y cyd—o blith 12 cenedl a rhanbarth y Deyrnas Unedig. A

those extremely worrying figures? Behind the statistics are individuals and families who are affected by this upward trend. Do you agree that far more needs to be done, aside from the schemes that have been put in place, to tackle this increase in unemployment, and that a woeful amount has been done so far?

The First Minister: I wonder sometimes whether I am living in a parallel universe. I was particularly saddened to see that the UK Government intends to cut employment programmes by £320 million. That includes the young person's guarantee scheme. I can tell you, Nick, that that will not help unemployment in Wales or anywhere else in the UK.

Christine Chapman: Improving the Welsh economy means that we must do our utmost to create and sustain jobs across Wales. Working in partnership with the previous Labour Government and Jobcentre Plus, the delivery of the Future Jobs fund in Wales benefited many of my younger constituents. Among the 460 young people in Rhondda Cynon Taf who took up fixed-term employment contracts through the programme are nine individuals who are working on the successful Green Glyncoch project, which aims to create the first zero-waste village in Wales. I was pleased to visit that project recently. As a result of the project's work in raising awareness and on increasing participation in recycling schemes and environmental projects, recycling rates have increased from 43 per cent up to 70 per cent. Given the Conservative-Liberal Democrat Government's commitment to end all existing welfare to work programmes, do you share my concerns that the innovative, targeted action that we have seen—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I am unable to hear the question.

Christine Chapman: Do you share my concerns that the innovative, targeted action

ydych chi, fel minnau, yn poeni am y ffigurau hynny sy'n destun pryder mawr? Y tu ôl i'r ystadegau mae unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan y cynnydd hwn yn y duedd. A gytunwch fod angen gwneud llawer mwy, ar wahân i'r cynlluniau sydd wedi'u rhoi ar waith, i fynd i'r afael â'r cynnydd hwn mewn diweithdra, a bod yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yn hyn yn druenus o dila?

Y Prif Weinidog: Byddaf yn meddwl weithiau tybed a wyf yn byw mewn byd cyfochrog. Yr oeddwn yn arbennig o drist o weld bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu tocio £320 miliwn oddi ar raglenni cyflogaeth. Mae hynny'n cynnwys y cynllun gwarant i bobl ifanc. Gallaf ddweud wrthy, Nick, na fydd hynny'n gymorth i ddiweithdra yng Nghymru nac yn unman arall yn y Deyrnas Unedig.

Christine Chapman: Mae gwella economi Cymru'n golygu bod yn rhaid inni wneud ein gorau glas i greu a chynnal swyddi ledled Cymru. Drwy gydweithio â'r Llywodraeth Lafur flaenorol ac â'r Ganolfan Byd Gwaith, mae cronfa Swyddi'r Dyfodol yng Nghymru wedi dod â budd i lawer o'm hetholwyr iau. Ymhlith y 460 o bobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf a gafodd gcontractau cyflogaeth am gyfnod penodedig drwy'r rhaglen, mae naw unigolyn sy'n gweithio ar brosiect llwyddiannus Glyn-coch Glyn Gwyrdd. Ei nod yw creu'r pentref diwastraff cyntaf yng Nghymru. Yr oeddwn yn falch o ymweld â'r prosiect hwnnw'n ddiweddar. Yn sgîl gwaith y prosiect yn codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu a phrosiectau amgylcheddol, mae cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu o 43 y cant i 70 y cant. O ystyried ymrwymiad Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i roi terfyn ar yr holl raglenni o fudd-dal i waith sydd gennym ar hyn o bryd, a ydych chi, fel minnau, yn poeni y bydd y camau arloesol wedi'u targedu yr ydym wedi'u gweld—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf glywed y cwestiwn.

Christine Chapman: A ydych chi, fel minnau, yn poeni y collir y camau arloesol

that we have seen through schemes such as the Future Jobs fund, which is one of the first to be axed, will be lost, and that getting into a job will become even harder for young people across Wales?

The First Minister: I could not quite hear. I was too busy listening to the arguments going on between the two parties here on my left hand side. Perhaps that is a trend for the future. It seems absolutely crazy to me that, when we are trying to get the economy going and trying to help people into work—*[Interruption.]* Well, apparently, that would make the country bankrupt.

The Presiding Officer: Order. I have said before, so you know my view on this matter—and it is not just my view, but my ruling—that if there are sedentary interventions and barracking from Members, they will not be called to speak.

2.00 p.m.

The First Minister: It seems crazy to me that, when we are trying to get people back into work and into a position where they can earn money, pay taxes and contribute to the Exchequer, the UK Government is looking to do away with so many schemes that will help to get people back into employment. We know that that is what the Tories are like. They did it in the 1980s: they said that unemployment was a price worth paying. What I am most surprised about is that the Lib Dems have now joined them—they are joined at the hip, almost to the extent that they may as well be the same party.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Good afternoon, First Minister. Let me bring you back to something that you said when we locked horns last week; I think that there was a measure of agreement between us on this topic. You said that you were going to look at every area of Government, reprioritising programmes to ensure that money was not spent inappropriately and trying to move money from back-room functions to front-line services. I quite agree with that position. In light of that, could you tell us why so much money is spent on economic development back-office functions as compared with health and education,

wedi'u targedu yr ydym wedi'u gweld drwy gynlluniau megis cronfa Swyddi'r Dyfodol, sef un o'r cyntaf i ddod o dan y fwyell, ac y bydd cael swydd yn anos byth i bobl ifanc ledled Cymru?

Y Prif Weinidog: Ni allwn glywed yn iawn. Yr oeddwn yn rhy brysur yn gwrando ar y dadleuon rhwng y ddwy blaid yma ar y chwith imi. Efallai mai dyna fydd y drefn yn y dyfodol. Mae'n ymddangos yn gwbl hurt i mi, a ninnau'n ceisio rhoi hwb i'r economi ac yn ceisio cynorthwyo pobl i gael gwaith—*[Torri ar draws.]* Wel, i bob golwg, byddai hynny'n gwneud y wlad yn fethdalwr.

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi dweud o'r blaen, felly gwyddoch beth yw fy marn am hyn—ac nid fy marn yn unig, ond fy nyfarniad—na chaiff Aelodau sy'n ymyrryd ac yn hwtian ar eu heistedd eu galw i siarad.

Y Prif Weinidog: Mae'n ymddangos yn hurt i mi, a ninnau'n ceisio cael pobl yn ôl i'r gwaith ac i sefyllfa lle y gallant ennill arian, talu trethi a chyfrannu i'r Trysorlys, fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig â'i bryd ar gael gwared ar gynifer o gynlluniau a fydd yn cynorthwyo i gael pobl yn ôl i'r gwaith. Gwyddom mai rhai felly yw'r Torïaid. Dyna a wnaethant yn yr 1980au: dywedasant fod diweithdra'n bris gwerth ei dalu. Yr hyn sy'n fy synnu fwyaf yw bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymuno â hwy bellach—maent wedi asio, bron i'r graddau mai cystal fyddai iddynt fod yn un blaid.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Prynawn da, Brif Weinidog. Gadewch imi eich tywys yn ôl at rywbeth a ddywedasoich pan ddaethom benben â'n gilydd yr wythnos diwethaf; credaf ein bod yn gytûn i ryw raddau ynglŷn â hyn. Dywedasoich eich bod am edrych ar bob un o feysydd y Llywodraeth, gan ailflaenoriaethu rhaglenni er mwyn sicrhau nad oedd arian yn cael ei wario'n amhriodol a chan geisio arbed arian ar swyddogaethau'r ystafell gefn i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen. Cytunaf yn llwyr â'r safbwynt hwnnw. Yng ngoleuni hynny, a allech ddweud wrthym pam mae cymaint o arian yn cael ei

which are much larger in terms of total spending but much smaller in terms of the amount spent on administration? Almost double is spent on the administration of economic development compared with the administration of health and education, even though the budget spend is much greater. What are you doing about reprioritising that, so that the money goes to the sharp end?

The First Minister: This forms part of the line-by-line scrutiny process in which we are engaged at the moment. We will do all that we can to ensure that front-line services are kept as intact as they can be, given the financial situation; that involves looking at all areas to see where administration savings can be made. However, we cannot make all of the savings that we need to make in administration; it simply cannot be done. We do not have the capacity to stop large information and communications technology projects—we do not have any. We do not have the capacity to move jobs out of London—we do not have any. We do not have the capacity to cut quangos—we have already done that. In Wales we have already made many of the administrative savings that are currently being made in Whitehall. Therefore, if all of the cuts that are coming our way are carried through, it is inevitable that it will be difficult to maintain front-line services.

Nick Bourne: I was talking about Welsh figures, not English figures. I am not asking you to move jobs out of London. I am asking you to look at the Welsh figures, which show that double what is spent on administration in health and education is spent on administration in economic development, and on a much smaller budget.

Let me now move on to an issue that first came up in March last year: the £42 million refurbishment of the offices in Cathays park. At the time, your predecessor as First Minister committed £100,000 to commissioning a project team feasibility study on that. Given the current climate, I think that you would be the first to accept

wario ar swyddogaethau cefn swyddfa datblygu economaidd o'i gymharu â'r hyn a werir ar iechyd ac addysg, adrannau sy'n gwario cyfanswm mwy o lawer ond yn gwario llai o lawer ar weinyddu? Gwerir cymaint ddwywaith bron ar weinyddu datblygu economaidd o'i gymharu ag ar weinyddu iechyd ac addysg, er bod cyllidebau gwario'r adrannau hynny'n fwy o lawer. Beth yr ydych yn ei wneud ynglŷn ag ailflaenoriaethu hynny, er mwyn i'r arian fynd i'r rheng flaen?

Y Prif Weinidog: Mae hyn yn rhan o'r broses o graffu fesul llinell yr ydym wrthi'n mynd drwyddi ar hyn o bryd. Gwnawn bopeth a allwn i sicrhau bod gwasanaethau'r rheng flaen yn cael eu cadw mor gyflawn byth ag y bo modd, o ystyried y sefyllfa ariannol; mae hynny'n cynnwys edrych ar bob maes i weld ymhle y gellid arbed ar weinyddu. Serch hynny, ni allwn arbed yr holl arian y mae angen inni ei arbed ym maes gweinyddu; mae hynny'n hollol amhosibl. Ni allwn roi'r gorau i brosiectau mawr ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu—nid oes gennym brosiectau o'r math hwnnw. Ni allwn symud swyddi o Lundain i rywle arall—nid oes gennym swyddi yno. Ni allwn dorri cwangos—yr ydym eisoes wedi gwneud hynny. Yng Nghymru, yr ydym eisoes wedi arbed llawer o'r arian a werir ar weinyddu, sef y math o arbedion a wneir ar hyn o bryd yn Whitehall. Felly, os bydd yn rhaid gwneud yr holl doriadau sy'n dod i'n cyfeiriad, mae'n anochel y bydd yn anodd cynnal gwasanaethau'r rheng flaen.

Nick Bourne: Sôn am ffigurau Cymru yr oeddwn, nid ffigurau Lloegr. Nid wyf yn gofyn ichi symud swyddi o Lundain, yr wyf yn gofyn ichi edrych ar ffigurau Cymru, sy'n dangos bod datblygu economaidd yn gwario cymaint ddwywaith ar weinyddu ag a werir ar hynny ym maes iechyd ac addysg, er bod cyllideb yr adran honno'n llai o lawer.

Gadewch imi symud ymlaen yn awr at fater a gododd y tro cyntaf ym mis Mawrth y llynedd: adnewyddu swyddfeydd parc Cathays a gostiodd £42 miliwn. Ar y pryd, neilltuodd y Prif Weinidog a'ch rhagflaenodd £100,000 i gomisiynu tîm prosiect i wneud astudiaeth ddichonoldeb o'r cynllun. O ystyried yr hinsawdd bresennol, credaf mai

that there must be some belt-tightening—your Minister for budget said much the same this morning, which I welcome—so are you going to cancel this £42 million refurbishment, which we can ill afford?

The First Minister: We will not proceed with the £42 million refurbishment in the current climate.

Nick Bourne: Will you confirm that you have cancelled it, and if so, what were the costs of cancellation? I welcome that news if you have cancelled it.

The First Minister: It was never commissioned in the first place, so it was never a question of cancelling anything. It was never commissioned, and there will be no commissioning of a £42 million refit in Cathays park.

Nick Bourne: I think that we would welcome that. However, why was no statement made to that effect, and what was the loss in terms of the £100,000 spent on the feasibility study?

The First Minister: Clearly, you did not expect that answer. However, we cannot make a statement along the lines of ‘We are not proceeding with something that was never going to be proceeded with in the first place’. That does not make any sense. *[Laughter.]*

Nick Bourne: With respect, First Minister, you know as well as I do that a feasibility study was conducted on this. Presumably, that study has reported back, or has it not? It cost £100,000.

The First Minister: What I can say, for the third time, is that there will be no £42 million refurbishment in Cathays park.

Rhodri Glyn Thomas: Brif Weinidog, o ran y cyd-destun yr ydym wedi bod yn ei drafod, sef colli swyddi a’r wasgfa ariannol, a ydych yn derbyn y dylid ceisio adolygiad o fformiwla Barnett ar fyrder? Hefyd, a ydych

chi fyddai’r cyntaf i dderbyn ei bod yn anochel y bydd yn rhaid tynhau’r gwregys—dywedodd eich Gweinidog dros y gyllideb rywbeth digon tebyg y bore yma, ac yr wyf yn croesawu hynny—felly a wnewch ganslo’r gwaith adnewyddu hwn a fyddai’n costio £42 miliwn? Prin y gallwn ei fforddio.

Y Prif Weinidog: Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â’r gwaith adnewyddu a fyddai’n costio £42 miliwn yn yr hinsawdd bresennol.

Nick Bourne: A wnewch gadarnhau eich bod wedi’i ganslo, ac os mai felly y mae, beth oedd cost gwneud hynny? Yr wyf yn croesawu’r newydd hwnnw os ydych wedi’i ganslo.

Y Prif Weinidog: Ni chomisiynwyd y gwaith yn y lle cyntaf, felly nid oedd angen canslo dim. Ni chafodd ei gomisiynu erioed, ac ni chomisiynir gwaith adnewyddu gwerth £42 miliwn ym mharc Cathays.

Nick Bourne: Credaf y byddem yn croesawu hynny. Fodd bynnag, pam na chafwyd datganiad i’r perwyl hwnnw, a beth oedd y golled o ran y £100,000 a wariwyd ar yr astudiaeth ddichonoldeb?

Y Prif Weinidog: Mae’n amlwg nad oeddech yn disgwyl yr ateb hwnnw. Fodd bynnag, ni allwn wneud datganiad i’r perwyl ‘Nid ydym yn bwrw ymlaen â rhywbeth nad oeddem wedi bwriadu bwrw ymlaen ag ef yn y lle cyntaf’. Nid oes synnwyr yn hynny. *[Chwerthin.]*

Nick Bourne: Gyda phob parch, Brif Weinidog, gwyddochystal â minnau fod astudiaeth ddichonoldeb o’r cynllun wedi’i gwneud. Yr wyf yn tybio bod yr astudiaeth honno wedi adrodd yn ôl, ynteu a yw heb wneud hynny? Costiodd £100,000.

Y Prif Weinidog: Yr hyn y gallaf ei ddweud, am y trydydd tro, yw na wneir gwaith adnewyddu gwerth £42 miliwn ym mharc Cathays.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, in the context that we have been discussing, namely the loss of jobs and the financial crunch, do you accept that an urgent review of the Barnett formula should be sought? Also, do

yn derbyn bod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos nad yw'r fformiwla bresennol yn ymateb i anghenion Cymru? A ydych yn gresynu, fel fi, fod Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu torri £2 filiwn o gyllideb S4C ar adeg pan ddylai fod yn buddsoddi yn y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau, er mwyn iddynt ein tynnu allan o'r dirwasgiad ariannol hwn?

Y Prif Weinidog: Yr hyn nad wyf yn ei ddeall yw bod yr Alban wedi dod allan o hyn lawer yn well na Chymru. Mae'r Alban yn cael arian yn sgîl comisiwn Calman a fformiwla Barnett. Ni fydd Cymru yn cael unrhyw beth yn sgîl comisiwn Holtham; nid wyf yn deall pam fod hynny wedi digwydd. Y peth rhyfeddaf yw'r ffaith bod cytundeb clymblaid Llywodraeth y DU yn dweud y bydd comisiwn yn cael ei sefydlu yn dibynnu ar ganlyniad refferendwm, ond nid wyf yn deall beth yw'r cysylltiad rhwng y refferendwm i gael mwy o bwerau i'r Cynulliad a chyllido Cymru. Nid oes cysylltiad o gwbl, ond dyna beth sydd yng nghytundeb clymblaid Llywodraeth y DU. Mae'n dangos bod y pwysau a roddwyd ar y Ceidwadwyr yn Llundain gan Ryddfrydwyr yr Alban wedi bod yn effeithiol, ond nad yw Rhyddfrydwyr Cymru wedi gwneud yr un peth.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, despite more than a decade of political autonomy in Cardiff and a substantial economic development budget boosted by not insignificant European funding on a whole range of measures, Welsh industry is less competitive than that of any other part of the UK. I understand that you will spend the next 50 weeks blaming all of your ills on London, but following 11 years of devolution, what analysis have you done to frame your new strategies to address the failings of the old?

The First Minister: We have an economic renewal programme, which I have mentioned many times in the Chamber. I will not spend my time blaming London over the next 50 weeks—I will spend my time blaming the parties on my left hand side. However, there is a serious point to make here. As far as

you accept that there is sufficient evidence to show that the current formula does not respond to the needs of Wales? Do you, like me, regret that the Westminster Government has decided to cut £2 million from the S4C budget at a time when it should be investing in the creative industries and the arts, so that they pull us out of this financial recession?

The First Minister: What I do not understand is that Scotland has come out of this much better than Wales. Scotland gets money from the Calman commission and the Barnett formula. Wales will not get anything from the Holtham commission; I do not understand why that happened. The strangest thing is that the UK coalition Government agreement states that a commission will be established depending on the outcome of a referendum, but I do not understand the connection between the referendum for more powers for the Assembly and funding for Wales. There is no link whatsoever, but that is what is in the UK coalition Government agreement. It shows that the pressure put on the Conservatives in London by the Scottish Liberals has been effective, but that Welsh Liberals have not done the same thing.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, er gwaethaf degawd a mwy o annibyniaeth wleidyddol yng Nghaerdydd a chyllideb datblygu economaidd sylweddol gydag arian nid ansylweddol o Ewrop yn gefn iddi ar gyfer ystod eang o fesurau, mae diwydiant Cymru yn llai cystadleuol na diwydiant unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Deallaf y byddwch yn treulio'r 50 wythnos nesaf yn rhoi'r bai am eich holl drafferthion ar Lundain, ond ar ôl 11 mlynedd o ddatganoli, pa ddadansoddiad yr ydych wedi'i wneud i lunio'ch strategaethau newydd er mwyn mynd i'r afael â diffygion yr hen rai?

Y Prif Weinidog: Mae gennym raglen adnewyddu'r economi, rhaglen yr wyf wedi'i chrybwyll droeon yn y Siambr. Ni threuliaf fy amser yn beio Llundain dros y 50 wythnos nesaf—treuliaf fy amser yn beio'r pleidiau ar y chwith imi. Serch hynny, mae pwynt difrifol i'w wneud yn hyn o beth. O ran yr

funding for Wales is concerned, the Holtham commission is not being taken forward, while the Calman commission is being taken forward. I do not understand why the taking forward of a commission on fair funding for Wales depends on the result of a referendum. Once again, Wales has lost out as a result of the UK Government's coalition agreement, whereas Scotland has apparently been protected.

Kirsty Williams: I am not going to take any lessons from the Labour Party; you had 13 years to do something about the Barnett formula, and made no commitment to implement the Holtham commission's recommendations in the 12 months since it reported. I do not know which part of Liam Byrne's letter the First Minister does not understand—that his Labour colleagues in London spent all the money and presided over a record level of deficit. I welcome the fact that the Welsh Assembly Government will come forward at some stage with its economic renewal programme. We all know that we need that economic renewal programme to address the failings that I highlighted in my first question, but it will only do that if your Government carries out an analysis of what went wrong with the previous 11 years of policy development in this area. Your Government and previous Governments have spent considerable amounts of money—more money than other parts of the UK—but the results have been disappointing. If our economic renewal strategy is going to work, we need to learn the lessons of what has not worked in the past. What analysis have you carried out to ensure that the new economic renewal strategy will work in a way that did not happen in the previous 11 years to make Wales a more competitive nation?

The First Minister: There are several ways of doing it. One way is by getting the balance right between spending on grants and infrastructure. We have probably been over-reliant on grants in years gone by, which has meant that firms have done things because there is a grant available or firms have been set up because there is a grant and then not prospered beyond that. Therefore, one of the

arian a gaiff Cymru, ni fwrir ymlaen â chomisiwn Holtham ond bwrir ymlaen â chomisiwn Calman. Nid wyf yn deall pam mae bwrw ymlaen â chomisiwn ynglŷn ag ariannu teg i Gymru'n dibynnu ar ganlyniad refferendwm. Unwaith eto, mae Cymru ar ei cholled yn sgîl cytundeb clymblaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig er bod yr Alban, i bob golwg, wedi'i gwarchod.

Kirsty Williams: Nid wyf am wrando ar lith gan y Blaid Lafur; cawsoch 13 blynedd i wneud rhywbeth ynglŷn â fformiwla Barnett, ac ni chawsom yr un ymrwymiad gennyh i roi argymhellion comisiwn Holtham ar waith yn y 12 mis ers iddo adrodd. Ni wn pa ran o lythyr Liam Byrne nad yw'r Prif Weinidog yn ei deall—sef bod ei gyd-Aelodau Llafur yn Llundain wedi gwario'r arian i gyd a bod y diffyg yn ystod eu cyfnod hwy'n uwch nag erioed. Yr wyf yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno rhaglen adnewyddu'r economi rywbryd. Gwyddom oll fod angen y rhaglen adnewyddu economaidd honno arnom i fynd i'r afael â'r diffygion y soniais amdanynt yn fy nghwestiwn cyntaf, ond ni wnaiff hynny oni ddadansoddir yr hyn a aeth o'i le yn yr 11 mlynedd blaenorol o ddatblygu polisi yn y maes hwn gan eich Llywodraeth. Mae eich Llywodraeth chi a Llywodraethau blaenorol wedi gwario symiau sylweddol—mwy o arian nag y mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wedi'i wario—ond mae'r canlyniadau wedi bod yn siomedig. Er mwyn i'n strategaeth adnewyddu'r economi weithio, mae angen inni ddysgu yn sgîl yr hyn sydd heb weithio yn y gorffennol. Pa ddadansoddiad yr ydych wedi'i wneud i sicrhau y bydd y strategaeth newydd ar gyfer adnewyddu'r economi'n gweithio mewn modd na weithiodd yn yr 11 mlynedd blaenorol er mwyn gwneud Cymru'n genedl fwy cystadleuol?

Y Prif Weinidog: Mae sawl ffordd o'i wneud. Un ffordd yw drwy sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng gwario ar grantiau ac ar seilwaith. Yn ôl pob tebyg, yr ydym wedi gorddibynnu ar grantiau yn y blynyddoedd sydd wedi mynd heibio. Mae hynny wedi golygu bod cwmnïau wedi gwneud pethau oherwydd bod grant ar gael neu fod cwmnïau wedi cael eu sefydlu

issues to be looked at is whether, proportionately, more money should be spent on infrastructure. There will be a place for grants, but should we be looking to spend more money on infrastructure to help those businesses to prosper in the future? What will not work is what your party is proposing, namely taking hundreds of millions of pounds out of the schemes that are designed to get people back to work. What will not help is your party's failure to support the findings of the Holtham commission and fairer funding for Wales, which is a complete about turn to the principled position that you have taken in the Assembly over the past 10 years.

Kirsty Williams: I am more than happy to take that position again. I agree wholeheartedly that we need a fair funding formula for Wales, and it is a pity that your Labour colleagues did not share your enthusiasm for it, Carwyn, and did nothing about it over the past 13 years. We have had two weeks to sort it out—you had 13 years to sort it out, and you did nothing about it.

2.10 p.m.

In other parts of the UK, business and economic development agencies publish their business plans and evaluations. The Department for the Economy and Transport in Wales does not do that. Is it a guarantee of your new renewal programme that such business plans and evaluations of the effectiveness of spend will be published by your Government in the future?

The First Minister: We will look to be as transparent as we can. We have a good record of transparency in this Government, and we have led the way across the whole of the UK in that. When it comes to fair funding, you always supported fair funding for Wales, Kirsty, and I support fair funding for Wales. The difference between the two of us is that I still believe it and still say it, but your party has forgotten it.

oherwydd bod grant ac nad ydynt wedi ffynnu wedyn ar ôl hynny. Felly, un o'r pethau y bydd angen ei ystyried yw a ddylid gwario mwy o arian, yn gymharol hynny yw, ar seilwaith. Bydd lle i grantiau, ond a ddylem fod yn ceisio gwario mwy o arian ar seilwaith i helpu'r busnesau hynny i ffynnu yn y dyfodol? Yr hyn na wnaiff weithio yw'r hyn y mae eich plaid chi'n ei gynnig, sef tynnu cannoedd o filiynau o bunnau oddi ar y cynlluniau sy'n ceisio cael pobl yn ôl i'r gwaith. Yr hyn na wnaiff gynorthwyo yw methiant eich plaid i gefnogi canfyddiadau comisiwn Holtham ac ariannu tecach i Gymru, ac mae hynny'n gwbl groes i'r safbwynt egwyddorol yr ydych wedi'i arddel yn y Cynulliad dros y 10 mlynedd diwethaf.

Kirsty Williams: Yr wyf yn fwy na bodlon arddel y safbwynt hwnnw eto. Cytunaf yn llwyr fod angen fformiwla ariannu deg i Gymru, ac mae'n bechod nad oedd eich cyd-Aelodau yn y blaid Lafur yr un mor frwd o'i phlaid ag yr ydych chi, Carwyn, ac na wnaethant ddim yn ei chylch dros y 13 blynedd diwethaf. Yr ydym wedi cael pythefnos i ddatrys y peth—cawsoch chi 13 blynedd i'w ddatrys, a heb wneud dim yn ei gylch.

Mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, bydd asiantaethau datblygu busnes a datblygu economaidd yn cyhoeddi eu cynlluniau busnes a'u gwerthusiadau. Nid yw'r Adran dros yr Economi a Thrafnidiaeth yng Nghymru yn gwneud hynny. A warentir, yn sgîl eich rhaglen adnewyddu newydd, y cyhoeddir cynlluniau busnes o'r fath a gwerthusiadau o effeithiolrwydd y gwario gan eich Llywodraeth yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ceisio bod mor dryloyw ag y gallwn. Mae gennym record dda o fod yn dryloyw yn y Llywodraeth hon, ac yr ydym wedi arwain y ffordd yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw yn hynny o beth. O ran ariannu teg, yr ydych chi, Kirsty wedi cefnogi ariannu teg i Gymru erioed, ac yr wyf finnau'n cefnogi ariannu teg i Gymru. Y gwahaniaeth rhyngom ni'n dau yw fy mod i'n dal i gredu ynddo ac yn dal i ddweud hynny, ond ei fod wedi mynd yn anghof gan eich plaid chi.

Jeff Cuthbert: Yesterday, we heard our new Chancellor of the UK demolition Government detailing with excitement and relish the spending cuts that will be imposed on Wales in the next financial year. Child trust funds are one of the progressive measures that will, sadly, be lost to us by the end of the year. Most of us on the progressive side of the Chamber, which used to include the Liberal Democrats, know that if you cut public spending when recovery is still fragile, you risk plunging the economy back into a double-dip recession. That is the last thing that families and businesses in Wales want. Can you assure us today that you will do everything that you can to protect growth and investment in Wales, including the continued intelligent use of European structural funds?

The First Minister: You are absolutely right; structural funds have been exceptionally useful to us over the past decade in terms of building the Welsh economy. I share your disappointment at the loss of the child trust fund. I noticed, in the coalition agreement, a commitment to ending child poverty by 2020, but in the same agreement there is a commitment to getting rid of one of the very things that will help to lessen child poverty in the future: the child trust fund. Providing capital for every child under 18 years of age is a good way of distributing money towards children and ensuring that all children start their lives with some capital. I know that that is anathema to the Tories and now to the Lib Dems, but it is something that I strongly support. It is important that we ensure that we reduce and eliminate child poverty. The difference is that they say that, but we want to ensure that we do that.

Rhodri Morgan: Before turning to the meat of my question, I ask the First Minister to join me in congratulating the Cardiff Blues for the wonderful victory over Toulon, winning the European Challenge Cup on Sunday—the first Welsh region to do so in the 15 years of these competitions, making up for the disappointment of Saturday's football.

Jeff Cuthbert: Ddoe, clywsom Ganghellor newydd Llywodraeth ddistrywiol y Deyrnas Unedig yn manylu'n llawn cyffro a brwdfrydedd ynglŷn â'r toriadau mewn gwariant a orfodir ar Gymru yn y flwyddyn ariannol nesaf. Un o'r cynlluniau blaengar a gollwn, yn anffodus, erbyn diwedd y flwyddyn, fydd cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Gŵyr y rhan fwyaf ohonom ar ochr flaengar y Siambr, a arferai gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol, os torrwyd ar wariant cyhoeddus pan fydd yr adferiad yn dal yn fregus, fod perygl ichi hyrddio'r economi yn ôl i ail ddirwasgiad. Dyna'r peth olaf y mae teuluoedd a busnesau Cymru am ei weld. A allwch ein sicrhau heddiw y gwnewch bopeth a allwch i warchod twf a buddsoddi yng Nghymru, gan gynnwys parhau i ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewrop mewn ffordd gall?

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn llygad eich lle; mae cronfeydd strwythurol wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol inni dros y degawd diwethaf o ran adeiladu economi Cymru. Yr wyf finnau'n siomedig o weld colli'r gronfa ymddiriedolaeth plant. Sylwais, yng nghytundeb y glymblaid, ar ymrwymiad i roi terfyn ar dlodi plant erbyn 2020, ond yn yr un cytundeb, ceir ymrwymiad i gael gwared ag un o'r union bethau a fydd o gymorth i leihau tlodi plant yn y dyfodol: y gronfa ymddiriedolaeth plant. Mae rhoi cyfalaf i bob plentyn o dan 18 oed yn ffordd dda o ddosbarthu arian i gyfeiriad plant a sicrhau bod pob plentyn yn dechrau ar daith bywyd gyda rhywfaint o gyfalaf. Gwn fod hynny'n anathema i'r Torïaid ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol hwythau erbyn hyn, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n gryf. Mae'n bwysig inni sicrhau ein bod yn lleihau ac yn dileu tlodi plant. Y gwahaniaeth yw eu bod hwy'n dweud hynny, ond ein bod ni am sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

Rhodri Morgan: Cyn troi at hanfod fy nghwestiwn, gofynnaf i'r Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch Gleision Caerdydd am eu buddugoliaeth wych dros Toulon, gan ennill Cwpan Her Ewrop ddydd Sul—y rhanbarth cyntaf o Gymru i wneud hynny yn 15 mlynedd y cystadlaethau hyn, gan wneud iawn am siom y bêl-droed ddydd Sadwrn.

Turning to the meat of my question, I ask him to congratulate the extraordinary success of Admiral Insurance Company, which is based in Cardiff and also provides a huge amount of employment in Swansea and Newport. It has recruited, or is about to recruit before the end of June, a total of 750 additional staff, bringing its total employment in Cardiff, Newport and Swansea to 3,500. It started as the result of a small grant from the Labour-controlled South Glamorgan County Council in 1994, but has now become a major, entrepreneurial and highly competitive oak tree in the Welsh economy.

The First Minister: I will, of course, congratulate the Blues and commiserate with the Bluebirds for what happened on Saturday. It is quite something for a Bridgend boy to congratulate a Cardiff rugby team, but I will be magnanimous and do that. It was a fantastic win: the first European title for any Welsh team since the European competitions began in the mid 1990s.

You also mentioned Admiral, which is one of our important anchor companies. It has grown from small beginnings in 1994 to employ many thousands of people. In balancing the Welsh economy, it is important that we get more companies like Admiral, more companies that go from being small and medium-sized enterprises to larger companies, and more companies that employ many people in Wales and have their headquarters in Wales. That is the way to build a stable economy for the years to come.

New Road-building Projects

Q7 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on new road-building projects in Wales?
OAQ(3)2883(FM)

The First Minister: The priorities for improving the road network in Wales are set out in the national transport plan.

Eleanor Burnham: Thank you for that concise answer, First Minister. Certain

A throi at hanfod fy nghwestiwn, gofynnaf iddo longyfarch llwyddiant eithriadol Cwmni Yswiriant Admiral, cwmni sydd â'i ganolfan yng Nghaerdydd ac sydd hefyd yn darparu nifer fawr o swyddi yn Abertawe ac yng Nghasnewydd. Mae wedi recriwtio, neu ar fin recriwtio cyn diwedd mis Mehefin, cyfanswm o 750 o staff ychwanegol, gan olygu ei fod yn cyflogi cyfanswm o 3,500 yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Dechreuodd yn sgîl grant bach gan Gyngor Sir De Morgannwg o dan reolaeth y blaid Lafur yn 1994, ond erbyn hyn mae'n dderwen fawr, entrepreneuriaidd hynod gystadleuol yn economi Cymru.

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs y gwnaf longyfarch y Gleision a chydymdeimlo â'r Adar Gleision am yr hyn a digwyddodd ddydd Sadwrn. Mae'n dipyn o beth i fachgen o Ben-y-bont ar Ogwr longyfarch tîm rygbi o Gaerdydd, ond gwnaf hynny'n fawrfrydig. Yr oedd yn fuddugoliaeth wych; y teitl Ewropeaidd cyntaf i unrhyw dîm o Gymru ers dechrau cystadlaethau Ewrop yng nghanol yr 1990au.

Soniasoch hefyd am Admiral, un o'n cwmnïau allweddol pwysicaf. Mae wedi tyfu o fesen fach yn 1994 i gyflogi miloedd lawer. Wrth inni geisio cydbwysedd yn economi Cymru, mae'n bwysig inni gael rhagor o gwmnïau fel Admiral, rhagor o gwmnïau sy'n tyfu o fod yn fentrau bach a chanolig i fod yn gwmnïau mwy, a rhagor o gwmnïau sy'n cyflogi llawer o bobl yng Nghymru sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Dyna sut y mae adeiladu economi sefydlog ar gyfer y blynyddoedd a ddaw.

Prosiectau Adeiladu Ffyrdd Newydd

C7 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brosiectau adeiladu ffyrdd newydd yng Nghymru?
OAQ(3)2883(FM)

Y Prif Weinidog: Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru i'w gweld yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol.

Eleanor Burnham: Diolch ichi am yr ateb cryno hwnnw, Brif Weinidog. Mae rhai

communities across north Wales face daily log-jams because of heavy vehicles and heavy traffic. In June last year, the Deputy First Minister visited Llanrwst, accompanied by the constituency Assembly Member, Gareth Jones, and also by representatives from the trunk road agency. Local councillors and residents were consulted on a number of issues regarding pedestrian safety, but, as yet, there has been no response and no progress. I realise that money is tight, and that the Government has yet to decide on the bypass route, but the adverse effect on towns and villages such as Llanrwst and St Asaph could be vast. Could you update us on the work being done to alleviate these difficulties that occur on a daily basis in such communities?

The First Minister: To deal first with what is being done at the moment, construction has started on the Porthmadog bypass, as you know, and we have made roughly £11.4 million of transport grant resources available to Wrexham County Borough Council to take forward improved access to the industrial estate. Public consultation on the Caernarfon-Bontnewydd bypass has closed recently. At Llanrwst, the situation is complex, and we need to look at a wider range of transport options to deal with the traffic that can build up in the town as it travels down the A470. We are also looking at ways to increase the capacity of the A55 on the Britannia bridge, and at ways to improve junctions 15 and 16. The St Asaph bypass is not a trunk road, and therefore it is a matter for the county council. However, a number of schemes are being taken forward in north Wales to improve road access.

Chris Franks: This week, the first of four exhibitions highlighting plans to dual the A465 Heads of the Valleys road will go on display. Could you give an assurance that we will not see slippage, as we have in the past, on the proposals to dual this important road in my region? Would you make a statement on the potential impact of the spending cuts imposed by the Conservative-Liberal Democrat Government in London on new

cymunedau ledled y gogledd yn wynebu tagfeydd beunyddiol oherwydd cerbydau trymion a thraffig trwm. Ym mis Mehefin y llynedd, ymwelodd y Dirprwy Brif Weinidog â Llanrwst, yng nghwmni'r Aelod Cynulliad dros yr etholaeth, Gareth Jones, a chynrychiolwyr asiantaeth y cefnffyrdd. Ymgynghorwyd â chynghorwyr a thrigolion lleol ynglŷn â sawl peth a oedd yn ymwneud â diogelwch i gerddwyr, ond hyd yn hyn, nid oes dim ymateb na chynnydd wedi bod. Yr wyf yn sylweddoli bod arian yn brin, ac nad yw'r Llywodraeth wedi penderfynu eto ynglŷn â llwybr y ffordd osgoi, ond gallai hyn gael effaith niweidiol enfawr ar drefi a phentrefi megis Llanrwst a Llanelwy. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith sy'n cael ei wneud i liniaru'r anawsterau hyn sy'n codi'n feunyddiol mewn cymunedau o'r fath?

Y Prif Weinidog: A sôn yn gyntaf am yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar ffordd osgoi Porthmadog, fel y gwyddoch, ac yr ydym wedi darparu adnoddau gwerth tua £11.4 miliwn drwy'r grant trafndiaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn iddo fynd ati i wella'r mynediad i'r ystâd ddiwydiannol. Mae'r ymgynghori cyhoeddus ynglŷn â ffordd osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd wedi dod i ben yn ddiweddar. Yn Llanrwst, mae'r sefyllfa'n gymhleth, ac mae angen inni ystyried amrywiaeth ehangach o opsiynau trafndiaeth i ymdrin â'r traffig sy'n gallu cronni yn y dref wrth iddo deithio ar hyd yr A470. Yr ydym hefyd yn ystyried sut y mae cynyddu capasiti'r A55 ar bont Britannia a sut y mae gwella cyffordd 15 a chyffordd 16. Nid cefnffordd yw ffordd osgoi Llanelwy, ac felly, y cyngor sir sy'n gyfrifol am honno. Serch hynny, mae nifer o gynlluniau ar y gweill yn y gogledd i wella'r ffyrdd.

Chris Franks: Yr wythnos hon, bydd y gyntaf o bedair arddangosfa'n agor i ddangos y cynlluniau i ddeuoli ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd. A allech ein sicrhau na welwn yr amserlen yn llithro, fel y gwelwyd yn y gorffennol, o ran y cynlluniau i ddeuoli'r ffordd bwysig hon yn fy rhanbarth? A fydddech yn rhoi datganiad ynglŷn ag effaith bosibl y toriadau ar wario a orfodir gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid

road-building projects? I am concerned that improvements to the M4 to ease congestion may not go ahead because of the spending cuts announced in London.

The First Minister: ‘We do not know yet’ is the answer, because we do not know the split between revenue and capital in terms of the cuts that might be taken forward. I am aware that Northern Ireland has the ability to borrow up to £200 million a year, a power that is not available to Scotland or Wales—but that is for another day, perhaps. At the moment, the plan is to start work on the Brynmawr to Tredegar stretch in 2012, to start Gilwern to Brynmawr by 2014, and the remaining sections by 2020. Until we know the impact of the cuts that will be imposed on us, it is difficult to give any guarantees with regard to future work. However, that is the timetable that we are working to.

David Melding: Will your administration follow the example of the new UK Government and bring in a new form of assessment for road schemes that is carbon-sensitive and pays regard to the integration into the schemes of other forms of transport, such as cycling and walking? This is surely a development that should be welcomed, because many of our assessments are stuck in the 1970s, and based on the predict-and-supply model.

The First Minister: I would not agree with that. The national transport plan looks at provision for cycling and all forms of transport, not just road provision. I would point to what has been done for public transport in Wales, with the re-opening of the Vale of Glamorgan and Ebbw Valley rail lines, and the development of more cycle paths across Wales. Those are examples of the commitment that has been shown over the years by the Welsh Assembly Government to developing sustainable forms of transport, and not just developing roads. That represents a complete change from 20 and 30 years ago.

Rhyddfrydol yn Llundain ar brosiectau adeiladu ffyrdd newydd? Yr wyf yn poeni y gallai'r toriadau ar wario a gyhoeddwyd yn Llundain olygu na fwir ymlaen â gwelliannau i'r M4 er mwyn lliniaru tagfeydd.

Y Prif Weinidog: ‘Ni wyddom eto’ yw'r ateb, oherwydd ni wyddom beth fydd y rhaniad rhwng refeniw a chyfalaf o ran y toriadau posibl. Gwn y gall Gogledd Iwerddon gael benthyg hyd at £200 miliwn y flwyddyn, pŵer nad yw ar gael i'r Alban nac i Gymru—ond dadl ar gyfer diwrnod arall yw honno efallai. Ar hyn o bryd, y cynllun yw dechrau'r gwaith ar y darn rhwng Bryn-mawr a Thredegar yn 2012, dechrau ar y darn rhwng Gilwern a Bryn-mawr erbyn 2014, a'r darnau eraill erbyn 2020. Nes inni wybod beth fydd effaith y toriadau a orfodir arnom, mae'n anodd rhoi unrhyw warant ynglŷn â gwaith yn y dyfodol. Fodd bynnag, dyna'r amserlen yr ydym yn gweithio arni.

David Melding: A wnaiff eich gweinyddiaeth ddilyn esiampl Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig a chyflwyno ffordd newydd o asesu cynlluniau ffyrdd? Mae'r dull hwnnw'n ddull carbon sensitif ac yn rhoi sylw i integreiddio mathau eraill o drafnidiaeth megis beicio a cherdded yn y cynlluniau. Siawns nad yw hyn yn ddatblygiad y dylid ei groesawu oherwydd bod llawer o'n hasesiadau'n gaeth i arferion yr 1970au ac wedi'u seilio ar y model rhagweld a chyflenwi.

Y Prif Weinidog: Ni fyddwn yn cytuno â hynny. Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer beicio ac ar gyfer pob math o drafnidiaeth, nid dim ond y ddarpariaeth ffyrdd. Byddwn yn tynnu'ch sylw at yr hyn sydd wedi'i wneud ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, drwy ailagor rheilffyrdd Bro Morgannwg a Chwm Ebwy, a datblygu mwy o lwybrau beicio ledled Cymru. Mae'r rheini'n enghreifftiau o'r ymrwymiad sydd wedi'i ddangos dros y blynyddoedd gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu ffurfiau cynaliadwy ar drafndiaeth ac nid dim ond i ddatblygu ffyrdd. Mae hynny'n newid llwyr o'i gymharu â'r hyn a ddigwyddai 20 a 30 mlynedd yn ôl.

Cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru**The Welsh Assembly Government Budget**

C8 Nerys Evans: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)2874(FM)

Q8 Nerys Evans: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's budget? OAQ(3)2874(FM)

Y Prif Weinidog: Terfyn gwariant adrannol Cymru yw £15.7 biliwn ar gyfer 2010-11, ac mae hwnnw'n rhan o'r gyllideb a gyhoeddwyd fis Ebrill.

The First Minister: The Wales departmental expenditure limit for 2010-11 is £15.7 billion, and is part of the budget that was published in April.

Nerys Evans: Gan ddilyn ymlaen o gwestiwn Rhodri Glyn, mae'r newyddion ddoe fod Llywodraeth San Steffan am dorri cyllideb Cymru yn destun pryder mawr. A ydych yn cytuno ei bod hi'n hollol anghredadwy a gwarthus bod y ddwy blaid sy'n llywodraethu yn Llundain wedi cydnabod, ar un llaw, fod fformiwla ariannu Cymru yn annheg, bod Cymru yn colli £300 miliwn y flwyddyn, a bod angen diwygio fformiwla Barnett, ond, ar y llaw arall, eu bod yn gwrthod gweithredu ar y pwyntiau hyn? Yn hytrach, mae Llywodraeth San Steffan yn torri gwariant i Gymru ar raddfa uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, a fydd yn peryglu tyfiant economaidd, a bydd yn ychwanegol at y tanwariant yng Nghymru dros y ddegawd ddiwethaf.

Nerys Evans: To follow on from Rhodri Glyn's question, the news yesterday that the Westminster Government is to cut the Welsh budget is a cause of great concern. Would you agree that it is quite unbelievable and disgraceful that the two parties in Government in London have recognised, on the one hand, that the funding formula for Wales is unfair, that Wales is losing out to the tune of £300 million per annum, and that the Barnett formula needs to be reviewed, and yet, on the other hand, is refusing to take action on these points? Instead, the Westminster Government is cutting expenditure for Wales at a higher rate than the average for the rest of the UK, which will endanger economic growth, and will come in addition to the underspend in Wales over the last decade.

2.20 p.m.

Y Prif Weinidog: Mae risg mawr o ddirwasgiad sy'n gostwng ddwywaith. Yr ydym, fel Llywodraeth, yn gwneud yr hyn a allwn er mwyn sicrhau na fydd hynny'n digwydd yng Nghymru. Mae'n bwysig dros ben ein bod yn gweld chwarae teg i Gymru. Mae gennym dystiolaeth bellach o du comisiwn Holtham, sy'n dystiolaeth nad oedd yn bod o'r blaen. Yr oedd llawer o sôn dros y blynyddoedd bod problem ynglŷn â Barnett, ond nid oedd dystiolaeth gadarn ar gael. Mae'r dystiolaeth honno ar gael bellach ac mae'n dangos bod Cymru yn colli allan ar ryw £300 miliwn y flwyddyn. Mae'n siom fawr bod Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig wedi penderfynu peidio â gweithredu'r argymhellion ac felly rhaid inni aros tan ar ôl y refferendwm. Unwaith eto, mae hynny'n rhyfedd iawn.

The First Minister: There is a great risk of a double-dip recession. We, as a Government, are doing what we can in order to ensure that that does not happen in Wales. It is exceptionally important that we see fair play for Wales. We now have evidence from the Holtham commission, which is evidence that did not exist previously. There has been much talk over the years that there is a problem with Barnett, but there was no firm evidence. That evidence is now available and it shows that Wales loses out on about £300 million a year. It is a great disappointment that the new UK Government has decided not to implement Holtham and therefore we will have to wait until after the referendum. Once again, that is extremely odd.

Darren Millar: One of the many efficiency savings announced yesterday by the

Darren Millar: Yr oedd a wnelo un o'r llu o arbedion effeithlonrwydd a gyhoeddwyd

Conservative Chancellor, George Osborne, related to Government travel costs. We were told that UK Government Ministers will lose their ministerial cars and be expected to use public transport or pool cars, that Ministers and civil servants will be banned from using first-class travel and that the quangos that spend money on first-class travel could have that money taken from their budgets. Do you agree that these are sensible measures at this difficult time to tackle the budget deficit that was left in Downing Street by Gordon Brown, and are you able to confirm today that you will follow this excellent example from the new Government in Westminster?

The First Minister: We already have ministerial pool cars; we always have done. We have never had dedicated ministerial cars, so we are already a long way ahead of you in that regard. We always look to ensure best value in how we travel, and make use of video-conferencing and ensure that we look for the best travel deals. Travel only takes place when it is absolutely necessary. Our Ministers have never had dedicated cars.

Alun Davies: How do you follow that? First Minister, with regard to your priorities over the coming months, will you continue to prioritise fair funding for Wales? I remember Kirsty Williams, before she was demoted to being Nick Bourne's deputy, telling us that the Welsh funding deficit is all the more damaging during a recession and that now was the time to act. I agreed with her then, but I disagree with her today. Will you, First Minister, continue to fight for fair funding for Wales, and continue to ensure that our public services are protected against Liberal-Conservative cuts?

The First Minister: Absolutely. We need to ensure that we protect Wales as much as possible and ensure that we do not make cuts across the board without there being any

ddoe gan Ganghellor y Ceidwadwyr, George Osborne, â chostau teithio'r Llywodraeth. Dywedwyd wrthym na chaiff Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig gar Gweinidog rhagor ac y bydd disgwyl iddynt ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu gerbydau'r gronfa, y gwaherddir Gweinidogion a gweision sifil rhag defnyddio tocynnau teithio dosbarth cyntaf a'i bod yn bosibl y bydd y cwangos sy'n gwario arian ar docynnau teithio dosbarth cyntaf yn colli'r arian hwnnw o'u cyllidebau. A gytunwch fod y camau hyn yn gamau call mewn cyfnod anodd fel hyn er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb a adawyd yn Stryd Downing gan Gordon Brown, ac a allwch gadarnhau heddiw y byddwch yn dilyn yr esiampl ragorol hon gan y Llywodraeth newydd yn San Steffan?

Y Prif Weinidog: Mae gennym eisoes geir cronfa i Weinidogion; dyna fu'r arfer drwy'r amser. Nid yw Gweinidogion y Llywodraeth hon erioed wedi cael car Gweinidog iddynt hwy eu hunain, felly yr ydym eisoes ymhell ar y blaen ichi o ran hynny. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau wrth deithio, yn defnyddio fideo-gynadledda ac yn sicrhau ein bod yn chwilio am y bargeinion gorau ar gyfer teithio. Ni fyddwn yn teithio ond pan fydd hynny'n wirioneddol angenrheidiol. Ni fu gan ein Gweinidogion gar personol erioed.

Alun Davies: Sut y mae dilyn hynny? Brif Weinidog, o ran eich blaenoriaethau yn y misoedd nesaf, a fyddwch yn parhau i flaenoriaethu ariannu teg i Gymru? Cofiaf i Kirsty Williams ddweud wrthym, cyn iddi gael ei darostwng yn ddirprwy i Nick Bourne, fod y diffyg yn nhrefn ariannu Cymru yn fwy niweidiol o lawer mewn dirwasgiad a bod angen gweithredu'n awr. Yr oeddwn yn cytuno â hi bryd hynny, ond nid wyf yn cytuno â hi heddiw. A wnewch chi, Brif Weinidog, barhau i frwydro dros ariannu teg i Gymru, a pharhau i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu gwarchod rhag toriadau'r Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr?

Y Prif Weinidog: Yn sicr. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwarchod Cymru gymaint ag y gallwn a sicrhau nad ydym yn torri ym mhob maes heb sail resymegol. Dyna pam yr

logic to them, which is why we are going through the budget line by line at the moment to identify the areas where it is essential to continue funding for the future and the areas where funding will no longer be available.

Jenny Randerson: There seems to be some very short memories here this afternoon, because only a month ago Alistair Darling, who was, at that point, Chancellor of the Exchequer, reconfirmed that he was sticking with the Barnett formula because it worked well. Your recent protests display a remarkably short memory. You said earlier this afternoon that you do not understand why a decision on funding has been delayed until after a referendum. Quite simply, it is because the Liberal Democrat-Conservative coalition wants to go beyond Holtham, to Holtham plus. We have been guilty, across all four parties in this Chamber, of being far too modest in our ambitions for this Assembly. I can understand why it has been such a struggle to get the Labour Government to accept any additional powers for the Assembly. We want tax-raising powers for this Assembly. That is what we are looking at and, obviously, that must come after a referendum on legislative powers. First Minister—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Jenny Randerson: What are your views, First Minister, on tax-raising powers for the Assembly? Would you support them?

The First Minister: The Holtham commission is due to report on that in the summer. The point that it is making is that there are some areas where it would be very difficult to have tax-raising powers and other areas where that may be possible. However, the commission will report on that towards the summer; we expect the report before we go into recess.

I am glad that you have committed yourself and your Conservative colleagues to Holtham plus. I look forward to David Davies defending that in Parliament and explaining the Liberal Democrat-Conservative Government's view on that. I note that the

ydym yn mynd drwy'r gyllideb fesul llinell ar hyn o bryd i weld pa feysydd y mae'n hanfodol parhau i'w cyllido at y dyfodol a pha feysydd na fydd arian ar gael ar eu cyfer rhagor.

Jenny Randerson: Mae cof sawl un yn fyr iawn yma y prynhawn yma i bob golwg, oherwydd fis yn ôl ailgadarnhaodd Alistair Darling, ac yntau ar y pryd yn Ganghellor y Trysorlys, ei fod am lynu wrth fformiwla Barnett oherwydd ei bod yn gweithio'n dda. Mae eich protestio'n ddiweddar yn dangos bod eich cof yn rhyfeddol o fyr. Dywedasoeh yn gynharach y prynhawn yma nad ydych yn deall pam mae penderfyniad ynglŷn ag ariannu wedi'i ohirio tan ar ôl refferendwm. Yn syml iawn, y rheswm yw bod clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr am fynd y tu hwnt i Holtham, i Holtham a mwy. Yr ydym wedi bod yn euog, ym mhob un o'r pedair plaid yn y Siambr hon, o fod yn llawer rhy gyfyng ein huchelgais dros y Cynulliad hwn. Gallaf ddeall pam y mae wedi bod mor anodd cael gan y Llywodraeth Lafur dderbyn unrhyw bwerau ychwanegol i'r Cynulliad. Yr ydym am gael pwerau codi trethi i'r Cynulliad hwn. Dyna yr ydym yn ei ystyried, ac mae'n amlwg bod yn rhaid i hynny ddod ar ôl refferendwm ynglŷn â phwerau deddfwriaethol. Brif Weinidog—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Jenny Randerson: Beth yw eich barn, Brif Weinidog, am bwerau codi trethi i'r Cynulliad hwn? A fydech yn eu cefnogi?

Y Prif Weinidog: Disgwylir i gomisiwn Holtham gyflwyno'i adroddiad am hynny yn yr haf. Y pwynt y mae'n ei wneud yw bod rhai meysydd lle y byddai'n anodd iawn cael pwerau codi trethi a meysydd eraill lle y gallai hynny fod yn bosibl. Fodd bynnag, bydd y comisiwn yn cyflwyno adroddiad am hynny tua diwedd yr haf; disgwylir yn adroddiad cyn i'r toriad ddechrau.

Yr wyf yn falch eich bod chi a'ch cyd-Aelodau Ceidwadol wedi ymrwymo i Holtham a mwy. Edrychaf ymlaen at weld David Davies yn amddiffyn hynny yn y Senedd yn Llundain ac yn esbonio safbwynt Llywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r

Liberal Democrats are the lead party in that coalition; I would tell David Cameron to beware. It may well be that the position taken before the general election was that Barnett was appropriate. We did not take that view as an Assembly Government. The point is that now that your party is in Government across the United Kingdom, it has forgotten about its commitments to Holtham. Now you are saying that you want Holtham plus. That is not in the coalition agreement, so let us see what your Government says about that. To come back to the point, what is the connection between fair funding for Wales and a referendum for further powers for the Assembly? The two things are not connected. You should have had the courage of your convictions and pushed for Holtham and for fairer funding for Wales.

Ceidwadwyr am hynny. Sylwaf mai'r Democratiaid Rhyddfrydol yw'r blaid sy'n arwain y glymblaid honno; byddwn yn dweud wrth David Cameron am fod yn ochelgar. Efallai mai'r safbwynt cyn yr etholiad cyffredinol oedd bod Barnett yn briodol. Nid dyna oedd ein safbwynt ni, Lywodraeth y Cynulliad. Y pwynt yw, a'ch plaid chi bellach yn llywodraethu ar draws y Deyrnas Unedig, ei bod wedi anghofio am ei hymrwymiaidau i Holtham. Yr ydych yn dweud yn awr eich bod am gael Holtham a mwy. Nid yw hynny yng nghytundeb y glymblaid, felly gadewch inni weld beth fydd gan eich Llywodraeth i'w ddweud am hynny. A dychwelyd at y pwynt, beth yw'r cysylltiad rhwng ariannu teg i Gymru a refferendwm ynglŷn â rhagor o bwerau i'r Cynulliad? Nid oes cysylltiad rhwng y ddau beth. Dylech fod wedi bod yn driw i'ch argyhoeddiad a phwyso am wireddu argymhellion Holtham ac am ariannu tecach i Gymru.

Priorities

Q9 Angela Burns: Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for the current year? OAQ(3)2880(FM)

The First Minister: We will continue fulfilling our 'One Wales' commitments, delivering our legislative programme, and supporting the economic recovery as best we can.

Angela Burns: Thank you for that, First Minister. We all recognise that we need to get on top of the massive fiscal deficit that has been inherited by the current UK Government, and it will result in you having to make some tough calls in Wales. I have been listening with interest today to the yelps of outrage from your backbench Members. May I suggest that a priority for this coming year is stopping the shocking waste of money in the NHS resulting from the last-minute cancellations of operations? I have had representations on this from several constituents over the last few years. Two weeks ago, a constituent of mine was due to have an operation at Morryston Hospital with four medical teams, because she is to die very shortly. She was on the table for three hours, marked up and ready to go, and was then told

Blaenoriaethau

C9 Angela Burns: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y flwyddyn bresennol? OAQ(3)2880(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiaidau yn 'Cymru'n Un', i wireddu'n rhaglen ddeddfwriaethol, ac i gefnogi'r adferiad economaidd gystal ag y gallwn.

Angela Burns: Diolch ichi am hynny, Brif Weinidog. Yr ydym i gyd yn sylweddoli bod angen inni gael trefn ar y diffyg ariannol enfawr y mae Llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig wedi'i etifeddu, a chanlyniad hynny fydd y bydd yn rhaid ichi wneud sawl penderfyniad anodd yng Nghymru. Yr wyf wedi bod yn gwranddo gyda diddordeb heddiw ar gyfarth dig eich Aelodau ar y meinciau cefn. A gaf awgrymu mai un flaenoriaeth yn y flwyddyn nesaf hon fydd atal y gwastraff syfrdanol ar arian yn y GIG yn sgîl canslo llawdriniaethau ar y funud olaf? Mae amryw o'm hetholwyr wedi dod ataf i gwyno am hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bythefnos yn ôl, yr oedd un o'm hetholwyr i fod i gael llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys o dan law pedwar tîm meddygol, oherwydd bod ei bywyd yn y

that the operation had to be cancelled because an intensive care bed was not available. Apart from the terrible cost to the individual, the cost of having four full medical teams on standby, who then have nothing else to do that day—it was a day-long operation—because the operation has been cancelled, must be enormous. That does not happen every day, but it happens too often. We talk about the problems that we have getting rid of our fiscal deficit; stopping some of this waste would help to mitigate the effects that we will otherwise have later on.

The First Minister: It is difficult to comment on an individual case, although it seems a very difficult one, particularly for the individual concerned. I do not know the details. However, we are kidding ourselves if we think that by ironing out situations such as that we will save £163 million in one year. It will not happen. I remain to be convinced that £6.5 billion can be found through administrative savings. Let us wait and see on that one. We will, of course, look to eliminate waste where we can. That is a job that any Government should do at any time, regardless of the fiscal situation. We have done that. We have reduced the number of quangos and we have looked to reduce the amount of money that was being spent in areas where we thought that money was being wasted. We have dealt with inefficiencies in years gone by. The efficiency and innovation board is in place, with a programme that follows that. We have 'Managing with Less', which looks at travel and other costs that could be cut back on given the current fiscal situation. It is not the case that we have sat here doing nothing for the past few years. We have looked at every way in which we can reduce costs, and we have done that before Whitehall is doing so. It is, therefore, exceptionally difficult now for us to find savings in areas where Whitehall has not made savings and we have done so. It will be impossible for us to find this money through administrative savings and through changing working practices alone. It is bound to have an effect on

fantol. Bu ar y bwrdd am deirawr, ei chorff wedi'i farcio ac yn barod i fynd pan ddywedwyd wrthi iddynt orfod canslo'r llawdriniaeth oherwydd nad oedd gwely gofal dwys ar gael. Ac eithrio'r gost ofnadwy i'r unigolyn, mae'n anorfod bod cost enfawr ynghlwm wrth gael pedwar tîm meddygol llawn wrth law, a'r rheini wedyn heb ddim byd arall i'w wneud y diwrnod hwnnw—yr oedd y llawdriniaeth i fod i bara drwy'r dydd—oherwydd iddi gael ei chanslo. Nid yw hynny'n digwydd bob dydd, ond mae'n digwydd yn rhy aml. Byddwn yn sôn am y problemau sydd gennym o ran cael gwared â'n diffyg ariannol; byddai atal rhywfaint o'r gwastraff hwn yn gymorth i liniaru'r effeithiau y byddwn fel arall yn eu hwynebu'n ddiweddarach.

Y Prif Weinidog: Mae'n anodd sôn am achos unigol, er ei fod i bob golwg yn achos trallodus iawn, yn enwedig i'r unigolyn dan sylw. Ni wn y manylion. Serch hynny, yr ydym yn ein twyllo'n hunain os tybiwn yr arbedwn £163 miliwn mewn blwyddyn drwy ddatrys sefyllfaoedd fel honno. Ni ddigwydd hynny. Nid wyf wedi fy argyhoeddi eto y gellir dod o hyd i £6.5 biliwn drwy arbedion mewn gweinyddu. Gadewch inni aros i weld. Wrth gwrs, byddwn yn ceisio dileu gwastraff lle y gallwn. Mae hwnnw'n waith y dylai unrhyw Lywodraeth ei wneud o hyd, ni waeth beth yw'r sefyllfa ariannol. Yr ydym wedi gwneud hynny. Yr ydym wedi lleihau nifer y cwangos ac wedi ceisio gwario llai mewn meysydd lle yr oeddem yn meddwl bod arian yn cael ei wastraffu. Yr ydym wedi ymdrin ag aneffeithlonrwydd yn y blynyddoedd sydd wedi mynd heibio. Mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi ar waith, a chanddo raglen sy'n mynd ar drywydd hynny. Mae gennym 'Llwyddo â Llai', sy'n rhoi sylw i gostau teithio a chostau eraill y gellid eu tocio, o gofio'r sefyllfa ariannol bresennol. Nid yw'n wir ein bod wedi eistedd yma heb wneud dim yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr ydym yn edrych ar bob ffordd bosibl o leihau costau, ac yr ydym wedi gwneud hynny cyn i Whitehall wneud hynny. Felly, mae'n eithriadol o anodd yn awr inni ganfod arbedion mewn meysydd lle nad yw Whitehall wedi arbed arian a ninnau wedi gwneud hynny. Bydd yn amhosibl inni ddod o hyd i'r arian hwn drwy arbedion mewn gweinyddu a thrwy newid arferion

services, which will affect people's lives.

gweithio'n unig. Bydd yn siŵr o effeithio ar wasanaethau, a bydd hynny'n effeithio ar fywydau pobl.

Leanne Wood: The scope of the cuts that need to be implemented in Wales under the Con-Dem coalition Government has now been outlined to us. Despite pre-election assurances from both the Liberal Democrats and the Conservatives that they would fight to protect the Welsh budget, we are now looking down the barrel of a gun in £162.5 million in cuts. If that is what being protected means, I dread to think what havoc will be wreaked on us in terms of the Welsh Assembly Government budget in future years under that administration. Have you had an opportunity yet to work out the implications of these savage cuts on public sector jobs in Wales? Have you had an opportunity yet to work out what further savings can be made to meet this £162.5 million cut that has been identified?

Leanne Wood: Yr ydym wedi cael gwybod yn awr beth fydd hyd a lled y toriadau y bydd angen eu rhoi ar waith yng Nghymru o dan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Er gwaetha'r sicrwydd a gawsom cyn yr etholiad gan y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr y byddent yn brwydro i warchod cyllideb Cymru, yr ydym erbyn hyn yn wynebu toriadau o £162.5 miliwn. Os dyna yw ystyr gwarchod, mae'n gas gennyf feddwl pa fath o ddifrod a wneir inni o ran cyllideb Llywodraeth y Cynulliad o dan y weinyddiaeth honno yn y blynyddoedd nesaf. A ydych wedi cael cyfle eto i weld beth fydd oblygiadau'r toriadau erchyll hyn ar swyddi'r sector cyhoeddus yng Nghymru? A ydych wedi cael cyfle eto i weld pa arbedion eraill y gellir eu gwneud i sicrhau'r toriad hwn o £162.5 miliwn sydd dan sylw?

2.30 p.m.

The First Minister: There are too many questions that are yet unanswered. We know the global figure. For example, we do not know the split between the revenue and capital. I suspect that much of the detail will be filled in after the budget next month. Once we have more detail, we will then have to decide whether we defer all or part of this year's in-year cuts until next year, what the scope would be for that, and what the effects of that would be on the Welsh economy and the Welsh public sector, which so many people rely on. Until we get that further information, it will be difficult to take a final view. We will take a final view next month.

Y Prif Weinidog: Mae gormod o gwestiynau sydd heb eu hateb eto. Gwyddom beth yw'r cyfanswm. Er enghraifft, ni wyddom beth fydd y rhaniad rhwng refeniw a chyfalaf. Tybiaf y clywn lawer o'r manylion ar ôl y gyllideb fis nesaf. Pan fydd rhagor o fanylion gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu wedyn a ddylem ohirio'r holl doriadau yn ystod y flwyddyn eleni neu rywfaint ohonynt tan y flwyddyn nesaf, pa mor bosibl fyddai hynny, a pha effaith a gâi hynny ar economi Cymru ac ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, y mae cynifer o bobl yn dibynnu arno. Nes inni gael y wybodaeth ychwanegol honno, bydd yn anodd llunio barn derfynol. Byddwn yn llunio barn derfynol fis nesaf.

'One Wales' Commitments

Ymrwymïadau 'Cymru'n Un'

Q10 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on the delivery of the 'One Wales' commitments?
OAQ(3)2881(FM)

C10 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni ymrwymïadau 'Cymru'n Un'?
OAQ(3)2881(FM)

The First Minister: We are making good progress in delivering our 'One Wales' commitments and we will continue to do so.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein hymrwymïadau yn 'Cymru'n Un', a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Helen Mary Jones: Given your response to Leanne Wood just now, First Minister, I realise that it may not be possible to do this, but on the basis of your estimation of how things currently stand, and given the changed economic circumstances, how confident are you that the Government will be able to deliver on its 'One Wales' health commitments?

The First Minister: Much of work has already been done, and many of the commitments have, thankfully, already been delivered. For example, the Social Care Charges (Wales) Measure 2010 and the LCO in relation to carers have been delivered. Those were legislative commitments. Another example is looking at revised arrangements for concerns, complaints and redress. Much of it has already been done. The difficulty is what effect these cuts will have on service delivery, rather than on 'One Wales' commitments, many of which have already been delivered. Let us face it: it was going to be difficult anyway in the next financial year, but we now face an even more difficult situation next year and in the years to come.

Jonathan Morgan: First Minister, the 'One Wales' document also committed you to the introduction of an all-Wales purchasing code of practice to increase the overall amount of public purchasing sourced from businesses in Wales. I understand that you have already done that. I have been doing a bit of research examining how the NHS and local authorities in Wales procure ICT hardware and software. Information for the year that I have available—and this is a minimum figure, because some authorities were not able to provide total figures—shows that at least £80 million can be spent in any one year by local authorities and NHS bodies collectively, and so a great deal of money is being spent on procuring ICT alone, let alone anything else that local authorities and NHS bodies need to procure. However, less than five per cent of that money was spent purchasing those services from companies based in Wales. Hand on heart, can you say whether your all-

Helen Mary Jones: O ystyried eich ymateb i Leanne Wood gynnu, Brif Weinidog, yr wyf yn sylweddoli na fydd modd gwneud hyn o bosibl, ond ar sail eich barn ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd, ac o ystyried y newid yn yr amgylchiadau economaidd, pa mor hyderus yr ydych y bydd y Llywodraeth yn gallu cyflawni'r ymrwymadau yn 'Cymru'n Un' sy'n ymwneud ag iechyd?

Y Prif Weinidog: Mae llawer o'r gwaith wedi'i wneud eisoes, ac mae llawer o'r ymrwymadau, diolch byth, wedi'u cyflawni eisoes. Er enghraifft, mae Mesur Taliadau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 a'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynglŷn â gofalwyr wedi'u gwireddu. Ymrwymadau deddfwriaethol oedd y rheini. Enghraifft arall yw edrych ar drefniadau diwygiedig ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn. Mae llawer o hynny wedi'i wneud eisoes. Yr anhawster yw pa effaith a gaiff y toriadau hyn ar ddarparu gwasanaethau, yn hytrach nag ar ymrwymadau 'Cymru'n Un', gan fod llawer o'r rheini wedi'u gwireddu eisoes. Gadewch inni wynebu'r gwir: yr oedd am fod yn anodd beth bynnag yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond yn awr yr ydym yn wynebu sefyllfa anos byth y flwyddyn nesaf ac yn y blynyddoedd wedyn.

Jonathan Morgan: Brif Weinidog, yn y ddogfen 'Cymru'n Un' ymrwymasoch hefyd i gyflwyno cod ymarfer prynu i Gymru gyfan er mwyn cynyddu'n gyffredinol faint o nwyddau a gwasanaethau y bydd cyrff cyhoeddus yn eu prynu gan fusnesau yng Nghymru. Caf ar ddeall eich bod eisoes wedi gwneud hynny. Yr wyf wedi bod yn gwneud ychydig o ymchwil i weld sut y mae'r GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru'n prynu caledwedd a meddalwedd TGCh. Dengys y wybodaeth ar gyfer y flwyddyn sydd ar gael gennyf—ac isafswm yw hwn oherwydd ni allai rhai awdurdodau ddarparu cyfansymiau—y gall awdurdodau lleol a chyrff y GIG gyda'i gilydd wario o leiaf £80 miliwn y flwyddyn, ac felly mae llawer iawn o arian yn cael ei wario ar gaffael TGCh yn unig, heb sôn am ddim byd arall y mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y GIG ei gaffael. Serch hynny, gwariwyd llai na phump y cant o'r arian hwnnw ar brynu gwasanaethau gan

Wales code of practice is actually working?

The First Minister: It will take some time to filter through. It is also important that Welsh firms put themselves in a position where they can bid for the work. In the field of food procurement for example, we had a procurement initiative in place that helped Welsh firms to be in a position to bid for those contracts. For example, the problem with the beef contract for the NHS was that no Welsh firm could do it. They could not deliver day-in day-out, week-in week-out, month-in month-out, and therefore they could not bid for the contracts. That was overcome, and we are now in a position where most if not all beef that finds its way into NHS hospitals in Wales is Welsh beef. That is because the work was done with the suppliers to ensure that the suppliers knew what was needed by the NHS to make a successful contract. What is important for firms looking to bid for ICT contracts is that they equip themselves with the information that they need to ensure that they understand the requirements of the contract. In doing so, I am confident that more Welsh firms will be able to bid successfully for contracts in future.

Mick Bates: One of the great commitments that everybody signed up to in the 'One Wales' document was the reduction of Wales's carbon emissions. I am sure that you would agree with me about the value of wind power developments as part of that process, environmentally and economically. A recent economic report on wind power in Wales showed that the wind energy sector is currently worth £158 million to the Welsh economy, as well as all the business rates that must also be paid. This is particularly important to the rural economy. Given that wind energy is the most commercially viable form of renewable energy, it is a great shame, as I am sure you agree, that so many planning applications are held up in Wales—often for twice as long as in Scotland or England. This demands some action. First Minister, what action are you taking to ensure that our

gwmnïau sydd â'u canolfan yng Nghymru. A'ch llaw ar eich calon, a allwch ddweud a yw eich cod ymarfer i Gymru gyfan yn gweithio mewn gwirionedd?

Y Prif Weinidog: Bydd angen peth amser iddo ddod i'r amlwg. Mae'n bwysig hefyd i gwmnïau Cymru sicrhau eu bod mewn sefyllfa lle y gallant wneud cais am y gwaith. O ran caffael bwyd, er enghraifft, sefydlwyd cynllun caffael gennym i gynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i fod mewn sefyllfa i wneud cais am y contractau hynny. Er enghraifft, problem y contract cig eidion ar gyfer y GIG oedd na allai'r un cwmni yng Nghymru gyflawni'r gwaith. Ni allent ddarparu'r cig bob dydd, bob wythnos, bob mis, ac felly ni allent wneud cais am y contractau. Llwyddwyd i ddatrys hyn ac yr ydym yn awr mewn sefyllfa lle y bydd y rhan fwyaf o'r cig eidion os nad y cyfan sy'n cyrraedd ysbytai'r GIG yng Nghymru'n dod o Gymru. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod y gwaith wedi'i wneud gyda'r cyflenwyr i sicrhau eu bod yn gwybod pa fath o contract yr oedd ei angen ar y GIG er mwyn llwyddo. Yr hyn sy'n bwysig i gwmnïau sy'n awyddus i wneud cais am contractau TGCh yw eu bod yn eu harfogi eu hunain â'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn deall gofynion y contract. Drwy wneud hynny, yr wyf yn hyderus y bydd mwy o gwmnïau o Gymru'n gallu gwneud cais llwyddiannus am contractau yn y dyfodol.

Mick Bates: Un o'r ymrwymïadau mawr yr oedd pawb yn ei gefnogi yn nogfen 'Cymru'n Un' oedd lleihau allyriadau carbon Cymru. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno â mi ynglŷn â gwerth datblygiadau ynni'r gwynt fel rhan o'r broses honno, o safbwynt yr amgylchedd a'r economi. Dangosodd adroddiad economaidd yn ddiweddar am ynni'r gwynt yng Nghymru fod y sector ynni'r gwynt ar hyn o bryd yn werth £158 miliwn i economi Cymru, a hynny heb gyfri'r ardrethi busnes y mae'n rhaid eu talu hefyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i economi cefn gwlad. Gan mai ynni'r gwynt yw'r ffurf fwyaf hyfyw'n fasnachol ar ynni adnewyddadwy, mae'n bechod mawr, fel y cytunwch, yr wyf yn siŵr, fod cynifer o geisiadau cynllunio'n wynebu oedi yng Nghymru. Bydd yr oedi'n aml gymaint ddwywaith ag yn yr Alban neu yn Lloegr.

planning system operates to help you meet your carbon reduction commitment and, more importantly, the target in TAN 8 to produce 800 MW of onshore wind power by this year?

The First Minister: Wind power has great potential in Wales, both onshore and offshore. People sometimes think that wind energy is somehow a drain on economic resources, that it requires lots of subsidies and does not generate any money. However, you and I know that that is not right. You have already quoted, quite rightly, the figures that show that wind energy contributes to the Welsh economy and has the potential to contribute even more in future. It is important that we ensure that we have in place facilities where wind turbines can be built and maintained to add even more to the Welsh economy.

It is important that local authorities do not take an unacceptably long time in determining planning applications. That is a general point about any planning application. It is important that applicants know that if an application is delayed unnecessarily, there are ways of dealing with that via a planning appeal. Nevertheless, TAN 8 is in place, and the planning guidance is clear. There may well be occasions when local authorities want to issue supplementary planning guidance, and for good reason, but it is also important that we have a planning system that responds quickly in all areas of business to any firm that wishes to bring economic advantage to a particular area. Some local authorities are better than others at doing that, but it is absolutely important that where jobs can be created and money generated for a local economy via renewable energy, the opportunity is grasped.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei atebion.

Mae angen gwneud rhywbeth ynglŷn â hyn. Brif Weinidog, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod ein system cynllunio'n gweithio i'ch cynorthwyo i gyflawni'ch ymrwymiad i leihau carbon, ac, yn anad dim, y targed yn TAN 8 i gynhyrchu 800 MW o ynni'r gwynt ar y tir erbyn eleni?

Y Prif Weinidog: Mae potensial enfawr i ynni'r gwynt yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr. Bydd pobl yn meddwl weithiau fod ynni'r gwynt rywsut yn draul ar adnoddau economaidd, fod angen llawer o gymorthdaliadau arno ac nad yw'n creu arian o gwbl. Fodd bynnag, gwyddoch chi a minnau nad yw hynny'n iawn. Yr ydych eisoes wedi dyfynnu, a hynny'n gwbl gywir, y ffigurau sy'n dangos bod ynni'r gwynt yn cyfrannu at economi Cymru ac y gallai gyfrannu fwy byth yn y dyfodol. Mae'n bwysig inni sicrhau bod gennym gyfleusterau lle y gellir adeiladu tyrbinau gwynt a'u cynnal a'u cadw er mwyn ychwanegu mwy byth at economi Cymru.

Mae'n bwysig nad yw awdurdodau lleol yn treulio cyfnod annerbyniol o hir yn penderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Mae hwnnw'n bwynt cyffredinol sy'n wir am unrhyw gais cynllunio. Mae'n bwysig i ymgeiswyr wybod, os oes oedi diangen gyda chais, fod trefn yr apêl cynllunio ar gael er mwyn mynd i'r afael â hynny. Fodd bynnag, mae TAN 8 ar waith, ac mae'r canllawiau cynllunio'n glir. Ar brydiau, efallai y bydd awdurdodau lleol am gyhoeddi canllawiau cynllunio atodol, a bod rheswm da dros hynny, ond mae'n bwysig hefyd fod gennym system cynllunio sy'n ymateb yn ddi-oed ym mhob maes busnes i unrhyw gwmni sydd am ddod â budd economaidd i ardal benodol. Mae rhai awdurdodau lleol yn well na'i gilydd am wneud hynny, ond mae'n hollbwysig, os oes modd creu swyddi a chreu arian ar gyfer economi leol drwy gyfrwng ynni adnewyddadwy, i'r awdurdod fachu'r cyfle hwnnw.

The Presiding Officer: Thank you very much, First Minister, for your answers.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): There are two changes to this week's planned Government business to report. In addition to today's planned Government business, I will be making a statement on the implications of the Westminster Government's spending cuts after this business statement. Prior to today's debate on the 'Woodlands for Wales Action Plan', Carl Sargeant, Minister for Social Justice and Local Government, will be making a statement on Communities First. However, business for the next three weeks is as set out in the business statement and announcement, which can be found in the agenda papers that are available to Members electronically.

Andrew R.T. Davies: I wonder whether I could elicit a statement from the Minister for Health and Social Services on the ending of the joint working grant and the promoting independence and wellbeing grant, which is due to cease in April 2011. The latter is a valuable grant that helps many voluntary organisations to provide good community services that might not otherwise exist. It also unlocks valuable match funding from local authorities. By terminating this grant and incorporating it as a means of funding in the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure—as the Minister's letter to me of 18 May would indicate—the Minister has obviously taken away, albeit with notice to the organisations, a valuable plank of funding. I believe that such an important rebalancing of the budget would have been worthy of a written or oral statement so that the Minister could have been scrutinised and held to account.

Jane Hutt: These grants were always time-limited, and partners were clearly aware of this fact. They were used to pump prime best practice in joint working and flexibilities, and the Minister has accordingly managed it in this important way.

Alun Davies: I would like to ask for three statements. First, I would like to have a

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Ceir dau newid ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Yn ogystal â busnes y Llywodraeth ar gyfer heddiw, byddaf yn gwneud datganiad am oblygiadau'r toriadau mewn gwariant gan Lywodraeth San Steffan ar ôl y datganiad busnes hwn. Cyn y ddatl heddiw am 'Gynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru', bydd Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn rhoi datganiad am Gymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, a welir ymysg papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

Andrew R.T. Davies: Tybed a allwn gael datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am derfynu'r grant cydweithio a'r grant hyrwyddo annibyniaeth a lles, sydd i ddod i ben ym mis Ebrill 2011? Mae'r olaf o'r ddau'n grant gwerthfawr sy'n cynorthwyo llawer o fudiadau gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau cymunedol da na fyddent ar gael fel arall. Mae hefyd yn datgloi arian cyfatebol gwerthfawr gan awdurdodau lleol. Drwy derfynu'r grant hwn a'i ymgorffori'n ddull ariannu yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)—fel yr awgrymir yn llythyr y Gweinidog ataf ar 18 Mai—mae'n amlwg bod y Gweinidog, er iddo roi rhybudd i'r sefydliadau, wedi dileu elfen werthfawr o gyllid. Credaf y byddai newid y gyllideb fel hyn, a hynny'n gam mor bwysig, wedi teilyngu datganiad ysgrifenedig neu lafar er mwyn inni allu craffu ar y Gweinidog a'i ddal yn atebol.

Jane Hutt: Yr oedd dyddiad terfyn i'r grantiau hyn o'r cychwyn, ac yr oedd y partneriaid yn amlwg yn gwybod hyn. Fe'u defnyddid yn arian i ysgogi'r arferion gorau o ran cydweithio a hyblygrwydd, ac, yn unol â hynny, mae'r Gweinidog wedi'i reoli yn y ffordd bwysig hon.

Alun Davies: Hoffwn ofyn am dri datganiad. Yn gyntaf, hoffwn gael datganiad gan y

Government statement on the child poverty strategy that was launched a week or two ago. We know now that the new Liberal-Conservative Government is attacking the very poorest children in society with the removal of the child trust funds. This will create poverty by Government action, and this is the first time in many years that we have had a Government that actively seeks to create poverty and to remove opportunities from the poorest and most vulnerable parts of society. I wonder, therefore, whether we could have a statement on the Government's approach towards child poverty, following yesterday's announcement.

We had a discussion during First Minister's questions on the Holtham commission, which was set up here with the support of all parties represented in this Chamber. It is clearly now being ditched by the new Government. This, together with the cuts that we heard announced yesterday, to be dealt with in the statement that you will make later, means that there is now an issue for us to debate in this Chamber about the future of Holtham. I thought that we had cross-party support on this matter, but it appears that that support is now withering on the vine. Therefore, I would appreciate a statement on the Holtham commission's report as well.

2.40 p.m.

Finally, Minister, perhaps we could have a Government-proposed debate on the place of Wales in the United Kingdom. We know that the coalition agreement that was published last week was extraordinary in that Wales did not figure in it at all. We also know that the Secretary of State for Scotland sits on something like eight Cabinet committees, whereas the Secretary of State for Wales sits on one. We are now seeing Wales being taken down the agenda of the new Government in London. We also see that Members in the Chamber who claim to lead political parties have absolutely no influence at all in those parties, and that Wales is disappearing off the agenda of the United Kingdom Government. I would therefore be grateful, Minister, for a statement on the place of Wales in the union, so that this Government can make it clear to everyone in the country that we will fight Wales's corner.

Llywodraeth am y strategaeth tloidi plant a lansiwyd wythnos neu ddwy'n ôl. Gwyddom erbyn hyn fod Llywodraeth newydd y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr yn ymosod ar y plant tlotaf un yn ein cymdeithas drwy ddileu'r gronfa ymddiriedolaeth plant. Golyga hyn fod gweithred gan y Llywodraeth yn creu tloidi, a dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd lawer inni gael Llywodraeth sy'n mynd ati i greu tloidi a dileu cyfleoedd i rannau tlotaf a mwyaf agored i niwed cymdeithas. Tybed, felly, a gaem ddatganiad am ddull y Llywodraeth o ymdrin â thloidi plant, ar ôl y cyhoeddiad ddoe?

Cawsom drafodaeth am gomisiwn Holtham yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog. Sefydlwyd y comisiwn gyda chefnogaeth yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Siambr hon. Mae'n amlwg erbyn hyn fod y Llywodraeth newydd yn cefnu arno. Mae hyn, ynghyd â'r toriadau y clywsom eu cyhoeddi ddoe ac y byddwch yn rhoi datganiad amdanynt wedyn, yn golygu bod dyfodol Holtham bellach yn destun dadl yn y Siambr hon. Yr oeddwn yn meddwl bod gennym gefnogaeth drawsbleidiol i hyn, ond mae'n ymddangos bod y gefnogaeth honno bellach yn edwino. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi datganiad am adroddiad comisiwn Holtham hefyd.

Yn olaf, Weinidog, efallai y gallai'r Llywodraeth gynnig dadl am le Cymru yn y Deyrnas Unedig. Gwyddom fod cytundeb y glymblaid a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn un hynod oherwydd nad oedd sôn am Gymru ynddo o gwbl. Gwyddom hefyd fod Ysgrifennydd Gwladol yr Alban yn aelod o ryw wyth o bwyllgorau'r Cabinet, ac nad yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru ond yn aelod o un. Yr ydym yn awr yn gweld Cymru'n llithro i lawr agenda'r Llywodraeth newydd yn Llundain. Gwelwn hefyd nad oes gan Aelodau yn y Siambr sy'n honni eu bod yn arwain pleidiau gwleidyddol affliw o ddim dylanwad yn y pleidiau hynny, a bod Cymru'n diflannu oddi ar agenda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Felly, byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, am ddatganiad ynglŷn â lle Cymru yn yr undeb, er mwyn i'r Llywodraeth hon allu ei gwneud yn glir i bawb yn y wlad y byddwn ni'n

brwydro dros Gymru.

Jane Hutt: I was pleased to see an immediate response from Huw Lewis, the Deputy Minister for Children, yesterday with regard to cutting the child trust funds. That will affect 32,000 children in Wales annually, who will miss out on receiving the trust fund altogether, and a further 135,000 will miss out on the additional contribution at 7 years of age. That was a commitment—and I made this point last week in relation to tackling child poverty, following on from the launch of the child poverty strategy—that Huw Lewis and the First Minister made only last week.

Your other requests can be dealt with together. I have been searching for a reference to the Holtham commission and related recommendations in the Queen's Speech, but I have found no mention of it. I will be making a statement shortly, and I am sure that the issue of the cuts that will be coming to Wales from the new UK Government will come up again. The Holtham commission was not mentioned in the Queen's Speech, and it was sidelined in the agreement. I am very concerned, with regard to the place of Wales in the UK, that the Liberal Democrats and Conservatives in the Chamber do not appear to be standing up for Wales, and they do not appear to have the influence that perhaps their colleagues in Scotland have.

Peter Black: Minister, would it be possible to have an urgent statement from the Minister for Rural Affairs on the way in which the Government is implementing the cull of badgers in north Pembrokeshire? You will be aware from newspaper reports that there has been great consternation in the area about Assembly contractors going around the countryside wearing masks, accompanied, mob-handed, by large numbers of police officers, thereby intimidating residents. In response to that, the Minister claimed that landowners had been notified in advance of visits by Assembly Government staff and their contractors, when, in fact, although landowners are told that there will be visits, they are not told when they will happen. In some instances, female pensioners who live alone have had to insist on being given a

Jane Hutt: Yr oeddwn yn falch o weld Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, yn ymateb ar unwaith ddoe i'r cyhoeddiad y torrir y cronfeydd ymddiriedolaeth plant. Bydd hynny'n effeithio ar 32,000 o blant yng Nghymru bob blwyddyn, na fyddant yn cael y gronfa ymddiriedolaeth o gwbl, a bydd 135,000 arall na chânt y cyfraniad ychwanegol pan fyddant yn 7 oed. Yr oedd hynny'n ymrwymiad—a gwneuthum y pwynt hwn ynglŷn â mynd i'r afael â thlodi plant yr wythnos diwethaf, ar ôl lansio'r strategaeth tloidi plant—a wnaethpwyd gan Huw Lewis a'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf.

Gellir ymdrin â'ch ceisiadau eraill gyda'i gilydd. Yr wyf wedi bod yn chwilio am gyfeiriad at gomisiwn Holtham ac argymhellion cysylltiedig yn Araith y Frenhines, ond nid oes sôn amdano. Byddaf yn rhoi datganiad mewn munud, ac yr wyf yn siŵr y bydd mater y toriadau a ddaw i Gymru o dan law Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn codi eto. Ni soniwyd am gomisiwn Holtham yn Araith y Frenhines, a chafodd ei wthio i'r cyrion yn y cytundeb. Yr wyf yn poeni'n fawr, o ran lle Cymru yn y Deyrnas Unedig, nad yw'r Democratiad Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn y Siambr i bob golwg yn sefyll dros Gymru, ac nad oes ganddynt i bob golwg y dylanwad sydd gan eu cyd-Aelodau yn yr Alban efallai.

Peter Black: Weinidog, a fyddai modd cael datganiad brys gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig ynglŷn â sut y mae'r Llywodraeth yn mynd ati i ddifa moch daear yng ngogledd sir Benfro? Gwyddoch yn ôl adroddiadau papurau newydd fod cryn bryder wedi bod yn yr ardal oherwydd bod contractwyr y Cynulliad yn mynd o gwmpas cefn gwlad yn gwisgo mygydau, ynghyd â chriw mawr o heddwision, ac yn sgîl hynny'n dychryn y trigolion. Ymateb y Gweinidog i hynny oedd honni bod perchenogion tir wedi cael gwybod ymlaen llaw fod staff Llywodraeth y Cynulliad a'u contractwyr yn mynd i ymweld â hwy. Ond, a dweud y gwir, er bod perchenogion tir yn cael gwybod y bydd ymweliadau, ni ddywedir wrthynt pryd y bydd y rheini'n digwydd. O dan rai amgylchiadau, mae

date. Last Tuesday, a disabled gentleman in his 80s, in a wheelchair and losing his memory, was alone when he was visited by masked contractors and a police van full of police officers. He was left shaken and visibly shaking as a result of that visit. You will also know from having watched the videos of those visits that the Minister's claims that the contractors are wearing masks because of attempts to intimidate them are clearly not true. On a number of occasions, the contractors have gone around wearing the masks even though there were no cameras present or demonstrations taking place. I have mentioned the example of the gentleman in his wheelchair; another is that, earlier this week, a couple were stopped at the top of their drive by police officers and masked men, who were apparently Welsh Assembly Government employees, when that drive leads to only two cottages and a holding that had already been inspected for badger setts.

There are also concerns about the methods being used by contractors who are not prepared to allow their identity to be verified before going onto people's land, and about the fact that, in some instances, proper biosecurity measures have not been taken by the contractors in pursuing their duties. It seems that all the trappings of a police state have been put in place in north Pembrokeshire by the Assembly Government. It is urgent that the Minister for Rural Affairs answers questions on the regime that she has put in place, how she is implementing this cull and how she will deal with some of the concerns raised by residents in this regard.

Jane Hutt: As you said, the Minister has responded to these issues. They are being addressed and handled in the preparatory stages of the pilot that is being undertaken. I am sure that she will want to put the record straight on any issues that have been raised in the Chamber today.

Chris Franks: I attended an event in Rhondda Cynon Taf last week about developing new services to support people with sight loss so that they can live independent lives. Is it possible to have a

pensiynwragedd sy'n byw ar eu pen eu hunain wedi gorfod mynnu cael dyddiad. Ddydd Mawrth diwethaf, yr oedd dyn anabl yn ei 80au, mewn cadair olwynion a'i gof yn pallu, ar ei ben ei hun pan ymwelwyd ag ef gan contractwyr yn gwisgo mygydau a llond fan heddlu o heddweision. Cafodd gryn ysgytiad ac yr oedd yn amlwg yn crynu yn sgîl yr ymweliad hwnnw. Gwyddoch hefyd, o wylïo fideos o'r ymweliadau hynny, ei bod yn amlwg nad yw honiadau'r Gweinidog bod y contractwyr yn gwisgo mygydau oherwydd ymdrechion i'w dychryn yn wir. Sawl tro, mae'r contractwyr wedi mynd o gwmpas yn gwisgo'r mygydau er nad oedd yr un camera yno na'r un brotest ar waith. Yr wyf wedi sôn am y gŵr bonheddig yn ei gadair olwynion; enghraifft arall yw pâr a stopiwyd gan yr heddlu a dynion mewn mygydau ar ben eu rhodfa. Gweithwyr Llywodraeth y Cynulliad oedd y rhain i bob golwg. Nid yw'r rhodfa honno ond yn arwain at ddau fwthyn a daliad a oedd eisoes wedi'i archwilio i weld a oedd brochfeydd yno.

Mae pobl yn poeni hefyd am y dulliau a ddefnyddir gan contractwyr nad ydynt yn fodlon caniatáu gwirio pwy ydynt cyn iddynt fynd ar dir pobl, ac am y ffaith nad yw'r camau bioddiogelwch cywir wedi'u cymryd gan contractwyr weithiau wrth iddynt ddilyn eu dyletswyddau. Mae'n ymddangos bod holl elfennau gwladwriaeth heddlu wedi'u rhoi ar waith yng ngogledd sir Benfro gan Weinidog y Llywodraeth. Mae angen i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig ateb cwestiynau ar frys ynglŷn â'r drefn y mae wedi'i rhoi ar waith, sut y mae'n mynd ati i wneud y gwaith difa hwn a sut y bydd yn ymdrin â rhai o'r pryderon a godwyd gan drigolion yn y cyswllt hwn.

Jane Hutt: Fel y dywedasoeh, mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r materion hyn. Maent yn cael sylw yng nghamau paratoi'r cynllun peilot sydd ar y gweill ac ymdrinnir â hwy. Yr wyf yn siŵr y bydd am gywiro unrhyw gamagraffiadau sydd wedi'u codi yn y Siambr heddiw.

Chris Franks: Bûm mewn digwyddiad yn Rhondda Cynon Taf yr wythnos diwethaf ynglŷn â datblygu gwasanaethau newydd i bobl sydd wedi colli'u golwg i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol. A oes modd cael

statement on what work the Welsh Government is undertaking to ensure that disabled people can live independent lives and not be restricted to their homes? Are you as concerned as I am that many of the services on which people rely could well disappear because of cuts by the Government in London? I would also like a statement on the provision of stroke services in Rhondda Cynon Taf.

Jane Hutt: The services provided to people with sight loss and vision impairment and those who are blind are clearly the sorts of services for vulnerable people that this Government seeks to protect. Your point relates to equality, social justice and social care issues in terms of enabling people to lead independent lives. We want to ensure that our policies continue to be delivered in order to support these vulnerable people.

On stroke services, the health board is taking these issues seriously in terms of the delivery of this strategy.

Paul Davies: School reorganisation in certain parts of Wales is causing some concern for parents and for the wider community. The Minister for Children, Education and Lifelong Learning has expressed concerns about the speed at which these decisions are taken and has said that he will issue further guidance on this in due course.

A few weeks ago, the organisation called Hyrwyddo Ysgolion Bach—Promoting Small Schools published a report on an inquiry into the cost of small primary schools in Wales, which was undertaken by Cambridge Policy Consultants. One of the conclusions in that report was interesting in that it concluded that the total cost of keeping small schools open is fairly limited. For example, in a hypothetical analysis that sees all 22 local authorities close all their schools with less than 90 pupils, reassigning to those pupils a unit cost equal to that of a school with more than 90 pupils would save only 2 per cent of the total primary school budget. In the light of those findings, could you ask the Minister for

datganiad ynghylch pa waith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau bod pobl anabl yn gallu byw bywydau annibynnol heb iddynt gael eu caethiwo i'w cartref? A ydych yn poeni cymaint â mi y gallai llawer o'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt ddiplannu'n wir oherwydd toriadau gan y Llywodraeth yn Llundain? Hoffwn hefyd gael datganiad am ddarparu gwasanaethau strôc yn Rhondda Cynon Taf.

Jane Hutt: Mae'n amlwg mai gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl sy'n colli'u golwg, y rhai a chanddynt nam ar eu golwg a phobl ddall yw'r math o wasanaethau i bobl agored i niwed y mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i'w gwarchod. Mae a wnelo'ch pwynt â chydreddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a gofal cymdeithasol o ran galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol. Yr ydym am sicrhau bod ein polisiau'n dal i gael eu gwireddu er mwyn cynorthwyo'r bobl hyn sy'n agored i niwed.

O ran gwasanaethau strôc, mae'r materion hyn sy'n ymwneud â gwireddu'r strategaeth hon yn rhai y mae'r bwrdd iechyd o ddifrif yn eu cylch.

Paul Davies: Mae ad-drefnu ysgolion mewn rhai rhannau o Gymru'n destun cryn bryder i rieni ac i'r gymuned ehangach. Mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi dweud ei fod yn poeni ynglŷn â pha mor gyflym y gwneir y penderfyniadau hyn ac wedi dweud y bydd yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ynglŷn â hyn maes o law.

Ychydig wythnosau'n ôl, cyhoeddodd y mudiad Hyrwyddo Ysgolion Bach adroddiad am ymchwiliad gan Cambridge Policy Consultants i gost ysgolion cynradd bach yng Nghymru. Yr oedd un o gasgliadau'r adroddiad hwnnw'n ddiddorol am ei fod yn casglu mai gweddol fach yw cyfanswm cost cadw ysgolion bach ar agor. Er enghraifft, gwnaethpwyd dadansoddiad damcaniaethol gan dybio y byddai pob un o'r 22 awdurdod lleol yn cau pob un o'u hysgolion ac ynddynt lai na 90 o ddisgyblion. Wrth drosglwyddo'r gost fesul uned i'r disgyblion hynny'n sy'n cyfateb i'r gost fesul uned mewn ysgol a chanddi fwy na 90 o ddisgyblion, nid arbedid ond 2 y cant o gyfanswm cyllideb ysgolion

education to bring forward a statement on school reorganisation, taking these findings into consideration and including the timing of any reorganisation?

Jane Hutt: As you know, there has been extensive consultation at committee level on producing appropriate guidance about what must be described as the planning of school places, which is the responsibility of local education authorities, and on the subsequent proposals that might come forward for school closures. We note reports of this kind, as we always do, and we recognise that we must ensure that when local authorities make decisions on school closures, which they then bring to us, each case must be considered by a Welsh Minister on its own merit and local authorities need to show that the decision was based on educational considerations, which are of prime importance.

Janet Ryder: Could we have a statement from the Minister for Health and Social Services on the recruitment of doctors in north Wales, which is having an impact on the time that patients have to wait for treatment? I would be particularly interested in what work is being done with junior and prospective junior doctors, not only in the medical school in Cardiff, but also with young doctors who have chosen to train outside Wales and how we can encourage them to return. I would also like to know whether the present process of asking them to apply to Wales en bloc is having a detrimental impact on the future employment of young doctors in Wales.

Jane Hutt: I know that this is a matter of priority for the Minister for Health and Social Services and that more work is being done on this across Wales. There will be more information on it in the next few weeks and during the summer months.

Jonathan Morgan: Earlier, during questions to the First Minister, I raised the issue of the success or otherwise of the all-Wales purchasing code of conduct. The intention of

cynradd. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hynny, a allech ofyn i'r Gweinidog dros addysg gyflwyno datganiad am ad-drefnu ysgolion, gan ystyried y canfyddiadau hyn a chan gynnwys amseriad unrhyw ad-drefnu?

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, mae llawer o ymgynghori wedi bod ar lefel y pwyllgor ynglŷn â chyhoeddi canllawiau priodol sy'n ymwneud â'r hyn y mae'n rhaid ei alw'n gynllunio lleoedd ysgolion. Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol yw hynny. Ymgynghorwyd hefyd ynglŷn â'r cynigion a allai ddeillio o hynny ar gyfer cau ysgolion. Nodwn adroddiadau o'r math hwn, fel y byddwn yn gwneud bob amser, gan gydnabod bod yn rhaid inni sicrhau, wrth i awdurdodau lleol benderfynu ynglŷn â chau ysgolion, ac wrth iddynt ddod â'r penderfyniad hwnnw ger ein bron, fod yn rhaid i bob achos gael ei ystyried gan un o Weinidogion Cymru yn ôl ei deilyngdod a bod angen i awdurdodau lleol ddangos bod y penderfyniad wedi'i seilio ar ystyriaethau addysgol. Mae'r rheini o'r pwys mwyaf.

Janet Ryder: A gaem ddatganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â recriwtio meddygon yn y gogledd? Mae hyn yn cael effaith ar faint y mae cleifion yn gorfod aros i gael triniaeth. Byddai'n arbennig o dda gennyf wybod pa waith sy'n cael ei wneud gyda meddygon iau a darpar feddygon iau, nid dim ond yn yr ysgol feddygol yng Nghaerdydd, ond hefyd gyda meddygon ifanc sydd wedi dewis hyfforddi y tu allan i Gymru a sut y gallwn eu hannog i ddychwelyd. Hoffwn wybod hefyd a yw'r broses bresennol o ofyn iddynt wneud cais am swydd yng Nghymru i gyd ar yr un pryd yn effeithio'n andwyol ar gyflogi meddygon ifanc yng Nghymru yn y dyfodol.

Jane Hutt: Gwn fod hyn yn flaenoriaeth i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bod rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn ledled Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn ei gylch yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn ystod misoedd yr haf.

Jonathan Morgan: Yn gynharach, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, codais fater llwyddiant neu fethiant y cod ymddygiad prynu i Gymru gyfan. Yr hyn sydd wedi bod

the Government has been to help small businesses in Wales to win public sector contracts and to use the weight of public procurement during the recession. As I said earlier, less than 5 per cent of ICT procurement from the NHS and local government benefits companies in Wales.

2.50 p.m.

The First Minister seemed to think that companies in Wales were having a problem engaging with the public sector. This is quite a serious point. Much has been said by the First Minister and the Deputy First Minister about using the sheer size of public procurement to enhance and support the exceptional companies that we have in Wales. It is important for the Assembly to have a statement outlining what success there has been in relation to the code of conduct and details of the support that has been provided to companies to make it easier for them to contract with the public sector. Will you ask the Deputy First Minister whether he will consider making a statement?

Jane Hutt: This is a matter that Value Wales has been addressing by implementing the recommendations in 'Barriers to Procurement Opportunity Research'. The report recognised that there were ways in which we could improve public sector procurement opportunities for the private sector. I met David Rosser, the director of the Confederation of British Industry in Wales, last week and was able to report to him on the action being taken to improve access to procurement. I would like to bring a statement to the Assembly to report on the progress that has resulted from that work.

Lorraine Barrett: Minister, I would like to support what Peter Black has said and ask you for a statement in the Chamber to update us on the current survey of badger setts in north Pembrokeshire. I, too, have seen video footage of men in balaclavas turning up to undertake the surveys, but who are not prepared to show the landowners and residents any photographic evidence of who they are. While they were accompanied by an official—who, I presume, was a Government official—and police officers to verify that

yn nod gan y Llywodraeth yw cynorthwyo busnesau bach yng Nghymru i ennill contractau yn y sector cyhoeddus a defnyddio pwysau caffael cyhoeddus yn ystod y dirwasgiad. Fel y dywedais yn gynharach, llai na 5 y cant o gaffael TGCh gan y GIG a llywodraeth leol sydd o fudd i gwmnïau yng Nghymru.

I bob golwg, yr oedd y Prif Weinidog yn meddwl bod cwmnïau yng Nghymru'n cael anhawster meithrin cysylltiad â'r sector cyhoeddus. Mae hwn yn bwynt eithaf difrifol. Mae'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog wedi sôn llawer am ddefnyddio caffael cyhoeddus, sy'n enfawr, i gryfhau a chefnogi'r cwmnïau eithriadol sydd gennym yng Nghymru. Mae'n bwysig i'r Cynulliad gael datganiad yn dweud i ba raddau y mae'r cod ymddygiad wedi llwyddo ac yn rhoi manylion y cymorth a roddwyd i gwmnïau i'w gwneud yn haws iddynt ennill contractau gyda'r sector cyhoeddus. A ofynnwch i'r Dirprwy Brif Weinidog a wnaiff ystyried rhoi datganiad?

Jane Hutt: Mae Gwerth Cymru wedi bod yn mynd i'r afael â hyn drwy roi argymhellion 'Ymchwil i Rwystrau - Cyfleoedd Caffael' ar waith. Yr oedd yr adroddiad yn cydnabod y gallem wella cyfleoedd caffael i'r sector preifat yn y sector cyhoeddus. Cyfarfûm â David Rosser, cyfarwyddwr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru yr wythnos diwethaf a llwyddais i sôn wrtho am y camau a gymerir i agor llwybrau ym maes caffael. Hoffwn ddod â datganiad gerbron y Cynulliad i sôn am y cynnydd sydd wedi deillio o'r gwaith hwnnw.

Lorraine Barrett: Weinidog, hoffwn gefnogi'r hyn y mae Peter Black wedi'i ddweud a gofyn ichi am ddatganiad yn y Siambr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr arolwg presennol o frochfeydd yng ngogledd sir Benfro. Yr wyf finnau wedi gweld lluniau fideo o ddynion mewn balaclafas yn cyrraedd i wneud yr arolygon, ond nad ydynt yn barod i ddangos tystiolaeth ffotograffig i'r perchenogion tir a'r trigolion i brofi pwy ydynt. Er bod swyddog gyda hwy—a hwnnw, yr wyf yn tybio, yn un o

they were who they said they were, there were many distressed and emotional people, quite a few of whom were quite elderly, and Peter has given us some examples.

You have said that the Minister has replied, and I have seen that in the press, but her officials describe the objectors as a tiny minority, but they are not. There are at least a couple of hundred, and many who have not made themselves known because they are living on their own in isolated areas and are a bit nervous. I just wanted to say that it is intimidating to have men in balaclavas turning up at your gate, supported by police vehicles, waiting to gain access when you have had a day's notice, or perhaps less than that.

Jane Hutt: I refer you the response that I gave to Peter Black earlier in answer to his questions. The Minister will be aware of the issues that have been raised today in the Chamber.

Darren Millar: I would like to request a statement from the Minister for Health and Social Services on the impact of mobile phones on human health. I have noted with great interest the letter that was circulated to Assembly Members this morning about the Interphone survey, the report on which was published on 18 May. It seems to suggest that there may be an increased risk of a certain type of brain cancer called glioma for the heaviest users of mobile telephones. Assembly Members need to ask questions on behalf of their constituents. I know that there are a great number of constituents in my constituency, Clwyd West, who will be interested to know more detail and hear what the Minister has to say about that particular study.

Jane Hutt: I am sure that you will welcome the fact that the Minister has shared this information with us through correspondence. I am sure that there will be opportunities to question the Minister further on this matter.

The Presiding Officer: Thank you very much, Minister. Could you now wear your

swyddogion y Llywodraeth—a heddweision i gadarnhau pwy oeddent, achoswyd poen meddwl a thralod i lawer o bobl, nifer ohonynt yn eithaf oedrannus, ac mae Peter wedi rhoi ychydig o enghreifftiau inni.

Yr ydych wedi dweud bod y Gweinidog wedi ymateb, ac yr wyf wedi gweld hynny yn y wasg, ond mae ei swyddogion yn dweud mai lleiafrif bach, bach yw'r gwrthwynebwyr. Nid yw hynny'n wir. Mae o leiaf ddau gant ohonynt, ac mae llawer sydd heb ddatgelu pwy ydynt am eu bod yn byw ar eu pen eu hunain mewn ardaloedd diarffordd a'u bod braidd yn ofnus. Y cyfan yr oeddwn am ei ddweud yw bod gweld dynion yn gwisgo balaclafas wrth eich gât a cherbydau'r heddlu'n eu hebrwng, a hwythau'n disgwyl i ddod ar eich tir a chithau ond wedi cael diwrnod o rybudd, neu lai na hynny efallai, yn brofiad dychrynlyd.

Jane Hutt: Fe'ch cyfeiriais at yr ymateb a roddais i Peter Black yn gynharach wrth ateb ei gwestiynau. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r materion sydd wedi'u codi yn y Siambr heddiw.

Darren Millar: Hoffwn ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am effaith ffonau symudol ar iechyd pobl. Yr wyf wedi nodi gyda diddordeb mawr y llythyr a ddosbarthwyd i Aelodau'r Cynulliad y bore yma am arolwg Interphone. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 18 Mai. I bob golwg, mae'n awgrymu y gall fod mwy o berygl i'r rhai sy'n defnyddio ffonau symudol fwyaf gael y math o ganser ar yr ymennydd a elwir glioma. Mae angen i Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau ar ran eu hetholwyr. Gwn fod llawer o etholwyr yn fy etholaeth, Gorllewin Clwyd, y bydd yn dda ganddynt gael rhagor o fanylion a chlywed yr hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am yr astudiaeth benodol honno.

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi rhannu'r wybodaeth hon â ni drwy ohebiaeth. Yr wyf yn siŵr y bydd cyfleoedd i holi mwy ar y Gweinidog am hyn.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn ichi, Weinidog. A allech wisgo'ch het arall yn awr

other hat for the next item?

ar gyfer yr eitem nesaf?

**Datganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Doriadau Gwariant
Llywodraeth y DU**
**Statement from the Welsh Assembly Government on UK Government Spending
Cuts**

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): Yesterday, the UK Government set out how it will be securing and distributing £6.2 billion in public spending cuts in 2010-11. The details provided so far are limited and there are areas where clarification is needed. Nevertheless, the figures that the Treasury has provided so far indicate that the proposed cut to the Welsh budget is £187 million, although this is partly offset by £24 million in positive consequentials from additional spending in some areas. This is equivalent to around 1 per cent of our total budget.

The Welsh Assembly Government has made it clear that we will be responsible partners in contributing to the reduction of the deficit over coming years. Wales will play its part in the difficult adjustments that need to be made. However, we have also made it clear that if public expenditure is cut too early, we risk jeopardising the economic recovery. The deficit needs to be reduced, but only as quickly as it can be without threatening the recovery and without incurring massive damage to public services.

Since the Assembly Government was established, we have maintained a focus on achieving efficient services that can deliver for the people of Wales in the most effective way possible. For some time, we have flagged up the economic challenges that we face and the prospects of reduced budgets, and we have made significant changes to ensure that we are structured to deliver more efficiently. To give this work an added pan-public service dimension, earlier this year we established the Wales efficiency and innovation board, which I chair. It is pleasing to see that the Chancellor of the Exchequer announced yesterday that he is following our initiative and will be setting up a similar group. The board is driving a national

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Ddoe, dywedodd Llywodraeth y DU sut y bydd yn cyflawni ac yn dosbarthu'r gwerth £6.2 biliwn o doriadau mewn gwariant cyhoeddus yn 2010-11. Ni ddarparwyd llawer o fanylion hyd yma, ac mae angen eglurhad mewn rhai meysydd. Er hynny, dengys y ffigurau a ddarparwyd hyd yma gan y Trysorlys y bwriedir gwneud £187 miliwn o doriadau yng nghyllideb Cymru, er y caiff hyn ei wrthbwysu'n rhannol gan werth £24 miliwn o symiau canlyniadol cadarnhaol yn sgîl gwariant ychwanegol mewn rhai meysydd. Mae hyn yn gyfystyr â thua 1 y cant o gyfanswm ein cyllideb.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gwneud yn glir y byddwn yn bartneriaid cyfrifol wrth gyfrannu at leihau'r diffyg dros y blynyddoedd nesaf. Bydd Cymru'n chwarae ei rhan yn yr addasiadau anodd y mae angen eu gwneud. Fodd bynnag, yr ydym hefyd wedi'i gwneud yn glir, os gwneir toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn rhy gynnar, fod perygl inni roi'r adferiad economaidd yn y fantol. Mae angen lleihau'r diffyg, ond dim ond mor gyflym ag sy'n bosibl heb fygwth yr adferiad a heb achosi niwed aruthrol i wasanaethau cyhoeddus.

Ers sefydlu Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym wedi canolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau effeithlon sy'n cyflawni er budd pobl Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Yr ydym wedi bod yn tynnu sylw at yr heriau economaidd sy'n ein hwynebu ac at y posibilrwydd y bydd cyllidebau llai ers tro, ac yr ydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i sicrhau ein bod wedi ein strwythuro i gyflawni mewn ffordd fwy effeithlon. Er mwyn cynnig dimensiwn ychwanegol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yn gynharach eleni sefydlasom fwrdd effeithlonrwydd ac arloesi Cymru a gadeirir gennyf fi. Mae'n braf gweld bod Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi ddoe ei fod yn dilyn ein hesiampl ac y bydd yn

programme to transform operational efficiency, to catalyse innovation in the way that public services are designed and delivered and to promote collaboration. This will build on the Team Wales approach that was adopted by the economic summits and that has helped Wales through the recession. It is only through this sort of innovative, collaborative approach that we will be able to manage the next few years without damaging the public services that so many in Wales rely on.

We have also led the way in other matters that the Chancellor now extols. For example, we have merged our larger arm's-length bodies—our quangos—into the Welsh Assembly Government in recent years. We have already made changes to ensure that we are using our offices across Wales in the most cost-effective way possible, by co-locating with partner organisations, as appropriate. Also, we have already taken firm action to limit civil service recruitment and to bear down on all areas of administrative spend, including reducing consultancy, travel and allowance costs. I am pleased to see that the UK Government is now following our lead on this. However, these are savings we are already making in Wales, and the scope for administrative savings in Wales is simply not the same as it is in England. This is something that the new UK Government has not taken into account when deciding the size of the cuts imposed on us.

If we are to protect services to the best of our ability over the next few years, while managing with fewer resources, we need to undertake careful preparation. All parts of Welsh public services must work together to shape our response. Despite the cuts announced yesterday, the Assembly Government will not be rushing into knee-jerk, unplanned reductions in budgets that could damage public services and threaten the recovery. In the current year, we are already managing a budget that is reduced in real terms. Taking out an additional 1 per

sefydlu grŵp tebyg. Mae'r bwrdd yn datblygu rhaglen genedlaethol i drawsnewid effeithlonrwydd gweithredol, er mwyn sbarduno arloesedd o ran y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u cyflwyno a hyrwyddo cydweithredu. Bydd hyn yn adeiladu ar ddull Tîm Cymru a fabwysiadwyd gan yr uwchgynadleddau economaidd ac sydd wedi cynorthwyo Cymru drwy'r dirwasgiad. Dim ond drwy'r math hwn o ddull arloesol a chydweithredol y gallwn ymdopi â'r blynyddoedd nesaf heb niweidio'r gwasanaethau cyhoeddus y mae cynifer o bobl yng Nghymru'n dibynnu arnynt.

Yr ydym hefyd wedi arwain y ffordd ar faterion eraill sy'n destun canmoliaeth y Canghellor yn awr. Er enghraifft, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi dod â'n cyrff hyd braich mwy—ein cwangos—dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydym eisoes wedi gwneud newidiadau i sicrhau ein bod yn defnyddio ein swyddfeydd ledled Cymru yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol, drwy gydleoli â sefydliadau sy'n bartneriaid, pan yw hynny'n briodol. Hefyd, yr ydym eisoes wedi cymryd camau cadarn i gyfyngu recriwtio i'r gwasanaeth sifil ac i gwtogi holl feysydd gwariant gweinyddol, gan gynnwys lleihau costau ymgynghori, teithio a lwfansau. Yr wyf yn falch o weld bod Llywodraeth y DU yn dilyn ein harweiniad ar hyn yn awr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn arbedion yr ydym eisoes yn eu gwneud yng Nghymru, ac nid oes yr un cyfleoedd i gael arbedion gweinyddol yng Nghymru ag sydd yn Lloegr. Mae hyn yn rhywbeth nad yw Llywodraeth newydd y DU wedi'i ystyried wrth benderfynu ar faint y toriadau sy'n cael eu gorfodi arnom.

Os ydym am amddiffyn gwasanaethau hyd eithaf ein gallu dros y blynyddoedd nesaf, a hynny gan ymdopi â llai o adnoddau ar yr un pryd, bydd angen inni baratoi'n ofalus. Rhaid i holl rannau gwasanaethau cyhoeddus Cymru weithio gyda'i gilydd i lywio ein hymateb. Er gwaethaf y toriadau a gyhoeddwyd ddoe, ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhuthro i wneud gostyngiadau difeddwl a heb eu cynllunio mewn cyllidebau a allai niweidio gwasanaethau cyhoeddus a bygwth yr adferiad. Yn y flwyddyn hon, yr ydym eisoes yn rheoli cyllideb sydd wedi'i

cent—six months after budgets were agreed by the Assembly and service delivery across Wales is well under way—without damaging services, would be very challenging. The Chancellor has offered us the opportunity to defer some, or all, of the cuts until next year. However, before we decide on our approach, we need further details from the Treasury. We need greater clarity in three areas.

First, we need to know the capital/revenue split of the cuts. The Treasury has indicated that it will be up to two weeks before it has enough information about where the cuts in England are being found to give us this split. Clearly, knowing whether we need to make reductions in capital or revenue budgets is an important factor in determining our response. Secondly, we need to secure the flexibility to transfer savings that were made this year into next year via end-of-year flexibility. If the Treasury will guarantee access to EYF, that will help us plan more effectively. Thirdly, we need more information about the size of the budget reductions that we are likely to see in the autumn comprehensive spending review. If the reductions that we will be subject to next year turn out to be bigger than our current planning assumptions, deferring the cut of £187 million to next year may not be helpful.

Also, we seem to have been given a consequential of cuts in the Olympics budget. As Members will be well aware, Wales did not receive consequentials from the Olympics budget when it was established in the last CSR. Clearly, we should not be subject to cuts to budgets that we did not receive in the first place. I will have an initial discussion on these and other issues with the Chief Secretary to the Treasury later this week, and I will be having a more detailed meeting with him in London on 9 June to press our case.

lleihau mewn termau real. Byddai tynnu 1 y cant ychwanegol—chwe mis ar ôl i'r Cynulliad gytuno ar y cyllidebau a chyda threfniadau darparu gwasanaethau yn mynd rhagddynt ledled Cymru ers tro—heb niweidio gwasanaethau, yn anodd dros ben. Mae'r Canghellor wedi cynnig y cyfle inni ohirio rhai o'r toriadau, neu'r holl doriadau, tan y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, cyn penderfynu ar ein dull o weithredu, mae arnom angen mwy o fanylion gan y Trysorlys. Mae arnom angen mwy o eglurder mewn tri maes.

Yn gyntaf, mae angen inni gael gwybod beth yw'r rhaniad rhwng cyfalaf a referniw o ran y toriadau. Mae'r Trysorlys wedi dweud y bydd yn rhaid aros hyd at bythefnos cyn y bydd ganddo ddigon o wybodaeth ynghylch lle y gwneir y toriadau yn Lloegr sy'n rhoi'r rhaniad hwn inni. Yn amlwg, mae gwybod ai mewn cyllidebau cyfalaf ynteu cyllidebau referniw y mae angen gwneud gostyngiadau yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar ein hymateb. Yn ail, mae angen inni sicrhau'r hyblygrwydd i drosglwyddo arbedion a wnaethpwyd eleni i'r flwyddyn nesaf drwy gyfrwng hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Os bydd y Trysorlys yn sicrhau mynediad at hyblygrwydd diwedd blwyddyn, bydd hynny'n gymorth inni gynllunio'n fwy effeithiol. Yn drydydd, mae angen inni gael rhagor o wybodaeth am faint y toriadau cyllidebol yr ydym yn debyg o'u gweld yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn yr hydref. Os bydd y toriadau a wynebwn y flwyddyn nesaf yn fwy na'n rhagdybiaethau cynllunio cyfredol, mae'n bosibl na fydd gohirio'r toriad o £187 miliwn tan y flwyddyn nesaf yn syniad da.

Hefyd, yn ôl pob golwg, yr ydym wedi cael toriadau canlyniadol yn sgîl toriadau yng nghyllideb y Gemau Olympaidd. Fel y gŵyr yr Aelodau, ni chafodd Cymru symiau canlyniadol o gyllideb y Gemau Olympaidd pan gafodd ei sefydlu yn yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o wariant. Yn amlwg, ni ddylem wynebu toriadau mewn cyllidebau nas cawsom yn y lle cyntaf. Caf drafodaeth gychwynnol ynghylch y rhain a materion eraill gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ddiweddarach yr wythnos hon, a chaf gyfarfod manylach ag ef yn Llundain ar 9 Mehefin er mwyn dadlau ein hachos.

The other key issue that I will be raising with the Chief Secretary is fair funding for Wales. The publication of the first report of the Holtham commission in July 2009, followed by its unanimous acceptance in the Assembly last autumn, provided clear evidence that Wales is already being underfunded by around £300 million annually, and that the relative underfunding is increasing over time. Not only Gerry Holtham, but other acknowledged experts have reported that the Barnett formula is not fit for purpose. It is unfair to Wales and should be replaced with a new needs-based formula to ensure fairer funding. The reform of Barnett will take time, but my immediate concern is to ensure that Wales does not become further disadvantaged.

3.00 p.m.

There are a number of smaller steps that the UK Government could now take to move towards fairer funding for Wales, so I will continue to press for the immediate implementation of a floor to prevent Wales from becoming even more underfunded than we are currently. I will also continue to press for flexibilities, for example in the use of end-year flexibility, to enable us to manage our finances effectively.

The Government is committed to taking a responsible approach to reducing the deficit over the coming years. Wales will play its part and consider the most responsible way to achieve that. Reductions in budgets need to be properly planned and managed, and action needs to be taken to deliver fair funding for Wales.

Nick Ramsay: I welcome the Minister's statement on how her Government intends to deal with the £6 billion of spending cuts coming this way. I also welcome the Minister's comments that the Assembly Government will be responsible partners in dealing with this deficit. To her credit, she is on record as saying previously that there was a need to deal with the deficit, and that the Assembly Government and Wales should

Y mater allweddol arall y byddaf yn ei godi gyda'r Prif Ysgrifennydd yw trefn gyllido deg i Gymru. Yn sgîl cyhoeddi adroddiad cyntaf comisiwn Holtham ym mis Gorffennaf 2009, a hynny'n cael ei dderbyn yn unfrydol yn y Cynulliad yr hydref diwethaf, cafwyd tystiolaeth glir bod Cymru eisoes yn cael ei thanariannu o tua £300 miliwn bob blwyddyn, a bod y tanariannu cymharol yn cynyddu dros amser. Mae arbenigwyr cydnabyddedig eraill, yn ogystal â Gerry Holtham, wedi dweud nad yw fformiwla Barnett yn addas i'r diben. Mae'n annheg â Chymru, a dylid ei disodli â fformiwla newydd sy'n seiliedig ar anghenion er mwyn sicrhau system gyllido decach. Bydd yn cymryd amser i ddiwygio fformiwla Barnett, ond y peth pwysicaf i mi yn awr yw sicrhau na fydd Cymru o dan fwy o anfantais.

Gallai Llywodraeth y DU gymryd amryw o gamau llai yn awr i symud tuag at system gyllido decach i Gymru. Felly, parhaf i bwysu dros roi terfyn isaf ar waith ar unwaith i atal Cymru rhag cael ei thanariannu'n waeth nag y mae'n cael ei thanariannu ar hyn o bryd. Byddaf hefyd yn parhau i bwysu dros hyblygrwydd, er enghraifft, defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn, er mwyn ein galluogi i reoli ein materion ariannol yn effeithiol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i arddel ymagwedd gyfrifol at leihau'r diffyg dros y blynyddoedd nesaf. Bydd Cymru'n chwarae ei rhan, ac yn ystyried y ffordd fwyaf cyfrifol o wneud hynny. Bydd angen i ostyngiadau mewn cyllidebau gael eu cynllunio a'u rheoli'n briodol, ac mae angen cymryd camau i sicrhau system gyllido decach i Gymru.

Nick Ramsay: Yr wyf yn croesawu datganiad y Gweinidog ynghylch sut y mae ei Llywodraeth yn bwriadu delio â'r £6 biliwn o doriadau gwariant sydd yn yr arfaeth. Yr wyf hefyd yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn bartneriaid cyfrifol wrth ddelio â'r diffyg hwn. Er clod iddi, mae wedi dweud ar goedd yn y gorffennol fod angen delio â'r diffyg ac y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chymru

play their part in doing so. I also welcome the commitment to structuring budgets to deliver services as efficiently as possible. Perhaps the Minister in her response could put more meat on the bones of this policy, and give us a couple of examples of how she will restructure those services to make them more efficient.

The Minister praised the work of the efficiency and innovation board, but then left it at that. Can she tell us more about the progress that is being made by the board, so that we can see what concrete principles it is working to and how it is helping to deal with the deficit?

In her statement, she also mentioned reducing civil service recruitment, which has been a major plank of the policy at Westminster to cut the deficit. To what extent does she consider civil service recruitment to be a plank of the Assembly Government's contribution to deficit reduction? Does she intend for us to go as far as Westminster? Please tell us the exact details of that.

She also mentioned consultancy and travel costs. That issue was mentioned earlier by my colleague, Darren Millar, in questions to the First Minister, who sidestepped the question about ministerial rail travel. In fact, he did not give an answer at all—

Alun Davies: He did.

Nick Ramsay: He did not. He did not give an answer at all to the question of what the Government's policy is on first-class rail travel. I would be interested to hear what the Government's policies are on that and how Ministers are looking to save on travelling costs.

To defer, or not to defer; that is the question. It is almost Shakespearian. The First Minister said earlier that the Government is waiting for more details, and I think that the figure of two weeks was bandied around. In my opinion, two weeks is not too great a length of time, so I hope that waiting for further information will not become a smokescreen.

chwarae eu rhan i wneud hynny. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i strwythuro cyllidebau er mwyn darparu gwasanaethau mor effeithlon ag sy'n bosibl. Efallai y gallai'r Gweinidog, wrth ateb, roi mwy o gnawd ar esgyrn y polisi hwn, a rhoi ambell enghraifft o sut y bydd yn ailstrwythuro'r gwasanaethau hynny i'w gwneud yn fwy effeithlon.

Canmolodd y Gweinidog waith y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, ond ni ddywedodd fwy na hynny. A all ddweud rhagor wrthym am gynnydd y bwrdd, er mwyn inni allu gweld pa egwyddorion cadarn y mae'n eu harddel yn ei waith a sut y mae'n gymorth i ymdopi â'r diffyg?

Yn ei datganiad, soniodd hefyd am leihau recriwtio i'r gwasanaeth sifil, rhywbeth sydd wedi bod yn un o brif elfennau'r polisi yn San Steffan i leihau'r diffyg. I ba raddau y mae'n credu bod recriwtio i'r gwasanaeth sifil yn rhan o gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad at leihau'r diffyg? A yw'n bwriadu inni fynd cyn belled â San Steffan? Rhowch union fanylion hynny inni.

Soniodd hefyd am gostau ymgynghori a theithio. Soniodd Darren Millar, fy nghyd-Aelod, am y mater hwnnw'n gynharach mewn cwestiynau i'r Prif Weinidog, a osgôdd y cwestiwn am gostau trên Gweinidogion. Yn wir, ni roddodd ateb o gwbl—

Alun Davies: Do, fe wnaeth.

Nick Ramsay: Ni roddodd ateb. Ni roddodd ateb o gwbl i'r cwestiwn ynghylch beth yw polisi'r Llywodraeth ar deithio gyda thocynnau trên dosbarth cyntaf. Byddai'n dda gennyf glywed beth yw polisiau'r Llywodraeth ynghylch hynny a sut y mae'r Gweinidogion yn bwriadu lleihau costau teithio.

Gohirio, ynteu peidio â gohirio; dyna'r cwestiwn. Mae iddo ryw naws Shakespeareaidd bron. Dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach fod y Llywodraeth yn aros am ragor o fanylion, a chredaf fod sôn wedi bod am bythefnos. Yn fy marn i, nid yw pythefnos yn ormod o amser, a gobeithio na fyddant yn defnyddio'r ffaith

The issue of deferral is the key.

There seems to be a contradiction in the Minister's statement. She started by saying that not having a deferral would pose great challenges, although she did not exactly rule it out, but, on the following page, she says that she is ruling it out. There does not seem to be a correlation on the deferral, so can she clarify her thoughts on that? Does she think that deferral is an option? There are mixed messages from the Plaid-Labour Government on this. I know that Rhodri Glyn Thomas has gone on the record as saying that deferral would be a mistake. As the First Minister has not told us, can the Minister please tell us whether she feels that deferral is an option for us, or not?

I accept what she said on capital revenue splits, to a certain extent. However, on EYF, which stands for end-year flexibility—and there was me criticising people earlier for using abbreviations, but I have fallen into the trap of using them all the time; I should try to stop doing that. On end-year flexibility, a subject that comes up frequently at the Finance Committee, the Minister has said that a guarantee of whether we can access it would help with the management of finances to deal with this problem. I tend to agree with her, but we have been waiting for that guarantee for a long time—for the duration of the previous Government—and we were unsuccessful. That said, to the best of my knowledge, end-year flexibility has always come our way. There has been no problem accessing it before, even though we did not have a guarantee. Can the Minister tell us why she feels that having that guarantee now will help? From looking at some of the press comments that she has made over the past couple of days, I am not quite sure whether she intends to use end-year flexibility to fund the services that she wants to protect in Wales or whether she intends to give it back as a way of paying the Assembly Government's share of funding. If she could clarify that, it would be enormously helpful.

bod yn rhaid aros am ragor o wybodaeth fel esgus. Y cwestiwn yn ymwneud â'r gohirio yw'r allwedd.

Ymddengys fod y Gweinidog yn gwrthddech ei hun yn y datganiad. Dechreuodd drwy ddweud y byddai peidio â gohirio yn achosi heriau enfawr, er na wnaeth ddiystyru hynny'n hollol, ond ar y dudalen ganlynol mae'n dweud ei bod yn diystyru hynny. Nid yw'n ymddangos bod cydberthynas o ran y gohirio, felly a all egluro ei theimladau ynghylch hynny? A yw'n credu bod gohirio'n opsiwn? Daw negeseuon cymysg gan Lywodraeth Plaid Cymru a Llafur ynghylch hyn. Gwn fod Rhodri Glyn Thomas wedi dweud ar goedd y byddai gohirio'n gamgymeriad. Gan nad yw'r Prif Weinidog wedi dweud wrthym, a all y Gweinidog ddweud wrthym a yw gohirio'n opsiwn inni ai peidio yn ei barn hi?

Derbyniaf yr hyn a ddywedodd am y rhaniad rhwng cyfalaf a refeniw, i ryw raddau. Fodd bynnag, o ran EYF, sef hyblygrwydd diwedd blwyddyn—a minnau wedi beirniadu pobl yn gynharach am ddefnyddio byrfoddau, ond yr wyf wedi llithro i'r fagl o'u defnyddio drwy'r amser; dylwn geisio rhoi'r gorau i wneud hynny. O ran hyblygrwydd diwedd blwyddyn, pwnc sy'n codi'n aml yn y Pwyllgor Cyllid, mae'r Gweinidog wedi dweud y byddai cael sicrwydd ynghylch a allwn gael yr hyblygrwydd hwnnw'n gymorth i reoli materion ariannol wrth ddelio â'r broblem hon. Tueddaf i gytuno â hi, ond yr ydym wedi bod yn aros am y sicrwydd hwnnw ers cryn amser—drwy gydol cyfnod y Llywodraeth flaenorol—ac yr oeddem yn aflwyddiannus. Wedi dweud hynny, hyd y gwn, yr ydym bob amser wedi cael hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Ni chafwyd problem cael hyblygrwydd diwedd blwyddyn o'r blaen, er nad oedd gennym sicrwydd. A all y Gweinidog ddweud wrthym pam mae'n teimlo y bydd cael y sicrwydd hwnnw'n gymorth yn awr? Ac edrych ar rai o'i sylwadau yn y wasg yn ystod y diwrnodau diwethaf, nid wyf yn siŵr a yw'n bwriadu defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn i ariannu'r gwasanaethau y mae'n dymuno eu hamddiffyn yng Nghymru ynteu a yw'n bwriadu ei roi'n ôl fel ffordd o dalu cyfran o gyllid Llywodraeth y Cynulliad. Byddai'n ddefnyddiol dros ben pe gallai egluro hynny.

I have two final points to make. On the comprehensive spending review, the Minister says that she will wait until later in the year but that she would like some advance information on the scale of the cuts that will be required. Considering the length of time that we waited for a comprehensive spending review, I find that a little rich at this point in time. At last, one is coming, which will give the Government some clarity, which I do not think that it had over the past few years. Therefore, it would be helpful if the Minister could tell us why advance information of that comprehensive spending review would be of assistance.

Finally, the most extraordinary parts of the statement are the allusions at the end to the Holtham review, Holtham plus, and the Barnett formula. On this side of the Chamber, we have been calling for changes to Barnett for a long time, but, only just before the general election, the outgoing Chancellor, Alistair Darling, said that he felt that everything was fine and rosy in the garden with Barnett. What has changed over the past few weeks other than this Government taking the opportunity to play politics? This is no time for playing petty politics.

I welcome many of the comments that the Minister has made, but I would be grateful if she would look into some of the issues that I have raised. Sometimes, to borrow a phrase from the First Minister, I feel as though we have entered a parallel universe. There may have been a conversion on the road to Damascus regarding the Barnett funding formula, but it is a little late.

Jane Hutt: I welcome the fact that you have welcomed my opening remarks about how we have not only always said that we will be responsible partners, which I made clear to the former Chancellor and the Chief Secretary to the Treasury, and as the former Chancellor did through his superb management of the economy, which has put us in a position of recovery—[*Interruption.*] That recovery is clear from the Office for

Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud i gloi. O ran yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, dywed y Gweinidog y bydd yn aros tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ond yr hoffai gael rhywfaint o wybodaeth ymlaen llaw am faint y toriadau y bydd angen eu gwneud. Ac ystyried am ba hyd y bu'n rhaid inni aros i gael adolygiad cynhwysfawr o wariant, mae'n anodd credu hynny ar hyn o bryd. Mae adolygiad ar y ffordd o'r diwedd, rhywbeth a fydd yn rhoi rhywfaint o eglurder i'r Llywodraeth, ac ni chredaf fod eglurder gan y Llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pam y byddai cael gwybodaeth ymlaen llaw am yr adolygiad cynhwysfawr hwnnw o wariant yn ddefnyddiol.

Yn olaf, darnau rhyfeddaf y datganiad yw'r cyfeiriadau ar y diwedd at adolygiad Holtham, Holtham a mwy, a fformiwla Barnett. Ar yr ochr hon i'r Siambr, yr ydym wedi bod yn galw am newidiadau yn fformiwla Barnett ers tro byd, ond, ychydig cyn yr etholiad cyffredinol, dywedodd Alistair Darling, y Canghellor sydd newydd adael ei swydd, ei fod yn teimlo bod popeth yn iawn gyda fformiwla Barnett. Beth sydd wedi newid yn ystod yr wythnosau diwethaf, heblaw bod y Llywodraeth hon yn achub y cyfle i chwarae gwleidyddiaeth? Nid dyma'r amser i chwarae gemau gwleidyddiaeth pitw.

Yr wyf yn croesawu llawer o sylwadau'r Gweinidog, ond byddwn yn ddiolchgar petai'n ymchwilio i rai o'r materion yr wyf wedi'u codi. Weithiau, os caf fenthyg ymadrodd gan y Prif Weinidog, teimlaf ein bod wedi camu i fyd cyfochrog. Efallai fod tröedigaeth ar y ffordd i Damascus wedi bod o ran fformiwla gyllido Barnett, ond mae braidd yn hwyr.

Jane Hutt: Yr wyf yn croesawu'r ffaith ichi groesawu fy sylwadau agoriadol ynghylch ein bod nid yn unig wedi dweud o'r dechrau y byddwn yn bartneriaid cyfrifol, a gwneuthum hynny'n glir i'r cyn Ganghellor ac i gyn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac fel y gwnaeth y cyn Ganghellor wrth reoli'r economi'n wych, a hynny wedi ein harwain at adferiad—[*Torri ar draws.*] Mae'r adferiad hwnnw'n amlwg wrth edrych ar ffigurau'r

National Statistics figures released last week. However, economists say that the recovery could be threatened if we pull money out of the economy. Those concerns do not relate to the public sector alone, but also to the private sector. After all, it was a Labour Government that moved in—and I say this in relation to the Welsh Assembly Government—and set up economic summits, chaired by the former First Minister. We listened to businesses. They told us that they wanted us to bring forward capital, and we did. In relation to our construction industry and the building and refurbishing of schools and hospitals, we were able to take action to devise the innovative and pioneering ProAct and ReAct schemes, to help us to weather the recession and lead Wales out of recession. I will take no lectures from that side of the Chamber or from a new Conservative-Liberal Democrat coalition Government.

However, I agreed and will now repeat that we have to be responsible about the way in which we manage this. We have been set a challenge of this expected £187 million-worth in-year unplanned reduction to a budget that has already been set and approved by the Assembly, as I have said.

3.10 p.m.

I welcome the fact that Nick wants more information about the efficiency and innovation board. I have reported on the programme and its highlights, including the seven work streams. I want to bring another statement to the Chamber on the efficiency and innovation board with more details of the work being done. What is interesting is that that work is being led by the public sector—by chief executives from local authorities, supported by the NHS, and with the help of the Wales TUC and the Wales Council for Voluntary Action. All these bodies across the public and third sectors are around the table with us, helping our directors general to drive the efficiency and innovation that we need. At the next meeting, the Minister for Children, Education and Lifelong Learning will be presenting the report from

Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, dywed economyddion y gallai'r adferiad fod dan fygythiad petaem yn tynnu arian o'r economi. Nid dim ond i'r sector cyhoeddus y mae'r pryderon hynny'n berthnasol—maent yn berthnasol i'r sector preifat hefyd. Wedi'r cyfan, Llywodraeth Lafur a aeth ati—a dywedaf hyn yng nghyd-destun Llywodraeth Cynulliad Cymru—i sefydlu uwchgynadleddau economaidd, dan gadeiryddiaeth y cyn Brif Weinidog. Gwrandasom ar fusnesau. Dywedasant wrthym fod arnynt eisiau inni ddwyn cyfalaf ymlaen, a dyna a wnaethom. O ran ein diwydiant adeiladu a'r gwaith i adeiladu ac adnewyddu ysgolion ac ysbytai, llwyddasom i gymryd camau i ddyfeisio ProAct a ReAct, y cynlluniau arloesol a blaengar, i'n cynorthwyo i oroesi'r dirwasgiad ac i arwain Cymru o'r dirwasgiad. Ni dderbyniaf bregeth gan y rhan honno o'r Siambr na chan Lywodraeth glymblaid newydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Fodd bynnag, cytunais fod yn rhaid inni reoli hyn yn gyfrifol, ac ailadroddaf hynny'n awr. Gosodwyd her inni, sef bod disgwyl inni wneud gwerth £187 miliwn o ostyngiad heb ei gynllunio yn ystod y flwyddyn mewn cyllideb sydd eisoes wedi'i phennu a'i chymeradwyo gan y Cynulliad, fel y dywedais.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith bod Nick am gael mwy o wybodaeth am y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi. Yr wyf wedi sôn am y rhaglen a'i phrif bwyntiau, gan gynnwys y saith ffrwd waith. Hoffwn gyflwyno datganiad arall i'r Siambr ynghylch y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, gyda rhagor o fanylion am y gwaith a wneir. Yn ddi-ddorol iawn, mae'r gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus—gan brif weithredwyr awdurdodau lleol, gyda chefnogaeth y GIG a chymorth TUC Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r holl gyrff hyn ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn trafod o amgylch y bwrdd gyda ni, gan gynorthwyo ein cyfarwyddwyr i ddatblygu'r effeithlonrwydd a'r arloesedd y mae eu hangen arnom. Yn y cyfarfod nesaf, bydd y

PricewaterhouseCoopers; that is an example of how we are trying to address the challenges that we face in respect of efficiency and innovation.

Jonathan asked about private sector access to public sector procurement contracts, and the expectation is that we will save £200 million through collaborative procurement. Value Wales has been winning awards for its work in Wales and across the UK, on collaborative procurement via xchangewales. Every local authority is now geared up to engage with e-trading via xchangewales, and the workforce redesign and asset management regarding our shared public land are all a part of that. That is good progress, and I look forward to sharing that with David Laws when I meet him in the next couple of weeks to advise and guide him on his efficiency and reform group. It is such a model of what we are doing that they are clearly learning from Wales, which is a good sign. Hopefully, someone on the other side of the Chamber has been sharing our efficiency and innovation programme with the Government at Westminster.

On the serious points that you make about the civil service and how we can ensure that we drive down costs, I have to say that the scope for administrative savings in Wales is not the same as in England. Treasury statistics show that the Assembly Government's administration budget is 2.4 per cent of the total devolved spend, while the UK Government's administration is 2.8 per cent of total managed expenditure. We operate with a lower proportion of senior civil servants, and HR costs per employee in the Assembly Government are the lowest of all the civil service departments in the UK.

The First Minister adequately responded to Nick's questions about the loss of dedicated ministerial cars in London. Ministers in the Welsh Assembly Government choose public transport whenever and wherever possible, as well as—for some, though not all, of us—the walking and cycling options. We ensure that that is a part of our culture and regime, as it

Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes yn cyflwyno'r adroddiad gan PricewaterhouseCoopers; mae hynny'n enghraifft o sut yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu o ran effeithlonrwydd ac arloesi.

Holodd Jonathan am fynediad y sector preifat at gontractau caffael y sector cyhoeddus, a disgwylir y byddwn yn arbed £200 miliwn drwy gyfrwng caffael cydweithredol. Mae Gwerth Cymru wedi bod yn ennill gwobrau am ei waith yng Nghymru a ledled y DU ar gaffael cydweithredol drwy gyfrwng cyfnewidcymru. Erbyn hyn, mae pob awdurdod lleol yn barod i ymgymryd ag e-fasnachu drwy gyfrwng cyfnewidcymru, ac mae'r gwaith o ailgynllunio'r gweithlu a rheoli asedau ynghylch ein tir cyhoeddus a rennir i gyd yn rhan o hynny. Mae hynny'n ddatblygiad da, ac edrychaf ymlaen at rannu hynny gyda David Laws wrth gwrdd ag ef yn ystod y pythefnos nesaf er mwyn ei arwain a'i gynghori ynghylch ei grŵp effeithlonrwydd a diwygio. Mae mor debyg i'r hyn yr ydym ni'n ei wneud nes ei bod yn amlwg eu bod yn dysgu gan Gymru, ac mae hynny'n arwydd da. Y gobaith yw bod rhywun ar yr ochr arall i'r Siambr wedi bod yn rhannu ein rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi gyda'r Llywodraeth yn San Steffan.

O ran y pwyntiau difrifol a wnewch ynghylch y gwasanaeth sifil a sut y gallwn sicrhau ein bod yn lleihau'r costau, rhaid imi ddweud nad oes yr un cyfleoedd i wneud arbedion gweinyddol yng Nghymru ag sydd yn Lloegr. Dengys ystadegau'r Trysorlys fod cyllideb weinyddol Llywodraeth y Cynulliad yn 2.4 y cant o gyfanswm y gwariant datganoledig, tra mae gweinyddiaeth Llywodraeth y DU yn 2.8 y cant o gyfanswm y gwariant a reolir. Yr ydym yn gweithredu gyda chyfran lai o uwch weision sifil, a chostau adnoddau dynol Llywodraeth y Cynulliad fesul cyflogai yw'r isaf o holl adrannau gwasanaeth sifil y DU.

Ymatebodd y Prif Weinidog yn ddigonol i gwestiynau Nick am gollu ceir pwrpasol ar gyfer Gweinidogion yn Llundain. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dewis trafndiaeth gyhoeddus pryd bynnag a lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, a bydd rhai ohonom—ond nid pawb ohonom—yn dewis yr opsiynau cerdded a seiclo. Yr ydym

always has been.

The final, and important, points that I want to make relate to the challenging decision that we will have to take, responsibly, about whether to defer all or part of these unplanned reductions in our budget without hitting vulnerable people. That has to be the response of a responsible Government. You recognise, Nick, that we need to know the capital and revenue split, and we will have to wait to see what it means for us when the UK Government takes its decision on a dividing line.

You did not comment, of course, on the fact that we suddenly get the Olympics budget added as a consequential of cuts, but we did not get consequentials from the Olympics budget in the last comprehensive spending review. You must be able to recognise our concerns about these emerging issues. We want clarification, as do other devolved administrations, I am sure.

On EYF, we need guaranteed access, Nick. We do not want to wait and see, with crossed fingers. Perhaps you can deliver that for us. We expect you to stand up for us and ensure that we get guaranteed access to EYF. Let us face it: when people ask me what this means for jobs and services in Wales, I have to respond immediately that our planning assumptions for 2011-12 onwards are the key.

This is the first step with regard to the planned reductions that we want to make and in ensuring that our priorities are at the forefront. We have stated that our priorities are schools, skills, hospitals and those services that mean so much to vulnerable people. Therefore, we need to have indications about the baselines for the comprehensive spending review and it is entirely reasonable that we look to these issues and to the clarifications. I look forward

yn sicrhau bod hynny'n rhan o'n diwylliant a'n trefn, fel y bu erioed.

Mae'r pwyntiau olaf, pwysig, yr wyf am eu gwneud yn ymwneud â'r penderfyniad anodd y bydd yn rhaid inni ei wneud, a hynny mewn ffordd gyfrifol, ynghylch a fyddwn yn gohirio'r holl ostyngiadau hyn sydd heb eu cynllunio yn ein cyllideb, neu rai ohonynt, heb i hynny effeithio ar bobl agored i niwed. Rhaid i Lywodraeth gyfrifol ymateb yn y ffordd honno. Yr ydych yn sylweddoli, Nick, fod angen inni wybod beth yw'r rhaniad rhwng cyfalaf a refeniw, a bydd yn rhaid aros i weld beth y bydd yn ei olygu i ni pan fydd Llywodraeth y DU yn penderfynu ynghylch y rhaniad hwnnw.

Wrth gwrs, ni wnaethoch sylw am y ffaith bod cyllideb y Gemau Olympaidd wedi'i hychwanegu ar ffurf toriadau canlyniadol, ond ni chawsom symiau canlyniadol yn sgîl cyllideb y Gemau Olympaidd yn yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o wariant. Rhaid eich bod yn gallu deall ein pryderon am y materion hyn sy'n dod i'r amlwg. Mae arnom eisiau eglurder, yn yr un modd â gweinyddiaethau datganoledig eraill yr wyf yn siŵr.

O ran hyblygrwydd diwedd blwyddyn, mae arnom angen sicrwydd bod hynny ar gael, Nick. Nid oes arnom eisiau aros i weld a chroesi ein bysedd. Efallai y gallwch sicrhau hynny inni. Disgwylwch i chi sefyll yn gadarn drosom a sicrhau bod sicrwydd y bydd hyblygrwydd diwedd blwyddyn ar gael inni. Gadewch inni wynebu pethau: pan fydd pobl yn gofyn imi beth y mae hyn yn ei olygu o ran swyddi a gwasanaethau yng Nghymru, mae'n rhaid imi ateb yn ddi-oed drwy ddweud mai ein rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer 2011-12 ymlaen sy'n allweddol.

Dyma'r cam cyntaf o ran y gostyngiadau arfaethedig yr ydym am eu gwneud a sicrhau bod ein blaenoriaethau yn cael lle blaenllaw. Yr ydym wedi datgan mai ysgolion, sgiliau, ysbytai a'r gwasanaethau hynny sy'n golygu cymaint i bobl agored i niwed yw ein blaenoriaethau. Felly, mae angen inni gael syniad o'r llinellau sylfaen ar gyfer yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, ac mae'n gwbl resymol inni ystyried y materion hyn a phob eglurhad. Edrychaf ymlaen at sgwrs

not only to an introductory conversation with the Chief Secretary to the Treasury this week, but also a meeting with him in a fortnight.

Chris Franks: Minister, I have three detailed questions. The first is on the nature of the Tory-led coalition in Westminster and the emphasis that it puts on the status quo when it comes to funding for Wales. The second is on the future of S4C and the jobs that come with it, and the final question is on whether these cuts will be the very small tip of a huge iceberg that is about to hit our public services next year.

Francis Maude, Minister for the Cabinet Office, said on *Good Morning Wales* today that the Con-Dem Government did not see the reform of the Barnett formula for Wales as a priority. It was brutally obvious that Mr Maude had no understanding of the Holtham commission's focus on fair funding, and he said that it was not a matter that was a key part of the commission's work. I suspect that those words will be burned on all our hearts. His ignorance shows the abject failure of the Tories in this Chamber in having any influence in London. The lack of action among Welsh Tory Assembly Members is a total disgrace. Will you urgently discuss the Holtham commission's first report with new Ministers in London, so that they can understand, at an early stage, the difficulties that we face? As we all know, the independent report identified that Wales was losing out to the tune of £300 million per annum.

I am concerned about the future of jobs at S4C and associated companies that work for the broadcaster. Will the Welsh Government discuss with other bodies the future of S4C and the jobs that make such a valuable contribution to the Welsh economy? Will the Minister discuss, with the Conservative leader, Cheryl Gillan, fighting Wales's corner to protect the broadcaster, along with the threat to cut the proposed additional television news service for Wales in the English language?

ragarweiniol gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yr wythnos hon, ac at gwrdd ag ef ymhen pythefnos.

Chris Franks: Weinidog, mae gennyf dri chwestiwn manwl. Mae'r cyntaf yn ymwneud â natur y glymblaid a arweinir gan y Torïaid yn San Steffan a'r pwyslais y mae'n ei roi ar gynnal y drefn bresennol o ran cyllid ar gyfer Cymru. Mae'r ail yn ymwneud â dyfodol S4C a'i swyddi cysylltiedig, ac mae'r cwestiwn olaf yn gofyn ai dim ond crafu'r wyneb y mae'r torïadau hyn, ac y bydd llif enfawr o doriadau yn taro ein gwasanaethau cyhoeddus y flwyddyn nesaf.

Heddiw ar raglen *Good Morning Wales*, dywedodd Francis Maude, y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, nad yw Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid yn ystyried bod diwygio fformiwla Barnett ar gyfer Cymru yn flaenoriaeth. Yr oedd yn gwbl amlwg nad oedd Mr Maude yn deall dim am ffocws comisiwn Holtham ar system gyllido deg, a dywedodd nad oedd y mater yn rhan allweddol o waith y comisiwn. Tybiaf y bydd y geiriau hynny wedi'u serio ar galonnau pob un ohonom. Mae ei anwybodaeth yn dangos bod y Torïaid yn y Siambr hon wedi methu'n druenus o ran cael unrhyw ddyllanwad yn Llundain. Mae'r diffyg gweithredu ymhlith Aelodau Cynulliad Torïaid Cymru yn gwbl warthus. A ewch ati i drafod adroddiad cyntaf comisiwn Holtham ar unwaith gyda'r Gweinidogion newydd yn Llundain, er mwyn iddynt allu deall o'r dechrau y problemau yr ydym yn eu hwynebu? Fel y gwyddom oll, dywedodd yr adroddiad annibynnol fod Cymru ar ei cholled o tua £300 miliwn y flwyddyn.

Yr wyf yn pryderu am ddyfodol swyddi yn S4C a'r cwmnïau cysylltiedig sy'n gweithio i'r darlledwr. A wnaiff Llywodraeth Cymru gael trafodaeth gyda chyrrff eraill ynghylch dyfodol S4C a'r swyddi sy'n gwneud cyfraniad mor werthfawr at economi Cymru? A gaiff y Gweinidog drafodaeth gyda Cheryl Gillan, arweinydd y Ceidwadwyr, ynghylch dadlau achos Cymru er mwyn amddiffyn y darlledwr, ynghyd â'r bygythiad i ddileu'r gwasanaeth newyddion teledu ychwanegol arfaethedig ar gyfer Cymru drwy gyfrwng y Saesneg?

Yesterday's announcements are not the only cuts that Wales will be facing in the coming years. These are just the first, faltering baby steps in the cuts-led agenda of the Tories and Lib Dems, which Plaid Cymru fought against in the election. Needless to say, the 18 Cabinet millionaires in Westminster will not feel the pinch in the same way as public sector workers in the Vale of Glamorgan, Rhondda Cynon Taf and Cardiff, particularly if Wales suffers a double-dip recession because of these cuts. What further discussions will you have with Ministers in London regarding the awful impact of potential cuts?

Jane Hutt: Your points and questions relate to the lack of commitment to Wales from the new Conservative and Liberal Democrat coalition Government in London. The lack of commitment to Wales was only too clear in last week's agreement. When the Government was first formed, within minutes of being in the Chamber, Peter Black took me to task for saying that there was no mention of Holtham in the early draft of that agreement. I was told that that was only an early draft and that I should wait to see. However, the agreement that came on Friday included the most bizarre paragraph stating that they recognised the Holtham commission, but that they could not do anything about it until the deficit is reduced and after a referendum.

3.20 p.m.

One of the first things that I did when I was Minister with responsibility for finance three and a half years ago was to bring to the Chamber a statement that we were going to have a commission to look at the Barnett formula. That is what we, as the Government, did. It was a Government commission; the Calman commission was not a Government commission, but a Scottish Parliament commission. The Holtham commission was commissioned by the Welsh Assembly Government and its recommendations have been backed throughout the Chamber. However, it is sidelined and obscure in the

Nid y toriadau a gyhoeddwyd ddoe yw'r unig doriadau y bydd Cymru'n eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Dim ond y camau bach cyntaf, sigledig, yw'r rhain yn agenda toriadau'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol y bu Plaid Cymru yn ei gwrthwynebu yn ystod yr etholiad. Afraid dweud na fydd y 18 miliynydd yn y Cabinet yn San Steffan yn teimlo'r esgid yn gwasgu yn yr un modd â gweithwyr y sector cyhoeddus ym Mro Morgannwg, yn Rhondda Cynon Taf ac yng Nghaerdydd, yn enwedig os bydd Cymru'n llithro'n ôl i'r dirwasgiad oherwydd y toriadau hyn. Pa drafodaethau pellach a gewch gyda Gweinidogion yn Llundain ynghylch effaith ddychrynlyd toriadau posibl?

Jane Hutt: Mae a wnelo'ch pwyntiau a'ch cwestiynau â'r diffyg ymrwymiad i Gymru gan Lywodraeth glymblaid newydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. Yr oedd y diffyg ymrwymiad i Gymru yn glir dros ben yn y cytundeb yr wythnos diwethaf. Pan ffurfiwyd y Llywodraeth am y tro cyntaf, ymhen ychydig funudau wedi cyrraedd y Siambr cefais gerydd gan Peter Black am ddweud nad oedd sôn am gomisiwn Holtham yn nrafft cynnar y cytundeb hwnnw. Dywedwyd wrthyf mai dim ond drafft cynnar oedd hwnnw ac y dylwn aros i weld. Fodd bynnag, yr oedd y cytundeb a gyhoeddwyd ddydd Gwener yn cynnwys paragraff rhyfedd iawn, a oedd yn datgan eu bod yn cydnabod comisiwn Holtham, ond na allent wneud dim amdano nes caiff y diffyg ei leihau ac ar ôl refferendwm.

Pan oeddwn yn Weinidog gyda chyfrifoldeb dros gyllid dair blynedd a hanner yn ôl, un o'r pethau cyntaf a wneuthum oedd cyflwyno datganiad i'r Siambr yn dweud ein bod am gael comisiwn i edrych ar fformiwla Barnett. Dyna a wnaethom, fel y Llywodraeth. Comisiwn gan y Llywodraeth ydoedd; nid oedd comisiwn Calman yn gomisiwn gan y Llywodraeth—comisiwn gan Lywodraeth yr Alban ydoedd. Comisiynwyd comisiwn Holtham gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a chafwyd cefnogaeth i'w argymhellion ar draws y Siambr. Fodd bynnag, mae'n aneglur yn y cytundeb ac wedi cael ei roi o'r neilltu.

agreement. Gerry Holtham used the word 'surreal' when he read what it meant in relation to trying to move forward. On implementation, I have focused on implementing the floor, which is the easiest thing that the new UK coalition Government can do. I will be pressing that case, and the case to deliver fair funding. I go back to the points that the Welsh Liberal Democrats have made so clearly. Kirsty, the leader, has said that they are fully committed to reforming the way Wales is funded. She has also said that they support the work of the Holtham commission and that it is imperative that the Treasury is a full part of the Welsh process. If you have made that case, let us see what it means. It is not in the Queen's Speech; if you check, there is no mention of the Holtham commission. I do not know where Holtham plus is, but I am delighted that I will be bringing another report, the second part of the Holtham report, to the Chamber. That will reflect the part findings, which are key to getting a fair funding formula for Wales.

Broadcasting is not devolved, but the funding of S4C is clearly an issue, not only for the S4C Authority, but for the people of Wales. As we have said, we would be concerned if any reduction in S4C's grant impacted not just on the quality of its programmes and its cultural and linguistic content, but on the sustainability of creative industries, which we are promoting vigorously through the 'One Wales' programme for government.

Kirsty Williams: I will begin by thanking the Minister for her statement this afternoon. I ask her for some further details on some of the examples that she has used in her statement around preparation for what will be very difficult times. On 12 February 2009, her predecessor, Andrew Davies said:

'Clearly as finance minister I have been saying consistently for around 18 months now the years of plenty have come to an end, and we need to be planning for some lean years coming ahead'.

Defnyddiodd Gerry Holtham y gair 'swreal' wrth ddarllen yr hyn a olygai o ran ceisio symud ymlaen. O ran rhoi pethau ar waith, yr wyf wedi canolbwyntio ar roi'r terfyn isaf ar waith, sef y peth hawsaf y gall Llywodraeth glymblaid newydd y DU ei wneud. Byddaf yn dadlau dros hynny, a'r achos dros sicrhau system gyllido deg. Dychwelaf at y pwyntiau a wnaethpwyd mor glir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae Kirsty, yr arweinydd, wedi dweud eu bod wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwygio'r ffordd y caiff Cymru ei hariannu. Mae wedi dweud hefyd eu bod yn cefnogi gwaith comisiwn Holtham a'i bod yn hollbwysig i'r Trysorlys chwarae rhan lawn ym mhroses Cymru. Os ydych wedi dadlau'r achos hwnnw, gadewch inni weld beth y mae hynny'n ei olygu. Nid yw'n rhan o Araith y Frenhines; os gwrandewch ar yr araith, nid oes sôn am gomisiwn Holtham. Ni wn lle y mae Holtham a mwy, ond yr wyf yn hynod falch y byddaf yn cyflwyno adroddiad arall i'r Siambr, sef ail ran adroddiad Holtham. Bydd hwnnw'n adlewyrchu'r rhan-ganfyddiadau, sy'n allweddol er mwyn sicrhau fformiwla gyllido deg i Gymru.

Nid yw darlledu'n fater datganoledig, ond mae ariannu S4C yn amlwg yn broblem, nid yn unig i Awdurdod S4C, ond i bobl Cymru hefyd. Fel yr ydym wedi dweud, byddem yn bryderus petai unrhyw ostyngiad yng ngrant S4C yn effeithio nid yn unig ar ansawdd y rhaglenni ac ar eu cynnwys diwylliannol ac ieithyddol, ond hefyd ar gynaliadwyedd y diwydiannau creadigol yr ydym yn eu hybu'n frwd drwy raglen lywodraethu 'Cymru'n Un'.

Kirsty Williams: Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Gofynnaf iddi am ragor o fanylion am rai o'r enghreifftiau y mae wedi'u defnyddio yn ei datganiad ynghylch paratoi ar gyfer cyfnod anodd iawn. Ar 12 Chwefror 2009, dywedodd Andrew Davies, ei rhagflaenydd:

Yn amlwg fel y Gweinidog dros gyllid, yr wyf wedi bod yn dweud yn gyson ers tua 18 mis erbyn hyn fod y blynyddoedd o ddigonedd wedi dod i ben, a bod angen inni gynllunio ar gyfer y blynyddoedd o gyni sydd ar y gorwel.

The writing has been on the wall, and your predecessor made many contributions to this Chamber saying that the Government needed to plan for the inevitability of whoever won the election cutting public expenditure. I acknowledge the you place great store on the body that you have set up to identify these cost savings, but what other planning have you been doing as Minister for finance to respond to a situation that was foreseen by everybody in this Chamber, including members of your own Cabinet?

You say that much of the approach that was announced yesterday has already been done in Wales and that you cannot be expected to do any more. You point to the example of the merging of quangos into the Welsh Assembly Government. Will you identify an absolute figure here today on how much the merging of the Welsh Development Agency saved the Government? Could you do the same for the Wales Tourist Board and Education and Learning Wales? We are all aware that we have just been through a massive NHS reorganisation. There are many drivers for that reorganisation—better clinical care, better planning and so on—but one of the drivers was greater efficiency. A significant number of bodies have been reduced down to seven. Will you give us a figure on how much money has been saved by that NHS reorganisation? You also say that further gains in the area of Assembly Government-sponsored bodies and organisations that receive funding from the Assembly Government cannot be looked at—you are co-locating them, so you have done everything that you can. Are you saying that there is no further scope for greater savings to be made in this particular area?

I note that, last week, in the Minister for Children, Education and Lifelong Learning's initial report on education funding, there were some suggestions about how a switch could be made by merging back-room functions of some of the bodies involved in education, which would then allow the Welsh Assembly Government to put that resource into front-line services. I perfectly agree with it and it is good to have a figure associated

Mae'r ysgrifen wedi bod ar y mur, a gwnaeth eich rhagflaenydd amryw o sylwadau i'r Siambr hon gan ddweud bod angen i'r Llywodraeth gynllunio ar gyfer toriadau mewn gwariant cyhoeddus, gan ei bod yn anochel y byddai pwy bynnag a fyddai'n ennill yr etholiad yn gwneud hynny. Yr wyf yn cydnabod bod gennych feddwl mawr o'r corff yr ydych wedi'i sefydlu i ganfod yr arbedion ariannol hyn, ond pa gynlluniau eraill yr ydych wedi bod yn eu gwneud fel y Gweinidog dros gyllid i ymateb i sefyllfa a ragwelwyd gan bawb yn y Siambr hon, gan gynnwys aelodau'ch Cabinet chi eich hun?

Yr ydych yn dweud bod llawer o'r hyn a gyhoeddwyd ddoe eisoes wedi cael ei wneud yng Nghymru ac na ellir disgwyl ichi wneud dim mwy. Yr ydych yn cyfeirio at ddod â'r cwangos dan adain Llywodraeth Cynulliad Cymru yn enghraifft. A roddwch ffigur pendant yma heddiw ar gyfer faint a arbedodd y Llywodraeth drwy ddod ag Awdurdod Datblygu Cymru o dan adain y Llywodraeth? A allech wneud yr un peth ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru? Yr ydym oll yn ymwybodol bod y GIG newydd gael ei ad-drefnu ar raddfa anferthol. Yr oedd amryw o resymau dros yr ad-drefnu hwnnw—gwell gofal clinigol, gwell cynllunio ac yn y blaen—ond un o'r rhesymau oedd gwell effeithlonrwydd. Saith o gyrff sydd bellach yn lle nifer sylweddol ohonynt. A roddwch ffigur inni ar gyfer faint o arian a arbedwyd yn sgîl ad-drefnu'r GIG? Yr ydych hefyd yn dweud na ellir ystyried gwneud mwy o enillion ym maes sefydliadau a chyrrff a noddur gan Lywodraeth y Cynulliad ac sy'n cael arian gan Lywodraeth y Cynulliad—yr ydych yn eu cydleoli, felly yr ydych wedi gwneud popeth a allwch. A ydych yn dweud nad oes cyfleoedd pellach i wneud rhagor o arbedion yn y maes penodol hwn?

Sylwaf fod adroddiad cychwynnol y Gweinidog dros Blant, Addysg, a Dysgu Gydol Oes ynghylch ariannu addysg yr wythnos diwethaf yn cynnwys rhai awgrymiadau ynghylch sut y gellid sicrhau newid drwy uno swyddogaethau ystafell gefn rhai o'r cyrrff sy'n ymwneud ag addysg, ac y byddai hynny, o ganlyniad, yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru fuddsoddi'r adnoddau hynny mewn gwasanaethau rheng

with that for how much that could release for funding. Therefore, I am bemused that you say that you cannot go any further with this agenda, when your own Government made reports last week that suggested that there is a significant distance that could be travelled as part of this agenda, should your Government choose to pursue it. Therefore, that is obviously at odds with what your Government colleagues are saying in their departmental budgets.

A few months ago, we had a very sobering report from the Auditor General for Wales, 'Financial Challenges Facing Public Services', that pointed to the fact that there are a great many areas where public services could be working more efficiently. Could you explain how the Government is taking forward the findings of that report? I know that, in the statement, you say that the Government has taken action on civil service recruitment. In 1999, when the Assembly was created, we had 2,500 civil servants. When the Permanent Secretary came to give evidence to the Finance Committee just a few weeks ago, that had grown to more than 6,000. Undoubtedly, some of those are accounted for by the mergers, but there has been quite a significant growth in civil service numbers above and beyond the mergers. The cost of that has gone from £68 million in 1999 to £246 million now. Therefore, I would be grateful to know what the evidence is for your statement that you have taken firm action with regard to civil service recruitment.

You also say that you have taken firm action with regard to consultancy fees. My understanding is that the figures for 2008-09—I am afraid that I have not been able to get more up-to-date figures—demonstrated that the Welsh Assembly Government spent £11.2 million on consultancy, while the figure 5 years earlier was £1.9 million. Therefore, again, I would be grateful to hear from the Minister what the evidence is for her statement that she has taken firm action on the use of consultancy and that there are, therefore, no further savings to be gained

flaen. Cytunaf yn llwyr â hynny, ac mae'n dda cael ffigur ar gyfer hynny sy'n dweud faint y gallai hynny ei ryddhau ar gyfer cyllid. Felly, synnaf eich bod yn dweud na allwch fynd ymhellach â'r agenda hon, a'ch Llywodraeth chi eich hun wedi gwneud adroddiadau yr wythnos diwethaf yn awgrymu y gellid mynd gryn bellter â'r agenda hon, petai eich Llywodraeth yn penderfynu ei dilyn. Felly, mae hynny'n amlwg yn groes i'r hyn y mae eich cyd-Aelodau yn y Llywodraeth yn ei ddweud yng nghyllidebau eu hadrannau.

Rai misoedd yn ôl, cawsom adroddiad digalon iawn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef 'Heriau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu', a gyfeiriai at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus fod yn gweithio'n fwy effeithlon mewn nifer helaeth o feysydd. A allech esbonio sut y mae'r Llywodraeth yn rhoi canfyddiadau'r adroddiad hwnnw ar waith? Gwn eich bod yn dweud yn y datganiad fod y Llywodraeth wedi cymryd camau ynghylch recriwtio i'r gwasanaeth sifil. Yn 1999, pan grëwyd y Cynulliad, yr oedd gennym 2,500 o weision sifil. Pan ddaeth yr Ysgrifennydd Parhaol i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyllid ychydig wythnosau'n ôl, yr oedd y ffigur hwnnw wedi cynyddu i dros 6,000. Yn ddi-os, yr uno sydd i gyfrif am rai o'r rheini, ond cafwyd twf eithaf sylweddol o ran y niferoedd yn y gwasanaeth sifil, nad oes a wnelo ddim â'r uno. Yn 1999, yr oedd hynny'n costio £68 miliwn, ac erbyn hyn mae wedi cynyddu i £246 miliwn. Felly, byddwn yn falch o gael gwybod beth yw'r dystiolaeth sy'n sail i'ch datganiad eich bod wedi cymryd camau cadarn o ran recriwtio i'r gwasanaeth sifil.

Yr ydych yn dweud hefyd eich bod wedi cymryd camau cadarn o ran ffioedd ymgynghori. Yn ôl a ddeallaf, dangosodd y ffigurau ar gyfer 2008-09—yn anffodus nid wyf wedi gallu cael ffigurau mwy diweddar—fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwario £11.2 miliwn ar ymgynghori, er mai £1.9 miliwn oedd y ffigur 5 mlynedd yn gynharach. Felly, unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar petai'r Gweinidog yn dweud wrthym beth yw'r dystiolaeth sy'n sail i'w datganiad ei bod wedi cymryd camau cadarn ynghylch

from that area.

The Minister also talks about travel. In the past five years, the Welsh Assembly Government has spent £5 million on hire cars. Again, I am concerned to hear that the Minister feels that there is no scope for savings in this area. I acknowledge that Ministers of the Welsh Assembly Government have never enjoyed the privilege of an individual ministerial car, and I am glad to see the emphasis in her answers this afternoon that, wherever possible, Ministers use public transport. I received a very worrying e-mail from a member of the public last week who made the accusation that some Ministers, when using public transport, found that the ministerial car had travelled to their destination before they got there. The car was then used to drive them to their appointments and, when the Minister got back on public transport to return to Cardiff, the car followed behind. I am sure that you will want to take this opportunity to say that that is not Government practice and that the constituent who received that information who passed it on to me was, in fact, not correct in this case. I am sure that we would be grateful to receive that reassurance this afternoon.

What concerns me about the approach that the Government has set out today is that the Minister has said that there are no savings to be made in these areas, that the Government has gone as far as it can go and that she is, therefore, not willing to look again at some of these issues. I think that it is important that the Welsh Assembly Government looks to do whatever it can internally to save resources, and it is disappointing that the Minister feels that she is unable to do that at all and that she has done everything that she can in this regard. I would argue that that should not be her stance and that we should be looking again at some of these issues.

Turning to the issue of future funding for Wales, the Minister here has, once again, committed herself to reform of the Barnett formula, and I commend her for that. Does she therefore regret that, even in the closing

defnyddio ymgynghori, ac felly na ellir gwneud mwy o arbedion yn y maes hwnnw.

Mae'r Gweinidog yn sôn am deithio hefyd. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwario £5 miliwn ar logi ceir. Unwaith eto, yr wyf yn bryderus o glywed bod y Gweinidog yn teimlo nad oes lle i wneud arbedion yn y maes hwn. Yr wyf yn sylweddoli nad yw Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru erioed wedi cael y ffrainc o gael car unigol ar gyfer Gweinidogion, ac yr wyf yn falch o weld y pwyslais yn ei hatebion y prynhawn yma fod Gweinidogion, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Cefais e-bost pryderus iawn gan aelod o'r cyhoedd yr wythnos diwethaf, a wnaeth y cyhuddiad bod rhai Gweinidogion, wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn canfod bod car y Gweinidog wedi teithio i'w lleoliad cyn iddynt gyrraedd yno. Yna, defnyddiwyd y car i'w gyrru i'w hapwyntiadau, ac yna aeth y Gweinidog yn ôl ar drafndiaeth gyhoeddus i ddychwelyd i Gaerdydd gyda'r car yn ei ddilyn. Yr wyf yn siŵr y byddwch am achub y cyfle hwn i ddweud nad yw hynny'n un o arferion y Llywodraeth, a bod yr etholwr a gafodd y wybodaeth honno gan ei hanfon ymlaen ataf, yn anghywir yn yr achos hwn. Yr wyf yn siŵr y byddem yn falch o gael y sicrwydd hwnnw y prynhawn yma.

Yr hyn sy'n destun pryder imi ynghylch y dull y mae'r Llywodraeth wedi'i amlinellu heddiw yw bod y Gweinidog wedi dweud na ellir gwneud arbedion yn y meysydd hyn, fod y Llywodraeth wedi gwneud popeth a all, ac felly nad yw'n fodlon ailedrych ar rai o'r materion hyn. Yn fy marn i, mae'n bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio gwneud popeth a all yn fewnol i arbed adnoddau, ac mae'n siomedig bod y Gweinidog yn teimlo na all wneud hynny o gwbl a'i bod wedi gwneud popeth a all yn hyn o beth. Byddwn yn dadlau na ddylai fod yn arddel y safbwynt hwnnw, ac y dylem fod yn ailedrych ar rai o'r materion hyn.

A throi at system gyllido i Gymru ar gyfer y dyfodol, mae'r Gweinidog wedi ymrwymo, unwaith eto, i ddiwygio fformiwla Barnett, ac fe'i canmolaf am hynny. A yw felly'n destun gofid iddi fod Alistair Darling, Canghellor y

days of the previous Government, the then Chancellor of the Exchequer, Alistair Darling, was committing himself to the ongoing use of Barnett formula and that under a Labour Government, with Alistair Darling continuing as the Chancellor, there was no prospect of reform of the Barnett formula? With regard to where we go with this, it seems to me that there is a commitment from the London Government to go beyond handouts to the Welsh Assembly Government from London in future. It wants to devolve greater fiscal responsibility to the National Assembly for Wales. Does the Minister agree that a combination of a reformed Barnett formula, based on need, coupled with greater fiscal responsibilities for this Welsh Assembly Government, should be welcomed, and can she commit herself and her Government to supporting that this afternoon?

3.30 p.m.

Jane Hutt: I welcome your opening remarks. You recognised that not only myself as the current Minister for finance, but the previous Minister for finance and the whole Welsh Assembly Government, have been working for some time to address the challenges that we face, particularly as a result of the recession. I will not repeat again that we were the Government in the UK that set up the economic summits that resulted in a pioneering partnership that delivered ProAct and ReAct, and we brought forward capital spend as a result of a Labour UK Government Chancellor enabling us to do that, enabling us to invest in schools and hospitals.

I also pay tribute to the former Minister for finance, who issued a statement before Christmas, 'Better Outcomes for Tougher Times', having already worked on the reform of public services under the 'Making the Connections' agenda, and following this through. 'Better Outcomes for Tougher Times' is about how we focus on the delivery of public services in these tougher times, the development of the public services summit, and the efficiency and innovation programme that I have already described. Benefits are emerging from that. I am sure that you will

Trysorlys ar y pryd, hyd yn oed yn ystod dyddiau olaf y Llywodraeth flaenorol, yn ymrwmo i barhau i ddefnyddio fformiwla Barnett, ac nad oedd dim gobaith o dan Lywodraeth Lafur, gydag Alistair Darling yn parhau'n Ganghellor, i fformiwla Barnett gael ei diwygio? O ran sut y mae symud ymlaen ar y mater hwn, mae'n ymddangos i mi fod ymrwymiad gan y Llywodraeth yn Llundain i wneud mwy na rhannu arian i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan Lundain yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth am ddatganoli mwy o gyfrifoldeb ariannol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod cyfuniad o fformiwla Barnett ddiwygiedig, sy'n seiliedig ar anghenion, ynghyd â mwy o gyfrifoldebau ariannol i Lywodraeth bresennol Cynulliad Cymru, yn rhywbeth y dylid ei groesawu, ac a all hi a'i Llywodraeth ymrwmo i gefnogi hynny y prynhawn yma?

Jane Hutt: Yr wyf yn croesawu eich sylwadau agoriadol. Bu ichi gydnabod fy mod i, fel y Gweinidog presennol dros gyllid, yn ogystal â'r Gweinidog blaenorol dros gyllid, a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwyddi draw, wedi bod yn gweithio ers cryn amser i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu, yn enwedig yn sgîl y dirwasgiad. Nid ailadroddaf eto mai ni oedd Llywodraeth y DU a sefydlodd yr uwchgynadleddau economaidd a esgorodd ar bartneriaeth arloesol a arweiniodd at ProAct a ReAct, ac mai ni wnaeth ddwyn gwariant cyfalaf ymlaen am fod Canghellor Llywodraeth Lafur y DU wedi ein galluogi i wneud hynny, gan ein galluogi i fuddsoddi mewn ysgolion ac ysbytai.

Rhoddaf finnau deyrnged i'r cyn Weinidog dros gyllid, a gyhoeddodd ddatganiad cyn y Nadolig, 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach', ac yntau eisoes wedi bod yn gweithio ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus o dan yr agenda, 'Creu'r Cysylltiadau', a'i roi ar waith. Hanfod 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach' yw sut yr ydym yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfnod anos hwn, datblygu'r uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus, a'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi yr wyf

have seen that members from not only your local authority, but health boards and partner public sector organisations, are playing their part in delivering on the efficiency and innovation programme. I am sure that you will want to share with the Liberal Democrat Chief Secretary to the Treasury that he can learn lessons from Wales in efficiency and innovation. We were, of course, planning. We had a tough budget for 2010-11, and we are now planning for a much tougher budget for 2011-12 onwards. Again, this goes back to the points I made in response to Nick, that we must have clarity about where we are going in order to manage this.

This is about being responsible, and it is not just the view of a politician here, of the Minister for finance or of our Government. Our view, which is shared by many an economist and business leader, is that making cuts too early could damage the economy and public services. That is why we are taking a more cautious view in responding to how we make those reductions and cuts in a way that will not impact on vulnerable people.

If you read the statement on cuts made yesterday, you will see that it attacks children. It starts with children and the child trust fund, which we have already mentioned. Children are at the forefront of the first real cut to be made by your Government in Westminster. I believe that you are scrabbling around in your questions, Kirsty, because you are not convinced yourself that this unplanned cuts budget is the right thing to do. The Liberal Democrat general election manifesto stated:

‘We must ensure the timing is right. If spending is cut too soon, it would undermine the much-needed recovery and cost jobs.’

That was in your manifesto, which also stated:

eisoes wedi'i disgrifio. Mae hynny'n esgor ar fanteision. Yr wyf yn siŵr eich bod wedi gweld aelodau o'ch awdurdod lleol yn ogystal â byrddau iechyd a chyrrff sy'n bartneriaid yn y sector cyhoeddus yn chwarae eu rhan i gyflwyno'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi. Yr wyf yn siŵr y byddwch am ddweud wrth y Democrat Rhyddfrydol sy'n Brif Ysgrifennydd y Trysorlys y gall ddysgu gwersi gan Gymru yng nghyswllt effeithlonrwydd ac arloesi. Yr oeddem wrthi'n cynllunio, wrth gwrs. Cawsom gyllideb anodd ar gyfer 2010-11, ac yr ydym yn cynllunio'n awr ar gyfer cyllideb anos o lawer ar gyfer 2011-12 ymlaen. Unwaith eto, mae hyn yn cyfeirio'n ôl at y pwyntiau a wneuthum wrth ateb Nick, fod yn rhaid cael eglurder ynghylch y sefyllfa sy'n ein hwynebu er mwyn gallu rheoli hyn.

Mae hyn yn golygu bod yn gyfrifol, ac nid dim ond safbwynt gwleidydd, y Gweinidog dros gyllid a'n Llywodraeth yw hyn. Mae llawer o economyddion ac arweinwyr busnes yn cyd-fynd â'n safbwynt, sef y gallai gwneud toriadau'n rhy gynnar niweidio'r economi a gwasanaethau cyhoeddus. Dyna pam mae gennym agwedd fwy gwyliadwrs wrth ymateb i sut y mae gwneud y gostyngiadau a'r toriadau hynny mewn modd na fydd yn effeithio ar bobl agored i niwed.

Os darllenwch y datganiad am doriadau a gyhoeddwyd ddoe, gwelwch ei fod yn ymosod ar blant. Mae'n dechrau gyda phlant a'r gronfa ymddiriedolaeth plant yr ydym eisoes wedi sôn amdani. Plant sy'n ei chael hi yn y toriad gwirioneddol cyntaf a wneir gan eich Llywodraeth yn San Steffan. Credaf eich bod yn ddryslyd yn eich cwestiynau, Kirsty, am nad ydych yn argyhoeddedig eich hun mai'r gyllideb hon o doriadau heb eu cynllunio yw'r peth iawn i'w wneud. Yr oedd manifestio etholiad cyffredinol y Democratiaid Rhyddfrydol yn datgan:

Rhaid inni wneud yn siŵr bod yr amseru'n iawn. Pe bai gwariant yn cael ei gwtogi'n rhy gynnar, byddai'n tansilio'r adferiad y mae taer angen amdano a byddai swyddi'n cael eu colli.

Yr oedd hynny yn eich manifestio, a oedd hefyd yn datgan:

'Our working assumption is that the economy will be in a stable enough condition to bear cuts from the beginning of 2011-12.'

We are not there yet. We are in the midst of a budget that you approved in December. We need to take this responsibility very seriously. I know that you have asked many questions of the Permanent Secretary in the Finance Committee and that you will continue to ask those questions about how we can ensure that we are most efficient in our administration. I will not repeat again that not only have we borne down on spending, in terms of Assembly Government administration in comparison with Westminster and Whitehall and the civil service there, but we will be a responsible partner in cutting the deficit, even though the Holtham commission demonstrated that we are already underfunded by £300 million a year. I am delighted that there is cross-party support for the Holtham commission today. We know that the Government is backing it, because we commissioned the Holtham commission. Have you, Kirsty, put to the Chief Secretary to the Treasury, David Laws, that we are underfunded by £300 million, and done anything to ensure that the Holtham commission is taken seriously? It is not included in the Queen's Speech today. A fairer deal for Scotland is in the Queen's Speech, but the Holtham commission is not. The only mention of Wales is in relation to the referendum, I understand. I hope that you and your colleagues, the Liberal Democrats in Wales, and your other colleagues, the Conservative Assembly Members, will stand up for Wales. That is what we are doing, and that is what I am doing as a responsible Minister for finance. I will not blow apart a budget without being very clear about the impact that it will have on vulnerable people.

The Presiding Officer: I call Andrew Davies.

Andrew Davies: Oh, God. I was not expecting to be next. [*Laughter.*] I understand that the Member for Mid and West Wales is following me. I await my opportunity, as

Yn ôl ein tybiaeth sylfaenol, bydd yr economi mewn cyflwr digon sefydlog i wynebu toriadau o ddechrau 2011-12 ymlaen.

Nid ydym wedi cyrraedd y fan honno eto. Yr ydym yng nghanol cyllideb y gwnaethoch ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr. Mae angen inni fod o ddifrif ynglŷn â'r cyfrifoldeb hwn. Gwn eich bod wedi gofyn llawer o gwestiynau i'r Ysgrifennydd Parhaol yn y Pwyllgor Cyllid ac y byddwch yn parhau i ofyn y cwestiynau hynny ynghylch sut y gallwn sicrhau bod ein system weinyddol mor effeithlon ag sy'n bosibl. Nid ailadroddaf eto ein bod nid yn unig wedi lleihau gwariant yng nghyswllt gweinyddiaeth Llywodraeth y Cynulliad o'i chymharu â San Steffan a Whitehall a'r gwasanaeth sifil yno, ond y byddwn hefyd yn bartner cyfrifol wrth leihau'r diffyg, er i gomisiwn Holtham ddangos ein bod eisoes yn cael ein tanariannu o tua £300 miliwn y flwyddyn. Yr wyf yn hynod falch bod cefnogaeth drawsbleidiol i gomisiwn Holtham heddiw. Gwyddom fod y Llywodraeth yn ei gefnogi, gan mai ni a gomisiynodd gomisiwn Holtham. A ydych, Kirsty, wedi dweud wrth David Laws, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, ein bod yn cael ein tanariannu o tua £300 miliwn, ac a ydych wedi gwneud unrhyw beth i sicrhau y byddant yn ystyried comisiwn Holtham o ddifrif? Nid yw wedi'i gynnwys yn Araith y Frenhines heddiw. Mae bargaen decach i'r Alban wedi'i chynnwys yn Araith y Frenhines, ond nid yw comisiwn Holtham. Caf ar ddeall mai'r unig dro y sonnir am Gymru yw yng nghyswllt y refferendwm. Gobeithio y byddwch chi a'ch cyd-Aelodau, y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, a'ch cyd-Aelodau eraill, sef Aelodau Ceidwadol y Cynulliad, yn sefyll yn gadarn dros Gymru. Dyna'r ydym ni'n ei wneud, a dyna'r wyf fi'n ei wneud fel Gweinidog cyfrifol dros gyllid. Ni chwalaf gyllideb yn chwilfrw heb ddeall yn iawn yr effaith a gaiff ar bobl agored i niwed.

Y Llywydd: Galwaf ar Andrew Davies.

Andrew Davies: O'r nefoedd. Nid oeddwn yn disgwyl mai fi fyddai nesaf. [*Chwerthin.*] Caf ar ddeall y bydd yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn siarad ar

revenge is a dish best served cold.

I thank the Minister for her statement. At this stage we should not move too quickly to look at the implications of our share of the £6 billion cuts without pausing to reflect on why this is being done and to challenge the decision taken by the Conservative-Liberal Democrat coalition Government to make these cuts. They are not necessary, and I would ask you, Minister, for your views on those of Professor David Blanchflower, who said:

‘It is a start that we just don’t need. No other country is sensibly doing this kind of action and this seems to me to be basically a very dangerous thing to do.’

We have such a substantial budget deficit at a UK level due to the counter-recessionary action that the former Labour Government undertook, and the impact of that recession would have been increased massively, in the terms of increased unemployment, had the UK Government not taken it. It was commendable action, and it was commended throughout the world—if not on the opposite side of the Chamber. I would, therefore, like you to comment on Professor David Blanchflower’s words.

I would also like to look at the implications for Wales. You have been looking today at the implications for the devolved budget, but in much of Wales there is significant non-devolved expenditure. For example, in my city, Swansea, 40 per cent of the workforce works in the public sector—not only for the Assembly Government or in local government, but for UK agencies such as the Driver and Vehicle Licensing Agency as well. What actions will the Assembly Government take to monitor the total impact of cuts in public expenditure across the board on employment and the economy?

It is interesting to look at the coalition Government and at the Prime Minister and the Deputy Prime Minister—sometimes I think of them as ‘posh boy 1’ and ‘posh boy 2’. I know that David Laws was described as being on the right of the Liberal Democrat

fy ôl i. Arhosaf am fy nghyfle: mae’n braf oedi cyn dial.

Diolch i’r Gweinidog am ei datganiad. Ar hyn o bryd, ni ddylem symud yn rhy gyflym i edrych ar oblygiadau ein cyfran o’r £6 biliwn o doriadau heb oedi i bwysu a mesur pam y gwneir hyn ac i herio penderfyniad Llywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol i wneud y toriadau hyn. Nid ydynt yn angenrheidiol, a byddwn yn gofyn am eich barn, Weinidog, am farn yr Athro David Blanchflower, a ddywedodd:

Nid dyma’r dechrau y mae ei angen arnom. Nid oes dim un wlad arall yn cymryd camau fel hyn, ac yn fy marn i, mae’n rhywbeth peryglus iawn i’w wneud.

Mae gennym ddiffyg sylweddol yn y gyllideb ar lefel y DU yn sgîl y camau a gymerodd y Llywodraeth Lafur flaenorol i wrthwneud y dirwasgiad. Pe na bai Llywodraeth y DU wedi cymryd y camau hynny, byddai’r dirwasgiad wedi cael llawer mwy o effaith o ran cynyddu diweithdra. Yr oeddent yn gamau canmoladwy, ac fe’u canmolwyd ledled y byd—hyd yn oed os na chawsant eu canmol ar yr ochr arall i’r Siambr. Felly, byddai’n dda gennyf petaech yn gwneud sylw am sylwadau’r Athro David Blanchflower.

Hoffwn hefyd edrych ar y goblygiadau i Gymru. Yr ydych wedi bod yn edrych heddiw ar y goblygiadau i’r gyllideb ddatganoledig, ond mewn rhannau helaeth o Gymru ceir llawer o wariant nas datganolwyd. Er enghraifft, yn fy ninas i, Abertawe, mae 40 y cant o’r gweithlu’n gweithio yn y sector cyhoeddus—nid i Lywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol yn unig, ond i asiantaethau’r DU hefyd, megis yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Pa gamau a gymer Llywodraeth y Cynulliad i fonitro holl effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ar gyflogaeth a’r economi’n gyffredinol?

Mae’n ddiddorol edrych ar y Llywodraeth glymblaid ac ar y Prif Weinidog a’r Dirprwy Brif Weinidog—byddaf weithiau’n meddwl amdanynt fel bachgen crand 1 a bachgen crand 2. Gwn mai ar asgell dde Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol y mae David

Party, but I had not realised that its church was that broad. He is so right wing as to be almost a paid-up member of the Conservative Party. As the Chief Secretary to the Treasury, the relish that he has taken in this, as a former City boy, is very revealing of the mentality at the top of the Liberal Democrat Party. The implications for the Assembly Government are significant, because, under our Standing Orders, our budget was decided last December, and most of the funding decisions for local government, the health service and others have already been made. Having in-year cuts will be even more damaging for public services in Wales.

I understand why the leader of the Welsh Liberal Democrats focused her attention on what is happening here and has made virtually no comment on the actions of her Government at a UK level. That emphasis in her contribution was noteworthy. There was a lot of talk last week about fairness, and, as I said in an interview then, when it comes to Wales it seems to be a case of 'goodbye fairness, hello flexibility'—that is, flexibility as long as we are disadvantaged by it.

On the Holtham commission, the UK Treasury, including Alistair Darling and the former Chief Secretary to the Treasury, Liam Byrne, acknowledged that the Barnett formula was flawed in its impact on Wales. It was the first time that the Treasury had ever recognised that the Barnett formula disadvantaged Wales by the Barnett squeeze or convergence. It was the first time that the Treasury had recognised that work needed to be done to acknowledge that. Therefore, it is just not true that the former Labour Treasury team denied that the Barnett formula was in need of reform.

3.40 p.m.

I would like to hear your comments on what seems to be preferential treatment for the Scots. I know that Peter Black mentioned last week that the Calman commission's proposals were about the Barnett formula,

Laws, meddir, ond nid oeddwn wedi sylweddoli bod rhychwant y blaid mor eang â hynny. Mae'n gwyro cymaint i'r asgell dde fel y gallai fod yn aelod llawn o'r Blaid Geidwadol. Fel Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, mae'r ffaith ei fod wedi bwrw iddi mor awchus, fel bachgen o'r Ddinas gynt, yn datgelu llawer am feddylfryd y rhai sydd ar y brig ym Mhlaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Ceir goblygiadau sylweddol i Lywodraeth y Cynulliad, oherwydd o dan ein Gorchmynion Sefydlog, penderfynwyd ar ein cyllideb ym mis Rhagfyr, ac mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau cyllid ar gyfer llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd ac eraill eisoes wedi cael eu gwneud. Bydd toriadau yn ystod y flwyddyn yn fwy niweidiol byth i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yr wyf yn deall pam mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi hoelio'i sylw ar yr hyn sy'n digwydd yma ac nad yw wedi gwneud fawr o sylwadau am weithredoedd ei Llywodraeth ar lefel y DU. Yr oedd y pwyslais hwnnw yn ei chyfraniad yn nodedig. Bu llawer o sôn yr wythnos diwethaf am degwch, ac fel y dywedais mewn cyfweiliad bryd hynny, yn achos Cymru, mae'n ymddangos eu bod yn ffarwelio â thegwch ac yn croesawu hyblygrwydd—hynny yw, hyblygrwydd ar yr amod bod hynny'n ein rhoi o dan anfantais.

Ynglŷn â chomisiwn Holtham, cydnabu Trysorlys y DU, gan gynnwys Alistair Darling a chyn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, Liam Byrne, fod diffygion yn fformiwla Barnett o ran ei heffaith ar Gymru. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r Trysorlys gydnabod bod fformiwla Barnett yn rhoi Cymru o dan anfantais yn sgîl gwasgfa neu gydgyfeirio Barnett. Dyma'r tro cyntaf yr oedd y Trysorlys wedi cydnabod bod angen gwneud gwaith i gydnabod hynny. Felly, mae dweud bod cyn dîm Trysorlys y Blaid Lafur yn gwadu bod angen diwygio fformiwla Barnett yn gelwydd.

Hoffwn glywed eich sylwadau am yr hyn sydd fel petai'n driniaeth ffafriol i'r Albanwyr. Gwn i Peter Black grybwyll yr wythnos diwethaf fod cynigion comisiwn Calman yn ymwneud â fformiwla Barnett,

but, when it came to the agreement, the Conservative-Liberal Democrat UK Government agreed to introduce the Calman proposals, even though Alex Salmond has acknowledged that, with any changes in taxation, they may not be implementable in their present form. Therefore, the UK Government has signed up to something that seems to be a pig in a poke, but when it comes to reforming Barnett and the implications for Wales, it says that it has to be subject to a review. Therefore, again, flexibility is the order of the day.

The last point that I would like to make for the record is that, under the UK Labour Government, the Welsh Assembly Government had an agreement on the use of end-year flexibility and on our access to that. If the Conservative and Liberal Democrat team in the UK Government rip up that agreement and does not allow us end-year flexibility, that will be a significant departure from existing Treasury policy.

Jane Hutt: Thank you, Andrew, for bringing to bear your lengthy experience and the considerable skills and wisdom that you displayed as the Minister for Finance and Public Service Delivery. It was important that that was a shared agenda, and I am taking that forward through the efficiency and innovation board. To return to the points that Professor David Blanchflower made, we should not forget that he was a former member of the Bank of England's Monetary Policy Committee. He predicted the severity of this recession, and the points that he made at the weekend are pertinent. He said that the figures showed last week that our public finances are in better shape than was predicted and that should allow the Treasury to scrap the cuts budget. The warning was issued, but it was ignored.

He also made the point that the slowdown in the global economy meant that the UK should keep spending in terms of the problems in the eurozone, and he said that a cuts-based dogma was emerging from the UK Government. We need to ensure that we make a contribution that is responsible and

ond yn achos y cytundeb, cytunodd Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer y DU i gyflwyno cynigion Calman, er bod Alex Salmond wedi cydnabod ei bod yn bosibl, gydag unrhyw newidiadau trethiant, na ellir eu rhoi ar waith ar eu ffurf bresennol. Felly, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i rywbeth fel petai'n prynu cath mewn cwd, ond o ran diwygio fformiwla Barnett a'r goblygiadau i Gymru, mae'n dweud bod yn rhaid cynnal adolygiad ar y mater. Felly, hyblygrwydd yw'r ateb unwaith eto.

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud er mwyn i hynny gael ei gofnodi yw bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan Lywodraeth Lafur y DU, gytundeb ynghylch defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn a bod hynny ar gael inni. Os bydd tîm y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU yn dileu'r cytundeb hwnnw ac yn gwrthod caniatáu inni gael hyblygrwydd diwedd blwyddyn, bydd hynny'n golygu cryn gefnu ar bolisi cyfredol y Trysorlys.

Jane Hutt: Diolch, Andrew, am gyfrannu eich profiad hirfaith a'r doethineb a'r sgiliau helaeth a ddangosasoch pan oeddech yn Weinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr oedd yn bwysig ei bod yn agenda ar y cyd, ac yr wyf yn bwrw ymlaen â hynny drwy'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi. A dychwelyd at y pwyntiau a wnaeth yr Athro David Blanchflower, ni ddylem anghofio ei fod yn gyn aelod o Bwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr. Rhagwelodd yr Athro ddifrifoldeb y dirwasgiad hwn, ac mae'r pwyntiau a wnaeth dros y penwythnos yn berthnasol. Dywedodd fod y ffigurau yr wythnos diwethaf yn dangos bod ein harian cyhoeddus mewn gwell cyflwr nag a ragwelwyd, ac y dylai hynny ganiatáu i'r Trysorlys roi'r gorau i'r gyllideb toriadau. Rhoddwyd y rhybudd, ond cafodd ei anwybyddu.

Hefyd, gwnaeth y pwynt bod y modd y mae'r economi fyd-eang yn arafu'n golygu y dylai'r DU barhau i wario o ran y problemau yn ardal yr ewro, a dywedodd fod dogma'n seiliedig ar doriadau'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y DU. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud cyfraniad sy'n gyfrifol ac

fair to the people whom we represent, particularly the most vulnerable. We need to ensure that reducing the deficit does not damage the significant work that this Government and that the former Labour Government has done and the success that we are having in supporting our economic recovery.

The Future Jobs fund is going. Young people in every constituency that Members represent will lose out as a result. David Blanchflower said that youth unemployment was the worst aspect of this recession and yet this UK Government attacks the Future Jobs fund. With regard to our responsibility, therefore, we need to consider these issues carefully to ensure the minimum impact on jobs and front-line services. The Welsh Assembly Government will stand up for the people of Wales. We want to see what is happening in terms of the influence that, presumably, the Members on the opposite side of the Chamber have over their masters in London; there does not seem to be much impact at the moment.

On the Holtham commission, the Secretary of State's response last November to its first report was clear about ensuring that we were no longer disadvantaged by the Barnett squeeze and moving to a fairer funding formula. We should be united in the Chamber in our response to the statement made yesterday by the Chancellor of the Exchequer and by the Chief Secretary to the Treasury.

The Presiding Officer: Before I call the remaining three Members, I invoke the very helpful advice that I gave to Members some time ago. We have now heard from the senior spokespersons from the four parties. I request that further Members whom I call ask a maximum of two questions and that the questions be succinct. I also request a similarly succinct response from the Minister. I am doing that because we have three further statements this afternoon. I call Andrew R.T. Davies. My remarks are not directed personally at you.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Presiding

yn deg â'r bobl a gynrychiolwn, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Mae angen inni sicrhau na fydd lleihau'r diffyg yn niweidio'r gwaith sylweddol a wnaethpwyd gan y Llywodraeth hon a'r Llywodraeth Lafur flaenorol, nac yn niweidio ein llwyddiant wrth gefnogi ein hadferiad economaidd.

Mae cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cael ei dileu. Bydd pobl ifanc ym mhob etholaeth y mae Aelodau'n ei chynrychioli ar eu colled o ganlyniad. Dywedodd David Blanchflower mai diweithdra ymhlith pobl ifanc oedd yr agwedd waethaf ar y dirwasgiad hwn. Eto i gyd, mae Llywodraeth bresennol y DU yn ymosod ar gronfa Swyddi'r Dyfodol. Felly, o ran ein cyfrifoldeb ni, mae angen inni ystyried y materion hyn yn ofalus er mwyn sicrhau'r effaith leiaf posibl ar swyddi a gwasanaethau rheng flaen. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefyll yn gadarn dros bobl Cymru. Yr ydym am gael gweld yr hyn sy'n digwydd o ran y dylanwad sydd gan yr Aelodau ar yr ochr arall i'r Siambr, yn ôl pob tebyg, ar eu harweinwyr yn Llundain; nid yw'n ymddangos bod ganddynt lawer o ddylanwad ar hyn o bryd.

O ran comisiwn Holtham, yr oedd ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i'r adroddiad cyntaf fis Tachwedd diwethaf yn glir o ran sicrhau na fyddwn dan anfantais yn sgîl gwasgfa Barnett mwyach a symud at fformiwla gyllido decach. Dylai fod gennym ymateb unedig yn y Siambr i'r datganiad a wnaethpwyd ddoe gan Ganghellor y Trysorlys a chan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Y Llywydd: Cyn imi alw ar y tri Aelod sydd ar ôl, ailadroddaf y cyngor hynod fuddiol a roddais i'r Aelodau dro'n ôl. Yr ydym yn awr wedi clywed gan brif lefarwyr y pedair plaid. Gofynnaf i'r Aelodau eraill y byddaf yn galw arnynt beidio â gofyn mwy na dau gwestiwn, ac mae gofyn i'r cwestiynau fod yn rhai cryno. Gofynnaf hefyd am ateb cryno gan y Gweinidog yn yr un modd. Yr wyf yn gwneud hynny am fod gennym dri datganiad arall y prynhawn yma. Galwaf Andrew R.T. Davies. Nid yw fy sylwadau'n cyfeirio atoch chi'n bersonol.

Andrew R.T. Davies: Diolch, Lywydd.

Officer. I regret that there is not a little more latitude because it seems as though we are in a parallel universe today. There has been a new Government in London for two weeks and, at the end of today, this country will have borrowed another £450 million to pay for its public services; at the end of this week, it will have borrowed £3 billion. That is clearly unsustainable in the long term. My questions relate to responsibility and the way in which you will earn the confidence of the Treasury, given that you are the Minister for Business and Budget in a Government that has just reorganised health services in Wales and kept in post 57 executives who no longer have a job to do—chief executives and finance directors. How does that show a responsible attitude towards staff development and career development, when you are cutting nursing positions but keeping executives in post?

The Finance Committee heard conclusive evidence on expenditure in the health service in Wales that £1.2 billion, or 20 per cent of the health budget, was not being spent in the right place. How can you go to London, speak with confidence and inspire confidence in others when there are two damning indictments of the management of but one part of the economy in Wales?

Jane Hutt: I will be brief in my response. In response to the question from Andrew Davies, I said that we should present a united front in Wales and that we should recognise the impact that the cuts to the budget will have on our public services.

On your point about the health service, what is important is that the efficiency and innovation board has a work stream that is led by the health service—Paul Williams plays the key role. We have spent £11 million, as a result of successful bids from the NHS, on invest-to-save projects to make pioneering changes to ensure that there is collaboration and to redesign services. I will be able to take those examples to the Chief Secretary to the Treasury in London and show him how to implement innovation and efficiency.

Mae'n anffodus nad oes gennym ychydig mwy o ryddid oherwydd y mae fel petaem mewn byd cyfochrog heddiw. Mae Llywodraeth newydd yn Llundain ers pythefnos, ac erbyn diwedd y dydd heddiw, bydd y wlad hon wedi benthycu £450 miliwn arall i dalu am ei gwasanaethau cyhoeddus; erbyn diwedd yr wythnos hon, bydd wedi benthycu £3 biliwn. Mae hynny'n amlwg yn anghynaliadwy yn y tymor hir. Mae fy nghwestiynau'n ymwneud â chyfrifoldeb a'r modd byddwch yn ennyn hyder y Trysorlys, gan mai chi yw'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb mewn Llywodraeth sydd newydd ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru a chadw swyddi 57 o swyddogion gweithredol er nad oes ganddynt waith i'w wneud mwyach—prif weithredwyr a chyfarwyddwyr ariannol. Sut y mae hynny'n dangos agwedd gyfrifol at ddatblygiad y staff a datblygu gyrfaoedd, a chithau'n dileu swyddi nyrsio ac yn cadw swyddogion gweithredol yn eu swyddi?

Yn ôl y dystiolaeth bendant a glywodd y Pwyllgor Cyllid ynghylch gwariant yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, nid yw £1.2 biliwn, neu 20 y cant o'r gyllideb iechyd, yn cael ei wario yn y lle priodol. Sut y gallwch fynd i Lundain gan siarad yn hyderus ac ennyn hyder eraill, a dwy feirniadaeth ddamniol wedi bod ar y modd y rheolir dim ond un rhan o'r economi yng Nghymru?

Jane Hutt: Ymatebaf yn gryno. Wrth ateb cwestiwn Andrew Davies, dywedais y dylem ddangos undod yng Nghymru ac y dylem gydnabod yr effaith a gaiff toriadau yn y gyllideb ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

O ran eich pwynt am y gwasanaeth iechyd, yr hyn sy'n bwysig yw bod gan y bwrdd effeithiolrwydd ac arloesi ffrwd waith a arweinir gan y gwasanaeth iechyd—Paul Williams sy'n chwarae'r rôl allweddol. Yr ydym wedi gwario £11 miliwn o ganlyniad i'r ceisiadau llwyddiannus gan y GIG, ar brosiectau buddsoddi i arbed er mwyn gwneud newidiadau arloesol i sicrhau bod cydweithio'n digwydd ac i ailgynllunio gwasanaethau. Gallaf fynd â'r enghreifftiau hynny at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn Llundain, a dangos iddo sut y mae rhoi

arloesedd ac effeithlonrwydd ar waith.

Brian Gibbons: Minister, you have mentioned in passing one of the points that I wanted to raise, namely the impact of these cuts on job opportunities, particularly job opportunities for young people in Wales. We know that the Future Jobs fund has been classified as an ineffective element of the employment programme. I know from direct experience in my constituency that this is far from being the case, as the Future Jobs fund has been particularly successful there. Equally, the car scrappage scheme was described by the current Government in Westminster as being reckless spending. In my constituency, the £300 million that went into that scheme was crucial to maintaining the base of automotive employment. Have you had any feedback on the implications of this statement for a key manufacturing industry in south Wales?

The second point that I would like to raise relates to Holtham and understanding the failure of the Westminster Government to address this. The reason why we are where we are with Holtham is the convergence of consequentials of the increased public expenditure that the previous Government provided for Wales. Is it not possible that the current Government does not want to address Holtham because the lack of expenditure in Wales means that there will be a divergence and, consequently, it feels that it can put the Holtham reforms on the long finger?

Jane Hutt: The loss of the Future Jobs fund is just one example. A clear example that was given upfront by the Chief Secretary to the Treasury regarding the cuts that the Government will make. There was a partnership—the Minister for Children, Education and Lifelong Learning had been working very closely with the Department for Work and Pensions on a joint labour market strategy. We also want to know what impact that joint labour market strategy will have on other areas. We will certainly be questioning Ministers in London to see what the impact will be.

There will be impacts on other areas, such as

Brian Gibbons: Weinidog, yr ydych wedi sôn yn fras am un o'r pwyntiau yr oeddwn am eu codi, sef effaith y toriadau hyn ar gyfleoedd gwaith, yn enwedig cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yng Nghymru. Gwyddom fod cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi'i dynodi'n un o elfennau aneffeithiol y rhaglen gyflogaeth. Gwn o brofiad uniongyrchol yn fy etholaeth nad yw hyn yn wir o bell ffordd, gan fod cronfa Swyddi'r Dyfodol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yno. Yn yr un modd, cafodd y cynllun sgrappio ceir ei ddisgrifio gan Lywodraeth bresennol San Steffan fel gwario byrbwyll. Yn fy etholaeth, yr oedd y £300 miliwn a fuddsoddiwyd yn y cynllun hwnnw'n hanfodol i gynnal sylfaen swyddi yn y sector moduron. A ydych wedi cael unrhyw adborth am oblygiadau'r datganiad hwn i ddiwydiant gweithgynhyrchu allweddol yn y de?

Mae'r ail bwynt yr hoffwn ei godi yn ymwneud â chomisiwn Holtham a deall methiant Llywodraeth San Steffan i fynd i'r afael â hyn. Y rheswm dros ein sefyllfa bresennol gyda chomisiwn Holtham yw cydgyfeiriant canlyniadau'r gwariant cyhoeddus uwch a ddarparodd y Llywodraeth flaenorol i Gymru. Onid yw'n bosibl nad yw'r Llywodraeth bresennol yn dymuno rhoi sylw i Holtham oherwydd bod y diffyg gwariant yng Nghymru'n golygu y bydd dargyfeiriant ac o ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn teimlo y gall ohirio diwygiadau Holtham am gyfnod amhenodol?

Jane Hutt: Dim ond un enghraifft yw colli cronfa Swyddi'r Dyfodol. Dyma enghraifft glir a roddwyd yn agored gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch y toriadau y bydd y Llywodraeth yn eu gwneud. Yr oedd partneriaeth ar waith—yr oedd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyd-strategaeth i'r farchnad lafur. Yr ydym hefyd am gael gwybod sut y bydd y gyd-strategaeth honno'n effeithio ar feysydd eraill. Byddwn yn bendant yn holi Gweinidogion yn Llundain i weld beth fydd yr effaith.

Bydd yn effeithio ar feysydd eraill, megis y

the manufacturing industry. You mentioned the car scrappage scheme. We have to ensure that we can deliver on the decisions that we make, such as with the boiler scrappage scheme and its focus on fuel poverty in Wales. However, we need to consider the impact.

To go back to the point that Andrew Davies made, the fine print in the agreement shows that there will be many local government cuts in England. What is the impact going to be on our public services? What will be the impact on civil service jobs, in Whitehall and in Wales? That issue will come to the fore, I am sure, in the coming days and weeks.

3.50 p.m.

You have to recognise that there is no mention of Holtham in the Queen's Speech, so where is the commitment to it? We on this side of the Chamber are looking to re-establish that public commitment, to get it back into decisions and legislation in recognition of our fairer funding needs.

Nick Bourne: I thank the Minister for her statement. There is essentially just one question to ask. If we consider the final budget for 2008-09 and the budget that you have now, there has been a spending cut of 5.9 per cent, from a Labour Government. You have said, quite rightly, Minister, that you have to be responsible, and that Wales can expect to take its share of the cuts. The 1.2 per cent cut that we have is lower than that in virtually every other Government department. It is lower than Scotland's and Northern Ireland's, and it is far lower than the cut predicted by your Deputy First Minister, who said that Wales could expect to take £3 billion-worth of cuts in the lifetime of the Parliament. That was before the election. Given that, and given that you are responsible, do you not think that when you meet with the Chief Secretary to the Treasury, you need to be a little bit more responsible in your expectations? We are all in this together. There is £1 trillion worth of debt. We have had massive cuts under Labour; this is a small cut by comparison. I think that you need to be more responsible.

diwydiant gweithgynhyrchu. Soniasoch am y cynllun sgrapio ceir. Rhaid inni sicrhau y gallwn wireddu'r penderfyniadau a wnawn, megis gyda'r cynllun sgrapio boeleri a'i ffocws ar dlodi tanwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen inni ystyried yr effaith.

A dychwelyd at y pwynt a wnaeth Andrew Davies, dengys y print mân yn y cytundeb y bydd llawer o doriadau mewn llywodraeth leol yn Lloegr. Beth fydd yr effaith ar ein gwasanaethau cyhoeddus? Beth fydd yr effaith ar swyddi yn y gwasanaeth sifil, yn Whitehall ac yng Nghymru? Yr wyf yn siŵr y daw'r mater hwnnw i'r amlwg dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Rhaid ichi gydnabod nad oes sôn am gomisiwn Holtham yn Araith y Frenhines, felly ble mae'r ymrwymiad iddo? Yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ceisio ailsefydlu'r ymrwymiad cyhoeddus hwnnw, i'w gynnwys eto mewn penderfyniadau a deddfwriaeth i gydnabod ein hanghenion o ran system gyllido decach.

Nick Bourne: Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. I bob pwrpas, dim ond un cwestiwn sydd i'w ofyn. Os ystyriwn y gyllideb derfynol ar gyfer 2008-09 a'r gyllideb sydd gennych ar hyn o bryd, cafwyd 5.9 y cant o doriad mewn gwariant gan Lywodraeth Lafur. Yr ydych wedi dweud, a hynny'n hollol deg, Weinidog, fod yn rhaid ichi fod yn gyfrifol, ac y gall Cymru ddisgwyl cael ei chyfran o'r toriadau. Mae'r 1.2 y cant sydd gennym yn is na holl adrannau eraill y Llywodraeth bron. Mae'n is na thoriadau'r Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae'n is o lawer na'r toriad a ragwelodd eich Dirprwy Brif Weinidog, a ddywedodd y gallai Cymru ddisgwyl gwerth £3 biliwn o doriadau yn ystod oes y Senedd. Yr oedd hynny cyn yr etholiad. O gofio hynny, ac o gofio eich bod yn gyfrifol, oni chredwch fod angen ichi fod fymryn yn fwy cyfrifol o ran eich disgwyliadau pan fyddwch yn cwrdd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys? Yr ydym i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd. Ceir gwerth £1 triliwn o ddyled. Yr ydym wedi cael toriadau enfawr o dan Lafur; toriad bach yw hwn o'i gymharu â hynny. Credaf fod

Should you not have been more responsible today in coming forward with what you can expect to contribute on Wales's behalf, bearing in mind what your own Government has said?

Jane Hutt: This goes back to the point—and I will not repeat what all the economists and others have said—that it is the wrong decision to have unplanned reductions in a budget that has already been approved and delivered. How are you going to pull the plug, Nick? That is why I am taking advice and making sure that we get clarification from the Chief Secretary to the Treasury of the key issues. I made it clear in my statement that we have to ensure that we get the best flexibility to deliver a responsible reduction in the budget over this year and/or next year to enable us to play our part. We are saying quite clearly, and I will repeat it once again, that we do not believe that this is the right thing to do. The fault will lie at your door, in Westminster and on your side of the Chamber, if the decision destabilises the economic recovery, hits our public services and hits the most vulnerable people. That goes back to the point about children and the child trust fund, and young people and the Future Jobs fund.

Alun Davies: David Cameron was on his feet a few minutes ago in the House of Commons, describing the child trust fund and the Future Jobs fund as a waste of public money. We have just heard the leader of the Lib Dem coalition here in Cardiff describing these cuts as being quite small. They obviously have no idea at all about the impact that these cuts are going to have on some of the most vulnerable people in society. It is little wonder that Kirsty Williams, in a six-minute contribution, failed to mention the London coalition at all—and if I were in her shoes, neither would I. In terms of what we have heard this afternoon—

angen ichi fod yn fwy cyfrifol. Oni ddylasech fod yn fwy cyfrifol heddiw wrth ddweud beth y gallwch ddisgwyl ei gyfrannu ar ran Cymru, a chofio'r hyn y mae eich Llywodraeth chi eich hun wedi'i ddweud?

Jane Hutt: Mae hyn yn mynd yn ôl at y pwynt—ac nid ailadroddaf yr hyn y mae'r holl economyddion ac eraill wedi'i ddweud—bod cynnwys gostyngiadau heb eu cynllunio mewn cyllideb sydd eisoes wedi'i chymeradwyo a'i chyflwyno yn benderfyniad anghywir? Sut yr ydych am wneud i ffwrdd â hynny, Nick? Dyna pam yr wyf yn gofyn am gyngor ac yn gwneud yn siŵr y cawn eglurder gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pwyntiau allweddol. Gwneuthum yn glir yn fy natganiad fod yn rhaid inni sicrhau y cawn yr hyblygrwydd gorau i gyflawni gostyngiad cyfrifol yn y gyllideb dros y flwyddyn hon a/neu'r flwyddyn nesaf er mwyn ein galluogi i chwarae ein rhan. Yr ydym yn dweud yn bur glir, ac ailadroddaf hynny eto, nad ydym yn credu mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Os bydd y penderfyniad yn dadsefydlogi'r adferiad economaidd, yn effeithio ar ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed, chi yn San Steffan ac ar eich ochr chi i'r Siambr fydd ar fai. Mae hynny'n mynd yn ôl at y pwynt ynghylch plant a'r gronfa ymddiriedolaeth plant, a phobl ifanc a chronfa Swyddi'r Dyfodol.

Alun Davies: Yr oedd David Cameron ar ei draed rai munudau'n ôl yn Nhŷ'r Cyffredin, yn disgrifio'r gronfa ymddiriedolaeth plant a chronfa Swyddi'r Dyfodol fel gwastraff ar arian cyhoeddus. Yr ydym newydd glywed arweinydd clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol yma yng Nghaerdydd yn disgrifio'r toriadau hyn fel toriadau cymharol fach. Mae'n amlwg nad oes ganddynt syniad o gwbl am sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Nid yw'n achosi fawr o syndod na lwyddodd Kirsty Williams, mewn cyfraniad chwe munud o hyd, i sôn am y glymblaid yn Llundain o gwbl—a phe bawn i yn ei hesgidiau, ni fyddwn i'n sôn amdanynt ychwaith. O ran yr hyn yr ydym wedi'i glywed y prynhawn yma—

The Presiding Officer: Order. Could I **Y Llywydd:** Trefn. A allaf gael dau

please have two sharp questions?

Alun Davies: We have heard suggestions this afternoon from the parties opposite about efficiency savings that appear to come from some kind of poor 1970s sitcom. The reality is that the efficiency savings are not going to make up the depth of the cuts that are being imposed on us. Minister, in the strategic approach that you are taking to manage the Welsh budget, can you assure me that you will be seeking to protect front-line services, and that you will be looking at how we continue to invest in the delivery of services to the most vulnerable people? *[Interruption.]* I know that you are not interested, Andrew, and I know that you do not give a damn about these people—

The Presiding Officer: Order. There is no need to take any notice of interventions from people who are sitting down. You know what I have just warned this Chamber about, yet again. I know how you felt last time I did it, Andrew R.T. Davies, but I will do it again. Alun, please continue.

Alun Davies: Secondly, would you be able to argue with the Treasury that, as we have already led the field across the United Kingdom in demonstrating how to make public services more efficient and how to drive collaboration in public services, the savings that we have already made in Wales should be taken into account, so that other United Kingdom Government departments can learn from the Welsh Assembly Government?

Jane Hutt: Responsible Governments also have clear priorities, such as the ones that we have set out in the 'One Wales' programme for government. One of those commitments was for an extra children's bond for all children entering school through the Child Trust Fund Cymru scheme, which is benefiting nearly 27,000 children in Wales. That is to go as a result of the announcement. That is why we are driving the efficiency and innovation programme, and it is why we have an invest-to-save programme of £11 million to drive up change. That is why we are reviewing the costs of delivering education, to make sure that we get funding to the front line. That is why every Minister in planning

gwestiwn cryno os gwelwch yn dda?

Alun Davies: Yr ydym wedi clywed awgrymiadau y prynhawn yma gan y pleidiau gyferbyn ynghylch arbedion effeithlonrwydd sydd fel petaent yn sylwadau o gyfres gomedi wael yn yr 1970au. Y realiti yw, nid yw'r arbedion effeithlonrwydd yn mynd i sicrhau'r holl doriadau sy'n cael eu gorfodi arnom. Weinidog, o ran eich dull strategol o fynd ati i reoli cyllideb Cymru, a allwch fy sicrhau y byddwch yn ceisio amddiffyn gwasanaethau rheng flaen, ac y byddwch yn edrych ar sut y gallwn barhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau a ddarperir i'r bobl fwyaf agored i niwed? *[Torri ar draws.]* Gwn nad oes gennych ddiddordeb, Andrew, a gwn nad ydych yn malio'r un ffeuen am y bobl hyn—

Y Llywydd: Trefn. Nid oes angen cymryd sylw o gwbl o ymyriadau gan bobl sydd ar eu heistedd. Gwyddoch am y rhybudd yr wyf newydd ei roi eto fyth i'r Siambr hon. Gwn sut yr oeddech yn teimlo y tro diwethaf, Andrew R.T. Davies, ond gwnaf hynny eto. Alun, ewch ymlaen.

Alun Davies: Yn ail, gan ein bod eisoes wedi arwain y ffordd ledled y Deyrnas Unedig o ran dangos sut y mae gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon a sut y mae datblygu cydweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, a allech ddadlau gyda'r Trysorlys y dylai'r arbedion yr ydym eisoes wedi'u gwneud yng Nghymru gael eu hystyried, er mwyn i adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig allu dysgu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru?

Jane Hutt: Mae gan Lywodraethau cyfrifol flaenoriaethau clir hefyd, megis y rhai yr ydym wedi'u hamlinellu yn rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un'. Un o'r ymrwymadau hynny oedd bond plant ychwanegol ar gyfer pob plentyn sy'n dechrau yn yr ysgol drwy gynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru, sydd o fudd i bron 27,000 o blant yng Nghymru. Caiff y gronfa honno ei dileu yn sgîl y cyhoeddiad. Dyna pam yr ydym yn datblygu'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi, a dyna pam mae gennym raglen buddsoddi i arbed gwerth £11 miliwn i sicrhau newid. Dyna pam yr ydym yn adolygu costau darparu addysg, er mwyn gwneud yn siŵr y cawn gyllid i'r rheng flaen.

assumptions is looking line by line at the budgets for 2011-12. Schools, skills, hospitals and universal benefits must be at the forefront.

Dyna pam mae pob Gweinidog, wrth gynllunio rhagdybiaethau, yn edrych ar y cyllidebau ar gyfer 2011-12 fesul llinell. Rhaid i ysgolion, sgiliau, ysbytai a manteision cyffredinol fod ar frig yr agenda.

Datganiad am Ofal Ysbrydol yn y GIG yng Nghymru Statement on Spiritual Care in the NHS in Wales

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I wish to make a statement about the new standards for spiritual care services in the national health service in Wales which I am launching today. The standards have been developed following a considerable amount of consultation and engagement with the national health service, faith leaders and other stakeholders, and I am pleased that they are finally ready to be issued.

It is important to recognise the value of the work done by healthcare chaplains and their colleagues from within the various faiths in providing a spiritual care service to patients, their families, carers and staff. Throughout the NHS, chaplains and spiritual care givers not only offer religious ministry to members of faith communities, but are also called upon to give wider spiritual care to those who have no association whatsoever with religious groups.

Many people need support when they are ill that goes beyond just caring for their physical or medical needs. Supporting people in this way complements the work of healthcare professionals and leads to a better experience for patients overall.

I am pleased to say that the majority of responses from the consultation were largely supportive of the move to produce a set of standards in which expectations for this service are clearly set out.

I have published a report on the main themes that came out of the consultation, which included comments about the training of staff, patient confidentiality, accommodation for worship, mental health, providing the necessary human resource, the secularisation

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Yr wyf yn dymuno gwneud datganiad am y safonau newydd ar gyfer gwasanaethau gofal ysbrydol yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yr wyf yn eu lansio heddiw. Mae'r safonau wedi'u datblygu ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth â'r gwasanaeth iechyd gwladol, arweinwyr ffydd a rhanddeiliaid eraill, ac yr wyf yn falch eu bod yn barod i'w cyhoeddi o'r diwedd.

Mae'n bwysig cydnabod gwerth y gwaith y mae caplaniaid gofal iechyd a'u cydweithwyr yn y gwahanol grefyddau'n ei wneud o ran darparu gwasanaeth gofal ysbrydol i gleifion, eu teuluoedd, gofalwyr a staff. Ym mhob rhan o'r GIG, mae caplaniaid a rhoddwyr gofal ysbrydol nid yn unig yn cynnig gweinidogaeth grefyddol i aelodau cymunedau ffydd, ond gelwir arnynt hefyd i roi gofal ysbrydol mwy cyffredinol i'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad o gwbl â grwpiau crefyddol.

Mae ar lawer o bobl angen cefnogaeth pan fyddant yn sâl sy'n mynd y tu hwnt i ofalu am eu hanghenion corfforol neu feddygol yn unig. Mae cefnogi pobl fel hyn yn ategu gwaith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn arwain at well profiad i gleifion yn gyffredinol.

Yr wyf yn falch o ddweud bod mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol at ei gilydd i'r bwriad i lunio set o safonau lle y mae disgwyliadau ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'u nodi'n glir.

Yr wyf wedi cyhoeddi adroddiad ar y prif themâu a gododd o'r ymgynghoriad, a'r rheini'n cynnwys sylwadau am hyfforddi staff, cyfrinachedd cleifion, manau ar gyfer addoli, iechyd meddwl, darparu'r adnoddau dynol angenrheidiol, seciwlareiddio gofal

of spiritual care, the needs of children and young people, and nurses' role in providing spiritual care.

After considering all the comments and in recognition of this valuable service, which forms an important element of the services the NHS in Wales provides to help prevent and treat illness, I am introducing these standards to facilitate the audit of spiritual care services, to ensure equality across services and to develop an integrated approach to the delivery of religious and spiritual care. The standards will also inform and provide an evidence base of good practice for the future development of spiritual care in the NHS. The standards apply to spiritual care services funded by NHS local health boards and trusts.

The standards also include guidance on capabilities and competences for healthcare chaplains and spiritual care givers in Wales that will form the framework to inform and develop education and training, the planning of work-based learning and the personal development of healthcare chaplains and spiritual care givers. Spiritual care requires certain competences, but it is particularly attuned to capability. There is a degree of perception, behaviour and attitude in spiritual care that is difficult to describe in terms of a task. This is best expressed by a capability framework within which there are groups of competences.

The implementation of the standards is based on undertaking a review of the current spiritual care provision and agreeing a plan for the future. I expect those plans to be in place locally by September 2010. Local health boards and trusts will need to identify the human and financial resources devoted to the spiritual care services as part of their baseline review.

4.00 p.m.

The spiritual care standards have been linked to 'Doing Well, Doing Better: Standards for Health Services in Wales', which focuses on improving health and wellbeing as well as

ysbrydol, anghenion plant a phobl ifanc, a rôl nyrsys wrth ddarparu gofal ysbrydol.

Ar ôl ystyried yr holl sylwadau ac er mwyn cydnabod y gwasanaeth gwerthfawr hwn, sy'n elfen bwysig yn y gwasanaethau y mae'r GIG yng Nghymru'n eu darparu i helpu i atal salwch a'i drin, yr wyf yn cyflwyno'r safonau hyn i hwyluso'r archwilio ar wasanaethau gofal ysbrydol, i sicrhau cydraddoldeb ar draws gwasanaethau ac i ddatblygu dull integredig o gyflwyno gofal crefyddol ac ysbrydol. Bydd y safonau hefyd yn cynnig ac yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth o arferion da ar gyfer datblygu gofal ysbrydol yn y GIG yn y dyfodol. Mae'r safonau'n berthnasol i wasanaethau gofal ysbrydol a ariennir gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae'r safonau hefyd yn cynnwys canllawiau ar alluoedd a chymwyseddau ar gyfer caplaniaid gofal iechyd a rhoddwyr gofal ysbrydol yng Nghymru a fydd yn fframwaith ar gyfer llywio a datblygu addysg a hyfforddiant, cynllunio dysgu seiliedig ar waith a datblygiad personol caplaniaid gofal iechyd a rhoddwyr gofal ysbrydol. Mae gofal ysbrydol yn galw am gymwyseddau penodol, ond mae'n cydweddu'n neilltuo â gallu. Mae rhyw gymaint o ganfyddiad, ymddygiad ac ymagwedd mewn gofal ysbrydol y mae'n anodd eu disgrifio yng nghyd-destun tasg. Y ffordd orau o gyfleu hyn yw drwy fframwaith galluoedd sy'n cynnwys grwpiau o gymwyseddau.

Rhoddir y safonau ar waith ar ôl cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol o ofal ysbrydol a chytuno ar gynllun ar gyfer y dyfodol. Yr wyf yn rhagweld y bydd y cynlluniau hynny ar waith yn lleol erbyn mis Medi 2010. Bydd angen i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau bennu'r adnoddau dynol ac ariannol a fydd wedi'u neilltuo ar gyfer y gwasanaethau gofal ysbrydol fel rhan o'u hadolygiad sylfaenol.

Mae'r safonau ar gyfer gofal ysbrydol wedi'u cysylltu â 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru', sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a

providing high-quality and safe healthcare, and will be used by Healthcare Inspectorate Wales to undertake testing and validation of the self assessments against the standards for the health service as part of its public assurance role.

I have discussed the standards with senior members of the faith communities and they are supportive. However, I have said that I will review the standards after 12 months' operation to see how well they are working. During that period, I will expect the NHS to look for ways to work efficiently to embed these spiritual care standards into its services for its patients and thus provide a more holistic package of care to the individual. I am grateful to all of those who responded to the consultation and look forward to an exciting addition to the package of care for patients in the NHS in Wales.

Andrew R.T. Davies: Thank you for your statement this afternoon, Minister. I welcome the contents of that statement and the review that you have undertaken. Some members of staff and some individuals in hospitals have found themselves in difficult positions, and the respect and dignity of individuals must always be paramount, whether they are part of the workforce or a patient for a short or long period of time in an NHS establishment. Hopefully, these guidelines will add substance to the clarity that people have sought in addressing the varied spiritual issues that many people face in the day-to-day exercise of the duties of the NHS in Wales.

You have touched on several points in your statement and I ask you to address, in particular, the needs of children and young people, because the NHS and the services that it provides cater to a broad spectrum of people. It caters to the whole of society, does it not? Often the views and attitudes of young people may be different from those of their parents or the older generation that, in essence, may be looking for a different type of spiritual enlightenment or advice. I would be grateful for your view on how these standards could facilitate the understanding

lles yn ogystal â darparu gofal iechyd diogel sydd o ansawdd uchel, a bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn eu defnyddio i roi prawf ar hunanasesiadau a'u dilysu yn erbyn y safonau ar gyfer y gwasanaeth iechyd fel rhan o'i rôl yn ymwneud â rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

Yr wyf wedi trafod y safonau gydag aelodau uwch o'r cymunedau ffydd ac maent yn gefnogol. Serch hynny, yr wyf wedi dweud y byddaf yn adolygu'r safonau ar ôl eu gweithredu am 12 mis i weld pa mor dda y maent yn gweithio. Yn ystod y cyfnod hwnnw, byddaf yn disgwyl i'r GIG chwilio am ffyrdd o weithio'n effeithlon i ymgorffori'r safonau gofal ysbrydol hyn yn ei wasanaethau i'w gleifion a thrwy hynny gynnig pecyn gofal mwy holistig i'r unigolyn. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac edrychaf ymlaen at weld ychwanegiad cyffrous at y pecyn gofal i gleifion yn y GIG yng Nghymru.

Andrew R.T. Davies: Diolch i chi am eich datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Yr wyf yn croesawu cynnwys y datganiad hwnnw a'r adolygiad yr ydych wedi'i gynnal. Mae rhai aelodau o'r staff a rhai unigolion mewn ysbytai wedi'u cael eu hunain mewn sefyllfaoedd anodd, a rhaid i barch ac urddas unigolion fod yn brif ystyriaeth bob amser, pa un a ydynt yn rhan o'r gweithlu neu'n glaf am gyfnod byr neu hir yn un o sefydliadau'r GIG. Y gobaith yw y bydd y canllawiau hyn yn ychwanegu sylwedd at yr eglurder y mae pobl wedi'i geisio wrth roi sylw i'r materion ysbrydol amrywiol y mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth arfer dyletswyddau'r GIG yng Nghymru o ddydd i ddydd.

Yr ydych wedi cyfeirio at nifer o bwyntiau yn eich datganiad a gofynnaf ichi ymdrin yn benodol ag anghenion plant a phobl ifanc, gan fod y GIG a'i wasanaethau'n darparu ar gyfer sbectrwm eang o bobl. Mae'n darparu ar gyfer y gymdeithas gyfan, onid yw? Yn aml, gall barn ac agweddau pobl ifanc fod yn wahanol i'r rhai sydd gan eu rhieni neu'r genhedlaeth hŷn a all fod yn chwilio, yn y bôn, am fath gwahanol o gyngor neu oleuni ysbrydol. Byddwn yn ddiolchgar o gael eich barn am y modd y gallai'r safonau hyn hwyluso dealltwriaeth staff yn y GIG, ond,

of staff in the NHS, but, above all, the understanding of young people of what they might expect in respect of their spiritual requirements when they go into the NHS.

That leads on nicely to the role of staff and, in particular, their beliefs and their work with patients who may have expressed similar beliefs, to ensure that they can take a holistic approach in developing that spiritual support for people in the NHS. There is an important role for training here to understand the level of support that is permissible and the parameters in which they could offer that support, while not compromising the medical role of not just nurses, but all staff in the NHS. In your statement, you touched on the need for local health boards to address the resource issue and, above all, to prepare a work plan so that these guidelines can be implemented and staff can have access to the support that they might require in understanding the parameters in which they are allowed to work.

Moving on to the accommodation of worship, if that is what people might wish for, in the NHS. Given the constraints on the NHS budget at the moment and the reconfiguration of other services in the NHS, what exactly did you mean by that reference in your working document to 'accommodation for worship' in the NHS? It is important for us to understand what that broad reference means. For a lot of people in a diverse society or community, the type of worship related to the spiritual belief that they may or may not have is a critical component in devising a package that will support that broad statement of 'accommodation for worship' in the NHS. I would welcome it if you were to address those points that I have put to you this afternoon.

Edwina Hart: Thank you for your broad welcome for what I think is important guidance for the national health service. We do not want to undervalue the importance of spiritual care for those who are in need in the health service: patients, carers and staff. Having decided to do further work on this document, when I went to NHS establishments and had the opportunity to meet the chaplaincy, I was particularly interested in the large volume of work that

yn fwy na dim, dealltwriaeth pobl ifanc o'r hyn y gallent ei ddisgwyl mewn cysylltiad â'u hanghenion ysbrydol pan fyddant yn dod dan ofal y GIG.

Mae hynny'n arwain yn gyfleus at rôl staff ac, yn benodol, eu credoau a'u gwaith gyda chleifion a all fod wedi mynegi credoau tebyg, er mwyn sicrhau y gallant ddatblygu'r gefnogaeth ysbrydol honno i bobl yn y GIG mewn modd holistig. Mae lle pwysig i hyfforddiant yn hyn o beth er mwyn deall lefel y gefnogaeth y gellir ei chaniatáu a'r ffiniau y gallent gynnig cefnogaeth o'r fath oddi mewn iddynt, heb amharu, wrth wneud hynny, ar y rôl feddygol sydd nid yn unig gan nyrsys, ond gan holl staff y GIG. Yn eich datganiad, cyfeiriasoch at yr angen i fyrddau iechyd lleol roi sylw i fater adnoddau ac, yn fwy na dim, paratoi cynllun gwaith fel y gellir gweithredu'r canllawiau hyn ac fel y gall staff gael y cymorth y gallai fod arnynt ei angen i ddeall y ffiniau y maent yn cael gweithio oddi mewn iddynt.

Gan symud ymlaen at fannau ar gyfer addoli, os yw hynny'n rhywbeth y gallai pobl ei ddymuno, yn y GIG. O gofio'r cyfyngiadau ar gyllideb y GIG ar hyn o bryd ac ad-drefnu gwasanaethau eraill yn y GIG, beth yn union yr oeddech yn ei olygu wrth y cyfeiriad hwnnw yn eich dogfen weithio at 'fannau ar gyfer addoli' yn y GIG? Mae'n bwysig inni ddeall ystyr y cyfeiriad cyffredinol hwnnw. Yng ngolwg llawer o bobl mewn cymdeithas neu gymuned amrywiol, mae'r math o addoli sy'n ymwneud â'r gred grefyddol a all fod ganddynt yn elfen hanfodol wrth ddyfeisio pecyn a fydd yn ategu'r datganiad cyffredinol hwnnw am 'fannau ar gyfer addoli' yn y GIG. Byddwn yn falch pe gallech ymateb i'r pwyntiau hynny yr wyf wedi'u dwyn i'ch sylw y prynhawn yma.

Edwina Hart: Diolch ichi am eich croeso cyffredinol i'r hyn sydd yn fy marn i'n ganllawiau pwysig i'r gwasanaeth iechyd gwladol. Nid ydym am danbriso pwysigrwydd gofal ysbrydol i'r rhai sydd mewn angen yn y gwasanaeth iechyd: yn gleifion, gofalwyr a staff. Wedi imi benderfynu gwneud gwaith pellach ar y ddogfen hon, pan euthum i sefydliadau'r GIG a chael cyfle i gwrdd â'r caplaniaid, yr oeddwn yn ymddiddori'n benodol yn y

they undertook in relation to staff in the NHS. The staff who did not necessarily have any religious beliefs, who could have accessed the counselling services of the trusts, as they were then, actually preferred that type of external guidance. That opportunity to discuss issues was broadly welcomed by staff across the piece.

When we talk about the NHS having to look at facilities for prayer rooms and chapels, and so on, NHS organisers have to be innovative in their approach. I was much taken by Ysbyty Gwynedd's multi-faith centre, which is an excellent example of organisations working together with the NHS. It has an office, a multi-faith worship area, a purpose-built counselling room that can be utilised by people of all faiths or no faith, and a room in which ritual washing can take place. It reflects a holistic approach that will have to be looked at in all LHBs, about the provision of facilities within the NHS estate.

I take on board the point about the role of staff. There is a general role for everyone, but nurses have always had a particular role due to their relationship with their patients, and it is important that people understand the nature of that relationship. Nurses will want to give comfort, because that is part of why they went into nursing in the first place, and they are then able to share if patients want a discussion around issues—especially when you have a patient who is suffering greatly, or is dying. These are issues that will have to be looked at, and we probably need further discussion, but you are right about children and young people.

It is interesting that, sometimes, children and young people want to speak to chaplains and others about things that they do not wish to discuss with their parents or anyone else. They want another view, and a discussion about things, and the service that is available in some areas now facilitates that. In light of your comments on children and young people, I will take the opportunity to say that we have the opportunity to talk to various groups of young people in the voluntary sector as well as Funky Dragon, which looks particularly at issues for children and young

gwaith mawr yr oeddent yn ymgymryd ag ef mewn cysylltiad â staff yn y GIG. Yr oedd y staff nad oedd ganddynt greddau crefyddol o reidrwydd, a allai fod wedi defnyddio gwasanaethau cwnsela'r ymddiriedolaethau, fel yr oeddent bryd hynny, yn ffafrio canllawiau allanol o'r math hwnnw. Yn gyffredinol, yr oedd y staff at ei gilydd yn croesawu cyfle o'r fath i drafod problemau.

Wrth sôn am y GIG yn gorfod ystyried cyfleusterau ar gyfer ystafelloedd gweddio a chapeli, ac yn y blaen, rhaid i drefnwyr y GIG fod yn arloesol. Yr oedd gennyf feddwl mawr o'r ganolfan aml-ffydd yn Ysbyty Gwynedd, sy'n enghraifft ragorol o gydweithio rhwng cyrff a'r GIG. Mae ynddi swyddfa, man addoli aml-ffydd, ystafell gwnsela bwrpasol y gall pobl o bob ffydd neu rai sydd heb greddo grefyddol ei defnyddio, ac ystafell lle y gall ymolchi defodol ddigwydd. Mae'n adlewyrchu dull holistig o weithredu y bydd yn rhaid ei ystyried ym mhob BILL, ynghylch darparu cyfleusterau o fewn ystâd y GIG.

Derbyniaf y pwynt ynghylch rôl y staff. Mae rôl gyffredinol i bawb, ond mae rôl benodol wedi bod gan nyrsys erioed oherwydd eu perthynas â'u cleifion, ac mae'n bwysig i bobl ddeall natur y berthynas honno. Bydd nyrsys yn dymuno rhoi cysur, gan fod hynny'n rhan o'r rheswm dros fynd yn nyrsys yn y lle cyntaf, ac wedyn gallant rannu hyn os yw cleifion am drafod problemau—yn enwedig os oes claf sy'n dioddef yn ddifrifol, neu'n marw. Mae'r rhain yn faterion y bydd yn rhaid eu hystyried, ac mae'n debyg y bydd angen trafodaeth bellach arnom, ond yr ydych yn llygad eich lle ynghylch plant a phobl ifanc.

Mae'n ddiddorol bod plant a phobl ifanc weithiau am siarad â chaplaniaid ac eraill ynghylch pethau nad ydynt yn dymuno eu trafod gyda'u rhieni neu rywun arall. Maent am gael barn arall, a thrafodaeth am bethau, ac mae'r gwasanaeth sydd ar gael yn awr mewn rhai ardaloedd yn hwyluso hynny. Yng ngoleuni'ch sylwadau am blant a phobl ifanc, achubaf y cyfle i ddweud bod gennym gyfle i siarad gyda gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn y sector gwirfoddol yn ogystal â'r Ddraig Ffyni, sy'n edrych yn benodol ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Byddaf

people. I will be very happy to refer this document to those groups for comment, especially as I will be reviewing it in 12 months.

Lorraine Barrett: First, I declare an interest as a registered humanist. I have a couple of questions for you, Minister. As you know, there is an opinion in the secular world that public money should not be used to provide what is primarily a Christian chaplaincy service in the NHS. I wonder if you could say something about the opportunity for other faiths to be represented in the chaplaincy, whether we are talking about people of the Hindu or Muslim faith, or others. I also wondered whether the British Humanist Association had been invited to comment on the consultation, and if not, whether you would be prepared to take a submission from it. It is important to provide a more inclusive—and you have mentioned that, to be fair—support mechanism in our hospitals. I also want to say that humanists do not dismiss or shy away from the word ‘spiritual’. In fact, we have lots of discussions on spirituality, and we see it in a wider sense than religious people might. I would rather look at this as a counselling service, in a way, and you have mentioned that that forms part of the chaplaincy package. Therefore, my main question is: is there room for humanists to be part of the chaplaincy, so that someone who does not have a particular religious faith or belief would have the opportunity to sit down with someone who might understand how they are feeling?

Edwina Hart: I am not aware that the British Humanist Association responded to my consultation. I have a list of consultees here, which I have quickly looked through, but I will also check with my officials to see if any contact was made. I want to make quite clear that the chaplaincy service is not just a Christian service. The Muslim faith and all other faiths are also represented as part of the general chaplaincy service. That is why I referred to the excellent multi-faith centre at Ysbyty Gwynedd, which has really grappled with that issue and ensured that all faiths are represented in that setting.

yn falch iawn o gyfeirio'r ddogfen hon i sylw'r grwpiau hynny i gael sylwadau, yn enwedig gan y byddaf yn ei hadolygu ymhen 12 mis.

Lorraine Barrett: Yn gyntaf, datganaf fuddiant fel dyneiddwraig gofrestredig. Mae gennyf un neu ddau o gwestiynau i chi, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae rhai yn y byd seciwlar yn barnu na ddylid defnyddio arian cyhoeddus i ddarparu'r hyn sy'n bennaf yn wasanaeth caplaniaeth Gristnogol yn y GIG. Yr wyf yn meddwl tybed a allech ddweud rhywbeth am y cyfle i grefyddau eraill gael eu cynrychioli yn y gaplaniaeth, pa un a ydym yn sôn am bobl sy'n arddel y ffydd Hindŵaidd neu Fwslimaidd, neu eraill. Yr oeddwn hefyd yn meddwl tybed a oedd Cymdeithas Ddyneiddiol Prydain wedi cael gwahoddiad i gynnig sylwadau ar yr ymgynghoriad ac, os nad oedd, a fydddech yn barod i gael sylwadau ganddi. Mae'n bwysig darparu mecanwaith cefnogi mwy cynhwysol—ac yr ydych wedi sôn am hynny, a bod yn deg—yn ein hysbytai. Yr wyf hefyd am ddweud nad yw dyneiddwyr yn wfftio'r gair 'ysbrydol' nac yn ei osgoi. Mewn gwirionedd, yr ydym yn cael llawer o drafodaethau am ysbrydolrwydd, ac i ni mae iddo ystyr ehangach nag sydd iddo gan bobl grefyddol efallai. Byddai'n well gennyf edrych ar hyn fel gwasanaeth cwnsela, ar un ystyr, ac yr ydych wedi nodi bod hynny'n rhan o waith y gaplaniaeth. Felly, y prif gwestiwn sydd gennyf yw: a oes lle i ddyneiddwyr yn y gaplaniaeth, fel y byddai rhywun sydd heb gredu neu ffydd grefyddol benodol yn cael cyfle i eistedd gyda rhywun a allai ddeall sut y mae'n teimlo?

Edwina Hart: Nid wyf yn ymwybodol bod Cymdeithas Ddyneiddiol Prydain wedi ymateb i'm hymgynghoriad. Mae gennyf restr o ymgynghoreion yma, yr wyf wedi darllen drwyddi'n gyflym, ond holaf fy swyddogion hefyd i weld a fu unrhyw gysylltu. Yr wyf am ei gwneud yn gwbl glir nad yw'r gwasanaeth caplaniaeth yn wasanaeth Cristnogol yn unig. Mae'r ffydd Fwslimaidd a'r holl grefyddau eraill yn cael eu cynrychioli hefyd fel rhan o'r gwasanaeth caplaniaeth cyffredinol. Dyna pam y cyfeiriais at y ganolfan aml-ffydd ragorol yn Ysbyty Gwynedd, sydd wedi mynd i'r afael â'r mater o ddifrif a sicrhau bod yr holl

grefyddau'n cael eu cynrychioli yn y lleoliad hwnnw.

When it comes to very sensitive issues, such as a patient wanting the last rites, for example, the chaplain on duty may not be a Roman Catholic, but they would arrange for the appropriate person to come. Any chaplain on duty would also arrange for someone to come to talk to any patient with a spiritual issue. We are very much taking an inclusive approach on this. I think that you underestimate, Lorraine, the extent to which people of no faith access the chaplaincy service at some stage—staff, patients and others. Sometimes, they want someone to talk to at a difficult time, and sometimes they do not want to talk to their families, or request their families—they just need someone else to have a few words with them.

Gan droi at faterion sensitif iawn, fel cleifion sydd am gael yr eneiniad olaf, er enghraifft, efallai na fydd y caplan ar ddyletswydd yn Gatholig, ond byddai'n trefnu i'r person priodol ddod yno. Byddai unrhyw gaplan ar ddyletswydd hefyd yn trefnu i rywun ddod i siarad ag unrhyw glaf sydd â phroblem ysbrydol. Yr ydym yn edrych ar hyn mewn modd gwirioneddol gynhwysol. Yr wyf yn credu nad ydych yn llawn sylweddoli, Lorraine, i ba raddau y mae pobl sydd heb gredo grefyddol yn defnyddio'r gwasanaeth caplaniaeth ar adegau—yn staff, cleifion ac eraill. Weithiau, maent am gael rhywun y gallant siarad ag ef ar adeg anodd, ac weithiau nid ydynt am siarad â'u teuluoedd, neu ofyn i'w teuluoedd—y cwbl y mae arnynt ei angen yw rhywun arall i gael gair neu ddau gydag ef.

4.10 p.m.

The importance of this document is that we and the national health service itself are recognising that this is a service that needs to be provided. I see the giving of spiritual care as something that goes hand-in-hand with treating the whole person. NHS chaplains work with faith-based communities to ensure that spiritual care needs are properly catered for and, in my opinion, they are also a part of the NHS team. It is important that we have this integrated response.

Pwysigrwydd y ddogfen hon yw ein bod ni a'r gwasanaeth iechyd gwladol ei hun yn cydnabod bod hwn yn wasanaeth y mae angen ei ddarparu. I mi mae rhoi gofal ysbrydol yn rhywbeth sy'n mynd law yn llaw â thrin y person cyfan. Mae caplaniaid y GIG yn cydweithio â chymunedau ffydd i sicrhau bod anghenion gofal ysbrydol yn cael eu bodloni'n briodol ac, yn fy marn i, maent hefyd yn rhan o dîm y GIG. Mae'n bwysig inni gael ymateb integredig o'r fath.

In light of your comments today, I will consider the issues that you have raised. I will be reviewing this in 12 months' time and I am open to further representations.

Yng ngoleuni eich sylwadau heddiw, ystyriaf y materion yr ydych wedi'u codi. Byddaf yn adolygu hyn ymhen 12 mis ac yr wyf yn barod i ystyried sylwadau pellach.

Peter Black: I thank the Minister for bringing this statement to the Chamber. Having spent so long on material matters, it is a relief to start talking about spiritual matters in the Chamber.

Peter Black: Diolch i'r Gweinidog am ddod â'r datganiad hwn i'r Siambr. A ninnau wedi treulio cymaint o amser yn trafod materion materol, mae'n braf dechrau sôn am faterion ysbrydol yn y Siambr.

The guidelines that you set out in this statement are welcome and help to rationalise the service that is currently provided in many hospitals, although that is provided more on an ad-hoc basis than the considered way in which it is set out here. However, can you give more detail as to how you propose to

Mae'r canllawiau yr ydych yn eu hamlinellu yn y datganiad hwn i'w croesawu ac maent yn helpu i resymoli'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd mewn llawer o ysbytai, er bod hwnnw'n cael ei ddarparu ar sail *ad hoc* gan mwyaf yn hytrach na'r modd ystyriol sydd wedi'i nodi yma. Fodd bynnag, a allwch roi

roll out these standards? What is the implementation plan with regard to each of the seven local health boards? What sort of budget and provision will be made available over the next few years to try to deliver the sort of important spiritual guidance that is necessary to help patients to recover? It is important to recognise that physical wellbeing is linked to spiritual wellbeing, and that the work undertaken by the people who do this particular job is important with regard to recovery. Therefore, I am interested to know how we are going to roll this out and deliver it on the ground.

Edwina Hart: There has been a great deal of interest in the local health boards. I will be discussing, in my next regular meeting with the chairs and the chief executives, how we expect the spiritual care service and guidance to be implemented in the NHS. I must agree with you that improvements to the services in the current financial climate will be difficult. However, resources are currently available for this type of service within the health boards and trusts, and they are aware of the need to implement the policy. I expect them to ensure that provision is made from the budgets allocated from 2010-11 and that there will be a development of spiritual services. Therefore, if they look at how they utilise their current budgets, they will find ways of making this policy work better. I, like you, feel that it is important that this is not an ad-hoc provision; there should be a consistent approach across the NHS in Wales and I will certainly review those matters.

David Lloyd: I also welcome the Minister's statement on the standards for spiritual care services in the NHS in Wales. I suppose that I had better kick off by declaring an interest as I have been a lay preacher in the nonconformist chapels of Wales on most Sundays for the past 18 years. Based on that, I welcome what the Minister has said in the statement this afternoon. We were always taught as general practitioners—to put my other hat on—that the wellbeing of our patients is not just a matter of physical wellbeing, but also involves psychological,

rhagor o fanylion am y modd yr ydych yn bwriadu rhoi'r safonau hyn ar waith? Pa gynllun gweithredu sydd ar waith mewn cysylltiad â phob un o'r saith bwrdd iechyd lleol? Pa fath o gyllideb a darpariaeth a fydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf i geisio darparu'r math o arweiniad ysbrydol pwysig y mae ei angen i helpu cleifion i wella? Mae'n bwysig cydnabod bod lles corfforol yn gysylltiedig â lles ysbrydol, a bod y gwaith a wneir gan y bobl sy'n cyflawni'r swydd hon yn bwysig o ran gwella. Felly, bydd o ddiddordeb imi gael gwybod sut y byddwn yn rhoi hyn ar waith ac yn ei gyflwyno ar lawr gwlad.

Edwina Hart: Bu llawer o ddiddordeb ymysg y byrddau iechyd lleol. Byddaf yn trafod, yn fy nghyfarfod rheolaidd nesaf â'r cadeiryddion a'r prif weithredwyr, sut yr ydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gofal ysbrydol a'r canllawiau gael eu gweithredu yn y GIG. Rhaid imi gyd-weld â chi y bydd yn anodd gwneud gwelliannau yn y gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Er hynny, mae adnoddau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaeth o'r math hwn yn y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau, ac maent yn ymwybodol o'r angen i weithredu'r polisi. Yr wyf yn disgwyl iddynt sicrhau y gwneir darpariaeth o'r cyllidebau a ddyrannwyd o 2010-11 ac y bydd gwasanaethau ysbrydol yn cael eu datblygu. Felly, os edrychant ar y modd y maent yn defnyddio'u cyllidebau presennol, deuant o hyd i ffyrdd i beri i'r polisi hwn weithio'n well. Fel chithau, teimlaf ei bod yn bwysig nad darpariaeth *ad hoc* yw hon; dylid cael dull gweithredu cyson ym mhob rhan o'r GIG yng Nghymru a byddaf yn sicrhau o adolygu'r materion hynny.

David Lloyd: Yr wyf finnau'n croesawu datganiad y Gweinidog ar y safonau ar gyfer gwasanaethau gofal ysbrydol yn y GIG yng Nghymru. Mae'n debyg y byddai'n well imi ddechrau arni drwy ddatgan buddiant gan fy mod wedi bod yn bregethwr lleig yng nghapeli anghydfurfiol Cymru ar y rhan fwyaf o'r Suliau dros y 18 mlynedd diwethaf. Ar sail hynny, yr wyf yn croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud yn y datganiad y prynhawn yma. Caem ein haddysgu bob amser fel ymarferwyr cyffredinol—gan wisgo fy het arall—nad

social and spiritual wellbeing. There are four equal prongs to the total whole of a person, and that is what holistic care is about.

The spiritual element is important. There are various medical research studies from several areas of the globe that point to the fact that a positive outlook after a fairly bad diagnostic indicator actually improved survivorship: you live longer with a positive spiritual outlook and a willingness to fight disease, rather than pack up and give in. Therefore, the spiritual element of our whole physical wellbeing is vital. It can be fashionable in modern-day society to denigrate matters of faith, particularly matters of Christian faith. However, at those times when, as a GP, I was faced, in the middle of the night, with a dying patient who I have known for a long time, those matters of faith can sometimes come to the fore, and always come to the fore if the patient wants them to. When people face severe illness, suffering and death, that spiritual element, which is long suppressed in our natural wellbeing, can sometimes come to the fore. All those important questions of life, such as 'What is the point of existence?' and other matters of soul and faith come forth then when they never have at any time previously. It is valid for people to express their concerns and feelings at that time. I, therefore, welcome this initiative. Ordained ministers have been going into hospitals for generations, and some are also employed as chaplains. In today's world, where we need a consistent level of service, I warmly welcome this statement by the Minister on setting standards.

A bit like Peter Black, I want to know more about how this will roll out in practice, particularly the timescales, the service that we will be providing, and where it will be provided. People are vulnerable in the hospital setting: often, they can be alone, scared, at their wits' end, and not knowing who to talk to. Friends of mine are hospital chaplains, and they work mostly with people who have no religious background. It is just

mater o les corfforol yn unig yw lles ein cleifion, ond ei fod hefyd yn cynnwys lles seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol. Mae pedair elfen gyfartal yn y person cyfan, a dyna yw hanfod gofal holistig.

Mae'r elfen ysbrydol yn bwysig. Mae amryw o astudiaethau ymchwil feddygol o nifer o rannau o'r byd sy'n dangos bod ymagwedd gadarnhaol ar ôl dangosydd diagnostig eithaf gwael yn gwella'r gallu i oroesi: byddwch yn byw'n hwy o gael ymagwedd ysbrydol gadarnhaol a pharodrwydd i ymladd yn erbyn afiechyd, yn hytrach nag ildio. Felly, mae'r elfen ysbrydol yn ein lles corfforol cyffredinol yn hollbwysig. Gall fod yn ffasiynol mewn cymdeithas gyfoes ddilorni materion ffydd, yn enwedig materion ffydd Gristnogol. Fodd bynnag, ar yr adegau hynny pan oeddwn i, fel meddyg teulu, yn wynebu claf a oedd yn marw, yng nghanol y nos, a minnau'n ei adnabod ers amser maith, gall y materion ffydd hynny ddod yn flaenllaw weithiau os yw'r claf yn dymuno hynny, ac maent bob amser yn dod yn flaenllaw os yw'r claf yn dymuno hynny. Pan yw pobl yn wynebu salwch difrifol, dioddefaint a marwolaeth, mae'r elfen ysbrydol honno, sydd wedi'i chuddio'n hir pan ydym yn mwynhau lles naturiol, yn gallu dod yn flaenllaw weithiau. Mae'r holl gwestiynau pwysig hynny mewn bywyd, fel 'Beth yw diben bodolaeth?' a materion eraill yr enaid a ffydd yn codi bryd hynny am y tro cyntaf. Mae'n ddilys i bobl fynegi eu pryderon a'u teimladau bryd hynny. Felly, yr wyf yn croesawu'r fenter hon. Mae gweinidogion ordeiniedig wedi bod yn mynd i ysbytai ers cenedlaethau, ac mae rhai wedi'u cyflogi hefyd fel caplaniaid. Yn y byd sydd ohoni, lle y mae arnom angen lefel gyson o wasanaeth, yr wyf yn croesawu'n gynnes y datganiad hwn gan y Gweinidog ynghylch pennu safonau.

Fel Peter Black yntau i ryw raddau, yr wyf am wybod mwy am y modd y caiff hyn ei roi ar waith mewn gwirionedd, yn enwedig yr amserlenni, y gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu, ac ymhle y caiff ei ddarparu. Mae pobl yn teimlo'n agored i niwed yn yr ysbyty: yn aml, gallant fod ar eu pen eu hunain, yn ofnus, ar ben eu tennyn, a heb wybod at bwy y gallant droi i gael gair. Mae ffrindiau imi'n gaplaniaid mewn ysbytai, a byddant yn

that these people have no-one else to turn to in their hour of need, and they just want somebody to talk to. They must have somebody who is reliable in their spiritual care of people who are unburdening themselves. I am pleased to see this statement appear, and, again like Peter Black—and I have a worrying tendency to agree with him this afternoon—I feel that, having discussed matters of mammon for a while this afternoon, it is encouraging to discuss matters of faith or faithlessness. In that ‘spirit’, as it were, I look forward to further confirmation from the Minister of how she intends to roll out the service.

Edwina Hart: Given your medical background and understanding, Dr Lloyd, you have been able to illustrate what we mean by the treatment of the whole and why we are issuing this guidance. The standards will be linked to the standards for the health service in Wales and will be used to demonstrate progress internally by NHS organisations and externally by Healthcare Inspectorate Wales, as part of its assurance role. In addition, I intend to set up a group in a year or so, drawn from people in the field, to reflect on how well the standards are being implemented, so that we know from the day-to-day workings that we are making progress in this area.

You commented that it is fashionable to denigrate matters of faith, but we have to recognise that there are many people of different faiths and religions. It is also important to recognise what you spoke of last, which is the loneliness of people who are on their own, as they sometimes want, or even need, someone to speak to. We need to reassure them that they can speak to whoever they require during these difficult times. The churches raised some concerns with me that the religious aspects of spiritual care might be diluted by these standards, not the other way around. That was what I was reinforcing. However, I have discussed that issue with the churches, and I am happy now that we have struck the right balance within the standards.

gweithio gan mwyaf gyda phobl sydd heb gefndir crefyddol. Y peth yw nad oes gan y bobl hyn neb arall y gallant droi ato yn awr eu hangen, a’r unig beth y mae arnynt ei angen yw cael rhywun y gallant siarad gydag ef. Rhaid iddynt gael rhywun sy’n ddibynadwy o ran cynnig gofal ysbrydol i bobl sy’n agor eu calon. Yr wyf yn falch o weld y datganiad hwn ac, fel Peter Black eto—ac mae tuedd anffodus ynof i gytuno ag ef y prynhawn yma—yr wyf yn teimlo, ar ôl trafod materion materol am ychydig y prynhawn yma, ei bod yn braf trafod materion ffydd neu ddiffyg ffydd. Yn yr ‘ysbryd’ hwnnw, fel petai, edrychaf ymlaen at gael cadarnhad pellach gan y Gweinidog ynghylch y modd y mae’n bwriadu rhoi’r gwasanaeth ar waith.

Edwina Hart: Oherwydd eich cefndir a’ch dealltwriaeth feddygol, Dr Lloyd, yr ydych wedi gallu dangos beth yr ydym yn ei olygu wrth drin y person cyfan a pham yr ydym yn cyhoeddi’r canllawiau hyn. Bydd y safonau wedi’u cysylltu â’r safonau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ac fe’u defnyddir i ddangos cynnydd yn fewnol gan gyrrff y GIG ac yn allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel rhan o’i rôl yn ymwneud â sicrwydd. Yn ogystal â hynny, yr wyf yn bwriadu sefydlu grŵp ymhen tua blwyddyn, a fydd yn cynnwys pobl sydd yn y maes, i ystyried pa mor dda y mae’r safonau’n cael eu gweithredu, fel y byddwn yn gwybod ar sail sut y mae pethau’n gweithio o ddydd i ddydd ein bod yn gwneud cynnydd yn y maes hwn.

Dywedasoch ei bod yn ffasiynol dilorni materion ffydd, ond rhaid inni gydnabod bod llawer o bobl sy’n arddel credoau a chrefyddau gwahanol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod yr hyn y soniasoch amdano ddiwethaf, sef unigrwydd pobl sydd ar eu pen eu hunain, oherwydd weithiau bydd arnynt eisiau, neu hyd yn oed angen, rhywun y gallant siarad gydag ef. Mae angen inni eu sicrhau y gallant siarad gyda phwy bynnag y mae arnynt ei angen yn ystod y cyfnodau anodd hyn. Cododd yr eglwysi rai pryderon gyda mi, sef y gallai’r agweddau crefyddol ar ofal ysbrydol gael eu glastwreiddio gan y safonau hyn, nid fel arall. Hynny yr oeddwn yn ei bwysleisio. Fodd bynnag, yr wyf wedi trafod y mater hwnnw gyda’r eglwysi, ac yr

However, only time will tell how they work out across the national health service.

Mohammad Asghar: Minister, I welcome the consultation report on the standards of spiritual care services in the NHS in Wales. I also welcome that fact that the Welsh Assembly Government received 22 responses prior to the closure of the consultation. You say that you received responses from religious and belief groups and equality networks, rather than faith groups, which I think is a little bit of a mix up. You could easily say that 'faith group' means various religions.

4.20 p.m.

People seeking spiritual care in Wales have a range of diverse backgrounds, different ages and disabilities. Normally, people need spiritual treatment when other orthodox medicines have failed or when they are near the end of their treatment. How can the Welsh Assembly Government ensure that sufficient and comprehensive consideration is given to the diverse needs of patients wishing to receive spiritual care in Wales? How can the Welsh Assembly Government ensure that any staff training on the provision of spiritual care fully considers the diverse and different needs of patients in Wales? Finally, I am sure that you have already given the answer because the costing has already been done, but to what extent are you co-operating with England, Ireland and Scotland to improve the standard of these special provisions for patients in this country?

Edwina Hart: It is pleasing to note that we have all been singing from the same hymn sheet on the importance of spiritual guidance today and of recognising the diversity that is required given the various faith communities in Wales to ensure that patients have the appropriate access to spiritual guidance from their own faith, when required, although others will just want guidance in some shape or form from someone they feel they can confide in. My experience of going around

wyf yn fodlon yn awr ein bod wedi cael y cydbwysedd priodol o fewn y safonau. Er hynny, amser yn unig a ddengys sut y byddant yn gweithio ar draws y gwasanaeth iechyd gwladol.

Mohammad Asghar: Weinidog, yr wyf yn croesawu'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar safonau gwasanaethau gofal ysbrydol yn y GIG yng Nghymru. Yr wyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael 22 o ymatebion cyn diwedd yr ymgynghoriad. Yr ydych yn dweud ichi gael ymatebion gan grwpiau ffydd a grwpiau crefyddol a rhwydweithiau cydraddoldeb, yn hytrach na grwpiau ffydd, a chredaf fod hynny braidd yn gymysglyd. Gallech ddweud bod 'grŵp ffydd' yn golygu gwahanol grefyddau.

Mae pobl sy'n ceisio gofal ysbrydol yng Nghymru o amryw o wahanol gefndiroedd, o wahanol oedrannau ac anabledau. Fel arfer, bydd ar bobl angen triniaeth ysbrydol pan fydd meddyginiaethau confensiynol eraill wedi methu neu pan fyddant yn dod i ddiwedd eu triniaeth. Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ystyriaeth ddigonol a chynhwysfawr yn cael ei rhoi i wahanol anghenion cleifion sy'n dymuno cael gofal ysbrydol yng Nghymru? Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod unrhyw hyfforddiant i'r staff ar ddarparu gofal ysbrydol yn llwyr ystyried yr anghenion gwahanol ac amrywiol sydd gan gleifion yng Nghymru? Yn olaf, yr wyf yn siŵr eich bod wedi rhoi'r ateb yn barod gan fod y priso wedi'i wneud eisoes, ond i ba raddau yr ydych yn cydweithredu â Lloegr, Iwerddon a'r Alban i wella safon y darpariaethau arbennig hyn i gleifion yn y wlad hon?

Edwina Hart: Mae'n braf nodi bod pob un ohonom wedi bod yn canu'r un dôn heddiw ynghylch pwysigrwydd arweiniad ysbrydol a chydabod yr amrywiaeth sy'n ofynnol o ystyried y gwahanol gymunedau ffydd sydd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y mynediad priodol at arweiniad ysbrydol gan eu crefydd eu hunain, pan fydd angen, er na fydd eraill ond am gael rhyw fath o arweiniad gan rywun y teimlant eu bod yn gallu ymddiried ynddo. Yr hyn yr wyf

NHS services is that there is a great deal of willingness to do work in this area and a great understanding. The chaplaincy service is very welcoming. It may not be of your faith, but there is usually a non-conformist chaplain available, or the service will make all the necessary arrangements for other faiths to be involved. We must follow that good practice and example, and hope that this guidance will reinforce that. We can then look to what further work we might need to do.

When I consider the review of this, I will be happy to look at which groups I can involve in the discussion to ensure that we get the broadest spread of views on any future improvements that we have to make. The point about children and young people was well made. It is one of the issues that Andrew R.T. Davies mentioned earlier. Another important area that we will have to consider when we review this is whether we have done enough to deal with the issues of children and young people, who will also be of diverse faiths.

Darren Millar: Thank you, Minister, for your excellent statement today. I welcome the work that has been done on this important issue of spiritual care and developing a consistent standard of spiritual care across the whole country. It is important that we recognise the whole-person approach that is needed when caring for individuals, because people have physical, emotional and spiritual needs.

You will know that the subject of spiritual care was a matter for debate in the cross-party group on faith when it met towards the end of last year. That meeting was attended by people of all faiths and of no faith, and there was a very good debate. I encourage you to consider some of the thoughts expressed during that discussion. Before I ask you some specific questions, I wish to pay tribute to the excellent work of hospital chaplains across Wales and the other volunteers who often deliver spiritual care to patients in Welsh hospitals and other places of care in the country. We all know that many churches have armies of hospital visitors who

wedi'i weld wrth fynd o gwmpas gwasanaethau'r GIG yw bod parodrwydd mawr i weithio yn y maes hwn a chryn ddealltwriaeth. Mae'r gwasanaeth caplaniaeth yn groesawgar iawn. Efallai na fydd yn cael ei gynnig gan eich crefydd chi, ond bydd caplan anghydfurfiol ar gael fel arfer, neu bydd y gwasanaeth yn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol i gynnwys crefyddau eraill. Rhaid inni ddilyn yr esiampl a'r arferion da hynny, a gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn ategu hynny. Wedyn gallwn ystyried pa waith ychwanegol y gallai fod angen inni ei wneud.

Pan ystyriaf yr adolygiad o ofal ysbrydol, byddaf yn falch o ystyried pa grwpiau y gallaf eu cynnwys yn y drafodaeth i sicrhau y cawn y farn ehangaf posibl am unrhyw welliannau y bydd yn rhaid inni eu gwneud yn y dyfodol. Yr oedd y pwynt am blant a phobl ifanc yn un da. Mae'n un o'r materion a grybwyllodd Andrew R.T. Davies yn gynharach. Maes pwysig arall y bydd yn rhaid inni ei ystyried pan adolygwn hyn yw a ydym wedi gwneud digon i ddelio â materion plant a phobl ifanc, a fydd hefyd o wahanol grefyddau.

Darren Millar: Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad rhagorol heddiw. Yr wyf yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y mater pwysig hwn, gofal ysbrydol a datblygu safon gyson ar gyfer gofal ysbrydol ledled y wlad. Mae'n bwysig inni gydnabod y dull o drin y person cyfan y mae ei angen wrth ofalu am unigolion, gan fod anghenion corfforol, emosiynol ac ysbrydol gan bobl.

Gwyddoch fod pwnc gofal ysbrydol yn destun dadl yn y grŵp trawsbleidiol ar ffydd pan gyfarfu tua diwedd y flwyddyn ddiwethaf. Yr oedd pobl o bob ffydd a rhai heb greddo grefyddol yn y cyfarfod hwnnw, ac yr oedd y ddadl yn dda iawn. Yr wyf yn eich annog i ystyried rhai o'r syniadau a fynegwyd yn ystod y drafodaeth honno. Cyn imi ofyn ychydig o gwestiynau penodol i chi, dymunaf dalu teyrnged i waith rhagorol caplaniaid ysbytai ledled Cymru a'r gwirfoddolwyr eraill sy'n aml yn cynnig gofal ysbrydol i gleifion mewn ysbytai yng Nghymru ac mewn mannau eraill sy'n darparu gofal yn y wlad. Yr ydym i gyd yn

go to encourage patients and just spend some time with them, particularly with those who may not have family or friends around to visit them.

One question that I wish to put to you concerns care that does not take place in the hospital setting. What about care that is paid for by the public purse but that is undertaken in care homes and other settings around Wales? How will you ensure that there is a standard of spiritual care that is acceptable to people in those situations? I welcome the review that you have said you will undertake in 12 months, following the implementation of these standards in September. How will you ensure that other places of care are included in the ambit of the review? I would also appreciate it if you could comment on the spiritual care given to people at the end of their lives in a hospice setting. Will you be able to look at that as part of your review to ensure that they are fully included? I accept that this is the first set of standards that we will have developed in Wales. Welcome as they are, I am sure that you will want to continue to develop them in future, and those are two particular areas that need to be looked at.

One thing that I welcome in your statement, and in the document, is the reference to the spiritual care that is often provided by members of staff. We have all seen and heard in the news of the high-profile cases of members of staff, often nurses or others closely associated with patients, who have offered to pray for the patients in their care but who have ended up being suspended from work as a result. Can you assure us, Minister, that no such situations will arise as a result of the implementation of these standards, where people can be suspended from their caring duties in the future? That is an important message that we need to send out to the NHS across Wales.

Edwina Hart: On your final point, that issue has related to the role of nurses, has it not? The importance of the role of nursing staff in assessing a patient's spiritual needs and requirements has long been understood,

gwybod bod gan lawer o eglwysi luoedd o ymwelwyr ag ysbytai sy'n mynd yno i godi calon cleifion a threulio ychydig o amser gyda hwy, yn enwedig gyda'r rhai nad oes ganddynt aelodau o'u teulu neu ffrindiau sydd ar gael i ymweld â hwy efallai.

Mae un cwestiwn y dymunaf ei ofyn i chi'n ymwneud â gofal nad yw'n digwydd mewn ysbytai. Beth am ofal y telir amdano o'r pwrs cyhoeddus ond a gyflawnir mewn cartrefi gofal a lleoliadau eraill ledled Cymru? Sut y byddwch yn sicrhau bod safon o ofal ysbrydol sy'n dderbyniol i bobl yn y sefyllfaoedd hynny? Yr wyf yn croesawu'r adolygiad yr ydych wedi dweud y byddwch yn ei gynnal ymhen 12 mis, ar ôl rhoi'r safonau hyn ar waith ym mis Medi. Sut y byddwch yn sicrhau bod manau eraill sy'n rhoi gofal yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad? Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech wneud sylw am y gofal ysbrydol a roddir i bobl ar ddiwedd eu bywyd mewn hosbisau. A fyddwch yn gallu ystyried hynny fel rhan o'ch adolygiad i sicrhau eu bod wedi'u cynnwys i gyd? Yr wyf yn derbyn mai hon yw'r set gyntaf o safonau y byddwn wedi'u datblygu yng Nghymru. Er mor dderbyniol ydynt, yr wyf yn siŵr y byddwch am ddal i'w datblygu yn y dyfodol, ac mae'r rheini'n ddau faes penodol y mae angen eu hystyried.

Un peth yr wyf yn ei groesawu yn eich datganiad, ac yn y ddogfen, yw'r cyfeiriad at y gofal ysbrydol a roddir yn aml gan aelodau o'r staff. Yr ydym i gyd wedi gweld a chlywed yn y newyddion am yr achosion amlwg o aelodau o'r staff, sy'n aml yn nyrsys neu'n bobl eraill sydd â chysylltiad agos â chleifion, sydd wedi cynnig gweddi dros gleifion sydd dan eu gofal ond sydd wedi'u hatal o'u gwaith wedyn o ganlyniad. A allwch ein sicrhau, Weinidog, na fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi o ganlyniad i weithredu'r safonau hyn, lle y gellir atal pobl o'u dyletswyddau gofalu yn y dyfodol? Mae honno'n neges bwysig y mae angen inni ei chyfleu i'r GIG ledled Cymru.

Edwina Hart: Ynghylch y pwynt olaf a wnaethoch, mae'r mater hwnnw wedi bod yn gysylltiedig â rôl nyrsys, onid yw? Mae pwysigrwydd rôl y staff nyrsio o ran asesu anghenion a gofynion ysbrydol y claf wedi'i

because nurses are the first in line given their caring responsibilities. However, a lot of work has been done by the Royal College of Nursing to recognise the particular role that nurses play in this area, by providing continuing professional development for nurses. We need to recognise that nurses are the only healthcare practitioners to have 24-hour contact with patients and their families. Therefore, they are in the unique and privileged position of being able to assess and respond to the spiritual needs on an ongoing basis. That is why the cases have been to do with nurses, although I do not think that there have been any examples within the Welsh NHS. We have to appreciate that nurses have a particular role to play, given their understanding of, and relationship with, patients, allowing them to talk about spiritual issues.

Like you, Darren, I am concerned not just about the hospital setting but also the wider settings in which the national health service is paying for continuing care. There are local arrangements when practitioners visit nursing homes and other places, and they also visit hospices to deal with end-of-life issues. If a hospice is located within a hospital setting, the chaplaincy service will cover those areas, but I will certainly give further consideration to the issues that you have raised with me. I am very pleased that we have gone as far as we have done in this area, but I do not believe that we have gone far enough yet, although we will have to take this quite slowly. I have been amazed to hear some of the comments made about why we are looking at this issue, but I consider it to be a fundamental issue for the NHS.

The Presiding Officer: Thank you very much, Minister, and I sense that you have had a calming effect on Members in the Chamber.

hen gydnabod, gan fod nyrsys yn y rheng flaen oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Fodd bynnag, mae llawer o waith wedi'i wneud gan y Coleg Nyrsio Brenhinol er mwyn cydnabod y rôl benodol y mae nyrsys yn ei chyflawni yn y maes hwn, drwy ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i nyrsys. Mae angen inni gydnabod mai nyrsys yw'r unig ymarferwyr gofal iechyd sydd mewn cysylltiad â chleifion a'u teuluoedd bob awr o'r dydd a'r nos. Felly, maent mewn lle unigryw a breintiedig i allu asesu ac ymateb i'r anghenion ysbrydol drwy'r amser. Dyna pam y mae'r achosion wedi ymwneud â nyrsys, er nad wyf yn credu bod enghreifftiau wedi bod yn y GIG yng Nghymru. Rhaid inni sylweddoli bod rôl benodol gan nyrsys, oherwydd eu dealltwriaeth o gleifion a'u perthynas â hwy, sy'n caniatáu iddynt siarad am faterion ysbrydol.

Fel chithau, Darren, yr wyf yn awyddus i roi sylw nid yn unig i ysbytai ond hefyd i'r sefyllfaoedd mwy cyffredinol lle y mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn talu am ofal parhaus. Ceir trefniadau lleol pan fydd ymarferwyr yn ymweld â chartrefi nyrsio a lleoedd eraill, a byddant hefyd yn ymweld â hosbisau i ddelio â materion sy'n ymwneud â diwedd bywyd. Os yw hosbis wedi'i leoli o fewn ysbyty, bydd y gwasanaeth caplaniaeth yn gofalu am y manau hynny, ond byddaf yn sicr o roi mwy o ystyriaeth i'r materion yr ydych wedi'u codi gyda mi. Yr wyf yn falch iawn ein bod wedi mynd cyn belled â hyn yn y maes hwn, ond nid wyf yn credu ein bod wedi mynd yn ddigon pell eto, er y bydd yn rhaid inni gamu'n eithaf araf ar hyn. Yr wyf wedi rhyfeddu o glywed rhai o'r sylwadau a wnaethpwyd ynghylch pam yr ydym yn ystyried y mater hwn, ond yr wyf yn ei ystyried yn fater hanfodol i'r GIG.

Y Llywydd: Diolch yn fawr ichi, Weinidog, ac yr wyf yn synhwyro eich bod wedi tawelu Aelodau yn y Siambr.

Datganiad am y Cynllun Bwrsariaeth Cenedlaethol Statement on the National Bursary Scheme

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): A commitment was made in 'For Our Future: The 21st Century Higher Education Strategy

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Gwnaethpwyd ymrwymiad yn 'Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg

and Plan for Wales' to launch a national bursary framework in spring 2010 based on the principles of transparency and consistency across Wales. It will complement the action already taken to remodel the statutory student support arrangements to target those in greatest need following the recommendations of phase 1 of the higher education review, led by Professor Merfyn Jones.

The Welsh national bursary will be incorporated within the higher education statutory student support system as an integral part of the Assembly learning grant and the special support grant. It will ensure a consistent, transparent and equitable approach and that equity of outcomes for learners is delivered on the basis of means-tested income. All students who are eligible for the Assembly learning grant or the special support grant will receive an increased level of award, wherever they study across the UK. That means that more Welsh students will benefit from the bursary support than under the existing arrangements, as currently the Welsh national bursary is limited to students on the very lowest household incomes.

The revised arrangements will be phased in for new entrants from 2011-12 onwards and will result in an increase of up to £600 per annum in grant for eligible students with residual home incomes of less than £34,000 per year. The new arrangements will be funded by gradually reducing the grant that goes to the Higher Education Funding Council for Wales. Institutions will, in turn, be freed up to spend a greater proportion of their tuition fee income in line with their missions.

As the Welsh national bursary will be become part of the Assembly learning grant and special support grant, administration costs and bureaucracy will be kept to a minimum, allowing more funding to reach the pockets of students. That is in line with my review of education funding and the need for it to be going to the front line.

4.30 p.m.

Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain' i lansio fframwaith bwrsariaeth cenedlaethol yng ngwanwyn 2010 wedi'i seilio ar egwyddorion tryloywder a chysondeb ledled Cymru. Bydd yn ategu'r camau a gymerwyd eisoes i ailwampio'r trefniadau statudol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i dargedu'r rhai sydd â'r angen mwyaf gan ddilyn argymhellion rhan gyntaf yr adolygiad o addysg uwch, a lywiwyd gan yr Athro Merfyn Jones.

Bydd bwrsariaeth genedlaethol Cymru yn cael ei chynnwys yn y system statudol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr mewn addysg uwch fel rhan annatod o grant dysgu'r Cynulliad a'r grant cymorth arbennig. Bydd yn sicrhau bod dull cyson, tryloyw a theg o weithredu a bod canlyniadau cyfartal i ddysgwyr ar sail prawf modd ar incwm. Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n gymwys i dderbyn grant dysgu'r Cynulliad neu'r grant cymorth arbennig yn cael dyfarniad uwch, ymhle bynnag y maent yn cael eu haddysg ledled y DU. Mae hynny'n golygu y bydd nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n cael budd o gymorth y fwsariaeth yn fwy na'r nifer o dan y trefniadau presennol, gan fod bwrsariaeth genedlaethol Cymru wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd i fyfyrwyr o gartrefi sydd â'r incwm isaf un.

Bydd y trefniadau diwygiedig yn cael eu cyflwyno'n raddol ar gyfer myfyrwyr newydd o 2011-12 ymlaen a byddant yn arwain at gynnydd o hyd at £600 y flwyddyn yn y grant i fyfyrwyr cymwys o gartrefi sydd ag incwm gweddilliol o lai na £34,000 y flwyddyn. Caiff y trefniadau newydd eu hariannu drwy ostwng yn raddol y grant a roddir i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd sefydliadau, yn eu tro, yn cael eu rhyddhau i wario cyfran fwy o'u hincwm o ffioedd dysgu'n unol â'u cenadaethau.

Gan y bydd bwrsariaeth genedlaethol Cymru'n rhan o grant dysgu'r Cynulliad a'r grant cymorth arbennig, bydd costau gweinyddu a biwrocratiaeth ar y lefel isaf posibl, fel y gall mwy o arian gyrraedd pocedi myfyrwyr. Mae hynny'n unol â'm hadolygiad o gyllid addysg a'r angen iddo fynd at y rheng flaen.

This approach will also allow the higher education sector in Wales more autonomy to determine how to use tuition fee income. Institutions will no longer be expected to pay a minimum national bursary and will be free to make arrangements for their own institutional awards. Officials will be working with the Higher Education Funding Council for Wales and the higher education sector to adapt higher education institutions' approach to bursaries and scholarships.

My intention is for the revised arrangements to come into effect for new entrants from the 2011-12 academic year, to ensure that there is no disruption of payments to current students. I expect institutions to ensure that the existing Welsh bursary scheme awards are made to continuing students in line with their fee plan agreements. It is important that students understand their entitlements and that institutions honour their commitments.

I believe that the result of all this will achieve the key objective of ensuring that equity of outcomes for learners is delivered on the basis of income. It will ensure that financial support is more effectively targeted to those in greatest need and will put in place a national scheme that is clear and transparent. It will reduce the level of bureaucracy and administration costs by bringing the Welsh national bursary into the Assembly learning grant and special support grant, and ensure more effective use of funding. It will deliver one of the key commitments in 'For Our Future—The 21st Century Higher Education Strategy and Plan for Wales'. There will be an opportunity for consultation on these proposals as part of the revised Assembly learning grant regulations.

Paul Davies: I thank the Minister for his statement. It is essential that the higher education sector prospers, especially in difficult economic times. Higher education has played an important role in the economic development and cultural life of this country, and it will continue to do so. Unfortunately,

Bydd y dull hwn o weithredu hefyd yn caniatáu mwy o ymreolaeth i'r sector addysg uwch yng Nghymru i benderfynu sut i ddefnyddio incwm o ffioedd dysgu. Ni fydd disgwyl bellach i sefydliadau dalu bwrsariaeth genedlaethol sylfaenol a byddant yn rhydd i wneud trefniadau ar gyfer eu dyfarniadau sefydliadol eu hunain. Bydd swyddogion yn cydweithio â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sector addysg uwch i addasu'r dull o drafod bwrsariaethau ac ysgoloriaethau gan sefydliadau addysg uwch.

Fy mwriad yw y bydd y trefniadau diwygiedig yn dod i rym ar gyfer myfyrwyr newydd o'r flwyddyn academaidd 2011-12, i sicrhau na fydd amharu ar daliadau i'r myfyrwyr presennol. Yr wyf yn disgwyl i sefydliadau sicrhau y bydd y dyfarniadau presennol o gynllun bwrsariaeth Cymru'n cael eu talu i fyfyrwyr sy'n parhau â'u haddysg yn unol â'u cytundebau cynllun ffioedd. Mae'n bwysig i fyfyrwyr ddeall yr hyn y mae ganddynt hawl i'w gael ac i sefydliadau gyflawni eu hymrwymiaidau.

Credaf y bydd hyn oll yn arwain at gyflawni'r prif amcan o sicrhau canlyniadau cyfartal i ddysgwyr ar sail incwm. Bydd yn sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol ar y rhai sydd â'r angen mwyaf a bydd yn rhoi cynllun cenedlaethol ar waith sy'n glir ac yn dryloyw. Bydd yn gostwng lefel y fiwrocratiaeth a'r costau gweinyddu drwy gynnwys bwrsariaeth genedlaethol Cymru o fewn grant dysgu'r Cynulliad a'r grant cymorth arbennig, ac yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol. Bydd yn cyflawni un o'r prif ymrwymiaidau yn 'Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain'. Bydd cyfle i ymgynghori ar y cynigion hyn fel rhan o'r rheoliadau diwygiedig ar gyfer grant dysgu'r Cynulliad.

Paul Davies: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Mae'n hanfodol bod y sector addysg uwch yn ffynnu, yn enwedig mewn cyfnod economaidd anodd. Mae addysg uwch wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad economaidd a bywyd diwylliannol y wlad hon, a bydd yn dal i wneud hynny. Gwaetha'r

as we all know, the higher education funding gap between England and Wales has widened year on year. We must all recognise the importance of higher education in Wales in providing what we would all like to see, namely a first-class higher education sector that everyone can take advantage of. It is essential that we provide first-class universities that are able to compete not only at a UK level but in Europe and the rest of the world.

Ultimately, higher education produces graduates who can bring prosperity back to the economy and ensure a culture of successful enterprise. It is therefore essential that financial support for students is meted out fairly, and that there is a focus on what the individual student needs. Only in that way will the Assembly Government meet the needs of learners effectively. In light of today's statement, can the Minister ensure that the announcement will indeed encourage more people to follow higher education courses in Wales?

As I am sure that the Minister is aware, participation rates in Wales are, unfortunately, lower than in other parts of the United Kingdom. We must ensure that all students have the opportunity to take advantage of higher education. We must also bear in mind that 41 per cent of the Welsh student population, according to the Merfyn Jones report, are part-time rather than full-time students. If we are to include all students, we must address the barriers that many part-time students face when trying to access higher education. Indeed, it would appear that there has been a reduction in the number of part-time students in recent years as well. Is the Minister confident that the new bursary scheme and framework will ensure that the barriers for part-time students are broken down? It is important that this scheme meets the needs of a range of learners, whether they are studying full-time or part-time. The Jones review confirmed that there is significant room for improvement in the funding structure that is currently in place to support our universities and students. It is important that a fair and equitable system of support be put in place, and I hope that the national bursary scheme will address this. It is vital that the new system is efficient and

modd, fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae'r bwlch cyllidol mewn addysg uwch rhwng Cymru a Lloegr wedi ehangu o flwyddyn i flwyddyn. Rhaid inni oll gydnabod mor bwysig yw addysg uwch yng Nghymru o ran darparu'r hyn y byddem oll yn hoffi ei weld, sef sector addysg uwch o'r radd flaenaf y gall pawb elwa ohono. Mae'n hanfodol inni ddarparu prifysgolion o'r radd flaenaf sy'n gallu cystadlu nid yn unig ar lefel y DU ond yn Ewrop a gweddill y byd.

Yn y pen draw, mae addysg uwch yn creu graddedigion sy'n gallu adfer ffyniant yn yr economi a sicrhau diwylliant menter llwyddiannus. Mae'n hollbwysig, felly, i gymorth ariannol i fyfyrwyr gael ei rannu'n deg, a bod pwyslais ar anghenion y myfyriwr unigol. Dim ond felly y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn diwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol. Yng ngoleuni'r datganiad heddiw, a all y Gweinidog sicrhau y bydd y cyhoeddiad yn cymell mwy o bobl i ddilyn cyrsiau addysg uwch yng Nghymru, mewn gwirionedd?

Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, yr wyf yn siŵr, mae cyfraddau cyfranogi yng Nghymru'n is, gwaetha'r modd, nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rhaid inni sicrhau bod pob myfyriwr yn cael cyfle i elwa o addysg uwch. Rhaid inni gofio hefyd fod 41 y cant o fyfyrwyr Cymru, yn ôl adroddiad Merfyn Jones, yn fyfyrwyr rhan-amser yn hytrach na rhai llawnamser. Os ydym i gynnwys yr holl fyfyrwyr, rhaid inni roi sylw i'r rhwystrau y mae llawer o fyfyrwyr rhan-amser yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i addysg uwch. Yn wir, mae'n ymddangos bod nifer y myfyriwr rhan-amser wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf hefyd. A yw'r Gweinidog yn ffyddiog y bydd cynllun a fframwaith newydd y fwsariaeth yn fodd i sicrhau y bydd y rhwystrau i fyfyrwyr rhan-amser yn cael eu chwalu? Mae'n bwysig i'r cynllun hwn ddiwallu anghenion amrywiaeth o ddysgwyr, pa un a ydynt yn fyfyrwyr llawnamser neu'n rhai rhan-amser. Cadarnhaodd adolygiad Jones fod llawer o le i wella yn y strwythur ariannu sydd ar waith ar hyn o bryd i gynorthwyo ein prifysgolion a'n myfyriwr. Mae'n bwysig sefydlu system gymorth sy'n deg ac yn gyfiawn, ac yr wyf yn gobeithio y bydd y cynllun bwrsariaeth

transparent. Any national bursary scheme is central to developments in higher education, so that young people from all backgrounds can go to universities.

I welcome a scheme that provides support for students, and it is imperative that they should not be deterred from pursuing their studies because of the cost of living and studying away from home, for example. We all recognise that a fair and equitable system of support should be put in place. Although I appreciate that the Assembly Government is investing £31 million in universities, it appears that a gap of around £70 million will remain between the funding of institutions in England and those in Wales. The establishment of the national bursary scheme will, it is hoped, widen access to higher education, but it is important that sufficient funding is attached to it. I appreciate that financial settlements will be tight in the near future, but will the Minister confirm what discussions he has had with his ministerial colleagues, and especially with the Minister for Business and Budget to ensure that funding this scheme is an absolute priority?

Employability is one of the major key outcomes of higher education and, as a result, the balance between student finance and higher education needs to be addressed so that the delivery of this bursary is effective on both a regional and national level with the appropriate partnerships. Given that that is the case, could you confirm that further partnerships will be forged in addition to the ones that are already in place between stakeholders in order to deliver this new scheme?

In your statement today, you made it clear that this national bursary framework is being launched on the basis of transparency and consistency across Wales. Given that that is the case, will you detail what consultations you and the Assembly Government carried out to ensure that this scheme is the most appropriate for Welsh students?

Clearly this system will not benefit non-

enedlaethol yn bodloni'r angen hwn. Mae'n hollbwysig i'r system newydd fod yn effeithlon ac yn dryloyw. Mae unrhyw gynllun bwrsariaeth cenedlaethol yn hanfodol i ddatblygiadau mewn addysg uwch, er mwyn i bobl ifanc o bob cefndir allu mynd i brifysgolion.

Carl Sargeant: Janet, it appears as though you have been drinking the same tea as my colleague, Mark Isherwood, today. The cup is always half empty, is it not? This Communities First programme of partnerships delivering in Wales makes a real difference to our communities. In the most deprived wards, we have had to intervene by putting a Communities First programme in place to help to achieve change. I am sorry that some of the detail that you have asked for today was not in the statement, but I have pledged to release the full report and audit findings into the public domain. Let me be clear: I have no interest in hiding anything or ensuring that no-one is held accountable. I want a programme that is fit for the future, that will take communities out of deprivation and poverty, and that will work towards a better life for us all.

You raised some issues about the audit process. The audit teams have gone in and the not-so-serious failings—and I cannot give you an answer on a scale of one to 10, as that would be totally inappropriate—are similar to some of those that I raised in the debate. The relationships between the grant recipient body and the membership of the board were sometimes very cosy and comfortable. It is not a bad thing to have a good relationship, but it is necessary to have scrutiny and challenge across the board. That is what I am putting in place, to ensure that there is a line between them both and to ensure that it is not difficult to understand which is the GRB and

egluro trefniadau ar gyfer trafod cwynion am Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gwblhau cyn hir. Cododd y broblem hon i gyd oherwydd diffyg strwythur i ddelio â chwynion am Cymunedau yn Gyntaf, a dywedir wrthym o hyd y bydd y trefniadau hyn 'yn cael eu cwblhau cyn hir'. Nid oes manylion nac amserlen. Weinidog, mae'r amser wedi dod: mae angen inni gael manylion am hyn. Nid yw geiriau teg yn ddigon bellach. Mae llawer o waith da wedi'i wneud, ac mae hynny i'w ganmol, ond mae angen inni gael y ffeithiau a'r ffigurau, ac mae angen inni wybod beth yn union sy'n digwydd yn y rhaglen bwysig hon o eiddo'r Llywodraeth.

Carl Sargeant: Janet, mae'n ymddangos eich bod wedi bod yn yfed yr un te â'm cyd-Aelod, Mark Isherwood, heddiw. Mae'r gwpan bob amser yn hanner gwag, onid yw? Mae rhaglen partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n gweithredu yng Nghymru yn gwneud gwir wahaniaeth yn ein cymunedau. Yn y rhan fwyaf o wardiau difreintiedig, bu'n rhaid inni ymyrryd drwy roi rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar waith i helpu i sicrhau newid. Mae'n ddrwg gennyf nad yw rhai o'r manylion yr ydych wedi gofyn amdanynt heddiw wedi'u cynnwys yn y datganiad, ond yr wyf wedi addo cyhoeddi'r adroddiad llawn a chanfyddiadau'r archwiliadau. Gadewch imi fod yn glir: nid oes gennyf ddiddordeb mewn cuddio dim na sicrhau na ddelir neb yn atebol. Yr wyf am gael rhaglen sy'n addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn codi cymunedau allan o dlodi ac amddifadedd, ac a fydd yn ceisio sicrhau bywyd gwell i bob un ohonom.

Codasoch rai materion ynghylch y broses archwilio. Mae'r timau archwilio wedi gwneud eu gwaith ac mae'r diffygion sydd heb fod yn orddifrifol—ac ni allaf roi ateb i chi ar raddfa rhwng un a 10, gan y byddai hynny'n hollol amhriodol—yn debyg i rai o'r rhai a grybwyllais yn y ddadl. Yr oedd y berthynas rhwng y corff sy'n cael y grantiau ac aelodau'r bwrdd yn gynnes a braf iawn mewn rhai achosion. Nid peth drwg yw bod â pherthynas dda, ond rhaid cael craffu a herio'n gyffredinol. Dyna yr wyf yn ei roi ar waith, er mwyn sicrhau bod llinell wedi'i thynnu rhwng y ddau ac nad yw'n anodd gweld pa un yw'r corff sy'n cael grantiau a

which is the partnership. I have ensured that my team goes in to give clear guidance on that.

We are also providing support for the Communities First implementation team, which is a national organisation, through the Wales Council for Voluntary Action. Advice and support on contracts, training, and so on will be accessible to all partnerships across Wales.

Therefore, these are the steps that we have taken to alleviate some of what I would call 'issues that raise concern' rather than 'failings'; they are areas within the partnership where there are potential misgivings. It has happened in only one of those that we have audited until now. As well as the report from the Wales Audit Office, I will also put the details of the actions that I take in the public domain, and I will write to all Members with details of these actions following the audit report, so that it is clear to you and to colleagues across the Chamber.

We will have a debate tomorrow on the auditor general's comments and the auditors' report, and I do not want to confuse those with my statement today.

Eleanor Burnham: Reading between the lines, this makes for a salutary lesson. Whether we like it or not, the auditor general has grave misgivings about Plas Madoc. We are talking about £220 million of Assembly Government spending since 2001. It is not small beer; this is big money. We are talking about £0.75 million to Plas Madoc per year, so these are serious issues. It is sad, because, as the Minister says, he wants the money to go to the people who desperately need it.

The auditor general says that a culture of generosity has been created for staff within Plas Madoc Communities First. In her view, it has been to the detriment of those individuals in the local community who were meant to benefit from the public funds allocated to the Communities First programme. I am sorry that this sad state of affairs has fallen on your watch, Minister,

pha un yw'r bartneriaeth. Yr wyf wedi sicrhau bod fy nhîm yn mynd atynt i roi arweiniad clir ar hynny.

Yr ydym hefyd yn darparu cymorth i dîm gweithredu Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gorff cenedlaethol, drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Bydd cyngor a chymorth ar gael ynghylch contractau, hyfforddiant, ac yn y blaen, i'r holl bartneriaethau ledled Cymru.

Felly, dyma'r camau yr ydym wedi'u cymryd i liniaru rhai o'r 'problemau sy'n achosi pryder', fel y byddwn yn eu galw, yn hytrach na 'diffygion'; maent yn feysydd o fewn y bartneriaeth lle y mae amheuon posibl. Dim ond yn un o'r rhai yr ydym wedi'u harchwilio hyd yn hyn y mae wedi digwydd. Yn ogystal â'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, byddaf hefyd yn cyhoeddi manylion y camau yr wyf wedi'u cymryd, ac ysgrifennaf at yr holl Aelodau i roi manylion y camau gweithredu hyn yn dilyn yr adroddiad archwilio, fel eu bod yn glir i chi ac i gyd-Aelodau ym mhob rhan o'r Siambr.

Cawn ddadl yfory am sylwadau'r archwilydd cyffredinol ac adroddiad yr archwilydd, ac nid wyf am gymysgu'r rheini â'm datganiad heddiw.

Eleanor Burnham: O ddarllen rhwng y llinellau, mae hyn yn wers werthfawr. Pa un a ydym yn hoffi hynny ai peidio, mae gan yr archwilydd cyffredinol amheuon ynghylch Plas Madog. Yr ydym yn sôn am £220 miliwn o wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ers 2001. Nid yw'n swm dibwys; mae hyn yn arian mawr. Yr ydym yn sôn am £0.75 miliwn y flwyddyn ar gyfer Plas Madog, felly mae'r rhain yn faterion pwysig. Mae'n drist, oherwydd, fel y dywed y Gweinidog, mae am i'r arian fynd at y bobl sydd â thaer angen amdano.

Dywed yr archwilydd cyffredinol fod diwylliant o haelioni wedi'i greu ar gyfer staff yn Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog. Yn ei barn hi, mae hynny wedi bod yn andwyol i'r unigolion hynny yn y gymuned leol yr oedd yn fwriad iddynt gael budd o'r arian cyhoeddus a ddyrannwyd i raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n ddrwg gennyf fod y sefyllfa anodd hon wedi codi yn eich

and it is essential that we clear the air and come clean about what has happened so that we can move forward. Forgive me for quoting, but the auditor general says—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you come to your questions, please?

Eleanor Burnham: My question is this. How do you answer the statement by the auditor general that the people in Plas Madoc Communities First did not receive basic financial instruction about the affairs of the partnership, and that there was a lack of financial expertise or skills among board members, combined with little appreciation of good governance? In her view, that undoubtedly contributed to the failure of the control framework. Perhaps I should not say any more, other than ask how you will ensure that we get back the confidence of people in this area, because people in the area tried to raise this—and there was a whistleblower involved, although I will not mention names. This has been going on since 2003—

The Deputy Presiding Officer: Order. Eleanor Burnham, I think that you are straying a little. Can you just stick to the point?

Eleanor Burnham: I am trying to stick to the point.

The Deputy Presiding Officer: Can you just try a bit harder, then?

Eleanor Burnham: I am trying to stick to the Auditor General for Wales's report. I have not mentioned anything else. That is all that I have mentioned. I ask that we get this issue clear, because, quite frankly, it is a disgrace, and, unfortunately, it has fallen on your watch, Minister.

The Deputy Presiding Officer: Minister, do you want to answer that?

Carl Sargeant: Yes, I would be delighted. The joint audit report outlined serious failings

cyfnod chi yn y swydd, Weinidog, ac mae'n hollbwysig inni glirio'r awyr a bod yn onest am yr hyn sydd wedi digwydd er mwyn inni allu symud ymlaen. Maddeuwch i mi am ddyfynnu, ond dywed yr archwilydd cyffredinol—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ddod at eich cwestiynau, os gwelwch yn dda?

Eleanor Burnham: Y cwestiwn sydd gennyf yw hwn. Sut yr ydych yn ymateb i'r datganiad gan yr archwilydd cyffredinol nad oedd y bobl yn Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog wedi cael cyfarwyddyd ariannol sylfaenol ynghylch materion y bartneriaeth, fod diffyg arbenigedd neu sgiliau ariannol ymysg aelodau'r bwrdd, ac nad oedd fawr o ddirnadaeth o lywodraethu da? Yn ei barn hi, mae'n sicr bod hynny wedi cyfrannu at fethiant y fframwaith rheoli. Efallai na ddylwn ddweud mwy, heblaw gofyn sut y byddwch yn sicrhau y byddwn yn adennill ymddiriedaeth pobl yn yr ardal hon, gan fod pobl yn yr ardal wedi ceisio codi'r mater hwn—ac yr oedd rhywun wedi chwythu'r chwiban am hyn, er na wnaef enwi neb. Mae hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers 2003—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Eleanor Burnham, credaf eich bod yn crwydro braidd. A allwch gadw at y pwynt?

Eleanor Burnham: Yr wyf yn ymdrechu i gadw at y pwynt.

Y Dirprwy Lywydd: A allwch ymdrechu ychydig yn fwy dyfal, felly?

Eleanor Burnham: Yr wyf yn ymdrechu i gadw at adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid wyf wedi sôn am ddim byd arall. Dyna'r unig beth yr wyf wedi'i grybwyll. Gofynnaf am inni gael eglurder ar y mater hwn, oherwydd, a bod yn gwbl onest, mae'n destun cywilydd ac, yn anffodus, mae wedi digwydd yn ystod eich cyfnod yn y swydd, Weinidog.

Y Dirprwy Lywydd: Weinidog, a ydych yn dymuno ateb hynny?

Carl Sargeant: Ydwyf, byddwn wrth fy modd yn gwneud. Amlinellodd yr adroddiad

in the financial control and governance issues in Plas Madoc Communities First. The specific audit concerns relate to the financial mismanagement of a small proportion of the funding routed through to Plas Madoc Communities First. I have said on the record, and I continue to say it today, that I deplore the deliberate actions, omissions and oversights in stewardship that have led to public funds being diverted from the overall intended purposes of the programme.

However, there is no suggestion that the majority of the funding awarded to Plas Madoc has been used for any other purposes than those intended. A total of £47 million pounds was invested in Communities First during 2009-10 and around £480,000 of that went to Plas Madoc Communities First. Only a small amount of that money has been diverted to purposes other than those intended.

This matter has now been referred to North Wales Police, and the Charity Commission has also been alerted, so I will not be making any further comments on Plas Madoc today.

Jonathan Morgan: Thank you for the statement, Minister. Although the present position is not one of your making, as a Minister, you have a significant opportunity to get this right. It is important for the Government to take the concerns seriously, and to pursue with some vigour measures that can be introduced to ensure that public money is spent in a good way in the future, to support communities that want to bring forward projects that will benefit their areas. I welcome the fact that you have been investigating some of the concerns, and, if these investigations are published together with the Wales Audit Office report, the Public Accounts Committee will examine the findings.

5.40 p.m.

I have a particular question that relates to the money that you have announced today from the outcomes fund. The outcomes fund was

archwilio ar y cyd ddiffygion difrifol mewn materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol yn Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog. Mae'r pryderon penodol a gododd yn yr archwiliad yn ymwneud â chamreoli ariannol ar gyfran fach o'r arian a sianelwyd i Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog. Yr wyf wedi dweud ar goedd, ac yr wyf yn dal i ddweud hynny heddiw, fy mod yn gresynu at y gweithredoedd bwriadol, yr anweithredoedd a'r amryfuseddau o ran stiwardiaeth sydd wedi arwain at ddargyfeirio arian cyhoeddus oddi wrth ddibenion cyffredinol y rhaglen.

Fodd bynnag, nid oes awgrym bod y rhan fwyaf o'r cyllid a ddyfarnwyd i Plas Madoc wedi'i defnyddio at ddibenion heblaw'r rhai a fwriadwyd. Buddsoddwyd cyfanswm o £47 miliwn yn Cymunedau yn Gyntaf yn ystod 2009-10 ac aeth tua £480,000 o hynny at Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog. Dim ond swm bach o'r arian hwnnw sydd wedi'i ddargyfeirio at ddibenion heblaw'r rhai a fwriadwyd.

Mae'r mater hwn wedi'i gyfeirio bellach i sylw Heddlu Gogledd Cymru, ac mae'r Comisiwn Elusennau wedi cael gwybod hefyd, felly ni fyddaf yn gwneud sylwadau pellach am Plas Madog heddiw.

Jonathan Morgan: Diolch ichi am y datganiad, Weinidog. Er nad chi sy'n gyfrifol am y sefyllfa bresennol, fel Gweinidog, mae gennych gryn gyfle i unioni hyn. Mae'n bwysig i'r Llywodraeth gymryd y pryderon o ddifrif, a chwilio'n ddiwyd am fesurau y gellir eu cyflwyno i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei wario'n ddoeth yn y dyfodol, i gefnogi cymunedau sydd am gyflwyno prosiectau a fydd o les i'w hardaloedd. Yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod wedi bod yn ymchwilio i rai o'r pryderon, ac, os cyhoeddir yr ymchwiliadau hyn ynghyd ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn edrych ar y canfyddiadau.

Mae gennyf un cwestiwn penodol sy'n ymwneud â'r arian yr ydych wedi'i gyhoeddi heddiw o'r gronfa canlyniadau. Edrychodd y

examined by the Public Accounts Committee in its consideration of the auditor general's report. We were slightly concerned at the way in which money could be used from that particular fund. One example would be the way in which a local authority could use the outcomes fund to employ additional staff to act as co-ordinators for Communities First projects. To us, that was very much a part of the capacity of local authorities, and might not be seen as essential expenditure in support of Communities First. Is the Government looking at how effectively the outcomes fund can be used? The projects that you have announced today seem to be somewhat innovative. How will the Government ensure that value for money is achieved by the use of the outcomes fund to support the Communities First programme?

Carl Sargeant: When I came into this position, one of the challenges that I faced early on was to act in response to some very unfortunate events in one corner of Wales. We, as a Government, are going some way towards addressing those issues on audit proposals and following that through in a programme. I have been criticised by many for taking a tough line by stopping the funding for partnerships across Wales until I am convinced that the governance procedures are in place in all partnerships. I will continue to do that until I have had reassurance from all the partnerships.

On value for money, I now scrutinise all the applications that come to my department, so all applications come through me. It would be reasonable to say that my officials are sometimes nervous when they come to me to present submissions, because of some of the difficult questions that I pose to them and my high expectations of service delivery. I hope that the announcements that I have made today will go some way towards easing your concerns about the innovative way in which we are now trying to use the outcomes fund with partners. The risk, which was perceived as being all about Communities First, is now shared with other significant organisations that also measure the risk. It is about taking forward new and different programmes in a different way, which I am committed to

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y gronfa canlyniadau wrth ystyried adroddiad yr archwilydd cyffredinol. Yr oeddem braidd yn bryderus ynghylch y modd y gellid defnyddio arian o'r gronfa honno. Un enghraifft yw'r modd y gallai awdurdod lleol ddefnyddio'r gronfa canlyniadau i gyflogi staff ychwanegol i weithredu fel cydgyssylltwyr ar gyfer prosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Yn ein barn ni, yr oedd hynny i raddau helaeth yn rhan o gapasiti awdurdodau lleol, a gellid ystyried nad oedd yn wariant hanfodol i gynnal Cymunedau yn Gyntaf. A yw'r Llywodraeth yn ystyried pa mor effeithiol y gellir defnyddio'r gronfa canlyniadau? Mae'r prosiectau yr ydych wedi'u cyhoeddi heddiw'n ymddangos yn arloesol braidd. Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y ceir gwerth am arian o ddefnyddio'r gronfa canlyniadau i gynnal y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf?

Carl Sargeant: Pan ddeuthum i'r swydd hon, un o'r heriau a wynebais yn gynnar oedd gweithredu mewn ymateb i rai digwyddiadau anffodus iawn mewn un cwr o Gymru. Yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn cymryd rhai camau i ymateb i'r materion hynny sy'n ymwneud â chynigion archwilio ac yn rhoi hynny ar waith drwy raglen. Mae llawer wedi fy meirniadu am sefyll yn gadarn drwy atal cyllid i bartneriaethau ledled Cymru nes imi gael fy sicrhau bod gweithdrefnau llywodraethu ar waith yn yr holl bartneriaethau. Daliaf i wneud hynny nes cael sicrwydd gan yr holl bartneriaethau.

Ynghylch gwerth am arian, byddaf bellach yn craffu ar yr holl geisiadau sy'n dod i'm hadran, felly mae'r holl geisiadau'n dod ataf fi. Byddai'n rhesymol dweud bod fy swyddogion yn nerfus weithiau pan ddeuant ataf i roi cyflwyniadau, oherwydd rhai o'r cwestiynau anodd y byddaf yn eu gofyn iddynt a'r disgwyliadau uchel sydd gennyf o ran darparu gwasanaethau. Yr wyf yn gobeithio y bydd y cyhoeddiadau yr wyf wedi'u gwneud heddiw'n cyfrannu at leddfu'ch pryderon ynghylch y ffordd arloesol yr ydym yn ceisio defnyddio'r gronfa canlyniadau'n awr gyda phartneriaid. Mae'r risg, y bernid ei bod yn gysylltiedig â Cymunedau yn Gyntaf yn unig, yn cael ei rhannu bellach â chyrrff sylweddol eraill sydd hefyd yn mesur y risg. Mae hyn yn golygu

doing.

rhoi rhaglenni newydd a gwahanol ar waith mewn modd gwahanol, ac yr wyf wedi ymrwymo i wneud hynny.

Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru The Woodlands for Wales Action Plan

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Nick Ramsay.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Cynigaf fod

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

yn cydnabod cyfraniad coetiroedd a choed o ran sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru, ac yn cefnogi'r camau a nodir yn 'Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru' a fydd yn cyfrannu at wireddu manteision strategaeth 'Coetiroedd i Gymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru. (NDM4481)

acknowledges the contribution that woodlands and trees make to providing social, economic and environmental benefits for the people of Wales, and supports the actions set out in 'Woodlands for Wales Action Plan', which will make progress towards delivering the beneficial outcomes of the Welsh Assembly Government's 'Woodlands for Wales' strategy. (NDM4481)

Y llynedd, derbyniodd y Cynulliad 'Coetiroedd i Gymru', ein strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed, a chefnogodd ei gweledigaeth a'i chyfeiriad, sef cynyddu'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru drwy reoli coetiroedd yn gynaliadwy. Eleni, yr ydym wedi dechrau troi'r weledigaeth honno yn realiti a heddiw gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi ein 'Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru', sef ein cam pum mlynedd cyntaf tuag at gyflawni'r weledigaeth 50 mlynedd a oedd yn rhan o'r strategaeth a drafodwyd gennym y llynedd.

Last year, the Assembly accepted 'Woodlands for Wales', our strategy for woodlands and trees, and it supported its vision and direction, namely to increase the social, economic and environmental benefits for the people of Wales of sustainable woodland management. This year, we have begun turning that vision into reality and today I am asking Members of the Assembly to support our 'Woodlands for Wales Action Plan', our first five-year step towards achieving the 50-year vision that was a part of the strategy that we discussed last year.

Mae coetiroedd a choed iach yn nodwedd hanfodol o amgylcheddau gwledig a threfol Cymru, gan ddarparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sy'n helpu cyflawni nodau ehangach Llywodraeth Cymru, ac nid nodau'r Adran Materion Gwledig yn unig. Mae'r strategaeth 'Coetiroedd i Gymru' yn nodi'r hyn y gallai'r cyfraniad hwnnw fod, ac mae ein cynllun gweithredu yn nodi sut y byddwn yn cyflawni hyn. Sut, felly, y bydd y camau gweithredu yng nghynllun gweithredu'r strategaeth yn newid ein coetiroedd? Mae angen mwy o goetiroedd

Healthy woodlands and trees are a vital feature of Wales's rural and urban environments, providing a wide range of goods and services that contribute towards delivering the wider aims of the Assembly Government, and not only those of the Department for Rural Affairs. The 'Woodlands for Wales' strategy sets out what that contribution could be, and our action plan sets out how we are going to make it happen. How, therefore, will the action points in the strategy's action plan change our woodlands? We need more woodland, with a

arnom, ynghyd ag amrywiaeth ehangach o rywogaethau coed, mwy o bren Cymru yn cael ei brosesu a'i ddefnyddio yng Nghymru, a mwy o bobl yn defnyddio ein coetiroedd er budd y gymuned ac er mwyn dysgu, hamddena a chreu swyddi.

Ym mis Mawrth, yn dilyn adroddiad y gweithgor defnydd tir a newid yn yr hinsawdd, cyhoeddais ein bod yn anelu at greu 100,000 ha ychwanegol o goetir yn yr 20 mlynedd nesaf, a fyddai'n cynyddu maint y coetir sydd gennym i 19 y cant o arwynebedd tir Cymru. Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop ar hyn o bryd, gyda dim ond 14 y cant o'r tir yn goetir neu'n goediog, o gymharu â chyfartaledd Ewrop, sef 37 y cant.

Drwy weithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac eraill, yr ydym yn chwilio am y manau gorau i greu'r coetiroedd newydd hyn, wedi'u hintegreiddio'n ofalus â defnyddiau tir eraill, lle byddant yn cynnig y budd mwyaf. Yr ydym hefyd yn ystyried sut gall creu coetiroedd ddod â'r budd mwyaf yn agosach at bobl, gan ddechrau gydag astudiaeth beilot yn ardal adfywio strategol Blaenau'r Cymoedd, yn gweithio gyda'r pum awdurdod lleol yn yr AAS a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ymysg eraill.

Gall coed sydd wedi'u lleoli'n ofalus leihau erydiad y pridd a helpu i reoli dŵr ffo o'n tir fferm ac yn ein trefi a dinasoedd. Mae camau gweithredu yn y cynllun yn cynnwys sicrhau bod lleoliad y coetiroedd newydd yn ystyried hyn, a byddwn yn cyflawni rhagor o ymchwil i ddatblygu'r wybodaeth sydd gennym a rhoi cyfle i berchnogion coetiroedd weld hyn yn gweithio ar lawr gwlad.

Dymunwn weld mwy o goetiroedd, a hefyd dymunwn sicrhau y caiff yr holl goetiroedd hyn eu rheoli'n gynaliadwy. Mae ystâd coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cynnwys bron i hanner yr holl goetiroedd yng Nghymru ac sy'n cwmpasu bron i 6 y cant o arwynebedd tir Cymru, eisoes yn cael ei rheoli'n gynaliadwy, fel yr ardystiwyd yn annibynnol.

wider variety of tree species, more Welsh timber processed and used in Wales and more people making use of our woodlands, for community benefit, learning purposes, recreation and to create jobs.

In March, following the report of my land use and climate change working group, I announced that we were aiming to create an additional 100,000 ha of woodland over the next 20 years, increasing the amount of woodland cover that we have to 19 per cent of Wales's land area. Wales is one of the least wooded countries in Europe currently, with just 14 per cent of our land wooded or woodland, compared with the EU average of 37 per cent.

Working with Forestry Commission Wales, the Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales and others, we are currently looking at where the best places to create these new woodlands will be, closely integrated with other land uses, where they can provide the greatest amount of benefit. We are also looking at how woodland creation can bring greatest benefit closer to people, beginning with a pilot study in the Heads of the Valleys strategic regeneration area, working with, among others, the five local authorities in the SRA and the Welsh Local Government Association.

Carefully sited trees can also reduce soil erosion and help manage water runoff from our farmland and in our towns and cities. Actions in the plan include ensuring that the location of new woodlands takes this into account, and we will undertake further research to build on our existing knowledge and provide an opportunity for woodlands owners to see this working on the ground.

We want more woodlands and we also want to ensure that all of these woodlands are managed sustainably. The Assembly Government woodland estate, which makes up almost half of all the woodlands in Wales and covers 6 per cent of the land area, is already sustainably managed, as independently certified.

Elfen allweddol o reoli'n fwy cynaliadwy yw cynaeafu cynhyrchion pren. Mae nifer o gamau gweithredu drwy gydol y cynllun, sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid a fydd yn sicrhau y bydd ein coetiroedd yn gweithio'n galetach er budd cymdeithas. Fodd bynnag, i sicrhau bod ein holl goetiroedd yn parhau i gael eu rheoli'n gynaliadwy, bydd angen inni sicrhau y gallant ymdopi â hinsawdd sy'n newid. Mae newid yn yr hinsawdd a lleihau ein hól-troed carbon yn flaenoriaeth i'r cyfan ohonom erbyn hyn. Bydd creu coetiroedd mwy amrywiol, drwy blannu ystod ehangach o rywogaethau coed i greu coetiroedd cymysg, yn helpu i'w cryfhau ac yn eu galluogi i ymdopi ag unrhyw newid mewn hinsawdd. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru eisoes yn gweithredu ar hyn ac yn paratoi cyngor ar gyfer perchnogion coetiroedd o ran sut i addasu eu coetiroedd drwy gynyddu nifer y rhywogaethau coed a chynghori ar farchnadoedd ar gyfer y pren a gynhyrchant.

Mae ffermwyr, wrth gwrs, yn berchnogion coetiroedd, a gall rheoli'r coetiroedd sydd, gan mwyaf, yn frodorol ar eu ffermydd, ar gyfer tanwydd er enghraifft, a chreu coetiroedd newydd sy'n gallu bod yn lloches ar gyfer anifeiliaid a helpu i reoli dŵr a phridd, ddarparu buddion gwirioneddol o ran rheoli tir, ynghyd â darparu incwm ychwanegol i ffermwyr. Caiff llawer o'r buddion hyn eu cefnogi gan gynllun Glastir, a weithredir erbyn 2012, ac mae swyddogion Glastir yn fy adran yn gweithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i sicrhau y caiff elfen coetir ei chynnwys yn effeithiol yng nghynllun Glastir.

Mae coetiroedd a'r cynllun gweithredu hwn yn cyfrannu at feysydd gwaith Gweinidogion eraill y Llywodraeth. Mae portffolio yr amgylchedd, cynaliadwyedd a thai yn faes lle mae gan goetiroedd a choed gyfraniad enfawr i'w wneud. Mae coetiroedd yn gynefinoedd sy'n gartref i rywfaint o'n bywyd gwylt mwyaf pwysig a bregus; er enghraifft, mae coetiroedd derw yn un o gynefinoedd mwyaf bioamrywiol Cymru. Wedi'u harwain gan bartneriaeth bioamrywiaeth Cymru, mae ein camau gweithredu yn nodi sut y byddwn yn parhau i ddiogelu a gwella cyflwr y safleoedd arbennig hyn. Mae rhai ardaloedd—corysdd mawn dwfn, er enghraifft—lle mae coed yn y

A key component of delivering more sustainable management is the harvesting of wood products. There are many actions identified throughout the plan that involve a wide range of partner organisations that will ensure that our woodlands work harder for society. However, to ensure that all our woodlands continue to be managed sustainably, we will need to ensure that they are able to cope with a changing climate. Climate change and reducing our carbon footprint is currently at the forefront of our minds. Making our woodlands more diverse, by planting a wider range of tree species to create mixed woodlands, will help make them more resilient and able to cope with a changing climate. Forestry Commission Wales is already taking forward actions in our plan to prepare advice for woodland owners on how to adapt their woodlands by increasing the number of tree species and also advising on markets for the timber produced.

Woodland owners include farmers, of course, and managing the largely native woodlands already on their farms for wood fuel, for example, and creating new woodlands, which can provide shelter for stock and help to manage water and soil, can provide real land management benefits as well as providing additional income streams. Many of these benefits will be supported by our Glastir scheme, due to come on-stream in 2012, and Glastir officers in my department are working with Forestry Commission Wales to ensure that a woodland component is effectively included.

Woodlands and this action plan contribute to the work of other Government Ministers. The Environment, Sustainability and Housing portfolio is an area where woodlands and trees have a huge contribution to make. Woodlands provide habitats that play host to some of our most important and vulnerable wildlife; oak woodland, for example, is one of the most biodiverse habitats in Wales. Led by the Wales biodiversity partnership, our actions set out how we will continue to protect and improve the condition of these special sites. There are some areas—deep peat bogs, for example—where trees are currently in the wrong place, and their

man anghywir ar hyn o bryd a bydd symud y rhain yn helpu i adfer cynefinoedd gwerthfawr.

removal will help restore these valuable habitats.

Mae gennym darged uchelgeisiol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac mae gennym ddull o storio carbon yn ein coetiroedd a choed. Mae coed nid yn unig yn storio carbon drwy ffotosynthesis, ond mae hefyd yn bosibl arbed mwy o allyriadau carbon drwy ddefnyddio pren yn lle tanwydd ffosiledig neu drwy ddefnyddio pren i ddisodli deunyddiau sy'n defnyddio llawer o danwydd ffosiledig, megis plastig, metel a choncrit. Felly, yn ogystal â sicrhau y gall ein coed a choetiroedd addasu i hinsawdd sy'n newid, gallant hefyd helpu i leddfu rhai o'r effeithiau.

We have an ambitious target to reduce greenhouse gas emissions in Wales and we have a method of storing carbon in our woodlands and trees. Not only do trees store carbon through photosynthesis, but using their timber as a substitute for fossil fuels or to replace fossil-fuel-hungry materials like plastic, metals or concrete can reduce even more carbon emissions. Therefore, as well as ensuring that our trees and woodland can adapt to a changing climate, they can also help mitigate some of its effects.

Mae ystâd coetiroedd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi ein targedau ynni adnewyddadwy, drwy ddarparu safleoedd addas i harneisio ynni'r gwynt mewn chwech o'r saith ardal chwilio strategol ledled Cymru o dan nodyn cyngor technegol 8.

Our Assembly Government woodland estate also supports our renewable energy ambitions by providing suitable sites to harness wind energy, in six of the seven strategic search areas across Wales under technical advice note 8.

Mae nifer o gamau gweithredu'r cynllun yn cyfrannu at faes gwaith gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth leol. Anelwn at sicrhau y bydd mwy o bobl yn cael budd uniongyrchol o goetiroedd yng Nghymru. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn cynnwys darparu cyngor i gymunedau lleol a pherchnogion coetiroedd er mwyn annog mwy o bobl leol i chwarae rhan yn eu coetiroedd lleol. Gallai hyn amrywio o ddefnyddio'r coetir ar gyfer mynd am dro i reoli'r coetir yn uniongyrchol gan grwpiau cymunedol. Mae hyn yn cael ei archwilio drwy brosiect 'Pathfinder' Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd gweithio gyda sefydliadau megis Llais y Goedwig hefyd yn sicrhau y bydd gan grwpiau coetiroedd cymunedol lais ar y cyd, a gall helpu i lywio ein gweithrediadau.

A number of the actions in the plan contribute to the public services and local government agenda. We aim to ensure that more people benefit directly from woodlands in Wales. Actions in the plan include providing advice for both local communities and woodland owners to encourage more local people to become involved in their local woodlands. This involvement could be anything from using the woodland to go for a walk to the direct management of the woodland by community groups. This is being explored through Forestry Commission Wales's Pathfinder project. Working with organisations like Llais y Goedwig will also ensure that community woodland groups have a collective voice, and can help steer our actions.

5.50 p.m.

Fel y soniais yn gynharach, er fy mod yn Weinidog dros Faterion Gwledig, mae coetiroedd a choed yn fwy na mater gwledig yn unig. Mae camau gweithredu yn y cynllun yn pwysleisio sut y gellir defnyddio coetiroedd er budd ardaloedd trefol, i wella'r amgylchedd a chynnig cyfleoedd i bobl

As I mentioned earlier, although I am the Minister for Rural Affairs, woodlands and trees are not just a rural issue. Actions in the plan also highlight how woodland can be used to benefit urban areas, to both improve the local environment and offer opportunities for local people—for recreation, learning and

leol—ar gyfer hamdden, dysgu a datblygu sgiliau newydd ac annog pobl i chwarae rhyw fath o rôl yn eu coetir lleol. Mae'r pwyslais hwn ar goedwigaeth drefol yn faes gwaith cymharol newydd ond yn un lle credwn fod buddion sylweddol drwy ddefnyddio'r adnoddau sy'n bodoli eisoes yn fwy effeithiol. Mae'r rhai sydd ynghlwm yn cynnwys awdurdodau lleol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r partneriaethau adfywio strategol, ac eisoes mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ym Mlaenau'r Cymoedd.

Os trown at iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, mae anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru yn achosi pryder. Gall ymarfer corff, yn enwedig mewn amgylchedd naturiol, helpu i wella iechyd a lles pobl. Mae ein hystâd coedwig cenedlaethol yn adnodd naturiol enfawr gyda mynediad agored i'r rheini sy'n dymuno cerdded, beicio, marchogaeth ceffylau neu sydd am gael awyr iach a mwynhau'r golygfeydd.

Mae coetiroedd yn fannau gwych i ddysgu ynddynt ac amdanynt a gallant fod yn amgylchedd rhagorol ar gyfer dysgu. Mae'r gweithrediadau yn ein cynllun yn targedu dysgu gydol oes, gan ddechrau yn y cyfnod sylfaen ar gyfer plant bach iawn a drwy'r blynyddoedd ysgol, yn enwedig darparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr 14-19 oed. Y llynedd, ymgymerodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru ag ymweliadau addysgol i goetiroedd ar gyfer mwy na 18,000 o blant. Mae sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau cywir pan fyddant yn mynd i'r farchnad lafur yn hollbwysig ac mae ein gweithrediadau'n amlygu gwaith gyda'r sector coedwigoedd i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a llwybrau i waith.

O ran yr economi, yr ydym eisiau gweld mwy o bobl yn gweithio yn y diwydiant coedwigoedd, mwy o bren Cymru yn cael ei reoli a'i ddefnyddio yng Nghymru, a mwy o ymwelwyr yn defnyddio coetiroedd Cymru ar gyfer twristiaeth a hamdden. Mae partneriaeth busnes coedwig Cymru yn gweithio ar ystod o weithrediadau sy'n cael eu nodi yn y cynllun. Mae gweithrediadau'n cynnwys annog cynllunwyr a phenseiri i ddefnyddio mwy o bren ac ysgogi mwy o fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd, ac fel rhan o'n hymdrechion buddsoddi, yr ydym

developing new skills and in getting involved in their local woodland. This emphasis on urban forestry is a fairly new area of work, but one where I think there are significant benefits to be made by using existing resources more effectively. Those involved include local authorities, Forestry Commission Wales and the strategic regeneration partnerships, and this work is ongoing in the Heads of the Valleys.

Turning to health and social services, health inequalities across Wales are of great concern. Exercise, particularly in a natural environment, can help improve people's health and wellbeing. Our Assembly Government woodland estate is a huge natural resource with open access for those who want to walk, cycle, horse ride, or simply want to get outdoors and enjoy the views.

Woodlands are great places to learn in and learn about and can provide an excellent environment for learning. The actions in our plan target learning throughout life, beginning at the foundation phase for very young children and throughout the school years, particularly providing more opportunities for 14-19 year olds. Last year, Forestry Commission Wales provided educational visits to woodlands for over 18,000 children. Making sure that young people have the right skills when they enter the labour market is of the utmost importance and our actions highlight work with the forest sector to develop opportunities for work experience and pathways into employment.

In terms of our economy, we want to see more people working in the forestry industry, more Welsh wood being managed and used in Wales, and more visitors using Wales's woodlands for tourism and leisure. The Wales forest business partnership is working on a range of actions set out in the scheme. Actions include promoting the use of timber to planners and architects and stimulating more woodland-related enterprises, and as part of our investment efforts we are helping young people develop the skills that will be needed in the forest sector in the future.

yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen yn y sector coedwigoedd yn y dyfodol.

Bydd y gweithrediadau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un', sef creu coedwig genedlaethol i Gymru i weithredu fel sinc carbon, a phlannu coeden ar gyfer pob baban newydd sy'n cael ei eni neu blentyn sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Bydd coetiroedd yng Nghymru yn tyfu ac yn dod yn fwy amrywiol ac mae dros 100,000 o goed wedi cael eu plannu hyd yma ar gyfer babanod newydd a phlant a fabwysiadwyd yng Nghymru o dan y cynllun Plant.

Gobeithiaf, felly, am gefnogaeth y Cynulliad i'r cynllun gweithredu hwn, ac am gydnabyddiaeth wleidyddol o bwysigrwydd ein coetiroedd. Ni dderbyniaf y gwelliant yn enw'r Toriaid; nid wyf yn deall yn iawn beth mae'r Ceidwadwyr yn ei feddwl gyda phren sy'n wastraff. Mae marchnad erbyn hyn i'r pren yn gyfan, ac mae defnydd i'r pren i gyd sy'n cael ei gynhyrchu a'i dyfu yng Nghymru.

Nick Ramsay: I move amendment 1 in my name. Add as new point at end of motion:

calls on the Welsh Assembly Government to maximise the use of waste wood to reduce pressure on resources within the timber industry.

Allow me to explain, Minister. I will start by saying that I broadly accept many of the principles outlined in this action plan. Indeed, I welcome the stress that it places, and that you placed in your statement, on encouraging biodiversity. Let us be frank: without it, life would be near impossible on planet Earth. Woodlands attract animals, birds and mammals and they sustain us by soaking up harmful carbon dioxide emissions and by converting them into oxygen.

I also welcome the emphasis within the strategy on the production of high-quality timber, mainly for the construction industry, but which has the added benefit of locking in carbon—something so important at the

These actions will help us fulfil our 'One Wales' commitment, to create a Welsh national forest to act as a carbon sink, and to plant a tree for every new baby or adopted child in Wales. Woodlands in Wales will become more extensive and diverse and over 100,000 trees have been planted so far for new babies and adopted children in Wales under the Plant scheme.

I hope therefore for the support of the Assembly for this action plan, and political recognition of the importance of our woodlands in Wales. I do not accept the amendment in the name of the Tories; I do not quite understand what the Conservatives mean by waste wood. There is now a market for all wood, and a use for all wood produced and grown in Wales.

Nick Ramsay: Cynigaf welliant 1 yn fy enw i. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r defnydd a wneir o goed gwastraff er mwyn lleihau'r pwysau ar adnoddau yn y diwydiant coed.

Gadewch imi esbonio, Weinidog. Dechreuaf drwy ddweud fy mod, yn fras, yn derbyn nifer o'r egwyddorion a amlinellir yn y cynllun gweithredu hwn. Yn wir, yr wyf yn croesawu'r pwyslais y mae'n ei roi, ac a roddwyd yn eich datganiad, ar annog bioamrywiaeth. Gadewch inni fod yn onest: hebddo, byddai bywyd bron yn amhosibl ar y blaned hon. Mae coetiroedd yn denu anifeiliaid, adar a mamaliaid ac yn ein cynnal drwy amsugno allyriadau carbon deuocsid niweidiol a'u trosi'n ocsigen.

Yr wyf hefyd yn croesawu'r pwyslais yn y strategaeth ar gynhyrchu pren o ansawdd da, yn bennaf i'r diwydiant adeiladu, ond sydd hefyd yn rhoi'r budd ychwanegol o gloi carbon i mewn—a hynny'n beth mor bwysig

moment. However, we have significant problems with the strategy, which is why the amendment has been tabled. The Minister has outlined plans to plant 100,000 ha of woodland over the next 20 years. From the point of view of the Welsh timber industry, this target is simply not practical.

We have seen before with strategies how targets can sound all very well on the face of it, but if they are going to be missed, they have to be reappraised. This will require the planting of 5,000 ha per year for each of the next 20 years, by my reckoning, and that seems like an extraordinarily high target. It is unlikely that the incentives that the Assembly Government will be able to offer will be sufficient to achieve that level of planting. I understand that there will be no compensation for the decrease in the capital value of the land and European Union rules to restrict the amount of money that can be provided to cover the cost of planting. Much of the area marked out for tree planting is headlined 'improved land', but it will be difficult for it to maintain this status under planting. Much of this area is also common land, so getting agreement over planting will be difficult, as will be persuading farmers to take land permanently out of food production. The forestry timber sector also has concerns at what tends to be viewed as politicians' simplistic view of forestry as 'hard wood is good and soft wood is bad'. The Government's strategy should be to ensure that, as a minimum, the conifers being used by the industry are being replaced overall by new planting.

There is a risk that, if this approach is followed in Wales, the industry will lose momentum. Broad leaves have different business considerations from conifers. They have a longer rotation between planting and felling. Wales's topography and climate, in all but a few lowland areas, is not suited to the production of high-quality broadleaf timber, and the large numbers of grey squirrels present would damage a significant proportion of what is planted through bark-stripping. That is not just my view; it is the view of the forestry sector. Excessive emphasis on broadleaf planting would also be

ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn peri problemau sylweddol inni, a dyna pam y cyflwynwyd y gwelliant. Mae'r Gweinidog wedi amlinellu cynlluniau i blannu 100,000 ha o goetir dros yr 20 mlynedd nesaf. O safbwynt diwydiant pren Cymru, nid yw'r targed hwn yn ymarferol.

Yr ydym wedi gweld o'r blaen gyda strategaethau sut y gall targedau swnio'n dda ar yr wyneb, ond os na chyrhaeddir y targedau hynny, bydd rhaid eu hailystyried. Bydd hyn yn golygu plannu 5,000 ha y flwyddyn am yr 20 mlynedd nesaf, yn ôl fy nghyfrif i, ac mae hynny'n ymddangos yn darged hynod o uchel. Mae'n annhebyg y bydd y cymhellion y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cynnig yn ddigonol i blannu ar y raddfa honno. Yr wyf yn cael ar ddeall na cheir iawndal am y gostyngiad yng ngwerth cyfalaf y tir a rheolau'r Undeb Ewropeaidd i gyfyngu'r arian y gellir ei ddarparu ar gyfer cost plannu. Daw llawer o'r tir sydd wedi'i ddynodi ar gyfer plannu coed o dan y pennawd 'tir wedi'i wella', ond bydd yn anodd iddo gynnal y statws hwn pan fydd y plannu'n digwydd. Mae llawer o'r tir dan sylw hefyd yn dir comin, felly bydd yn anodd cael cytundeb ynghylch plannu, a bydd yn anodd perswadio ffermwyr i ddefnyddio tir at ddiben heblaw cynhyrchu bwyd yn barhaol. Mae'r sector pren coedwigaeth hefyd yn pryderu am farn gwleidyddion ynglŷn â choedwigaeth, y tueddir i ystyried ei bod yn rhy simplistig, sef 'mae pren caled yn dda a phren meddal yn ddrwg'. Dylai fod yn nod gan strategaeth y Llywodraeth sicrhau, fan leiaf, fod coed newydd yn cael eu plannu'n gyffredinol i gymryd lle'r coed conwydd a ddefnyddir gan y diwydiant.

Ceir perygl, os defnyddir y dull hwn yng Nghymru, y bydd y diwydiant yn colli momentwm. Mae'r ystyriaethau busnes ynglŷn â choed llydanddail yn wahanol i'r ystyriaethau ynglŷn â choed conwydd. Mae ganddynt gyfnod hwy rhwng eu plannu a'u cymynu. Nid yw topograffi a hinsawdd Cymru, ar wahân i rai ardaloedd tir isel, yn addas i gynhyrchu pren llydanddail o safon uchel, a byddai niferoedd uchel y gwiwerod llwyd sy'n bresennol yn niweidio cyfran sylweddol o'r hyn a blennir drwy stripio'r rhisgl. Nid dim ond fy marn i yw hyn; dyna farn y sector coedwigaeth. Byddai gormod o

counterproductive to the shift to support biomass. Is there not an inherent tension between the Welsh Assembly Government's support for biomass and existing large manufacturers? Both use the same low-quality timber. This is why our amendment stresses the importance of making maximum use of waste wood, ensuring that it does not go to landfill, following the best practice in countries such as Germany and Austria, where this waste material is considered an energy resource to be capitalised on. The industry is also concerned—this is my final point, Deputy Presiding Officer—about the move to incorporate Better Woodlands for Wales into Glastir and the Department for Rural Affairs itself. It is understandably concerned that its voice will be lost in such a massive department, and the comparatively small wood industry would be sidelined.

In conclusion, I have no problems at all with the woodlands strategy. I have read through it, I think that there are a lot of good things in there, and I welcome the aspects that we think would be beneficial. However, we believe that the Government has a long way to go to convince the farming and forestry industries that the 100,000 ha target is realistic, given the limited ability to provide the necessary incentives to achieve it. For once, in this matter, I hope that I am wrong; perhaps you can say something that will alleviate my concerns and the concerns of the sector. However, at the moment, those concerns remain.

Brian Gibbons: I do not suppose that Aberavon constituency, as a highly industrial area, comes to mind immediately when we talk about woodland and the forestry action plan, but Neath Port Talbot as a local authority area is the most densely forested area in Wales, with just under 50 per cent of the land area under trees. This is an important issue for us in my constituency. I will look at the strategy from the perspective of the Aberavon constituency. The growing of more trees is probably a good thing, and that is one of the key action points of it, but there are communities, certainly in my constituency, which would strongly feel that the over-

bwyslais ar blannu coed llydanddail hefyd yn wrthgynhyrchiol o ran y newid i gefnogi biomass. Onid oes tensiwn cynhenid rhwng cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fïomas a gweithgynhyrchwyr mawr sy'n bodoli eisoes? Mae'r ddau'n defnyddio'r un pren o safon isel. Dyma pam mae ein gwelliant yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio cymaint ag sy'n bosibl ar bren gwastraff, a sicrhau nad aiff i safleoedd tirlenwi, gan ddilyn arferion gorau gwledydd megis yr Almaen ac Awstria, lle yr ystyrir bod y deunydd gwastraff hwn yn adnodd ynni y dylid manteisio arno. Mae'r diwydiant hefyd yn pryderu—dyma fy mhwynt olaf, Ddirprwy Lywydd—am y symudiad i ymgorffori Coetiroedd Gwell i Gymru yn Glastir a'r Adran Materion Gwledig ei hun. Mae'n pryderu, a hynny'n ddealladwy, y caiff ei lais ei golli mewn adran mor enfawr, ac y câi'r diwydiant pren cymharol fach ei roi o'r neilltu.

I gloi, nid oes gennyf ddim problem o gwbl gyda'r strategaeth coetiroedd. Yr wyf wedi ei darllen, credaf fod llawer o bethau da ynddi, ac yr wyf yn croesawu'r agweddau y teimlaf y byddent o fudd. Fodd bynnag, credwn fod gan y Llywodraeth lawer o waith i'w wneud eto i argyhoeddi'r diwydiant ffermio a'r diwydiant choedwigaeth fod y targed o 100,000 ha yn realistig, o ystyried y gallu cyfyngedig i ddarparu'r cymhellion gofynnol i gyflawni hynny. Am unwaith, yn hyn o beth, gobeithio fy mod yn anghywir; efallai y gallwch ddweud rhywbeth a fydd yn lleddfu fy mhryderon a phryderon y sector. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, erys y pryderon hynny.

Brian Gibbons: Mae'n siŵr gennyf na fyddai rhywun yn meddwl yn syth am etholaeth Aberafan, sy'n ardal ddiwydiannol iawn, wrth siarad am goetiroedd a'r cynllun gweithredu coedwigaeth, ond Castell-nedd Port Talbot yw'r ardal awdurdod lleol sydd â'r ganran fwyaf o goedwigoedd ynddi yng Nghymru; mae bron 50 y cant o arwynebedd y tir o dan goed. Mae hyn yn fater pwysig inni yn fy etholaeth. Edrychaf ar y strategaeth o safbwynt etholaeth Aberafan. Mae'n debyg bod tyfu rhagor o goed yn beth da, a dyna yw un o'r camau gweithredu allweddol ynddi, ond ceir cymunedau, yn sicr yn fy etholaeth, a fyddai'n teimlo'n gryf fod gormod o

development of trees has affected them. They are looking for some prudent cutting back of the trees, particularly as they encroach on communities and, in some areas, in the narrower part of the valley, become overly intrusive on the communities in which the forest exists. While I have no objection in principle to the expansion of forests in Wales, I think that that needs to be evaluated on an area-by-area basis rather than being something that is set in stone and rigidly implemented.

6.00 p.m.

I was really impressed with the element of the action plan that dealt with the role of trees in urban settings. Again, this will not probably attract a great deal of interest, but two or three weeks ago, I was at the Corus steelworks site in my constituency with the First Minister for the formal opening of the energy recycling plant there. I was very impressed with the greening that is going on within the Margam steelworks site, led by Corus and Tata Steel. The important work that has been going on there over the past five to 10 years is obvious. It may be difficult to envision having a steelworks in a garden, which is probably the mission statement with regard to this, and it may be very difficult to deliver, but, nonetheless, it is the right direction of travel.

As the steelworks is greened, and not just in the environmental sense, but literally before your eyes, the growth that is taking place there is reducing the noise of the steelworks and makes it a more pleasant place for people to work. It sends out a strong message about valuing the workforce. Equally, the greening that goes on there allows for better space management. It is a valuable, albeit small, carbon sink. The growth going on there also helps to stop the spread of dust and debris, which otherwise overflows into the community. Therefore, I thought that the part of the action plan that spoke about trees in an urban setting was important.

More widely, the plan has tremendous potential for community regeneration, and

ddatblygu coed wedi effeithio arnynt. Hoffent dorri'r coed yn ôl mewn modd synhwyrol, yn enwedig lle y maent yn rhy agos at gymunedau ac, mewn rhai ardaloedd, yn rhan gulaf y cwm, yn ymyrryd yn ormodol â'r cymunedau lle y mae'r goedwig yn bodoli. Er nad wyf yn gwrthwynebu ehangu coedwigoedd Cymru o ran egwyddor, credaf fod angen gwerthuso hynny fesul ardal yn hytrach na'i fod yn rhywbeth haearnaidd a weithredir yn anhyblyg.

Yr oeddwn yn hoff iawn o'r elfen o'r cynllun gweithredu a oedd yn ymdrin â rôl coed mewn lleoliadau trefol. Eto, mae'n siŵr na fydd hyn yn denu llawer iawn o ddiddordeb, ond bythefnos neu dair wythnos yn ôl, yr oeddwn ar safle gwaith dur Corus yn fy etholaeth gyda'r Prif Weinidog ar gyfer agoriad ffurfiol yr orsaf ailgylchu ynni yno. Gwnaethpwyd cryn argraff arnaf gan y broses o wneud safle gwaith dur Margam yn fwy gwyrdd, o dan arweiniad Corus a Tata Steel. Mae'r gwaith pwysig sydd wedi'i wneud yno dros y pump i 10 mlynedd diwethaf yn amlwg. Efallai ei bod yn anodd dychmygu cael gwaith dur mewn gardd, ac mae'n debyg mai dyna'r datganiad cenhadaeth yn hyn o beth, ac efallai y bydd yn anodd iawn cyflawni hynny, ond, er hynny, dyna'r cyfeiriad cywir i symud iddo.

Wrth i'r gwaith dur gael ei wneud yn fwy gwyrdd, ac nid yn unig yn yr ystyr amgylcheddol, ond yn llythrennol o flaen eich llygaid, bydd y twf sy'n digwydd yno'n lleihau sŵn y gwaith dur ac yn ei wneud yn lle brafiach i bobl weithio ynddo. Mae'n anfon neges gref am werthfawrogi'r gweithlu. Yn yr un modd, mae'r broses o'i wneud yn fwy gwyrdd yn galluogi rheoli gofod yn fwy effeithiol. Mae'n ddalfa garbon werthfawr, er ei bod yn fach. Mae'r twf sy'n digwydd yno hefyd yn helpu i atal llwch a malurion rhag lledaenu; fel arall, bydd hynny'n amharu ar y gymuned. Felly, yr oeddwn yn meddwl bod y rhan o'r cynllun gweithredu sy'n ymwneud â choed mewn lleoliad trefol yn bwysig.

Yn ehangach, mae gan y cynllun potensial aruthrol o ran adfywio cymunedol, ac mae

that is certainly the case in a number of areas in my constituency, particularly in the upper Afan Valley, where the Forestry Commission, Coed Cymru and a wide range of other partners, such as the Glynorrwg Ponds Co-operative, have worked together to develop the forest as a local amenity, particularly through the development of the Glynorrwg mountain bike centre and the Afan Argoed country park. The numbers of visitors to Afan Argoed country park continue to increase year on year, with people visiting the area spending up to £100 at a time. That is important money going into the local community, and I am very pleased to note that, in the visitor survey, 99 per cent of people who visited the Afan Argoed country park would recommend that others visit it.

However, there is a concern among local residents in the upper Afan Valley about windfarm development. They are very concerned that it may undermine the tourist resource that the forestry has given us. Of course, the recent outbreak of forest fires in the area raised further concerns about an overdevelopment of windfarms within this valuable natural resource, which the strategy highlights.

William Graham: The 'Woodlands for Wales Action Plan' is a welcome progression in the Welsh Government's strategy for woodlands. It is encouraging to see the importance placed on carbon sequestration, substitution and improving economic opportunities in rural areas. The 20 outcomes listed in the action plan are so inclusive that it is difficult not to find something with which to agree.

There is universal agreement between political parties that publicly and privately owned woodlands should be managed sustainably, although, as the action plan implies, this is a more complex goal than it first appears. Moves to simplify and improve the grants process are to be welcomed, with many forestry experts bemoaning the previous Assembly Government's replacement of the cheap and efficient woodland grant scheme with the disappointing 'Better Woodlands for Wales'

hynny'n sicr yn wir mewn nifer o ardaloedd yn fy etholaeth, yn enwedig yng Nghwm Afan uchaf, lle y mae'r Comisiwn Coedwigaeth, Coed Cymru ac amrywiaeth eang o bartneriaid eraill, megis Cydweithfa Pyllau Glynorrwg, wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r goedwig fel amwynder lleol, yn enwedig drwy ddatblygu canolfan beiciau mynydd Glynorrwg a pharc gwledig Afan Argoed. Mae niferoedd yr ymwelwyr â pharc gwledig Afan Argoed yn parhau i gynyddu bob blwyddyn, ac mae'r bobl sy'n ymweld â'r ardal yn gwario hyd at £100 y tro. Mae hwnnw'n arian pwysig sy'n mynd i'r gymuned leol, ac yr wyf yn falch iawn o nodi, yn yr arolwg ymwelwyr, y byddai 99 y cant o bobl a ymwelodd â pharc gwledig Afan Argoed yn argymhell bod pobl eraill yn ymweld ag ef.

Fodd bynnag, ceir pryder ymysg trigolion lleol Cwm Afan uchaf am ddatblygu ffermydd gwynt. Maent yn pryderu'n fawr y gall hynny danseilio'r adnodd twristiaeth y mae'r goedwigaeth wedi'i roi inni. Wrth gwrs, codwyd mwy o bryderon gan yr achos diweddar o danau coedwig yn yr ardal am orddatblygu ffermydd gwynt o fewn yr adnodd naturiol gwerthfawr hwn, ac mae'r strategaeth yn tynnu sylw at hynny.

William Graham: Mae'r 'Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru' yn ddatblygiad i'w groesawu yn strategaeth coetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae'n galonogol gweld y pwysigrwydd a roddir i ddal a storio carbon, amnewid a gwella cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r 20 canlyniad a restrir yn y cynllun gweithredu mor gynhwysfawr nes ei bod yn anodd peidio â dod o hyd i rywbeth i gytuno ag ef.

Ceir cytundeb cyffredinol rhwng pleidiau gwleidyddol y dylid rheoli coetiroedd cyhoeddus a phreifat mewn modd cynaliadwy, er bod hyn, fel y mae'r cynllun gweithredu'n awgrymu, yn amcan mwy cymhleth nag y mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf. Dylid croesawu symudiadau i symleiddio a gwella'r broses grantiau, gan fod nifer o arbenigwyr coedwigaeth yn feirniadol o'r ffordd y bu i Lywodraeth ddiwethaf y Cynulliad ddisodli'r cynllun grantiau coetiroedd rhad ac effeithlon â'r

schemes. As the Country Land and Business Association in Wales has observed, it is very sad that many landowners, including Forestry Commission Wales, have, in effect, abandoned the active management of many woodlands owing to prohibitive costs.

Outcome 2 of the action plan notes the need to tackle the threat posed by deer, grey squirrels and invasive plant species. Although the plan lists future and current approaches to each of these threats, Forestry Commission Wales has never acted effectively against these problems. That is particularly the case with regard to grey squirrels, which have pushed red squirrels to the point of extinction. It is important that action is taken because, otherwise, the Welsh Government's aim of growing hardwoods of any quality in Wales will be impossible.

Outcomes 3 and 17 underline that, although reducing reliance on clear-felling and the replacement of conifers with native or self-seeded trees on old woodland sites are fine aspirations, they are extremely challenging goals and Forest Research and the Forestry Commission are right to retain the 'where practicable' caveat rather than allowing these outcomes to become mandatory. It would be a considerable shift to move from clear-felling to continuous cover with selective felling, and a number of forestry experts are sceptical as to whether this can be achieved without considerable levels of investment and manpower, which Forestry Commission Wales simply does not have.

The importance placed upon developing a competitive and integrated forest sector is clearly welcome. The plan to have more locally grown timber used in Wales will assume even greater importance in the future as demand from emerging nations pushes commodity prices even higher. We look forward to the forthcoming production forecasts and guidance with great interest.

cynlluniau siomedig 'Coetiroedd Gwell i Gymru'. Fel y sylwodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yng Nghymru, mae'n drist iawn bod nifer o berchenogion tir, gan gynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn y bôn, wedi rhoi'r gorau i'r gwaith o reoli llawer o goetiroedd am fod y costau'n rhy uchel.

Mae canlyniad 2 y cynllun gweithredu'n nodi bod angen mynd i'r afael â'r bygythiad sy'n codi yn sgîl ceirw, gwiwerod llwyd a rhywogaethau goresgynnol o blanhigion. Er bod y cynllun yn rhestru'r dulliau presennol a dulliau'r dyfodol ar gyfer ymdrin â phob un o'r bygythiadau hyn, nid yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru erioed wedi gweithredu'n effeithiol yn erbyn y problemau hyn. Mae hynny'n arbennig o wir o ran gwiwerod llwyd, sydd bron ag achosi i wiwerod coch ddiflannu'n llwyr. Mae'n bwysig cymryd camau oherwydd, fel arall, bydd nod Llywodraeth Cymru o dyfu pren caled o unrhyw safon yng Nghymru'n amhosibl.

Mae canlyniadau 3 a 17 yn tanlinellu, er bod lleihau'r ddibyniaeth ar dorri a chlirio coed a phlannu coed brodorol neu goed sy'n gwasgaru eu hadau eu hunain i gymryd lle coed conwydd ar hen safleoedd coetir yn ddyheadau clodwiw, eu bod yn amcanion heriol dros ben a'i bod yn iawn bod Forest Research a'r Comisiwn Coedwigaeth yn cadw'r cafeat 'pan fydd yn ymarferol' yn hytrach na chaniatáu i'r canlyniadau hyn fod yn orfodol. Byddai symud o dorri a chlirio coed i orchudd parhaus gyda thorri coed dewisol yn newid sylweddol, ac mae nifer o arbenigwyr coedwigaeth yn amau a ellir cyflawni hyn heb lefelau sylweddol o fuddsoddi a gweithlu, nad ydynt ar gael i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae'r pwysigrwydd a roddir i ddatblygu sector coedwigoedd cystadleuol ac integredig yn amlwg i'w groesawu. Bydd y cynllun i ddefnyddio rhagor o bren wedi'i dyfu'n lleol yng Nghymru yn bwysicach byth yn y dyfodol wrth i'r galw gan wledydd sy'n datblygu wthio prisiau nwyddau'n uwch fyth. Edrychwn ymlaen at y rhagolygon a'r canllawiau cynhyrchu nesaf gyda diddordeb mawr.

There remains a key role for the Assembly Government in marketing the benefits to homebuilders of using Welsh wood, on which the Wales Forest Business Partnership has made considerable initial progress. While the Welsh Conservatives concur fully with the aspiration of increasing the use of timber as a renewable resource, there is still room for improvement in the Welsh Government's record on this issue.

There remains a considerable shortfall in wood available for biomass in Wales. As the Government has admitted, to reach its target, it will have to rely on imported timber. If this situation is allowed to continue for much longer it would seriously damage the credibility of the Welsh Government's commitment to sustainable development. Too many biomass projects are, in reality, a sham, as the operators, mostly local authorities, find them difficult to use and find it difficult to source the woodchip, and turn on the gas instead. Building large biomass plants at ports fuelled with Brazilian woodchip shipped over the Atlantic is of questionable environmental benefit.

The outcome detailed at point 4, that Forestry Commission Wales will support initiatives and mechanisms to increase tree cover and create new woodlands in Wales is as eye-catching as it is ambitious. The 'Woodlands for Wales' indicator makes it clear that no progress has been made on working towards this target. As point 1 of the document shows, the area of woodland cover in Wales has declined. This downward trend is likely to increase unless farmers are sufficiently incentivised to plant on their land. With just 100 ha of broadleaved trees newly planted in 2009, compared to over 3,600 ha planted in 1971—albeit of conifers—planting will have to be increased dramatically to meet Government targets. The forthcoming introduction of Glastir will not stimulate tree planting on the scale needed, although it is a welcome development.

With 62 per cent of forests in Wales in

Bydd gan Lywodraeth y Cynulliad rôl allweddol o hyd o ran marchnata manteision defnyddio pren o Gymru i adeiladwyr tai, ac mae hynny'n faes lle y mae Partneriaeth Busnesau Coedwigoedd Cymru wedi gwneud llawer o gynnydd cychwynnol. Er bod y Ceidwadwyr Cymreig yn cytuno'n llwyr â'r dyhead o ddefnyddio mwy o bren fel adnodd adnewyddadwy, ceir lle i wella o hyd yn record Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Erys prinder sylweddol mewn coed sydd ar gael ar gyfer biomas yng Nghymru. Fel y mae'r Llywodraeth wedi cyfaddef, er mwyn cyrraedd ei tharged, bydd rhaid iddi ddibyynu ar fewnforio pren. Os caniateir i'r sefyllfa hon barhau am lawer hwy, byddai'n gwneud niwed difrifol i hygredd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy. Ffug yw llawer iawn o brosiectau biomas, mewn gwirionedd, gan fod y gweithredwyr, sef awdurdodau lleol gan mwyaf, yn eu cael yn anodd eu defnyddio ac yn ei chael yn anodd cael gafael ar y naddion pren, ac yn cynnau'r nwy yn lle hynny. Nid wyf yn siŵr ynghylch budd amgylcheddol adeiladu gorsafoedd biomas mawr mewn porthladdoedd gan ddefnyddio naddion pren a gludwyd dros yr Iwerydd o Frasil fel tanwydd.

Mae'r canlyniad a nodir ym mhwynt 4, sef y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cefnogi mentrau a mecanweithiau i gynyddu gorchudd coed a chreu coetiroedd newydd yng Nghymru yn drawiadol yn ogystal ag uchelgeisiol. Mae'r dangosydd 'Coetiroedd i Gymru' yn ei gwneud yn glir nad oes dim cynnydd wedi'i wneud o ran gweithio tuag at y targed hwn. Fel y dangosir ym mhwynt 1 y ddogfen, mae arwynebedd y gorchudd coetir yng Nghymru wedi lleihau. Mae'n debyg y bydd y duedd hon ar i lawr yn parhau oni bai fod ffermwyr yn cael digon o gymhelliant i blannu ar eu tir. Gan mai dim ond 100 ha o goed llydanddail a blannwyd o'r newydd yn 2009, o'i gymharu â thros 3,600 ha a blannwyd yn 1971—er mai coed conwydd oedd y rheini—bydd angen plannu llawer mwy i gyrraedd targedau'r Llywodraeth. Ni fydd cyflwyno Glastir cyn bo hir yn ysgogi plannu coed ar y raddfa angenrheidiol, er ei fod yn ddatblygiad sydd i'w groesawu.

Gan fod 62 y cant o goedwigoedd Cymru

private hands, the challenge remains for the Welsh Government to encourage more planting on private land. We need to provide more compelling answers to the question as to why a farmer or rural organisation should plant, for example, ash or poplars for biomass rather than a conventional crop, because it does not make any commercial sense to do so at present.

No-one questions the growing importance of the forestry sector in Wales; it currently contributes an estimated £429 million to the national economy and directly employs around 9,000 people. However, these figures have the potential to grow considerably although the real benefits of good forestry, such as its contribution to the fight against climate change, are difficult to translate into statistics.

This action plan thoroughly sets out the route ahead for relevant parties, but raises a number of questions that need addressing, not least as to whether it is appropriate that the Forestry Commission is both the market leader and national regulator of commercial forests, whether we should look at rationalising the role of the Forestry Commission given the considerable demands that are being placed upon it by Government, and how private owners and organisations can be better engaged in the effort to achieve the ambitious targets that the action plan specifies.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf yn croesawu'r cynllun gweithredu hwn yn fawr. Mae'r strategaeth yn symud y ffocws oddi wrth goetiroedd fel manau ar gyfer defnydd masnachol yn unig i gynnwys ystod llawer ehangach o weithgareddau, ac mae hynny'n eithriadol o bwysig. Yr ydych wedi cyfeirio, Weinidog, at y defnydd addysgiadol y gellid ei wneud o'n coetiroedd, a'r defnydd o ran iechyd, yn sicr o ran ymarfer corff. Hefyd, mae opsiynau mawr o ran twristiaeth. Gellir gwneud defnydd llawer helaethach o'n coetiroedd.

Mae'n gynllun gweithredol hynod o uchelgeisiol, ond ni ddylid beirniadu'r Gweinidog am fod yn uchelgeisiol gan fod

mewn dwylo preifat, mae'r her yn parhau i Lywodraeth Cymru annog rhagor o blannu ar dir preifat. Mae angen inni roi atebion mwy atyniadol i'r cwestiwn pam y dylai ffermwr neu sefydliad gwledig blannu, ynn neu boplys, er enghraifft, ar gyfer biomas yn hytrach na chnwd confensiynol, oherwydd nid yw hynny'n gwneud dim synnwyr masnachol ar hyn o bryd.

Nid oes neb yn cwestiynu pwysigrwydd cynyddol y sector coedwigaeth yng Nghymru; ar hyn o bryd, mae'n cyfrannu amcangyfrif o £429 miliwn i'r economi genedlaethol ac yn cyflogi tua 9,000 o bobl yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r potensial gan y ffigurau hyn i dyfu'n sylweddol er ei bod yn anodd mynegi gwir fanteision coedwigaeth dda, megis ei chyfraniad at y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, ar ffurf ystadegau.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn amlinellu'n glir y ffordd ymlaen i'r rhai perthnasol, ond mae'n codi nifer o gwestiynau y mae angen rhoi sylw iddynt, yn enwedig o ran a yw'n briodol mai'r Comisiwn Coedwigaeth yw'r arweinydd yn y farchnad a'r corff rheoleiddio cenedlaethol i goedwigoedd masnachol, a ddylem edrych ar resymoli rôl y Comisiwn Coedwigaeth o ystyried y gofynion sylweddol y mae'r Llywodraeth yn eu rhoi iddo, a sut y gellir ymgysylltu'n well â sefydliadau a pherchenogion preifat yn yr ymdrech i gyflawni'r targedau uchelgeisiol a bennir yn y cynllun gweithredu.

Rhodri Glyn Thomas: I very much welcome this action plan. The strategy moves the focus from the woodlands as places for commercial use only to include a much wider range of activities, which is extremely important. You have referred, Minister, to the educational use that could be made of our woodlands, and the use in terms of health, certainly in terms of exercise. Also, there are major options in terms of tourism. Much greater use can be made of our woodlands.

It is a very ambitious operational plan, but the Minister should not be criticised for being ambitious because there is potential here and

potensial yma a chyfle gwych i ddatblygu'r strategaeth hon ac i sicrhau bod llawer o gymunedau yn elwa arni.

a great opportunity to develop this strategy and to ensure that many communities will benefit from it.

6.10 p.m.

Fe'ch cyfeiriaf, Weinidog, at gynllun cymunedol yn fy etholaeth yng nghoedwig Brechfa, sef cynllun Pobl y Fforest, sydd wedi gwneud gwaith mawr dros flynyddoedd lawer drwy gysylltu'r gymuned leol â'r goedwig, gan weld y cyfle i gael partneriaeth rhwng y gymuned leol, y fenter gymunedol a'r Comisiwn Coedwigaeth. Nid yw fy etholwyr wedi cael y Comisiwn Coedwigaeth yn gorff hawdd i gydweithredu ag ef. Gan nodi'r potensial am ddatblygu'r math hwn o weithgaredd, gofynnaf ichi edrych ar y ffordd y mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu, a gweld a oes modd sicrhau ei fod yn dod yn gorff sy'n gallu cydweithio'n llawer agosach â chymunedau lleol.

I refer you, Minister, to a community scheme in my constituency in the Brechfa forest, namely Pobl y Fforest, that, over many years, has done great work by linking the local community with the forest, having seen the opportunity to form a partnership between the local community, the community initiative and the Forestry Commission. My constituents have not found the Forestry Commission to be an easy body to collaborate with. While noting the potential for developing this type of activity, I ask you to look at the way Forestry Commission Wales acts, and see if there is a way of ensuring that it becomes a body that can co-operate much more closely with local communities.

Ategaf y pryder a godwyd gan Brian Gibbons; mynegwyd yr un pryder gan bobl sy'n byw wrth ymyl coedwig Brechfa am y cynlluniau am ffermydd gwynt yno. Mae cwestiwn wedi codi ynghylch y graddau y bydd hynny'n effeithio ar rai cynlluniau twristiaeth sydd wedi'u sefydlu yno, gan gynnwys cynlluniau beicio mynydd ac yn y blaen, sydd wedi cael nawdd a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. I ba raddau y bydd problemau yn codi? A oes tensiwn rhwng y ddau beth? Byddwn yn falch pe baech yn gallu ateb y cwestiwn hwnnw, Weinidog.

I echo the concern raised by Brian Gibbons; the same concern has been expressed by people living near Brechfa forest about plans for windfarms there. A question has arisen as to how that will affect some tourism plans that have been established there, including plans for mountain biking and so on, which have received funding and support from the Welsh Government. To what extent will problems arise? Is there tension between the two things? I would be glad if you could answer that question, Minister.

Yr wyf am bwysleisio'r elfen greadigol sy'n perthyn i'r cynllun gweithredol yn ogystal â'r gobaith sydd ynddo. Mae eraill y prynhawn yma wedi cyfeirio at gynlluniau ar gyfer lleihau carbon a chynyddu'r cyfleoedd o ran bioamrywiaeth drwy'r fforestydd hyn. Mae hynny'n eithriadol o bwysig. Yr ydym yn symud o weld coedwigoedd fel manau i dyfu a gwerthu coed yn unig i'w gweld fel safleoedd amlbwrpas sydd nid yn unig yn gallu creu incwm, ond sydd hefyd yn gallu cynnig ystod o gyfleoedd i gymunedau ledled Cymru. Fe'ch cymeradwyaf yn fawr am ddod â'r strategaeth ger ein bron, ac yr wyf yn falch o'i chefnogi.

I want to emphasise the creative element of the operational plan as well as the hope that it contains. Others this afternoon have referred to plans to reduce carbon and to increase opportunities for biodiversity through these forests. That is extremely important. We are moving from seeing forests as places to grow and sell trees only to seeing them as multipurpose sites that are not only able to create income, but are also able to offer a range of opportunities for communities across Wales. I commend you very much for bringing the strategy before us, and I am proud to support it.

Michael German: I suppose, Minister, that a

Michael German: Yr wyf yn tybio,

great advantage of being responsible for woodland is that it takes a great deal of time to make the changes happen: 20 to 25 years is not an unreasonable timescale, which far exceeds the lifespan of a Minister. However, you have to set a direction. It is a lot worse than trying to turn the Titanic or an ocean-going tanker around. You cannot move quickly in this sector, so you have to set broad targets well in advance and get universal approval for them. Otherwise, distortions occur over time.

In 2002, I discovered that no Christmas trees were being produced in Wales by the Forestry Commission, and that all the Christmas trees advertised as being locally grown were being imported from Ireland and elsewhere. The plan to plant those has borne fruit, and Welsh Christmas trees are now available in Wales. That gives you a sense of the timescale that you have to work to.

The second dynamic that the Minister has to recognise—I know that the document covers these aspects—is not the tension, but the relationship, between timber as a cash crop and timber in the form of trees being used for the variety of purposes that have just been espoused by you, Minister, and by Rhodri Glyn, in respect of health, education, welfare and leisure, and also climate change mitigation. We ought to bear in mind that the Welsh forests, as they now stand, sequester, or hold, carbon dioxide that amounts to 40 times the emissions of Welsh businesses and Welsh industry at the present time. Clearly, we need to protect that, because we do not wish to produce more carbon dioxide, but, equally, we need to extend that. To those who say that we need to fell crops, felling trees is fine, provided that you replace them with more. That is why I applaud the Minister's ambition in this matter, although unfortunately, certainly in native woodland planting in Wales, you have not been able to keep up with the demand that has been placed on you in terms of meeting the targets to double native woodland planting in Wales.

The amount of money that has gone to

Weinidog, mai un o fanteision mawr bod yn gyfrifol am goetir yw ei bod yn cymryd llawer iawn o amser i beri i'r newidiadau ddigwydd: nid yw rhwng 20 a 25 mlynedd yn amserlen afresymol, ac mae hynny'n hwy o lawer nag oes Gweinidog. Fodd bynnag, rhaid ichi bennu cyfeiriad. Mae'n llawer gwaeth na cheisio troi'r Titanic neu danc ar y cefnfor. Ni allwch symud yn gyflym yn y sector hwn, felly rhaid ichi bennu targedau bras ymhell ymlaen llaw a chael cymeradwyaeth gyffredinol iddynt. Fel arall, byddant yn ystumio dros amser.

Yn 2002, darganfûm nad oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn cynhyrchu dim coed Nadolig yng Nghymru, a bod yr holl goed Nadolig a oedd yn cael eu hysbysebu fel rhai wedi'u tyfu'n lleol yn cael eu mewnforio o Iwerddon ac o fannau eraill. Mae'r cynllun i blannu'r rheini wedi dwyn ffrwyth, a bellach mae coed Nadolig o Gymru ar gael yng Nghymru. Mae hynny'n rhoi syniad ichi o'r math o amserlen y mae'n rhaid ichi ei defnyddio.

Yr ail ddynnameg y mae'n rhaid i'r Gweinidog ei chydabod—gwn fod y ddogfen yn ymdrin â'r agweddau hyn—yw, nid y tensiwn, ond y berthynas rhwng pren fel cnwd gwerthu a phren ar ffurf coed sy'n cael eu defnyddio at yr amrywiaeth o ddibenion a nodwyd gennych chi, Weinidog, a chan Rhodri Glyn, yng nghyswllt iechyd, addysg, lles a hamdden, a hefyd lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Dylem gofio bod coedwigoedd Cymru, fel y maent ar hyn o bryd, yn dal a storio carbon deuocsid sy'n 40 gwaith cymaint ag allyriadau busnesau Cymru a diwydiant Cymru ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae angen inni amddiffyn hynny, gan nad ydym yn dymuno cynhyrchu rhagor o garbon deuocsid, ond, yn yr un modd, mae angen inni ymestyn hynny. I bobl sy'n dweud bod angen inni dorri cnydau, mae torri coed yn iawn, cyn belled â'ch bod yn plannu mwy yn eu lle. Dyna pam yr wyf yn cymeradwyo uchelgais y Gweinidog yn hyn o beth, er nad ydych, yn anffodus, yn sicr o ran plannu coetiroedd brodorol yng Nghymru, wedi gallu ymdopi â'r galw yr ydych wedi'i wynebu o ran cyrraedd y targedau i ddyblu plannu coetiroedd brodorol yng Nghymru.

Mae'r arian sydd wedi'i at drosi i goetir

convert to broadleaf woodland is much smaller than that which has gone towards conifer woodland. The figures are around £813,000 compared with £4.3 million, just to give you an example of how long it takes to achieve that change. However, for the second reason, and not the first one that Nick Ramsay outlined, I support the Welsh Conservatives' amendment. It is perfectly clear that there are unintended consequences to some of our ambitions, one of which is to increase the amount of biomass used. We have talked about the amount of biomass timber that will be needed, but the problem is that if we create more timber for biomass and we do not have a sufficient supply of native grown timber—and bear in mind the analogy of having to turn the Titanic around—we will not have sufficient timber to satisfy those industries, particularly in north-east Wales, which demand huge amounts of timber from us in order to be able to maintain wood panelling and so forth. Therefore, it is important to manage waste timber appropriately.

I will not ask the question of too many people here, but I would not be surprised to learn that in the last four or five years, many people here have had adaptation work done on their kitchens. I notice that some Members are nodding. Given that around 80 per cent of what went out through the door, when you had your kitchen redone, was timber, you must ask yourselves whether that timber could have been reused or whether its plastic coating rendered it unfit for recycling. These questions are important for us because if we do not match that target, we will not have sufficient timber to meet the needs of biomass and our timber industry.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Michael German: I applaud the Minister's intentions here, but there are some severe problems in terms of being able to match her intentions with the record of planting that she now has.

Darren Millar: I appreciate the opportunity to make a short contribution to this debate. Much of what I wanted to say has already

llydanddail yn llawer llai na'r swm sydd wedi'i roi at goetir conwydd. Mae'r ffigurau tua £813,000 o'i gymharu â £4.3 miliwn, a rhoi enghraifft ichi o faint o amser y mae'n ei gymryd i gyflawni'r newid hwnnw. Fodd bynnag, am yr ail reswm, ac nid am y rheswm cyntaf a amlinellwyd gan Nick Ramsay, yr wyf yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'n berffaith glir y bydd rhai o'n huchelgeisiau'n rhoi canlyniadau anfwriadol, ac un o'r rheini yw cynyddu faint o fiomas a ddefnyddir. Yr ydym wedi sôn am faint o bren biomas y bydd ei angen, ond y broblem yw, os byddwn yn creu mwy o bren ar gyfer biomas heb fod â chyflenwad digonol o bren wedi'i dyfu'n frodorol—a chofiwch y gymhariaeth â gorfod troi'r Titanic—ni fydd gennym ddigon o bren i fodloni'r diwydiannau hynny, yn enwedig yn y gogledd-ddwyrain, sy'n gofyn am symiau enfawr o bren gennym er mwyn gallu cynnal paneli pren ac yn y blaen. Felly, mae'n bwysig rheoli pren gwastraff mewn modd priodol.

Ni ofynnaf y cwestiwn i ormod o bobl yma, ond ni fyddwn yn synnu o gael gwybod bod gwaith addasu wedi'i wneud yng ngheginau llawer o bobl yma yn y pedair neu bum mlynedd diwethaf. Sylwaf fod rhai Aelodau'n amneidio. O ystyried mai pren oedd tua 80 y cant o'r hyn a aeth allan drwy'r drws, pan gyflawnwyd y gwaith ar eich cegin, rhaid ichi ofyn i chi eich hun a ellid bod wedi aildefnyddio'r pren hwnnw ynteu a oedd ganddo orchudd plastig a oedd yn golygu na ellid ei ailgylchu. Mae'r cwestiynau hyn yn bwysig inni oherwydd os na chyrhaeddwn y targed hwnnw, ni fydd gennym ddigon o bren i ddiwallu anghenion biomas a'n diwydiant pren.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allech ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Michael German: Yr wyf yn cymeradwyo bwriadau'r Gweinidog yn hyn o beth, ond ceir rhai problemau difrifol o ran gallu cyflawni ei bwriadau gyda'r record o blannu sydd ganddi'n awr.

Darren Millar: Yr wyf yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu'n gryno at y ddadl hon. Mae llawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud

been said. However, I want to pick up on one issue that I have with the strategy, namely the failure to emphasise the importance of recreational opportunities in our forests in Wales. The Minister will be aware, from her visits to my constituency, of the important recreational facilities in the Llandegla forest and in and around the Clocaenog forest in Clwyd West. They are incredibly important for the north Wales economy. Some of the best mountain biking, walking and pony trekking can be done in those areas, along with all sorts of other activities. I agree with Brian Gibbons's sentiments about the possible threat to those activities that wind farms might pose.

Could you confirm today that the fact that the Welsh Assembly Government expects to receive £10 million per annum in receipts from wind farms operating on Welsh Assembly Government forested land from 2012-13 onwards will have no influence on your decisions as a Minister to allow wind farms to operate in forested areas? Furthermore, will you comment on the fact that there is precious little information about the impact of wind farms on biodiversity in forests? You will be aware that the largest population of red squirrels in Wales inhabit the Clocaenog forest in my constituency. There is little evidence so far of wind farms not impacting on that population, particularly when significant parts of the forest will be clear-felled. Therefore, I ask you to take on board those comments. There is much to commend in this document and I do not want to detract from that; I agree with much of its content. However, these particular issues about recreational opportunities and the impact of windfarms on biodiversity and the leisure opportunities in our forests are important messages for you to bear in mind.

6.20 p.m.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Diolchaf i bawb am gymryd rhan ac am y sylwadau a oedd, gan fwyaf, yn bositif am gyfraniad ein coed a'n coetiroedd at yr

eisoes wedi'i ddweud. Fodd bynnag, hoffwn sôn am un broblem sydd gennyf o ran y strategaeth, sef nad yw'n pwysleisio pwysigrwydd cyfleoedd hamdden yn ein coedwigoedd yng Nghymru. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol, yn sgîl ei hymweliadau â'm hetholaeth, o'r cyfleusterau hamdden pwysig yng nghoedwig Llandegla ac yng nghoedwig Clocaenog ac yn ei chyffiniau yng Ngorllewin Clwyd. Maent yn bwysig dros ben i economi'r gogledd. Mae rhai o'r cyfleoedd gorau i feicio mynydd, cerdded a threcio ar ferlod i'w cael yn yr ardaloedd hynny, ynghyd â phob math o weithgareddau eraill. Cytunaf â theimpladau Brian Gibbons am y bygythiad posibl gan ffermydd gwynt i'r gweithgareddau hynny.

A allech gadarnhau heddiw na fydd y ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl cael £10 miliwn y flwyddyn mewn derbyniadau gan ffermydd gwynt sy'n gweithredu ar dir coediog Llywodraeth Cynulliad Cymru o 2012-13 ymlaen yn dylanwadu o gwbl ar eich penderfyniadau fel Gweinidog i ganiatáu i ffermydd gwynt weithredu mewn ardaloedd coediog? Hefyd, a gyflwynwch sylwadau am y ffaith mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am effaith ffermydd gwynt ar fioamrywiaeth mewn coedwigoedd? Byddwch yn ymwybodol bod y boblogaeth fwyaf o wiwerod coch yng Nghymru'n trigo yng nghoedwig Clocaenog yn fy etholaeth. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd hyd yma na fydd ffermydd gwynt yn effeithio ar y boblogaeth honno, yn enwedig pan gaiff rhannau sylweddol o'r goedwig eu torri a'u clirio. Felly, gofynnaf ichi ystyried y sylwadau hyn. Mae llawer i'w ganmol yn y ddogfen hon ac nid wyf am fychanu dim ar hynny; cytunaf â llawer o'i chynnwys. Fodd bynnag, mae'r materion penodol hyn sy'n ymwneud â chyfleoedd hamdden ac effaith ffermydd gwynt ar fioamrywiaeth ac ar y cyfleoedd hamdden yn ein coedwigoedd yn negeseuon pwysig ichi eu cofio.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I thank everyone for participating and for the comments that were, by and large, positive about the contribution of our trees

aml uchelgeisiau sydd gennym fel cymdeithas.

Yr wyf am gadarnhau ar y cychwyn fod lle i amrywiaeth o goed yn ein coetiroedd ac yn ein cynlluniau ar gyfer plannu newydd i'r dyfodol. Mae lle i bren caled a phren meddal ac mae defnydd a rôl wahanol iddynt, ond yr ydym am fod yn fwy darbodus ynglŷn â pha goed sy'n briodol ar ba diroedd.

O ran y 100,000 ha o goetir newydd, yr ydym am gyflwyno cynllun i ffermwyr yn bennaf a thirfeddianwyr o fewn Glastir blannu coed a'u rheoli. Bydd cefnogaeth grant i ffermwyr a thirfeddianwyr wneud hynny.

Andrew R.T. Davies: You have touched on Glastir; could you assure Members that the administrative burden of applying under Glastir, especially the woodlands element, would be lower than it is under Better Woodlands for Wales at the moment? Many farmers find the level of inspection and planning trying and they end up not putting land forward. Therefore, could you give an assurance that you will look at the bureaucracy regarding the ability to make applications, which would release more ground to become woodland?

Elin Jones: Yr wyf yn ymwybodol ei bod yn anodd i nifer o ffermwyr gael mynediad i Goetiroedd Gwell i Gymru, felly yr wyf yn awyddus i'r cynllun o dan Glastir fod yn ymarferol bosibl ac yn haws o ran biwrocratiaeth i ffermwyr.

Mae'n wir dweud bod 100,000 ha yn uchelgeisiol ac, efallai, nad yw'n gwbl gyraeddadwy o fewn yr 20 mlynedd nesaf oherwydd bod taro'r targed yn dibynnu ar nifer y ffermwyr a thirfeddianwyr fydd eisiau plannu coed ar eu tir. Cynllun gwirfoddol fydd hwn i ffermwyr. Ni fydd yn orfodol; nid ydym yn mynd yn ôl i'r 1950au, pan aeth y wladwriaeth â thir oddi wrth dirfeddianwyr i blannu coed. Felly, cynllun gwirfoddol fydd y plannu coed mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr.

Mae rhai wedi cyfeirio at anifeiliaid gwyllt sy'n bla i dyfiant coed newydd, megis y wiwer lwyd a cheirw. Mae'r Comisiwn

and woodlands to the many ambitions that we have as a society.

I want to confirm at the outset that there is scope for a variety of trees in our woods and our plans for new planting in the future. There is a place for hardwood and softwood and different roles and uses for them, but we want to be more careful about which trees are appropriate for which land.

With regard to the 100,000 ha of new woodland, we plan to introduce a scheme for farmers, in the main, and landowners in Glastir to plant trees and manage them. Grant support will be available to farmers and landowners for that.

Andrew R.T. Davies: Yr ydych wedi crybwyll Glastir; a allech roi sicrwydd i Aelodau y byddai baich gweinyddol gwneud cais dan Glastir, yn enwedig yr elfen coetiroedd, yn is nag y mae o dan Coetiroedd Gwell i Gymru ar hyn o bryd? Mae nifer o ffermwyr o'r farn bod y gwaith archwilio a chynllunio'n feichus, ac o'r herwydd, nid ydynt yn cynnig tir. Felly, a allech roi sicrwydd y byddwch yn edrych ar y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r gallu i wneud ceisiadau, gan y byddai hynny'n rhyddhau rhagor o dir i ddod yn goetir?

Elin Jones: I am aware that it is difficult for many farmers to access Better Woodlands for Wales, so I am keen for the scheme under Glastir to be feasible and easier in terms of bureaucracy for farmers.

It is true to say that 100,000 ha is an ambitious target and one that is perhaps not entirely achievable within the next 20 years given that reaching that target depends on the number of farmers and landowners who will want to plant trees on their land. This will be a voluntary scheme for farmers. It will not be compulsory; we shall not return to the 1950s, when the state seized land from landowners to plant trees on it. Therefore, the trees will be planted under a voluntary scheme in co-operation with landowners.

Some have referred to the wild animals that are pests with regard to growing new trees, such as grey squirrels and deer. The Forestry

Coedwigaeth yn cyflawni rhaglen i reoli poblogaethau'r anifeiliaid hyn ac yn chwarae rôl yn y broses o hyrwyddo adfer y wiwer goch mewn ambell goedwig yng Nghymru.

Commission is introducing a programme to manage the populations of these animals and it is playing a role in the process of promoting the recovery of red squirrels in some forests in Wales.

Mae angen i'r goedwig fod yn briodol i'r gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Bu i Brian Gibbons wneud sawl cyfeiriad at hyn yng nghyd-destun cymuned fwy trefol a'i pherthynas â'r goedwig o'i chwmpas neu, ambell waith, y tensiwn rhwng gymdeithas a'r goedwig o'i chwmpas os nad yw hi wedi'i dylunio yn briodol ar y cychwyn.

Forests need to be appropriate to the society they are part of. Brian Gibbons made several references to this point in the context of more urban communities and their relationship to nearby forests or, sometimes, the tension between society and the surrounding forest if it has not been planned properly at the outset.

Nododd Rhodri Glyn Thomas fod grwpiau yn ei etholaeth—ac mae rhai yn fy etholaeth i hefyd—sydd am chwarae mwy o ran yn rheolaeth y goedwig sydd o'u cwmpas, sef tir Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwybodol bod hyn yn gynyddol bwysig i'r Llywodraeth ac Aelodau etholedig ar draws y pleidiau, a bod eisiau cyflwyno strwythurau hyblyg ac addas i ganiatáu i grwpiau cymunedol gydweithio â sefydliad megis y Comisiwn Coedwigaeth. Fodd bynnag, mae hwn yn faes cymharol newydd ac mae angen datblygu hwn ymhellach.

Rhodri Glyn noted that there are groups in his constituency—and there are some in my constituency—that wish to play a greater role in managing the forest around them, namely Assembly Government land. The Forestry Commission is aware that this is increasingly important for the Government and elected Members in all parties and that flexible and appropriate structures need to be introduced to allow community groups to collaborate with organisations such as the Forestry Commission. However, this is a relatively new area and it needs to develop this further.

Mae nifer o hectarau o dir Llywodraeth Cymru o fewn nodyn cyngor technegol 8, ac mae'n iawn i'r pwr cyhoeddus elwa ar rent a derbyn rhent digonol oddi wrth y datblygwyr preifat fydd yn datblygu ffermydd gwynt ar y tir hwn. Fodd bynnag, nid yw hynny yn cysylltu o gwbl â'r broses gynllunio a fydd yn penderfynu, yn annibynnol ar hynny i gyd, a fydd y tir a'r ceisiadau yn cael eu cymeradwyo neu beidio.

A number of hectares of Welsh Government land come under TAN 8, and it is right for the public purse to benefit from rent and charge a suitable rent from the private developers that will develop wind farms on this land. However, that has no connection at all to the planning process that will determine, completely independently, whether the land and the applications are approved or not.

Safleoedd amlbwrpas ac amldefnydd yw ein coetiroedd i'r dyfodol, ac nid safleoedd unffurf y gorffennol.

Our woodlands are the versatile and multipurpose sites for the future, and not the uniform sites of the past.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is an objection. Therefore, I defer all voting until voting time. It is now past the time allocated by the Business Committee for voting, so I propose to move straight to the vote. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, yr wyf yn gohirio'r holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Mae bellach wedi mynd heibio i'r amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes i bleidleisio, felly cynigiau ein bod yn mynd yn syth at y bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4481: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 31.
Amendment 1 to NDM4481: For 14, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM4481: O blaid 36, Ymatal 9, Yn erbyn 0.
Motion NDM4481: For 36, Abstain 9, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Bourne, Nick
Burns, Angela
Cairns, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close. **Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 p.m.
The meeting ended at 6.25 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Cymru Annibynnol– Independent Welsh Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)